# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 21/04/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Tanau Glaswellt
Urgent Question: Grass Fires

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Y Diweddaraf am Weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
3. Statement: Update on Implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

4. Datganiad: Strategaeth 'Digidol yn Gyntaf'
4. Statement: The 'Digital First' Strategy

5. Datganiad: Mannau Glanach, Mwy Diogel ar gyfer ein Cymunedau
5. Statement: Cleaner, Safer Places for our Communities

6. Datganiad: Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru
6. Statement: Community Asset Transfers in Wales

7., 8. & 9. Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru), Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) a Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru)
7., 8. & 9. The Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order, the Homelessness (Intentionality) (Specified Categories) (Wales) Regulations and the Homelessness (Review Procedures) (Wales) Regulations

10. Dadl ar Wasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru
10. Debate on the Emergency Medical Retrieval and Transfer Service of Wales

11. Cyfnod Pleidleisio
11. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I call the first question, I'm sure that all Members will wish to join me in conveying our deepest sympathies to our colleague, Mick Antoniw, on the sudden loss of his wife, Elaine. Our thoughts are with Mick and his family at this very sad time. Thank you.

Cyn i mi alw'r cwestiwn cyntaf, rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn dymuno ymuno â mi i gyfleu ein cydymdeimlad llwyraf â'n cyd-Aelod, Mick Antoniw, a gollodd ei wraig, Elaine, yn sydyn. Mae ein meddyliau gyda Mick a'i deulu ar yr adeg drist iawn hon. Diolch yn fawr.

13:31 Senedd.tv Fideo Video

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to questions to the First Minister, and the first question this afternoon is from Alun Ffred Jones.

Symudwn at gwestiynau i'r Prif Weinidog nawr, a daw'r cwestiwn cyntaf y prynhawn yma gan Alun Ffred Jones.

#### Y Gostyngiad yng Nghyllideb 2015-16

#### The Reduction in the 2015-16 Budget

13:31 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau'r gostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2218(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the implications of the reduction in the Welsh Government's budget for 2015-16 on public services in Wales? OAQ(4)2218(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gwnaf. O ganlyniad i'r toriadau i'n cyllideb, mae gennym ni bellach £1.4 biliwn yn llai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru nag yn 2010-11.

I will. As a result of the cuts to our budget, we now have £1.4 billion less to spend on public services in Wales this year than we did in 2010-11.

13:31 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Y cwestiwn oedd ynglŷn â goblygiadau hynny, wrth gwrs. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yr IFS, yn amcangyfrif, o dan gynlluniau eich arweinydd, Ed Miliband, pe bai yn dod i Lywodraeth, y bydd gostyngiad pellach yn yr arian refeniw a fydd ar gael i Gymru o dros 2 y cant. Pe digwydd hynny, ydych chi'n rhagweld y bydd cyllideb llywodraeth leol yn crebachu ymhellach, neu pa feysydd eraill ydych chi'n credu y bydd yn gorfod wynebu cwtogiadau?

Many thanks. The question was about the implications of that, of course. The Institute for Fiscal Studies estimates that, under the plans of your leader, Ed Miliband, were he to get into Government, there would be a further reduction in the revenue available to Wales of over 2 per cent. If that were to happen, do you envisage the budget of local government shrinking further, or what other areas do you think will have to face cuts?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae wastad heriau ynglŷn ag unrhyw doriadau. Bydd yna her fawr os gwelwn ni doriadau o 20 y cant, a dyna, wrth gwrs, yw cynlluniau y Blaid Dorïaidd yng Nghymru.

There are always challenges in relation to any cuts. There will be a big challenge if we see cuts of 20 per cent, and that is, of course, what the Tories have planned for Wales.

13:32 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we know that we have to plan, should the Tory Government stay in power, which I don't think is going to happen, and certainly, I will do all I can to make sure that the public are aware of the disastrous cuts that we have suffered in terms of the Welsh block grant. So, whilst I'm confident that, when Labour do get in, we will reprioritise public spending to suit the needs of the constituents, and not leave them without vital services, what assessment have you made of the position for the next couple of years for public services in constituencies like mine, which heavily rely on the public sector, for their jobs, but also on public sector services as well?

Brif Weinidog, gwyddom fod yn rhaid i ni gynllunio, pe byddai'r Llywodraeth Dorïaidd yn aros mewn grym, ac nid wyf yn meddwl bod hynny'n mynd i ddigwydd, ac yn sicr, byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r toriadau trychinebus yr ydym ni wedi eu dioddef o ran grant bloc Cymru. Felly, er fy mod i'n hyderus, pan fydd Llafur yn mynd i mewn, y byddwn yn ail-flaenoriaethu gwariant cyhoeddus i ddiwallu anghenion yr etholwyr, ac nid eu gadael nhw heb wasanaethau hanfodol, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r sefyllfa ar gyfer y ddwy flynedd nesaf i wasanaethau cyhoeddus mewn etholaethau fel fy un i, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar y sector cyhoeddus, am eu swyddi, ond ar wasanaethau sector cyhoeddus hefyd?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There will be a cut of 20 per cent in Welsh Government budgets between 2015 and 2020, and we can all see what that would lead to. We know from the party opposite that they would cut job-creation schemes by 30 per cent, their education spending by 20 per cent; they would cut local government spending by 12 per cent and cut housing spending by 12 per cent. I think we all know, and the people of Wales know, it would be an unmitigated disaster in recent history if the Tories were returned on 7 May.

Bydd toriad o 20 y cant i gyllidebau Llywodraeth Cymru rhwng 2015 a 2020, a gall pob un ohonom ni weld beth fyddai hynny'n arwain ato. Rydym yn gwybod y byddai'r blaid gyferbyn yn torri 30 y cant ar gynlluniau creu swyddi, 20 y cant ar eu gwariant ar addysg; byddent yn torri 12 y cant ar wariant llywodraeth leol ac yn torri 12 y cant ar wariant ar dai. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod, ac mae pobl Cymru yn gwybod, y byddai'n drychineb digamsyniol mewn hanes diweddar pe byddai'r Torïaid yn cael eu hethol eto ar 7 Mai.

13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I take it there's an election soon? We've not even finished question 1 yet.

A gaf i gymryd bod yna etholiad cyn bo hir? Nid ydym ni wedi gorffen cwestiwn 1 eto hyd yn oed.

13:33 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the implications of these cuts to our public services come at a time of massive uncertainty, unprecedented financial challenge and immense demoralisation across our local authorities, as a result of your Government's chaos around local government reorganisation. Welsh local authorities are simply struggling to make prudent, effective and sound medium or long-term decisions on their spending priorities. First Minister, will you make a statement today to provide some assurances to our authorities that a definitive and deliverable plan will be presented to this Assembly before the summer recess?

Brif Weinidog, daw goblygiadau'r toriadau hyn i'n gwasanaethau cyhoeddus ar adeg o ansicrwydd enfawr, her ariannol ddigynsail a digalondid enfawr ar draws ein hawdurdodau lleol, o ganlyniad i anhrefn eich Llywodraeth o ran ad-drefnu llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol Cymru'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau tymor canol na hirdymor doeth, effeithiol a chadarn am eu blaenoriaethau gwario. Brif Weinidog, a wnewch chi wneud datganiad heddiw i roi rhywfaint o sicrwydd i'n hawdurdodau y bydd cynllun terfynol a chyraeddadwy'n cael ei gyflwyno i'r Cynulliad hwn cyn toriad yr haf?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. As we've said, other parties have not produced alternative proposals. We will produce our map before the summer. But could I say to the Member opposite: she complains about cuts; her party wanted to go further? They want to cut local government spending by 12 per cent—their own alternative budget, written, if you remember, on one side of A4 some three years ago. What they want to see are cuts in local government budgets, cuts in social care. They want to see increases in council tax—a 17 per cent council tax increase—to bring it to the level of England, which is what people in England pay, on average. We all know that what we have proposed doesn't go far enough in terms of cuts, as far as the Tories are concerned, and we'll take no lessons from them in terms of public probity.

Gwnaf. Fel rydym ni wedi dweud, nid yw'r pleidiau eraill wedi cynhyrchu cynigion amgen. Byddwn yn cynhyrchu ein map cyn yr haf. Ond a gaf i ddweud wrth yr Aelod gyferbyn: mae hi'n achwyn am doriadau; roedd ei phlaid hi eisiau mynd ymhellach. Maen nhw eisiau torri gwariant llywodraeth leol o 12 cant—eu cyllideb amgen eu hunain, a ysgrifennwyd, os cofiwch chi, ar un ochr A4 oddeutu tair blynedd yn ôl. Yr hyn y maen nhw eisiau ei weld yw toriadau i gyllidebau llywodraeth leol, toriadau i ofal cymdeithasol. Maen nhw eisiau gweld cynnydd i'r dreth gyngor—cynnydd o 17 y cant i'r dreth gyngor—i ddod â hi i lefel Lloegr, sef yr hyn y mae pobl yn Lloegr yn ei dalu, ar gyfartaledd. Rydym ni i gyd yn gwybod nad yw'r hyn yr ydym ni wedi ei gynnig yn mynd yn ddigon pell o ran toriadau, cyn belled ag y mae'r Torïaid yn y cwestiwn, ac ni fyddwn yn derbyn unrhyw wersi ar onestrwydd cyhoeddus ganddyn nhw.

13:35 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Er mwyn parhau â'r thema etholiadol, rydym ni i gyd yn cydnabod bod yna amseroedd anodd, pa Lywodraeth bynnag fydd yna yn Llundain ar ôl Mai. Felly, a ydych chi'n barod i gydnabod, lle mae yna reidrwydd inni fod yn cynnig gwerth am arian, fod cyfraniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn y gyllideb efo chi yn y gorffennol wedi bod yn un positif?

In order to continue with the electoral theme, we all acknowledge that there are difficult times, whatever Government there will be in London after May. So, are you willing to acknowledge that, where there is a need for us to offer value for money, the contribution of the Liberal Democrats in the budget with you in the past has been a positive one?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, rwy'n croesawu'n fawr iawn y trafodaethau sydd wedi cymryd lle rhyngom ni a'r Rhyddfrydwyr Democrataidd i roi sicrwydd i bobl Cymru. Mae e'n dangos, wrth gwrs, ei bod hi'n bosibl i weithio'n drawsbleidiol yn y Siambr hon, er mwyn sicrhau lles ein pobl ni.

Of course, I welcome very much the discussions that have taken place between us and the Liberal Democrats to give certainty to the people of Wales. That shows, of course, that it is possible to work across the parties in this Chamber, to secure the welfare of our people.

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to question 2, can I just remind Members that this is an opportunity to question the First Minister, and not to have long run-up introductions? I've been very generous on the first question; I don't intend to be generous on the rest. Question 2 is Elin Jones.

Cyn i ni symud i gwestiwn 2, a gaf i atgoffa'r Aelodau mai cyfle i holi'r Prif Weinidog yw hwn, ac nid i gael cyflwyniadau arweiniol hirfaith? Rydw i wedi bod yn hael iawn ar y cwestiwn cyntaf; nid wyf yn bwriadu bod yn hael ar y gweddill. Daw Cwestiwn 2 gan Elin Jones.

### Blaenoriaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus (Gorllewin Cymru)

### Public Transport Priorities (West Wales)

13:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2208(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on Welsh Government priorities for public transport in west Wales? OAQ(4)2208(FM)*

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd system drafnidiaeth fforddiadwy, effeithiol ledled Cymru, a chaiff manylion y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol drafft eu pennu yn nes ymlaen y gwanwyn hwn.

We recognise the importance of an effective, affordable public transport system across Wales, and the draft national transport plan will be finalised later this spring.

13:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae yna gonsensws yn datblygu o gwmpas y potensial o ailagor rheilffordd Aberystwyth i Gaerfyrddin, ac mae swyddogion eich adran drafnidiaeth chi yn cwrdd ag ymgyrchwyr Traws Link Cymru, yr ymgyrch i hyrwyddo ailagor y rheilffordd yma yn y dyfodol agos. Y cam nesaf i wireddu'r cynllun yma yw comisiynu darn o waith—adroddiad llawn ar yr posibiliad yma. A wnewch chi edrych, gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ar y posibilrwydd o wneud hyn yn ystod blwyddyn ddiwethaf eich Llywodraeth chi?

First Minister, there is a consensus developing around the potential for reopening the Aberystwyth to Carmarthen railway, and officials in your department for transport are meeting with campaigners from Traws Link Cymru, the campaign to promote the reopening of this railway line in the near future. The next step for the delivery of this plan is to commission a piece of work—a full report on the feasibility. Will you look, with the Minister for the Economy, Science and Transport, at the possibility of doing this during the final year of your Government?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaf, wrth gwrs. Rwy'n gwybod bod hwn yn rhywbeth sydd yn bwysig dros ben. Allwn ni ddim dweud, wrth gwrs, fod hwn yn rhywbeth sy'n rhwydd i'w wneud, nac yn tsiêp i'w wneud. Ond beth mae'n rhaid inni ei ystyried yw beth fyddai'r costau, faint o—wel, nid oes trac yna ddim rhagor, dim ond mewn rhai mannau—beth sydd ei eisiau, a beth fydd yn gorfod cael ei wneud er mwyn ailadeiladu'r rhwydwaith. Rwy'n gwybod bod y rheilffordd ei hunan i'r gogledd o Bontrhydfendigaid ddim wedi bod yna ers y 1960au, ac felly, y cam nesaf nawr yw ystyried beth fyddai'r gwaith, pa fath o waith fyddai'n gorfod cael ei wneud, ac, wrth gwrs, beth fyddai'r costau.

I will, of course. I know that this is something that is extremely important. We can't say, of course, that this is something that is easy to achieve, or cheap. But what we must consider is what the costs would be, how much—well, there is no track there anymore, only in some places—what is required, and what needs to be done to rebuild the network. I know that the railway line itself to the north of Pontrhydfendigaid has not been there since the 1960s, and so, the next step now is to consider what the work would entail, what kind of work would need to be done, and, of course, what the costs would be.

13:37 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae gorsaf drenau Aberdaugleddau, yn fy etholaeth i, mewn angen difrifol am welliannau; yn wir, mae'n portreadu delwedd negyddol o'r ardal, oherwydd cyflwr gwael yr orsaf. Nawr, rwy'n derbyn bod y mater hwn ddim yn gyfrifoldeb uniongyrchol i'ch Llywodraeth chi, ond dywedodd y Gweinidog dros drafnidiaeth mewn llythyr ataf i ym mis Hydref y llynedd y byddai hi'n pwyso ar Network Rail ar y mater hwn. Felly, yn yr amgylchiadau, a allwch chi ddweud wrthym ni pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd ar y mater hwn?

First Minister, Milford Haven railway station, in my constituency, is in dire need of improvement; indeed, it portrays a negative image of the area, given the poor condition of the station. Now, I accept that this issue is not the direct responsibility of your Government, but the Minister for transport said in a letter to me in October last year that she would bring pressure to bear on Network Rail regarding the matter. Therefore, under the circumstances, can you tell us what specific steps the Welsh Government has taken on this issue?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, wrth gwrs, mae hwn yn rhywbeth i'w ystyried ynglŷn â beth sy'n digwydd gyda'r 'franchise' yn 2017. Bydd mwy o reolaeth gyda ni wedyn, wrth gwrs, ynglŷn â pha fath o wasanaeth, a pha fath o orsafoedd y byddai pobl Cymru eisiau eu gweld. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, ei bod yn bwysig dros ben inni weld ym mha ffyrdd y gallwn ni wella gorsafoedd trenau Cymru, a bydd hwnnw'n rhan o'r trafodaethau dros y blynyddoedd nesaf.

Well, of course, this is something to consider in terms of what happens with the franchise in 2017. We will have more control then, of course, in terms of what kind of service, and what kind of stations the people of Wales would want to see. I accept, of course, that it is extremely important for us to see in what ways we can improve the train stations of Wales, and that will form a part of the discussions over the next few years.

13:38 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, for some five years now, proposals have been worked up for the reopening of Bow Street station, in Ceredigion, allied to a park-and-ride scheme, which would serve to greatly alleviate traffic congestion in Aberystwyth town, as well as provide access to the groundbreaking Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences centre of excellence at Bow Street. In addition to that, it would also contribute greatly to Aberystwyth fulfilling its Welsh Government designated status of a regional centre, and doing so in a sustainable way. In that context, First Minister, will you recommit to working with your transport Minister, with Ceredigion County Council, and, indeed, with the local Bow Street action group, to bring this important initiative to fruition?

Brif Weinidog, ers oddeutu pum mlynedd bellach, mae cynigion wedi'u llunio i ailagor gorsaf Bow Street, yng Ngheredigion, ynghyd â chynllun parcio a theithio, a fyddai'n fodd o leddfu tagfeydd traffig i raddau helaeth yn nhref Aberystwyth, yn ogystal â darparu mynediad at ganolfan ragoriaeth arloesol Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Bow Street. Yn ogystal â hynny, byddai hefyd yn cyfrannu'n fawr at Aberystwyth yn bodloni ei statws a nodwyd gan Lywodraeth Cymru o ganolfan ranbarthol, a gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, a wnewch chi ailymrwymo i weithio gyda'ch Gweinidog trafnidiaeth, gyda Chyngor Sir Ceredigion, ac, yn wir, gyda grŵp gweithredu lleol Bow Street, i roi'r fenter bwysig hon ar waith?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. I know that the mid Wales railways implementation group has reported to the Minister on the implementation of new services and other related issues. The Minister is examining how, of course, we can improve services on the central Wales line. The emphasis has been on looking at improving frequency, but, certainly, in time, consideration will need to be given to see whether more stations can be opened.

Gwnaf, wrth gwrs. Gwn fod grŵp gweithredu rheilffyrdd y canolbarth wedi adrodd i'r Gweinidog ar weithrediad gwasanaethau newydd a materion cysylltiedig eraill. Mae'r Gweinidog yn archwilio sut, wrth gwrs, y gallwn wella gwasanaethau ar reilffordd y canolbarth. Bu'r pwyslais ar wella amlder, ond, yn sicr, ymhen amser, bydd angen rhoi ystyriaeth i weld a ellir agor mwy o orsafoedd.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, I listened carefully to the answer that you gave to my colleague, Alun Ffred Jones, earlier when he asked you how much has been cut from the Welsh Government's budget since 2010 and you said '£1 billion'. I wonder if you can tell us then what the assessment has been from your Government about the impact of those cuts on Welsh public services.

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, gwrandewais yn astud ar yr ateb a roesoch i'm cyd-Aelod, Alun Ffred Jones, yn gynharach pan ofynnodd i chi faint sydd wedi cael ei dorri o gyllideb Llywodraeth Cymru ers 2010 a dywedasoch chi '£1 biliwn'. Tybed a allech chi ddweud wrthym ni felly beth fu asesiad eich Llywodraeth o effaith y toriadau hynny ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We see the impact around us, of course. We have commissioned specific work in terms of welfare cuts. We know that the bedroom tax has affected Wales very, very badly. We know, for example, that although we have protected health spending and we have protected spending for schools, there are some areas of expenditure where the money is not available at the level that we would want. That's why it's so important, of course, that whatever happens on 7 May we see a commitment to growth in public investment from any incoming Government in London.

Rydym ni'n gweld yr effaith o'n cwmpas, wrth gwrs. Rydym ni wedi comisiynu gwaith penodol o ran toriadau lles. Rydym ni'n gwybod bod y dreth ystafell wely wedi cael effaith wael iawn, iawn ar Gymru. Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, er ein bod ni wedi diogelu gwariant ar iechyd ac wedi diogelu gwariant ar gyfer ysgolion, bod rhai meysydd o wariant lle nad yw'r arian ar gael ar y lefel y byddem yn dymuno. Dyna pam mae hi mor bwysig, wrth gwrs, waeth beth fydd yn digwydd ar 7 Mai, ein bod yn gweld ymrwymiad i dwf mewn buddsoddiad cyhoeddus gan unrhyw Lywodraeth newydd yn Llundain.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, First Minister. Prior to the UK Government's comprehensive spending review back in 2013, you said—and I quote—that

'The Welsh Government has repeatedly made clear that we believe the cuts being imposed on us by the Tories in London are being made too far and too fast.'

Now, I agree with you that these Tory cuts have been very damaging to Welsh public services, so do you stand by that statement? If you do, can you tell us what would be an acceptable level and pace of cut for your Government during the next Westminster Parliament?

Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Cyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth y DU yn ôl yn 2013, dywedasoch—a dyfynnaf—

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn eglur dro ar ôl tro ein bod yn credu bod y toriadau sy'n cael eu gorfodi arnom gan y Torïaid yn Llundain yn cael eu gwneud yn rhy bell ac yn rhy gyflym.

Nawr, rwy'n cytuno â chi bod y toriadau hyn gan y Torïaid wedi bod yn niweidiol iawn i wasanaethau cyhoeddus Cymru, felly a ydych chi'n dal i gadw at y datganiad hwnnw? Os ydych, a allwch chi ddweud wrthym beth fyddai'r lefel a'r cyflymder torri derbyniol i'ch Llywodraeth chi yn ystod Senedd nesaf San Steffan?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I stand by those comments. I would expect to see over the next Westminster parliamentary term an increase in public spending in Wales, as opposed to the 20 per cent decrease we could expect under a Conservative Government.

Ydw, rwy'n cadw at y sylwadau hynny. Byddwn yn disgwyl gweld dros dymor senedd nesaf San Steffan cynnydd i wariant cyhoeddus yng Nghymru, yn hytrach na'r gostyngiad o 20 y cant y gallem ei ddisgwyl dan Lywodraeth Geidwadol.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Well, that's not the information that's been provided to us by the IFS, which tells us that a Labour Government will cut the budgets to devolved institutions by 2.2 per cent. That's a cut. You've said recently that you support plans to cut your own Government's spending by between 2 per cent and 3 per cent in the coming years. Now, I can only begin to imagine the effect and the impact of cuts of 2 per cent or 3 per cent on the Welsh Government's budget in terms of cuts to our schools and hospitals. So, let me just get this straight: you oppose Wales getting parity with Scotland in terms of funding. So, will you, therefore, back our calls for an emergency budget after the election to reverse Tory spending cuts to the Welsh Government's budget? Yes or no?

Wel, nid dyna'r wybodaeth a roddwyd i ni gan yr IFS, sy'n dweud wrthym y bydd Llywodraeth Lafur yn torri'r cyllidebau i sefydliadau datganoledig o 2.2 y cant. Mae hwnnw'n doriad. Rydych chi wedi dweud yn ddiweddar eich bod yn cefnogi cynlluniau i dorri gwariant eich Llywodraeth eich hun o rhwng 2 y cant a 3 y cant yn y blynyddoedd i ddod. Nawr, ni allaf ond dechrau dychmygu'r effaith ac effaith toriadau o 2 y cant neu 3 y cant ar gyllideb Llywodraeth Cymru o ran toriadau i'n hysgolion a'n hysbytai. Felly, gadewch i mi gael hyn yn glir: rydych chi'n gwrthwynebu Cymru'n cael cydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid. A wnewch chi felly gefnogi ein galwadau am gyllideb frys ar ôl yr etholiad i wrthdroi toriadau gwariant y Torïaid i gyllideb Llywodraeth Cymru? Gwnewch neu na wnewch?

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, we have to see what the result is, but there are two points I have to make to the leader of Plaid Cymru. First of all, I was amazed to see the call from the Scottish National Party yesterday talking about parity of spending between Wales and Scotland. I notice that the SNP is not going to contribute to that, so it is all about 'We'll support you but don't ask us for a penny in terms of funding'. There's a great deal of solidarity there among the parties, of course. Secondly, the one thing I can say to the leader of Plaid Cymru is this: we will have five years of Labour Government and of investment in Wales, from 2015 to 2020. The only way to ensure that Labour Government is elected is, of course, for people to vote Labour. They know that the leader of Plaid Cymru has said that she will not support a Labour Queen's Speech and she will look to vote it down in certain circumstances. That is the reality of what she said on Sunday. She says that she will work with other parties. The reality is, she will work for herself and she's more than happy to work with the Tories.

Yn gyntaf oll, mae'n rhaid i ni weld beth fydd y canlyniad, ond mae dau bwynt y mae'n rhaid i mi eu gwneud i arweinydd Plaid Cymru. Yn gyntaf oll, cefais fy synnu'n fawr o weld yr alwad gan Blaid Genedlaethol yr Alban ddoe yn sôn am gydraddoldeb gwariant rhwng Cymru a'r Alban. Sylwaf nad yw'r SNP yn mynd i gyfrannu at hynny, felly mae'n golygu 'Fe wnawn ni eich cefnogi, ond peidiwch â gofyn i ni am geiniog o ran cyllid'. Mae llawer iawn o undod yno ymhlith y pleidiau, wrth gwrs. Yn ail, yr un peth y gallaf ei ddweud wrth arweinydd Plaid Cymru yw hyn: bydd gennym bum mlynedd o Lywodraeth Lafur ac o fuddsoddiad yng Nghymru o 2015 i 2020. Yr unig ffordd o sicrhau yr etholir y Llywodraeth Lafur honno, wrth gwrs, yw i bobl bleidleisio dros Lafur. Maen nhw'n gwybod bod arweinydd Plaid Cymru wedi dweud na fydd hi'n cefnogi Araith y Frenhines Llafur ac y bydd yn pleidleisio yn ei herbyn dan amgylchiadau penodol. Dyna yw gwirionedd yr hyn a ddywedodd hi ddydd Sul. Mae hi'n dweud y bydd hi'n gweithio gyda phleidiau eraill. Y gwir amdani yw y bydd hi'n gweithio drosti hi ei hun ac mae hi'n fwy na pharod i weithio gyda'r Torïaid.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, three weeks ago, 102 businessmen and women wrote a letter at the start of the election campaign, from Wales, but also from across the rest of the United Kingdom, highlighting their endorsement of the Conservative economic record over the last five years and imploring the voters to back that record and the long-term economic plan. Can you name me any Welsh businesses who are backing your economic plan?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, dair wythnos yn ôl, ysgrifennodd 102 o wŷr a gwragedd busnes lythyr ar ddechrau ymgyrch yr etholiad, o Gymru, ond hefyd o bob rhan o weddill y Deyrnas Unedig, yn pwysleisio eu cymeradwyaeth i hanes economaidd y Ceidwadwyr dros y pum mlynedd diwethaf ac yn erfyn ar y pleidleiswyr i gefnogi'r hanes hwnnw a'r cynllun economaidd hirdymor. A allwch chi enwi i mi unrhyw fusnesau yng Nghymru sy'n cefnogi eich cynllun economaidd chi?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are plenty of Welsh businesses who have received support from Government. They know full well, for example, that we have had foreign direct investment at its highest level for 30 years—

Mae digonedd o fusnesau yng Nghymru sydd wedi derbyn cymorth gan y Llywodraeth. Maen nhw'n gwybod yn iawn, er enghraifft, ein bod ni wedi cael buddsoddiad tramor uniongyrchol ar ei lefel uchaf ers 30 mlynedd—

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Name them. Name them.

Enwch nhw. Enwch nhw.

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, they're your donors. You can name your own people. They're your donors at the end of the day. Of course, they're going to jump to your tune. All I can tell you is this: we have unemployment coming down; we have economic activity going up. We have the best foreign direct investment figures for 30 years. We are in a position now where we see jobs being created across the whole of Wales. We see investment being brought in as a result of the activities of the Welsh Government. It is a shame we don't have a UK Government that's willing to work hard for the people of Wales.

Wel, eich noddwyr chi ydyn nhw. Gallwch chi enwi eich pobl eich hun. Eich noddwyr chi ydyn nhw yn y pen draw. Wrth gwrs, maen nhw'n mynd i wneud yr hyn a ddywedwch. Y cwbl y gallaf i ei ddweud wrthych yw hyn: mae diweithdra'n gostwng; mae gweithgarwch economaidd yn cynyddu. Mae gennym y ffigurau buddsoddiad tramor uniongyrchol gorau ers 30 mlynedd. Rydym ni mewn sefyllfa erbyn hyn lle'r ydym ni'n gweld swyddi'n cael eu creu ar draws Cymru gyfan. Rydym ni'n gweld buddsoddiad yn dod i mewn o ganlyniad i weithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae'n drueni nad oes gennym Lywodraeth y DU sy'n barod i weithio'n galed dros bobl Cymru.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You couldn't name one, First Minister, and you shamelessly said that they were 'donors' of the Conservative Party. I think many of those 102 names would find it a real insult that you said such a thing. They back the economic record of the Conservatives in Government. We know what your record is. Isn't it a fact that there have been 55,000 new jobs created in Wales, nearly 25,000 new businesses and that, if we go back to Labour's slash-and-burn mentality as regards the economy, in particular with their economic record of illiteracy, all that will be put at risk? Don't you believe that, ultimately, what we need for the next five years is the long-term economic plan that has created those 55,000 jobs, made 25,000 new businesses open up here in Wales and guaranteed take-home pay for so many people here in Wales?

Nid oeddech chi'n gallu enwi un, Brif Weinidog, a dywedasoch yn ddigywilydd eu bod yn 'noddwyr' y Blaid Geidwadol. Rwy'n credu y byddai llawer o'r 102 o enwau hynny'n teimlo sarhad gwirioneddol eich bod wedi dweud y fath beth. Maen nhw'n cefnogi hanes economaidd y Ceidwadwyr mewn Llywodraeth. Rydym ni'n gwybod beth yw eich hanes chi. Onid yw'n ffaith bod 55,000 o swyddi newydd wedi'u creu yng Nghymru, bron i 25,000 o fusnesau newydd ac y bydd hynny, os dychwelwn i feddylfryd slaes a llosgi Llafur o ran yr economi, yn enwedig gyda'u hanes economaidd o anllythrennedd, bydd hynny i gyd yn cael ei roi mewn perygl? Onid ydych chi'n credu, yn y pen draw, mai'r hyn yr ydym ni ei angen ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw'r cynllun economaidd hirdymor sydd wedi creu'r 55,000 o swyddi hynny, sydd wedi gwneud i 25,000 o fusnesau newydd agor yma yng Nghymru ac sydd wedi sicrhau cyflog gwario wedi'i warantu i gynifer o bobl yma yng Nghymru?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Did he just say a 'slash-and-burn approach'? I mean, there's been an irony transplant somewhere on the benches opposite. That's all we've seen for five years is slash and burn from the Conservatives. He's right: we do need a long-term economic plan, we do need certainty, we do need investment. And what do we see? What do we see? We saw the launch of the Conservative manifesto, which promised lots and lots of things without even costing what they were going to spend it on. At the end of the day, what we see now is a Conservative Party in London that's become a party of opposition, making wild promises that are uncosted, and I'm sure the people of Wales will want to see responsibility and a Labour Government post 7 May.

Ai 'dull slaes a llosgi' ddywedodd ef? Rwy'n credu y bu trawsblaniad o eironi rhywle ar y meinciau gyferbyn. Dyna'r cwbl rydym ni wedi ei weld ers pum mlynedd yw slaes a llosgi gan y Ceidwadwyr. Mae'n iawn: mae angen cynllun economaidd hirdymor arnom ni, mae angen sicrwydd arnom ni, mae angen buddsoddiad arnom ni. A beth ydym ni'n ei weld? Beth ydym ni'n ei weld? Gwelsom lansiad maniffesto'r Ceidwadwyr, a oedd yn addo llawer iawn o bethau heb hyd yn oed gostio'r hyn roedden nhw'n mynd i'w wario arno. Yn y pen draw, yr hyn a welwn nawr yw Plaid Geidwadol yn Llundain sydd wedi troi'n wrthblaid, gan wneud addewidion byrbwyll nad ydynt wedi'u costio, ac rwy'n siŵr y bydd pobl Cymru eisiau gweld cyfrifoldeb a Llywodraeth Lafur ar ôl 7 Mai.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've invited you on two occasions, First Minister, to endorse your party's economic record going forward for this election. It would be slash and burn on the economy if Ed Balls and Ed Miliband took control of the economy. We saw it in 2010: unemployment going up, business closures going up and, ultimately, confidence in the economy going down the pan. What we have is a growing economy, a record number of people in work and, ultimately, new businesses opening, day in, day out. Your party would take us back. Our party will take us forward. What we can see from this argument is that you can't trust Labour on the economy. If you want a future, you need the Conservatives.

Rwyf wedi'ch gwahodd chi ar ddau achlysur, Brif Weinidog, i gymeradwyo hanes economaidd eich plaid yn mynd ymlaen ar gyfer yr etholiad hwn. Byddai'n slaes a llosgi ar yr economi pe byddai Ed Balls ac Ed Miliband yn cymryd rheolaeth dros yr economi. Fe'i gwelsom yn 2010: diweithdra'n cynyddu, achosion o gau busnesau'n cynyddu ac, yn y pen draw, hyder yn yr economi'n diflannu. Yr hyn sydd gennym ni yw economi sy'n tyfu, y nifer uchaf erioed o bobl mewn gwaith ac, yn y pen draw, busnesau newydd yn agor ddydd ar ôl dydd. Byddai eich plaid chi'n mynd â ni yn ôl. Bydd ein plaid ni'n mynd â ni ymlaen. Yr hyn y gallwn ni ei weld o'r ddadl hon yw na allwch chi ymddiried yn y blaid Lafur ar yr economi. Os ydych chi eisiau dyfodol, mae angen y Ceidwadwyr arnoch chi.

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the leader of the opposition is turning UKIP purple. Have you seen his face? It's turning UKIP purple—[Interruption.] I think that tells us something about his—[Interruption.]—his real—[Interruption.]—

Wel, mae arweinydd yr wrthblaid yn troi'n borffor UKIP. Ydych chi wedi gweld ei wyneb? Mae'n troi'n borffor UKIP— [Torri ar draws.] Credaf fod hynny'n dweud rhywbeth wrthym am ei—[Torri ar draws.]—ei wir— [Torri ar draws.]—

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Order.

Trefn. Trefn.

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What his party inherited was an economy that was growing and they turned it into a shambles. Let me give him one thing. I could spend all day pointing out the weaknesses in his party's approach. One thing: we on this side of the Assembly believe that we need to make sure that we get rid of zero-hours contracts and that people get paid a living wage, and what has his party done? The one thing that perhaps the people of Wales will remember them for: they took the European Union on because the union wanted to restrict bankers' bonuses. So, bankers' bonuses are far more important for them than ordinary working people. What we are seeing now is the dying squeal of a dying party.

Yr hyn a etifeddodd ei blaid oedd economi a oedd yn tyfu ac fe'i trowyd yn draed moch ganddyn nhw. Gadewch i mi roi un peth iddo. Gallwn dreulio drwy'r dydd yn tynnu sylw at wendidau dull ei blaid. Un peth: rydym ni ar yr ochr hon i'r Cynulliad yn credu bod angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n cael gwared ar gontractau dim oriau a bod pobl yn derbyn cyflog byw, a beth mae ei blaid ef wedi ei wneud? Yr un peth efallai y bydd pobl Cymru'n ei gofio amdanynt: aethant yn erbyn yr Undeb Ewropeaidd gan fod yr undeb eisiau cyfyngu ar daliadau bonws i fancwyr. Felly, mae taliadau bonws bancwyr yn llawer pwysicach iddyn nhw na gweithwyr cyffredin. Yr hyn yr ydym ni'n ei weld nawr yw ocheneidiau olaf plaid sy'n marw.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, it costs £6.50 every time a car wants to come into Wales across the Severn bridge and more for larger vehicles. What estimate has your Government made of the cost to the Welsh economy of the Severn bridge tolls?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, mae'n costio £6.50 bob tro y bydd car eisiau dod i mewn i Gymru ar draws pont Hafren a mwy i gerbydau mwy o faint. Pa amcangyfrif mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o gost tollau pont Hafren i economi Cymru?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We know that there is a cost to the Welsh economy. Just to explain to the leader of the Liberal Democrats where we have come to in terms of discussions with the Department for Transport, the Department for Transport are unable to give us the cost of the bridge's maintenance. Anything between about £20 million and over £100 million is what we've had, so they have no particular idea of what the bridges would cost. At the moment, when the bridges return to public ownership, what we will see is every single penny being diverted to the roads budget in England and nothing at all coming to Wales, and the decision on where those tolls will be set will be taken not in Wales but in Whitehall. There's an election coming, so I'm going to say this: I understand what her party has said in terms of the tolls; we have said in our manifesto that we want the tolls to be controlled from Wales.

Rydym ni'n gwybod bod cost i economi Cymru. Dim ond i esbonio i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ble rydym ni wedi cyrraedd o ran trafodaethau gyda'r Adran Drafnidiaeth, nid yw'r Adran Drafnidiaeth yn gallu rhoi costau cynnal a chadw'r bont i ni. Unrhyw beth rhwng tua £20 miliwn a dros £100 miliwn yw'r hyn yr ydym ni wedi ei gael, felly nid oes ganddynt unrhyw syniad penodol o faint fyddai'r pontydd yn ei gostio. Ar hyn o bryd, pan fydd y pontydd yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus, yr hyn y byddwn yn ei weld yw pob ceiniog yn cael ei harallgyfeirio i'r gyllideb ffyrdd yn Lloegr a dim byd o gwbl yn dod i Gymru, ac ni fydd y penderfyniad ar ble y bydd y tollau hynny'n cael eu gosod yn cael ei wneud yng Nghymru ond yn Whitehall. Mae etholiad ar ddod, felly rwy'n mynd i ddweud hyn: rwy'n deall yr hyn y mae ei phlaid hi wedi ei ddweud o ran y tollau; rydym ni wedi dweud yn ein maniffesto ein bod ni eisiau i'r tollau gael eu rheoli o Gymru.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That's interesting, First Minister, because I believe that there is a massive impact on the Welsh economy, and your Government will be looking very closely at the proposals for reform of those tolls and the impact that may have. Now, it's clear to me that Plaid Cymru are happy to have a tax on entering Wales as long as it's collected by the Welsh Government. I'm interested to hear what you say about your own manifesto, because the Labour UK manifesto, the same as the Tory UK manifesto, doesn't mention the tolls at all. So could you please tell us what your Government's position is with regard to tolls?

Mae hynny'n ddiddorol, Brif Weinidog, gan fy mod i'n credu bod effaith enfawr ar economi Cymru, a bydd eich Llywodraeth chi yn edrych yn ofalus iawn ar y cynigion ar gyfer diwygio'r tollau hynny a'r effaith y gallai hynny ei chael. Nawr, mae'n amlwg i mi bod Plaid Cymru yn hapus i gael treth ar ddod i mewn i Gymru cyn belled â'i bod yn cael ei chasglu gan Lywodraeth Cymru. Mae gen i ddiddordeb clywed yr hyn a ddywedwch am eich maniffesto eich hun, gan nad yw maniffesto Llafur y DU, yr un fath â maniffesto Torïaid y DU, yn sôn am y tollau o gwbl. Felly, a wnewch chi ddweud wrthym beth yw safbwynt eich Llywodraeth o ran tollau?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it's a Welsh manifesto for a Welsh issue, so of course it says that we would look to control the tolls from Wales. Our position is quite simple: we believe that tolls should be set and controlled in Wales. It's very difficult to estimate what the tolls should be set at unless we know what the maintenance costs are of the bridge. But be in no doubt: we want to make sure that those tolls are controlled from Wales and that any money that comes from those tolls is actually diverted into Wales.

Wel, maniffesto Cymru yw hwn ar gyfer mater yn ymwneud â Chymru, felly, wrth gwrs mae'n dweud y byddem ni eisiau rheoli'r tollau o Gymru. Mae ein safbwynt ni'n eithaf syml: rydym ni'n credu y dylai'r tollau gael eu pennu a'u rheoli yng Nghymru. Mae'n anodd iawn amcangyfrif faint ddylai'r tollau fod oni bai ein bod yn gwybod beth yw costau cynnal a chadw'r bont. Ond gallaf eich sicrhau: rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod y tollau hynny'n cael eu rheoli o Gymru, a bod unrhyw arian a ddaw o'r tollau hynny'n cael ei ddargyfeirio i Gymru.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Presiding Officer, I'm kind of interested in the status of a policy set out in a Welsh Labour manifesto that isn't in a UK one. I wonder which one Mr Balls and Mr Miliband would turn to first. First Minister, we know your Ministers have acknowledged that the impact on the Welsh economy of these tolls is huge. The Federation of Small Businesses says that they are damaging to the south Wales economy. Edwina Hart said,

'tolling has an adverse economic impact on Wales'.

Wel, Lywydd, mae gennyf gryn ddiddordeb mewn statws polisi a nodir ym maniffesto Llafur Cymru ond nad yw yn un y DU. Tybed pa un fyddai Mr Balls a Mr Miliband yn troi ato gyntaf. Brif Weinidog, rydym ni'n gwybod bod eich Gweinidogion wedi cydnabod bod effaith y tollau hyn ar economi Cymru yn enfawr. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn dweud eu bod yn niweidiol i economi'r de. Dywedodd Edwina Hart,

mae codi tollau'n cael effaith economaidd andwyol ar Gymru.

So, rather than fret about which Government gets to keep the tax, why don't you back the Liberal Democrat campaign to get rid of the tolls altogether?

Felly, yn hytrach na phoeni am ba Lywodraeth sy'n cael cadw'r dreth, beth am gefnogi ymgyrch y Democratiaid Rhyddfrydol i gael gwared ar y tollau'n gyfan gwbl?

13:50

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of the Liberal Democrats is newly arrived at the party. We've been saying this for months on end, until the Liberal Democrats mentioned this in their manifesto. Our belief is the tolls should be controlled from Wales. That's not what you have said, as a party. You've not given an indication that the tolls should be controlled from Wales, given the fact that the tolls mainly affect Wales. From our point of view, we want to make sure that we examine the maintenance costs of the bridges, that the tolls are controlled from Wales, and then take a decision from there. But be in no doubt: we want to make sure that the Severn bridge tolls are within the control of the people of Wales.

Newydd gyrraedd y parti mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Rydym ni wedi bod yn dweud hyn ers misoedd ar fisoedd, tan i'r Democratiaid Rhyddfrydol sôn am hyn yn eu maniffesto. Ein cred ni yw y dylai'r tollau gael eu rheoli o Gymru. Nid dyna yr ydych chi wedi ei ddweud, fel plaid. Nid ydych chi wedi rhoi arwydd y dylai'r tollau gael eu rheoli o Gymru, o gofio mai ar Gymru y mae'r tollau'n effeithio'n bennaf. O'n safbwynt ni, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried costau cynnal a chadw'r pontydd, bod y tollau'n cael eu rheoli o Gymru, ac yna gwneud penderfyniad o'r fan honno. Ond gallaf eich sicrhau: rydym ni eisiau gwneud yn siŵr mai pobl Cymru sy'n rheoli tollau pont Hafren.

13:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move back to questions on the paper, and question 3—David Rees.

Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar y papur, a chwestiwn 3—David Rees.

### Y Rhaglen Drafnidiaeth

### The Transport Programme

13:51

## David Rees [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)2215(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's transport programme for the remainder of this Assembly term? OAQ(4)2215(FM)*

13:51

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it's outlined in the national transport plan, which is due to be finalised later this spring.

Gwnaf, fe'i hamlinellir yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a gaiff ei gwblhau'n ddiweddarach y gwanwyn hwn.

13:51

## David Rees [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for that answer, First Minister. I'm sure that you recognise that the M4 plays a major, important role in transport across south Wales, and I, like many of my constituents, am actually disappointed that the Welsh Government didn't take advantage of the period following the end of the trial closure of the westbound entry slip road at junction 41 to assess the effectiveness of the average-speed cameras on the overhead section of the M4 in Port Talbot, although I do recognise that the Minister did take the decision on the advice of her officials. Following that decision, actually during the recess, road markings appeared on the A48 in Port Talbot with little direction to the westbound M4, and residents have expressed deep concern that they indicate a decision has already been made. Can you reassure my constituents that no decision has been made yet, and that when it is made, you will actually ensure that all evidence arriving at that decision will be made public?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn cydnabod bod yr M4 yn chwarae rhan fawr, bwysig o ran trafnidiaeth ar draws y de, ac rwyf i, fel llawer o'm hetholwyr, yn siomedig na wnaeth Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfnod yn dilyn diwedd y cyfnod prawf o gau'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 41 i asesu effeithiolrwydd y camerâu cyfartaledd cyflymder ar y rhan uwchben yr M4 ym Mhort Talbot, er fy mod i'n cydnabod bod y Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad ar sail cyngor ei swyddogion. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, yn ystod y toriad a dweud y gwir, ymddangosodd marciau ffordd ar yr A48 ym Mhort Talbot gyda fawr ddim cyfeiriadau at yr M4 tua'r gorllewin, ac mae trigolion wedi mynegi pryder mawr eu bod yn awgrymu bod penderfyniad wedi ei wneud eisoes. A allwch chi sicrhau fy etholwyr nad oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eto, a phan gaiff ei wneud, y byddwch yn sicrhau y bydd yr holl dystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad hwnnw arno'n cael ei wneud yn gyhoeddus?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can give the Member's constituents the assurance that no decision has been made. A decision will be made next month, once the Minister has received the final report. In terms of the road marking he has referred to, they are Neath Port Talbot council road markings, not Welsh Government road markings. We understand they should have been in place some weeks ago, so they have been delayed in terms of being put onto the road, but that does not affect, nor is any precursor to, any decision the Minister might take.

Gallaf sicrhau etholwyr yr Aelod nad oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud y mis nesaf, ar ôl i'r Gweinidog dderbyn yr adroddiad terfynol. O ran y marciau ffordd y mae wedi cyfeirio atynt, marciau ffordd cyngor Castell-nedd Port Talbot ydyn nhw, nid marciau ffordd Llywodraeth Cymru. Rydym ni'n deall y dylen nhw fod wedi cael eu gwneud rai wythnosau'n ôl, felly maen nhw wedi cael eu hoedi o ran cael eu rhoi ar y ffordd, ond nid yw hynny'n effeithio ar unrhyw benderfyniad y gallai'r Gweinidog ei wneud, nac yn ei ragflaenu.

13:52 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we've spoken many times about the huge investment in the south Wales railway network from the UK Government and the cross-governmental agreement on the south Wales Valleys lines. I've asked you many times to outline your Government transport programme to build on this investment and start to deliver the metro concept, which we all agree is a significant step forward for south Wales. So, specifically, can you outline these plans and assure me that these plans will be available in the remaining period of this Assembly?

Brif Weinidog, rydym ni wedi siarad droeon am y buddsoddiad enfawr yn rhwydwaith rheilffyrdd y de gan Lywodraeth y DU a'r cytundeb traws-lywodraethol ar reilffyrdd Cymoedd y De. Rwyf wedi gofyn i chi sawl gwaith i amlinellu rhaglen drafnidiaeth eich Llywodraeth i adeiladu ar y buddsoddiad hwn a dechrau cyflwyno syniad y metro, yr ydym ni i gyd yn cytuno sy'n gam sylweddol ymlaen i'r de. Felly, yn benodol, a allwch chi amlinellu'r cynlluniau hyn a fy sicrhau y bydd y cynlluniau hyn ar gael yn y cyfnod sy'n weddill o'r Cynulliad hwn?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, the answer to that is yes, we are moving forward with the plans for the metro. I have to say that I'm slightly taken aback by the fact that here we have a Member who is lauding the UK Government's investment into the main line and Valley lines—which we're happy with—yet some months ago was telling us that the UK Government wasn't making an investment into the Valley lines, nor indeed the line between Cardiff Central and Bridgend. He was basically parroting the party line, and now he's parroting the party line again. The only reason why we are getting electrification between Cardiff Central and Bridgend, and on the Valley lines, is because we shamed the UK Government into doing it. David Cameron came down here and said he would electrify the Valley lines, then denied he was ever going to do it. And of course, sure enough, we got to a position—. And, I have to say, the Secretary of State was somebody who was helpful—in these circumstances I'll be charitable, despite there being an election coming—because he helped to rectify the breach of promise that was there from the UK Government. So, yes, we do welcome the electrification of the Valley lines, and the south Wales main line, but that decision should have been taken much, much sooner, and it took our shaming the UK Government in order for it to be done.

Wel, yr ateb i hynny yw gallaf, rydym ni'n symud ymlaen gyda'r cynlluniau ar gyfer y metro. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi fy synnu braidd gan y ffaith bod gennym ni Aelod yma sy'n canmol buddsoddiad Llywodraeth y DU yn y brif reilffordd a rheilffyrdd y Cymoedd—yr ydym yn hapus ag ef—ac eto a oedd yn dweud wrthym rai misoedd yn ôl yn nad oedd Llywodraeth y DU yn gwneud buddsoddiad yn rheilffyrdd y Cymoedd, nac yn wir yn y rheilffordd rhwng Caerdydd Canolog a Phen-y-bont ar Ogwr. Roedd yn ailadrodd neges y blaid mewn gwirionedd, ac nawr mae'n ailadrodd neges y blaid unwaith eto. Yr unig reswm pam yr ydym ni'n cael trydaneiddio rhwng Caerdydd Canolog a Phen-y-bont ar Ogwr, ac ar reilffyrdd y Cymoedd, yw oherwydd i ni godi cywilydd ar Lywodraeth y DU i wneud hynny. Daeth David Cameron i lawr yma a dywedodd y byddai'n trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, ac yna gwadodd ei fod erioed yn mynd i wneud hynny. Ac wrth gwrs, yn sicr ddigon, daethpwyd i sefyllfa—. Ac, mae'n rhaid i mi ddweud, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhywun a oedd o gymorth—byddaf yn garedig dan yr amgylchiadau hyn, er bod etholiad yn dod—gan ei fod wedi helpu i gywiro'r tor-addewid a oedd yno gan Lywodraeth y DU. Felly, ydym, rydym yn croesawu trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, a phrif reilffordd y de, ond dylid fod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw yn llawer, llawer cynt, a bu'n rhaid i ni godi cywilydd ar Lywodraeth y DU er mwyn iddo gael ei wneud.

13:54 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, wrth i chi edrych yn ôl dros 16 mlynedd o Lywodraeth Lafur yma yng Nghymru, gyda'r prif gyfrifoldeb am drafnidiaeth, pa gamau gwirioneddol sydd wedi eu cymryd i greu system drafnidiaeth integredig ledled Cymru sy'n cysylltu pob rhan o Gymru a'i gilydd?

First Minister, as you look back over 16 years of Labour Government here in Wales, with the main responsibility for transport lying with that Government, what real steps have been taken to create an integrated transport system across the whole of Wales?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae'n rhaid cofio, wrth gwrs, fod pedair blynedd wedi bod o dan rym ei blaid ef, nid dim ond y Blaid Lafur. Beth sydd wedi digwydd? Yn gyntaf, wrth gwrs, mae gennym drên sy'n rhedeg bob dwy awr rhwng Caerdydd a Chaergybi. Pan ddechreuodd y Cynulliad, nid oedd gwasanaeth o'r fath ac roedd yn rhaid newid yn Amwythig. Mae gennym awyren sydd yn mynd o'r gogledd i'r de. Rydym wedi gweld datblygiad y gwasanaeth TrawsCymru er mwyn sicrhau bod mwy o rwydwaith yn awr nag oedd yna o'r blaen o dan hen system y TrawsCambria. Felly, mae rhwydwaith bysiau wedi'i roi mewn lle, mae rhwydwaith trenau wedi cael ei roi mewn lle ac, wrth gwrs, rydym wedi gweld llinellau'n ailagor yn y de. Felly, i gymharu â lle roeddem yn 1999, pan nad oedd modd mynd o'r gogledd i'r de—neu bach iawn oedd y cyfleoedd i fynd o'r gogledd i'r de—ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae pethau wedi newid er y gorau yn sylweddol.

Of course, four years of that was under the control of his party, so it's not just a matter of the Labour Party. What has happened? First of all, we have a train that runs every two hours between Cardiff and Holyhead. When the Assembly was established, we had no such service and people had to change at Shrewsbury. We have a north-south air link. We have seen the development of the TrawsCymru service in order to ensure a wider network than was the case with the old TrawsCambria network. So, we have a bus network that has been put in place, and a train network, and we have seen lines reopening in south Wales. So, compared with where we were in 1999, when it wasn't possible to travel on public transport from north to south—or there were few opportunities to do so, at least—things have certainly improved.

13:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm happy to accept the Government's reassurances that no decision has been taken on junction 41. However, I am concerned about the quality of the evidence that will be used to assess the effect of the closure in terms of the Government's final decision, because half way through that closure, of course, cameras have gone on the M4, which have changed the whole driving conditions on that motorway. That makes it very difficult to do any comparison between what is happening now and what happened before the closure went ahead. Can I ask you therefore how you're going to reconcile that particular issue in terms of making a decision on whether or not that junction should be closed or not?

Brif Weinidog, rwy'n hapus i dderbyn sicrwydd y Llywodraeth nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â chyffordd 41. Fodd bynnag, rwy'n pryderu am ansawdd y dystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio i asesu effaith y cau o ran penderfyniad terfynol y Llywodraeth, gan y rhoddwyd camerâu ar yr M4 hanner ffordd drwy'r cyfnod cau, wrth gwrs, sydd wedi newid yr amodau gyrru ar y draffordd honno'n llwyr. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn gwneud unrhyw gymhariaeth rhwng yr hyn sy'n digwydd yn awr a'r hyn a oedd yn digwydd cyn i'r ffordd gael ei chau. A gaf i ofyn i chi, felly, sut ydych chi'n mynd i gysoni'r mater penodol hwnnw o ran gwneud penderfyniad ar ba un a ddylid cau'r gyffordd honno ai peidio?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That will be something that will be considered, of course. The Member is right to point out the change in circumstances. The Minister will consider those factors as well as the final report before taking a decision.

Bydd hynny'n rhywbeth a gaiff ei ystyried, wrth gwrs. Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at y newid i'r amgylchiadau. Bydd y Gweinidog yn ystyried y ffactorau hynny yn ogystal â'r adroddiad terfynol cyn gwneud penderfyniad.

## Y Sefydliad Materion Cymreig

## The Institute of Welsh Affairs

13:56 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig, 'An Economic Strategy for Wales'? OAQ(4)2222(FM)*

*4. Will the First Minister outline the Welsh Government's consideration of the Institute of Welsh Affairs' report 'An Economic Strategy for Wales'? OAQ(4)2222(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The report is clear that growth can't come without investment. Despite the deep cuts to our budget from the UK Government, we are continuing to support jobs and growth right across Wales, investing in infrastructure, business finance, skills and innovation.

Gwnaf. Mae'r adroddiad yn eglur na all twf ddod heb fuddsoddiad. Er gwaethaf y toriadau dwfn i'n cyllideb gan Lywodraeth y DU, rydym ni'n parhau i gefnogi swyddi a thwf ledled Cymru gyfan, gan fuddsoddi mewn seilwaith, cyllid busnes, sgiliau ac arloesed.

13:56 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for his reply. You will note from the executive summary of that report that ambitions to close the wealth gap between Wales and England will remain elusive unless Ministers set out ambitious plans for economic growth backed up by actions. What specific actions are you taking at this time, First Minster?

Rwy’n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Byddwch yn sylwi o grynodeb gweithredol yr adroddiad hwnnw y bydd uchelgeisiau i gau'r bwlch cyfoeth rhwng Cymru a Lloegr yn parhau i fod y tu hwnt i gyrraedd oni fydd Gweinidogion yn cyflwyno cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd wedi’u hategu gan weithredoedd. Pa gamau penodol ydych chi’n eu cymryd ar hyn o bryd, Brif Weinidog?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can assure the Member that cutting the economic development budget by 30 per cent, as his party suggests, is not the place to start. I can say to him that, if you look at gross domestic household income and GVA, they have increased. Exports have increased. We know, for example, that foreign direct investment is at a record high. We know, for example, that, given the suite of business support that we’re able to offer as a Government, we have been successful in attracting in investors such as, for example, Pinewood, CGI, and Raytheon in the north, and, of course, working closely with companies such as Airbus and Tata in order to preserve jobs in factories that employ many people across the whole of Wales. That is, to my mind, evidence that what we are doing is successful.

Gallaf sicrhau'r Aelod nad torri'r gyllideb datblygu economaidd gan 30 y cant, fel y mae ei blaid ef yn ei awgrymu, yw'r lle i ddechrau. Gallaf ddweud wrtho, os edrychwch chi ar incwm aelwydydd mewnwladol gros a gwerth ychwanegol gros, eu bod wedi cynyddu. Mae allforion wedi cynyddu. Rydym ni’n gwybod, er enghraifft, bod buddsoddiad tramor uniongyrchol ar ei lefel uchaf erioed. Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, o ystyried y gyfres o gymorth busnes y gallwn ei chynnig fel Llywodraeth, ein bod wedi bod yn llwyddiannus o ran denu buddsoddwyr fel, er enghraifft, Pinewood, CGI, a Raytheon yn y gogledd, ac, wrth gwrs, gan weithio'n agos gyda chwmnïau fel Airbus a Tata er mwyn cadw swyddi mewn ffatrïoedd sy'n cyflogi llawer o bobl ar draws Cymru gyfan. Mae hynny, yn fy marn i, yn dystiolaeth bod yr hyn yr ydym ni’n ei wneud yn llwyddiannus.

13:57 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your predecessor suggested that, for Wales’s GVA, the target ought to be 90 per cent of the UK average. It is currently around 72 per cent and it hasn’t changed significantly over the period of devolution, despite two inputs of European funding. Do you share that target? Do we still stick to the 90 per cent target? If so, when do you anticipate that that will actually be achieved?

Brif Weinidog, awgrymodd eich rhagflaenydd, o ran gwerth ychwanegol gros Cymru, y dylai'r targed fod yn 90 y cant o gyfartaledd y DU. Mae tua 72 y cant ar hyn o bryd ac nid yw wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod datganoli, er gwaethaf dau fewnbwn o gyllid Ewropeaidd. A ydych chi’n cyd-fynd â'r targed hwnnw? A ydym ni’n dal yn cadw at y targed o 90 y cant? Os felly, pryd ydych chi’n rhagweld y bydd hwnnw'n cael ei gyrraedd?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, it’s important to note that GVA has improved. It’s not a question of GVA having gone backwards. It’s true to say that GVA has not improved when compared to UK figures. If you look at gross domestic household income, we know that the situation there is different and the figures are better. It is the case that we have a lot of students and a lot of people who are not working—whether they are retired—and that of course affects GVA. It’s not a true reflection of wealth within a community—GVA. But, what we do know is that we see now unemployment coming down, and we see economic activity rising. We see, for example, through schemes such as Jobs Growth Wales, 15,000 young people being offered an opportunity they wouldn’t otherwise have had, and its successor scheme will do much the same. In terms of what we are offering as a Government, we believe that we are seeing improvements to the Welsh economy, a broadening of the Welsh economic base and a level of investment not seen for 30 years.

Yn gyntaf oll, mae'n bwysig nodi bod gwerth ychwanegol gros wedi gwella. Nid yw'n fater o fod gwerth ychwanegol gros wedi gwaethygu. Mae'n wir dweud nad yw gwerth ychwanegol gros wedi gwella o'i gymharu â ffigurau'r DU. Os edrychwch chi ar incwm aelwydydd mewnwladol gros, gwyddom fod y sefyllfa honno’n wahanol a bod y ffigurau’n well. Mae'n wir fod gennym lawer o fyfyrwyr a llawer o bobl nad ydynt yn gweithio—pa un a ydyn nhw wedi ymddeol ai peidio—ac mae hynny, wrth gwrs, yn effeithio ar werth ychwanegol gros. Nid yw’n adlewyrchiad cywir o'r cyfoeth mewn cymuned—gwerth ychwanegol gros. Ond, yr hyn rydym ni yn ei wybod yw ein bod yn gweld diweithdra yn gostwng nawr, ac rydym ni’n gweld gweithgarwch economaidd yn cynyddu. Rydym ni’n gweld, er enghraifft, trwy gynlluniau fel Twf Swyddi Cymru, 15,000 o bobl ifanc yn cael cynnig cyfle na fydden nhw wedi ei gael fel arall, a bydd y cynllun sy’n ei olynu’n gwneud fwy neu lai yr un peth. O ran yr hyn yr ydym ni’n ei gynnig fel Llywodraeth, rydym ni’n credu ein bod ni’n gweld gwelliannau i economi Cymru, ehangu ar sylfaen economaidd Cymru a lefel o fuddsoddiad na welwyd ers 30 mlynedd.

**Stoc Dai Cymru (Effeithlonrwydd Ynni)**

**The Welsh Housing Stock (Energy Efficiency)**

13:59

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithlonrwydd ynni stoc dai Cymru? OAQ(4)2221(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the energy efficiency of the Welsh housing stock? OAQ(4)2221(FM)*

13:59

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn 2014-15, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £70 miliwn yn ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, sy'n cynnwys Arbed a Nest, ac mewn cymorth i welliannau mewn ardaloedd o dan arweiniad yr awdurdodau lleol. Cafodd dros 9,000 o gartrefi eu gwella yn ystod 2013-14 ac, yn ôl y ffigurau ar gyfer 2014-15, mae 8,000 o gartrefi pellach wedi cael eu gwella.

In 2014-15, Welsh Government invested £70 million in our energy efficiency programme, which includes Arbed and Nest, and support for local authority-led area-based improvements. Over 9,000 homes were improved during 2013-14, and figures for 2014-15 point to a further 8,000 homes having been improved.

13:59

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roedd Plaid Cymru a nifer o bobl eraill yn siomedig iawn bod y Llywodraeth wedi setlo am ymrwymiad o ddim ond 8 y cant o welliant mewn effeithlonrwydd ynni tai newydd yn ddiweddar, ar ôl ymgynghoriad a oedd yn ymgynghori ar welliant o 40 y cant a gwelliant o 25 y cant. Felly, roedd setlo am 8 y cant yn siomedig iawn.

Plaid Cymru and many other people were very disappointed that the Government had settled for a commitment of just 8 per cent improvement in the energy efficiency of new homes recently, following a consultation on improvements of 40 per cent and 25 per cent. So, settling on 8 per cent was very disappointing.

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Aeth nifer o aelodau'r pwyllgor amgylchedd ar ymweliad ag ardal yn Freiburg yn ddiweddar, lle mae nifer o dai yn cael eu codi i safonau 'passive house', a nifer hefyd, wrth gwrs, yn cael eu codi bellach i safonau 'plus energy'—hynny yw, maen nhw'n cynhyrchu mwy o ynni y mae'r tai yna yn ei ddefnyddio. Roedd gennych yn eich rhaglen lywodraethu ymrwymiad i sicrhau gwelliant o 55 y cant mewn effeithlonrwydd ynni o safbwynt y rheoliadau adeiladu, o'i gymharu â lefel 2006, a 40 y cant mewn cymhariaeth â lefel 2010. A ydych chi dal yn bwriadu cwrdd â'r ymrwymiad yna?

Many of the members of the environment committee visited an area of Freiburg recently, where a number of houses are being built to the passive house standard, and many are now being build to a plus energy standard—that is, that they produce more energy than they use. In your programme for government you had a commitment to secure an improvement of 55 per cent in energy efficiency from the point of view of building regulations, as compared to the 2006 level, and 40 per cent compared to 2010. Do you still intend to meet that commitment?

14:00

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dyna'r targed, wrth gwrs, ac rydym yn erfyn cwrdd â'r targed yna erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

That is the target, of course, and we expect to meet that target by the end of this Assembly term.

14:00

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, research shows that if you're living in a house that is less energy efficient, then sometimes the health and the wellbeing of the constituent living in those draughty properties suffers. You've mentioned Nest and Arbed. Can I say 'thank you' to the Welsh Government for that investment in Nest and Arbed for homes in my constituency? I wonder whether the First Minister could confirm that this will carry on and that we'll see more homes in constituencies like mine being made more energy efficient through Nest and Arbed in the future through a Welsh Labour Government.

Brif Weinidog, mae gwaith ymchwil yn dangos os ydych chi'n byw mewn tŷ sy'n llai effeithlon o ran ynni, yna weithiau mae iechyd a lles yr etholwyr sy'n byw yn y cartrefi drafftiog hynny'n dioddef. Rydych chi wedi crybwyll Nyth ac Arbed. A gaf i ddweud 'diolch' wrth Lywodraeth Cymru am y buddsoddiad hwnnw yn Nyth ac Arbed ar gyfer cartrefi yn fy etholaeth i? Tybed a allai'r Prif Weinidog gadarnhau y bydd hyn yn parhau ac y byddwn yn gweld mwy o gartrefi mewn etholaethau fel fy un i yn cael eu gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni trwy Nyth ac Arbed yn y dyfodol trwy Lywodraeth Lafur Cymru.

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we know this is an important scheme. From April 2012 to March 2015, over 1,200 homes—1,250—were improved in Denbighshire. I can say to the Member, of course, that the number of homes improved in Denbighshire will increase further this year when the Arbed scheme in Prestatyn is completed.

Gallaf, rydym ni'n gwybod bod hwn yn gynllun pwysig. Rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2015, cafodd dros 1,200 o gartrefi—1,250—eu gwella yn Sir Ddinbych. Gallaf ddweud wrth yr Aelod, wrth gwrs, y bydd nifer y cartrefi sy'n cael eu gwella yn Sir Ddinbych yn cynyddu ymhellach eleni ar ôl cwblhau cynllun Arbed ym Mhrestatyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Russell George** Bywgraffiad Biography

First Minister, I've been contacted by a solar and biomass company in my constituency, which said that Ofgem has recently withdrawn a boiler that was previously accredited for the renewable heat incentive from their approved list. Now, I am concerned that that will have a detrimental effect on renewable incentive schemes in general, and will dent home owners' confidence in energy efficiency improvements themselves. Would you be willing to take this issue up with Ofgem to ensure that home owners can make energy efficiency improvements to their homes without the fear of being penalised financially?

Brif Weinidog, mae cwmni solar a biomas yn fy etholaeth i wedi cysylltu â mi gan ddweud bod Ofgem wedi tynnu boeler, a oedd wedi'i achredu ar gyfer y cymhelliant gwres adnewyddadwy gynt, oddi ar eu rhestr gymeradwy. Nawr, rwy'n pryderu y bydd hynny'n cael effaith andwyol ar gynlluniau cymhelliant adnewyddadwy yn gyffredinol, ac yn rhoi ergyd i ffydd perchnogion tai yn y gwelliannau effeithlonrwydd ynni eu hunain. A fyddech chi'n fodlon trafod y mater hwn gydag Ofgem i sicrhau y gall perchnogion tai wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'w cartrefi heb ofni cael eu cosbi'n ariannol?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course; if the Member provides me with those details, I will of course investigate that for him.

Wrth gwrs; os gwnaiff yr Aelod roi'r manylion hynny i mi, mi wnaf ymchwilio i hynny iddo, wrth gwrs.

Senedd.tv Fideo Video

### Cau Ysgolion (Gorllewin De Cymru)

### School Closures (South Wales West)

14:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gau ysgolion yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2213(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on school closures in South Wales West? OAQ(4)2213(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Local authorities have a duty to plan school places. They should keep their school estate under review to ensure that it's providing efficiently and effectively for all learners. When proposing change, local authorities should give paramount importance to the effect of proposals on quality and standards in education.

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio lleoedd mewn ysgolion. Dylent gadw eu hystâd ysgolion dan adolygiad er mwyn sicrhau ei bod yn darparu'n effeithlon ac yn effeithiol ar gyfer pob dysgwr. Wrth gynnig newid, dylai awdurdodau lleol roi'r pwys mwyaf i effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that answer. You will appreciate that, last week, Neath Port Talbot County Borough Council moved to carry forward more closures of schools, and I name Tonmawr, Pontrhydyfen and Bryn as being the latest in the round of school closures, after Cwmgors and Clyne previously. I was in Bryn yesterday and many parents, as you would expect, are very angry, because they live in those communities and want to be able to send their children to those schools. Tonmawr has a special needs area and also, in Bryn, they have a newly refurbished trim trail in the school. What I want to try to do is to ask a constructive question in the sense that many of the people I've talked to have said that these villages might become 'retirementvilles', and that there won't be any families moving into those villages in the future. What are you doing, therefore, to work with local authorities to try to plan out where these school closures are happening in small villages, what will go to those villages so that they will have a vibrant community in the future, as opposed to becoming those retired and sleepy towns that they do not want?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Byddwch yn gwerthfawrogi, yr wythnos diwethaf, bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cymryd camau i gau mwy o ysgolion, ac rwy'n enwi Tonmawr, Pontrhydyfen a Bryn fel y diweddaraf yn y rownd o gau ysgolion, ar ôl Cwmgors a Chlun yn flaenorol. Roeddwn i yn Bryn ddoe ac mae llawer o rieni, fel y byddech yn disgwyl, yn flin iawn, gan eu bod yn byw yn y cymunedau hynny ac eisiau gallu anfon eu plant i'r ysgolion hynny. Ceir man anghenion arbennig yn Nhonmawr a hefyd, ym Mryn, mae ganddyn nhw lwybr trim sydd newydd gael ei ailwampio yn yr ysgol. Yr hyn rwy'n mynd i geisio ei wneud yw gofyn cwestiwn adeiladol yn yr ystyr bod llawer o'r bobl yr wyf wedi siarad â nhw wedi dweud y gallai'r pentrefi hyn droi'n bentrefi ymddeol, ac na fydd unrhyw deuluoedd yn symud i mewn i'r pentrefi hynny yn y dyfodol. Beth ydych chi'n ei wneud, felly, i weithio gydag awdurdodau lleol i geisio cynllunio lle mae'r achosion hyn o gau ysgolion yn digwydd mewn pentrefi bychain, beth fydd yn mynd i'r pentrefi hynny fel y bydd ganddynt gymuned fywiog yn y dyfodol, yn hytrach na'u bod yn troi'n drefi ymddeol a chysglyd nad ydyn nhw eu heisiau?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is a matter, of course, for local authorities, and the Member will know that there is the potential for Welsh Government to have a legal role in these matters, so I can't discuss in detail a specific proposal. What I can say to the Member is that local authorities must comply with the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the school organisation code. They have to consider a range of factors when proposing change. Quality and standards in education, of course, are factors that I've already mentioned, but it is important, of course, that local authorities give full consideration to all the relevant factors when considering change in education.

Mae'n fater, wrth gwrs, i awdurdodau lleol, a bydd yr Aelod yn gwybod bod yna botensial i Lywodraeth Cymru gyflawni swyddogaeth gyfreithiol yn y materion hyn, felly ni allaf drafod cynnig penodol yn fanwl. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013 a'r cod trefniadaeth ysgolion. Mae'n rhaid iddyn nhw ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynnig newid. Mae ansawdd a safonau mewn addysg, wrth gwrs, yn ffactorau yr wyf wedi eu crybwyll eisoes, ond mae'n bwysig, wrth gwrs, bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol wrth ystyried newid mewn addysg.

14:04 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following on from that response to Bethan Jenkins, First Minister, many of us will have read reports from the Local Government Association across the border warning of a crisis in primary school capacity. The LGA estimates that England will require an additional 880,000 school places over the course of the next decade. The principal cause of this is the unanticipated baby boom of recent years. Several parents whose children attend schools in my constituency whose futures are now under review have questioned the accuracy of the projected pupil numbers published by the council. They argue that these predictions reflect neither the actual population growth in surrounding communities, nor the possibility of large-scale housing development. First Minister, clearly we do not want to find ourselves in the same boat as England. I believe I am correct in saying that councils must take into account the local development plans when making school organisation decisions, but is the Welsh Government providing further guidance to local authorities on the methodology used to predict future pupil numbers?

Yn dilyn ymlaen o'r ymateb yna i Bethan Jenkins, Brif Weinidog, bydd llawer ohonom ni wedi darllen adroddiadau gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar draws y ffin yn rhybuddio am argyfwng o ran capasiti ysgolion cynradd. Mae'r Gymdeithas yn amcangyfrif y bydd angen 880,000 o leoedd ysgol ychwanegol ar Loegr yn ystod y degawd nesaf. Prif achos hyn yw'r cynnydd annisgwyl i nifer y babanod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o rieni y mae eu plant yn mynychu ysgolion yn fy etholaeth i y mae eu dyfodol yn cael eu hadolygu bellach wedi cwestiynu cywirdeb y niferoedd disgyblion rhagamcanol a gyhoeddwyd gan y cyngor. Maen nhw'n dadlau nad yw'r rhagfynegiadau hyn yn adlewyrchu'r gwirioneddol i'r boblogaeth mewn cymunedau cyfagos, na'r posibilrwydd o ddatblygiadau tai ar raddfa fawr. Brif Weinidog, mae'n amlwg nad ydym ni eisiau canfod ein hunain yn yr un sefyllfa â Lloegr. Rwy'n credu fy mod i'n iawn yn dweud bod yn rhaid i gynghorau gymryd y cynlluniau datblygu lleol i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau trefniadaeth ysgolion, ond a yw Llywodraeth Cymru yn cynnig rhagor o gyfarwyddyd i awdurdodau lleol ynghylch y dull a ddefnyddir i ragweld niferoedd disgyblion yn y dyfodol?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Local authorities are able to compare their performance on forecasting pupil numbers on a regular basis, as a result of the annual monitoring of data conducted by our own Department for Education and Skills. It's for local authorities to decide what data and methods to use in forecasting pupil numbers, but it stands to reason that the methods that they use have to be robust. Most local authorities do use birth data and local development plan information. Where local authorities don't do that, it would be a matter for them to explain what data they do rely on.

Gall awdurdodau lleol gymharu eu perfformiad o ran rhagweld niferoedd disgyblion yn rheolaidd, o ganlyniad i'r gwaith monitro blynyddol o ddata a wneir gan ein Hadran Addysg a Sgiliau ein hunain. Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu pa ddata a dulliau i'w defnyddio ar gyfer rhagweld niferoedd disgyblion, ond mae'n sefyll i reswm bod yn rhaid i'r dulliau y maen nhw'n eu defnyddio fod yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio data genedigaethau a gwybodaeth o'r cynllun datblygu lleol. Pan nad yw awdurdodau lleol yn gwneud hynny, byddai'n fater iddyn nhw egluro pa ddata maen nhw'n dibynnu arno.

14:06 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the statutory process to which you've referred for the closure of the schools to which Bethan Jenkins referred has not yet been completed—there are 28 days for objections to be lodged and that period has just started. Under the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 code, which you also referred to, it states that objections must be conscientiously considered alongside the arguments in respect of the proposals. Do you agree that the serving of redundancy notices on staff at affected schools before the expiry of that statutory objection period is evidence of the council either not wanting to, or at least not being able to, comply with that duty to conscientiously consider objections that, under the statutory process, are yet even to be lodged?

Brif Weinidog, nid yw'r broses statudol yr ydych chi wedi cyfeirio ati ar gyfer cau'r ysgolion y cyfeiriodd Bethan Jenkins atynt wedi cael ei chwblhau eto—mae 28 diwrnod i wrthwynebiadau gael eu cyflwyno ac mae'r cyfnod hwnnw newydd ddechrau. Dan god Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, y cyfeiriwyd ati gennych chi hefyd, mae'n nodi bod yn rhaid i wrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon yn ymwneud â'r cynigion. A ydych chi'n cytuno bod cyflwyno hysbysiadau diswyddo i staff mewn ysgolion yr effeithir arnynt cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu statudol hwnnw'n dystiolaeth naill ai nad yw'r cyngor eisiau, neu o leiaf nad yw'n gallu, cydymffurfio â'r ddyletswydd honno i ystyried yn gydwybodol gwrthwynebiadau nad ydynt, dan y broses statudol, wedi cael eu cyflwyno eto hyd yn oed?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Without discussing particular circumstances, it stands to reason, of course, that councils will need to ensure that they do not give the impression that any decision has already been taken. They are under an obligation, as the Member has already said, to consider all objections as part of their decision-making process.

Heb drafod amgylchiadau penodol, mae'n sefyll i reswm, wrth gwrs, y bydd angen i gynghorau sicrhau nad ydynt yn rhoi'r argraff bod unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eisoes. Mae'n rhwymedigaeth arnynt, fel y mae'r Aelod eisoes wedi ei ddweud, i ystyried yr holl wrthwynebiadau yn rhan o'u proses o wneud penderfyniadau.

**Rheoleiddio Gwasanaethau Bysiau**

**The Regulation of Bus Services**

14:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoleiddio gwasanaethau bysys yng Nghymru? OAQ(4)2212(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the regulation of bus services in Wales? OAQ(4)2212(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are exercising a range of powers, along with our local authority partners, to support and improve bus services in Wales, helping to address the negative effects of deregulation in 1986. Public funding is increasingly being made conditional on improvements that we know passengers wish to see.

Rydym ni'n arfer amrywiaeth o bwerau, ynghyd â'n partneriaid awdurdod lleol, i gefnogi a gwella gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan helpu i fynd i'r afael â'r effeithiau negyddol o ddadreoleiddio yn 1986. Mae arian cyhoeddus yn cael ei wneud yn gynyddol amodol ar welliannau y gwyddom fod teithwyr eisiau eu gweld.

14:08

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that, First Minister. Some of my constituents are experiencing problems due to the recent loss of bus services, particularly in the evenings and particularly in rural areas. As we know, the proximate cause of this situation has been cuts coming down from Westminster, which have forced councils to reduce the subsidy funding available for bus routes run by private companies. Ultimately, however, the problem does stem back to the deregulation of the bus industry in the 1980s. First Minister, when bus regulation is devolved by the next Labour Government, what action will the Welsh Government be able to take to increase the availability of services in Wales, and to improve the quality of life for many of my constituents?

Diolch am hynna, Brif Weinidog. Mae rhai o fy etholwyr yn cael problemau oherwydd y golled ddiweddar o wasanaethau bysiau, yn enwedig fin nos ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fel y gwyddom, achos pennaf y sefyllfa hon fu toriadau o San Steffan, sydd wedi gorfodi cynghorau i leihau'r cyllid cymhorthdal sydd ar gael i lwybrau bws a redir gan gwmnïau preifat. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae'r broblem yn deillio'n ôl i ddadreoleiddio'r diwydiant bysiau yn y 1980au. Brif Weinidog, pan gaiff y broses o reoleiddio bysiau ei datganoli gan y Llywodraeth Lafur nesaf, pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn gallu eu cymryd i gynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru, ac i wella ansawdd bywyd i lawer o'm hetholwyr?

14:08

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The first thing that will happen is that we will no longer have to rely on a traffic commissioner based in Birmingham, who, in my experience, is completely ineffective in terms of bus services. There are some bus operators who have invested in buses and in routes. For others, the record is not quite so good. I would anticipate that what we'd look to do is to move towards further integration of bus services, particularly with rail services. As the metro is developed, there will be a need, for example, to ensure that the bus services connect to the metro system and that there's proper integration of transport. The same thing applies to the TrawsCymru bus services: making sure that there's better integration of local bus services with those buses as they pass through the major centres of population. There's much that can be done with the proper powers in place.

Y peth cyntaf fydd yn digwydd yw na fydd yn rhaid i ni ddibynnu ar gomisiynydd traffig wedi'i leoli yn Birmingham mwyach, sydd, yn fy mhrofiad i, yn gwbl aneffeithiol o ran gwasanaethau bysiau. Ceir rhai gweithredwyr bysiau sydd wedi buddsoddi mewn bysiau ac mewn llwybrau. I eraill, nid yw'r hanes cystal. Byddwn yn rhagweld mai'r hyn y byddem yn ceisio ei wneud yw symud tuag at integreiddio gwasanaethau bysiau ymhellach, yn enwedig gyda gwasanaethau rheilffyrdd. Wrth i'r metro gael ei ddatblygu, bydd angen, er enghraifft, sicrhau bod y gwasanaethau bysiau'n cysylltu â'r system metro, a bod integreiddio priodol o drafnidiaeth. Mae'r un peth yn berthnasol i wasanaethau bysiau TrawsCymru: gwneud yn siŵr bod integreiddio gwell o wasanaethau bysiau lleol gyda'r bysiau hynny wrth iddyn nhw fynd trwy'r prif ganolfannau poblogaeth. Mae llawer y gellir ei wneud gyda'r pwerau priodol ar waith.

14:09

## Byron Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, we're all aware of the mess-up, if I can put it that way, that was the concessionary fare funding arrangements with bus operators in Wales on the part of your Government, and the subsequent involvement of the courts. You'll be aware that there is a cross-party consensus regarding the future of concessionary fares: we should keep them. Given this, can you give the Assembly a commitment that your Government will properly fund the concessionary fares scheme that enables bus companies to actually run the buses, which are particularly important in rural areas for our senior citizens, in places such as Gower?

Brif Weinidog, rydym ni i gyd yn ymwybodol o lanast, os caf ei roi felly, trefniadau ariannu tocynnau teithio rhatach gyda gweithredwyr bysiau yng Nghymru ar ran eich Llywodraeth, a chyfranogiad dilynol y llysoedd. Byddwch yn ymwybodol bod consensws trawsbleidiol ynglŷn â dyfodol tocynnau teithio rhatach: dylem ni eu cadw. O ystyried hyn, a allwch chi roi ymrwymiad i'r Cynulliad y gwnaiff eich Llywodraeth ariannu'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn briodol gan alluogi cwmnïau bysiau i redeg y bysiau mewn gwirionedd, sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig i'n dinasyddion hŷn, mewn mannau fel Gŵyr?

14:10

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the Member has mishandled that question, hasn't he? I think we have to say that he has some brass neck to stand there and demand that we keep concessionary fares —which we will, incidentally; I can give him that assurance —when it was a Labour Government that introduced them in the first place in Wales to all those over 60 and those who are disabled, at a level of generosity that his party has failed to match in England. We know full well that if ever they got their hands on the reins of power here in Wales, then the concessionary fares scheme would disappear as we know it. I do wonder, sometimes, why he chooses this ground on which to fight.

Wel, mae'r Aelod wedi cam-drin y cwestiwn yna, onid yw e? Rwy'n credu bod yn rhaid i ni ddweud bod ganddo yr hyfdra i sefyll yn y fan yna a galw arnom ni i gadw tocynnau rhatach—y byddwn yn ei wneud, gyda llaw; gallaf roi'r sicrwydd hwnnw iddo—pan mai Llywodraeth Lafur wnaeth eu cyflwyno yn y lle cyntaf yng Nghymru i bawb dros 60 oed a'r rhai sy'n anabl, ar lefel o haelioni y mae ei blaid ef wedi methu â'i gyfateb yn Lloegr. Rydym ni'n gwybod yn iawn, pe byddent fyth yn cael eu dwylo ar awenau grym yma yng Nghymru, yna byddai'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn diflannu fel yr ydym yn ei adnabod. Rwyf yn pendroni, weithiau, pam mae'n dewis ymladd ar y pwnc hwn.

14:10 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog, wrth ateb y cwestiwn blaenorol gennyf i, am gydnabod cyfraniad Plaid Cymru yn sicrhau bod yna gysylltiad awyr a rheilffordd effeithiol rhwng gogledd Cymru a de Cymru? Ond, roedd y cwestiwn a ofynnais i am drafnidiaeth integredig. Nawr, wrth ymateb i Gwenda Thomas, roeddech chi'n cydnabod bod hynny wedi methu dros yr 16 mlynedd diwethaf a bod yn rhaid ichi wynebu'r her yma o'r newydd a sicrhau bod amserau bws, er enghraifft, yn cyd-fynd ag amserau trên ac amserau'r metro rŷch chi'n sôn am ei gyflwyno. Nid yw hynny wedi llwyddo dros yr 16 mlynedd diwethaf yng Nghymru, Brif Weinidog.

May I thank the First Minister for recognising, when responding to my previous question, the contribution of Plaid Cymru in ensuring that there are effective air and rail links between north and south Wales? But, the question I actually asked was about integrated transport. Now, in response to Gwenda Thomas, you acknowledged that that had failed over the past 16 years and that you have to face this challenge anew and ensure that the bus times, for example, fit in with the train times and the times of the metro that you hope to introduce. That hasn't succeeded over the past 16 years in Wales, First Minister.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Tri pheth: yn gyntaf, ynglŷn â'r awyren; iawn, wrth gwrs, yr hen Weinidog Ieuan Wyn Jones oedd y tu ôl i hynny. Ynglŷn â threnau, wel, na, roedd hynny wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Lafur, ond, beth bynnag, mae pethau wedi newid am y gorau. Ond, mae e'n gwneud pwynt teg, sef, nid yw'n mynd i fod yn bosib sicrhau system o drafnidiaeth integredig o achos y ffaith nad oes unrhyw bwerau gennym dros reoleiddio'r bysys eu hunain. Felly, bydd y pwerau newydd yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y gwasanaethau sydd gennym yn awr yn fwy integredig, yn rhedeg yn fwy aml, ac, wrth gwrs, yn well ynglŷn â bysiau eu hunain. Felly, mae yna lot fawr o bethau y gallem eu gwneud gyda'r pwerau newydd hyn.

Three things: first of all, in terms of the air link; yes, of course, you're right that it was the previous Minister Ieuan Wyn Jones who was behind that. In terms of the trains, no, that was actually delivered by a Labour Government, but, either way, tings have changed for the better. He makes a fair point: it won't be possible to ensure an integrated transport system because of the fact that we don't have powers over the regulation of buses themselves. New powers would give us an opportunity to ensure that the services we have now are more integrated, run more regularly and are indeed improved in terms of the buses themselves. So, there are a number of things that we could do with these new powers.

## Adroddiad Holtham 2010

## The 2010 Holtham Report

14:12 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i ddiweddaru canfyddiadau adroddiad Holtham 2010? OAQ(4)2210(FM)*

*8. What studies has the Welsh Government undertaken to update the findings of the Holtham report 2010? OAQ(4)2210(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Roedd y Trysorlys i fod i wneud hwn; fe ddywedon nhw y bydden nhw'n ei wneud e, a bydd yna gyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys yn Llundain yr wythnos nesaf i weld beth sydd wedi cael ei wneud lan i nawr.

The Treasury was supposed to do this; they had said that they would do it and there will be a meeting between Welsh Government officials and Treasury officials in London next week to see what has been done up until now.

14:12 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am y diweddariad, Brif Weinidog. Roeddem ni'n gwybod, pan gyhoeddwyd adroddiad Holtham, fod Cymru'n cael ei thangyllido o ryw £300 miliwn y flwyddyn. Mae hynny'n golygu, yn ystod eich cyfnod fel Prif Weinidog, rydych chi wedi gweld colled i gyllid Cymru o £1.5 biliwn, ac yn fy marn i, mae hynny'n rhannol gyfrifol am ddal y genedl yn ôl. Nawr, rŷm ni'n gwybod bod yr Alban yn cael setliad mwy hael ac rŷm ni'n gwybod bod Ed Miliband wedi addo cadw'r setliad presennol yn yr Alban gyda'r llw enwog, gydag arweinwyr y pleidiau Prydeinig eraill. Mae yna ddwy blaid yng Nghymru ar hyn o bryd sydd am unioni'r sefyllfa yma: mae Plaid Cymru am godi lefel gyllido Cymru i lefel yr Alban, sef £1.2 biliwn yn ychwanegol, ac mae UKIP am dorri lefel gyllido'r Alban i lawr i lefel Cymru. A ydych chi'n sefyll gyda Phlaid Cymru neu gydag UKIP?

Thank you for that update, First Minister. We know that, when the Holtham report was published, Wales was being underfunded by some £300 million per annum. That means that, during your period as First Minister, you have seen losses to the Welsh budget of £1.5 billion, and in my view, that is partially responsible for holding the nation back. We know that Scotland is given a more generous settlement and we know that Ed Miliband has pledged to retain that settlement in Scotland with the famous vow made with the other British party leaders. There are two parties in Wales that want to put this right: Plaid Cymru wants to increase the funding level of Wales to the level in Scotland, which is £1.2 billion in addition, and UKIP wants to cut Scottish funding down to the Welsh level. Do you stand with Plaid Cymru or with UKIP on that?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Nid wyf yn sefyll gyda'r un ohonoch chi achos, gyda UKIP, rwy'n gwybod bod UKIP yn moyn ymosod ar yr Alban—rŷm ni'n gweld hynny, wrth gwrs. Cwestiwn clyfar dros ben wrth gwrs. Ynglŷn â Phlaid Cymru, wel, fel y dywedais i, nid yw'n ddigonol i'r SNP ddweud eu bod yn eich cefnogi chi fel plaid, ond hefyd ddweud, 'Nid ŷch chi'n cael ceiniog gennym ni'. Nid yw'n gweithio fel yna, achos yr unig ffordd y gall hynny ddigwydd yw cael rhyw fath o adolygiad cynhwysfawr o fformiwla Barnett a byddai'r Alban yn colli allan o hynny. Felly, rwy'n gallu gweld pam maen nhw'n moyn dweud, 'Nid ŷch chi'n cael ceiniog gennym ni' lan yng Nghaeredin.

I stand with neither of you because, with UKIP, I know that UKIP wants to attack Scotland— we see that, of course. A very clever question, of course. As regards Plaid Cymru, well, as I said, it's not enough for the SNP to say that they support you as a party but to say, 'You're not going to get a penny from us'. It doesn't work like that, because the only way that could happen would be to have some kind of comprehensive review of the Barnett formula and Scotland would then of course lose out. So, I can see why they're saying, 'You're not going to get a penny from us', up in Edinburgh.

Wrth ddweud hynny, mae Gerry Holtham ei hun, wrth gwrs, wedi dweud nad yw'r rhif ei hun yn £300 miliwn rhagor. Mae'r ffigwr yna wedi lleihau. Meddai'r Ysgrifennydd Gwladol nad oes yna fwlch o gwbl. Nid ydym yn derbyn hynny, wrth gwrs, ond mae'n bwysig dros ben ein bod yn deall beth yw'r bwlch ar hyn o bryd, ac, fel plaid, rydym wedi dweud ein bod yn mynd i sicrhau bod y bwlch hwnnw'n cael ei lenwi.

Having said that, Gerry Holtham has said that the figure is no longer £300 million; that figure has been reduced. The Secretary of State says that there is no gap at all. Of course, we do not accept that, but it is very important that we understand what the actual gap is. As a party, we have said that we will ensure that that gap is closed.

14:14 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, First Minister, what the Treasury has offered you and the UK coalition Government has offered you is a Barnett floor, which was, of course, ignored by the previous Labour Government, despite Gerry Holtham's report saying that a Barnett floor was necessary at times of growing economy and growing funding in public services. Will you now fully support and take the opportunity that is offered to you with the Barnett floor, First Minister, and agree with me that this is a vital change, because, when the deficit is eliminated by the next Conservative Government, it'll be very important that funding here in Wales keeps up with funding in England?

Wel, Brif Weinidog, yr hyn y mae'r Trysorlys wedi ei gynnig i chi a'r hyn y mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi ei gynnig i chi yw terfyn isaf Barnett, a anwybyddwyd, wrth gwrs, gan y Llywodraeth Lafur flaenorol, er gwaethaf y ffaith i adroddiad Gerry Holtham ddweud bod terfyn isaf Barnett yn angenrheidiol ar adegau pan fydd yr economi'n tyfu a chyllid cynyddol mewn gwasanaethau cyhoeddus. A wnewch chi gefnogi'n llawn nawr, a manteisio ar y cyfle a gynigir i chi gyda therfyn isaf Barnett, Brif Weinidog, a chytuno â mi bod hwn yn newid hanfodol, oherwydd, pan fydd y Llywodraeth Geidwadol nesaf yn dileu'r diffyg, bydd yn bwysig iawn bod cyllid yma yng Nghymru yn cadw i fyny â chyllid yn Lloegr?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member would not believe the resistance in his own party in Westminster to a Barnett floor. He would not believe the sheer resistance. It was our idea; we put it forward and we got it there. We certainly enjoyed the support of Danny Alexander, which I acknowledge, but I can tell you now, if he thinks that his party was going to deliver a Barnett floor—that pressure was put on them—then he is being naive, I have to say. Let's bear in mind another thing as well, of course: we are still none the wiser as to whether a Barnett floor is dependent on an income tax referendum or not. We've seen what was in their manifesto, in black and white in the manifesto, clarified, apparently, an hour later—in other words, meaning, 'We didn't know it was there; we didn't read it properly'. And then we had the Prime Minister saying something different again, saying, 'Yes, the two things are linked.' At some point in time, and this is not for now—this is not questions to the Conservatives—but I offer them the chance, at some point, to clarify whether their manifesto is correct, or whether what they said an hour later is correct, or whether what their current Prime Minister said some days later is correct. It's an utter mess.

Ni fyddai'r Aelod yn credu'r gwrthwynebiad yn ei blaid ei hun yn San Steffan i derfyn isaf Barnett. Ni fyddai'n credu'r gwrthwynebiad llwyr. Ein syniad ni oedd e; ni wnaeth ei gyflwyno, ac ni wnaeth ei gael yno. Cawsom gefnogaeth Danny Alexander yn sicr, ac rwy'n cydnabod hynny, ond gallaf ddweud wrthych nawr, os yw'n meddwl bod ei blaid yn mynd i gyflwyno terfyn isaf Barnett—rhoddwyd y pwysau hynny arnyn nhw—yna mae'n bod yn naïf, mae'n rhaid i mi ddweud. Gadewch i ni gadw rhywbeth arall mewn cof hefyd, wrth gwrs: nid ydym ddim callach o hyd o ran a yw terfyn isaf Barnett yn ddibynnol ar refferendwm treth incwm ai peidio. Rydym ni wedi gweld yr hyn a oedd yn eu maniffesto, mewn du a gwyn yn y maniffesto, a eglurwyd, mae'n debyg, awr yn ddiweddarach—yn golygu, mewn geiriau eraill, 'Nid oeddem ni'n gwybod ei fod yno; ni wnaethom ei ddarllen yn iawn'. Ac yna cawsom y Prif Weinidog yn dweud rhywbeth gwahanol eto, gan ddweud, 'Ydy, mae'r ddau beth yn gysylltiedig.' Ar ryw adeg, ac nid yw hyn ar gyfer nawr—nid cwestiynau i'r Ceidwadwyr yw'r rhain—ond rwy'n cynnig y cyfle iddyn nhw, ar ryw adeg, i egluro a yw eu maniffesto'n gywir, neu a yw'r hyn a ddywedasant awr yn ddiweddarach yn gywir, neu a yw'r hyn a ddywedodd eu Prif Weinidog presennol rai diwrnodau'n ddiweddarach yn gywir. Mae'n llanast llwyr.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Cwestiwn Brys: Tanau Glaswellt** / **Urgent Question: Grass Fires**

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on William Graham to ask that question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar William Graham i ofyn y cwestiwn hwnnw.

14:16 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fentrau i fynd i'r afael â'r nifer frawychus o danau glaswellt a gaiff eu cynnau yn fwriadol? EAQ(4)0548(PS)*

*Will the Minister make a statement on initiatives to tackle the alarming rate of deliberate grass fires? EAQ(4)0548(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, those who start grass fires deliberately are committing a criminal offence. I welcome the strong statement from South Wales Police yesterday. I commend the hard work of firefighters in Wales in tackling these appalling fires. We will support the fire service and the police to protect our communities.

Lywydd, mae'r rhai sy'n cychwyn tanau glaswellt yn fwriadol yn cyflawni trosedd. Rwy'n croesawu'r datganiad cryf gan Heddlu De Cymru ddoe. Rwy'n cymeradwyo gwaith caled diffoddwyr tân yng Nghymru wrth ymladd y tanau ofnadwy hyn. Byddwn yn cefnogi'r gwasanaeth tân a'r heddlu i amddiffyn ein cymunedau.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I'm most grateful to the Minister for his answer. He will know that I have raised this, as have other Members, in the Chamber on many occasions. I pay tribute to him and his predecessors; they have done their very best to reduce the alarming rate of these grass fires.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod fy mod wedi codi hyn, fel y mae Aelodau eraill, yn y Siambr droeon. Talaf deyrnged iddo ef a'i ragflaenwyr; maen nhw wedi gwneud eu gorau glas i leihau cyfradd frawychus y tanau glaswellt hyn.

Senedd.tv Fideo Video

We know that these fires are both wicked and senseless and they potentially put communities at risk. But it does show, as the Minister has illustrated, the dedication and professionalism of our fire and rescue services. It also puts the emergency call centres under enormous and unnecessary pressure. At this time of the year, a whole generation of ground-nesting birds and young animals are lost in the affected areas. May I ask the Minister to assure me that, when ministerial contacts resume, there will be proper representation made to the judicial committees so that, when they come to review sentencing guidelines, this becomes a meaningful deterrent to arson of this kind and that a custodial sentence will result?

Rydym yn gwybod bod y tanau hyn yn ddrygionus ac yn ddisynnwyr a'u bod o bosibl yn rhoi cymunedau mewn perygl. Ond mae yn dangos, fel y mae'r Gweinidog wedi ei nodi, ymroddiad a phroffesiynoldeb ein gwasanaethau tân ac achub. Mae hefyd yn rhoi'r canolfannau galwadau brys dan bwysau aruthrol a diangen. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, caiff cenhedlaeth gyfan o adar sy'n nythu ar y ddaear ac anifeiliaid ifanc eu colli yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. A gaf i ofyn i'r Gweinidog fy sicrhau, pan fydd cysylltiadau gweinidogol yn ailddechrau, y bydd sylwadau priodol yn cael eu gwneud i'r pwyllgorau barnwrol fel, pan fyddant yn dod i adolygu canllawiau dedfrydu, bod hwn yn dod yn arf ataliol ystyrlon i losgi bwriadol o'r math hwn ac y bydd dedfryd o garchar yn dilyn?

14:17

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank William Graham for the tone in which he's asked his supplementary question? Let me say that I have, myself, spoken to the chief officers of all the fire and rescue authorities today to thank them for the work that is being done and to get their views on the situation at the present time, as well as representatives of the police. It is the case, of course, that, as the deputy chief constable of south Wales said this morning on 'Good Morning Wales', custodial sentences are available where deliberate acts of arson have been committed. Certainly, I think that we will want to review these issues again. I think, at the present time, our responsibility as a Government is to support the fire and rescue service and the police in the actions that they are taking, and I know that there is considerable community support for the actions of the fire service and the police at the present time.

A gaf i ddiolch i William Graham am y tinc a fabwysiadwyd ganddo i ofyn ei gwestiwn atodol? Gadewch i mi ddweud fy mod i, fy hun, wedi siarad â phrif swyddogion yr holl awdurdodau tân ac achub heddiw i ddiolch iddyn nhw am y gwaith sy'n cael ei wneud ac i gael eu safbwyntiau ar y sefyllfa bresennol, yn ogystal â chynrychiolwyr yr heddlu. Mae'n wir, wrth gwrs, fel y dywedodd dirprwy brif gwnstabl de Cymru y bore yma ar 'Good Morning Wales', bod dedfrydau o garchar ar gael pan gyflawnir gweithredoedd o losgi bwriadol. Yn sicr, rwy'n meddwl y byddwn eisiau adolygu'r materion hyn eto. Rwy'n meddwl, ar hyn o bryd, mai ein cyfrifoldeb ni fel Llywodraeth yw cefnogi'r gwasanaeth tân ac achub a'r heddlu yn y camau maen nhw'n eu cymryd, a gwn fod cefnogaeth gymunedol sylweddol i weithredoedd y gwasanaeth tân a'r heddlu ar hyn o bryd.

14:18

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to add my comments to those already made paying tribute to the hard work of the South Wales Fire and Rescue Service. These fires have a devastating impact on our communities and, last weekend, I saw first hand the terrible scale of the fire in my own area between Abercynon and Cilfynydd, and I know that others will have similar stories to tell from their constituencies. Now, we know that this is not a new problem. Along with other Assembly Members, I've been highlighting the issues for a number of years. Certainly, the problem has gone back generations, so it's not a new thing, but deliberately set grass fires seem to be getting more common. Incidents are up 892% on April last year, and, in comments that appeared today, the head of south Wales fire and rescue's community and safety partnership said the spate of fires was linked to cultural issues and poverty. Minister, what work does your department intend to do to delve beneath the surface to better understand why these fires are set, and how do you intend working with schools and community groups to promote the dangers inherent in this reckless behaviour? I'm not confident, Minister, that we won't be facing the same problem next year. So, what specific lessons can we learn so that the scale of the problem diminishes in future years?

Hoffwn ychwanegu fy sylwadau at y rhai a wnaed eisoes yn talu teyrnged i waith caled Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae'r tanau hyn yn cael effaith ddinistriol ar ein cymunedau ac, y penwythnos diwethaf, gwelais drosof fy hun raddfa ofnadwy'r tân yn fy ardal fy hun rhwng Abercynon a Chilfynydd, a gwn y bydd gan eraill straeon tebyg i'w hadrodd o'u hetholaethau nhw. Nawr, rydym ni'n gwybod nad yw hon yn broblem newydd. Ynghyd ag Aelodau eraill o'r Cynulliad, rwyf wedi bod yn tynnu sylw at y materion ers nifer o flynyddoedd. Yn sicr, mae'r broblem wedi bodoli ers cenedlaethau, felly nid yw'n rhywbeth newydd, ond mae'n ymddangos bod tanau glaswellt bwriadol yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae nifer yr achosion wedi cynyddu 892% ers mis Ebrill y llynedd, ac, mewn sylwadau a ymddangosodd heddiw, dywedodd pennaeth partneriaeth cymuned a diogelwch gwasanaeth tân ac achub de Cymru bod y gyfres o danau'n gysylltiedig â materion diwylliannol a thlodi. Weinidog, pa waith mae eich adran yn bwriadu ei wneud i ymchwilio dan yr wyneb i ddeall yn well pam mae'r tanau hyn yn cael eu cynnau, a sut ydych chi'n bwriadu gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i hyrwyddo'r peryglon sy'n gynhenid yn yr ymddygiad di-hid hwn? Nid wyf yn hyderus, Weinidog, na fyddwn yn wynebu'r un broblem y flwyddyn nesaf. Felly, pa wersi penodol allwn ni eu dysgu fel bod maint y broblem yn lleihau yn y dyfodol?

14:20

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

My colleague the Member for the Cynon Valley is absolutely right to signal the way in which these fires have occurred over many years in her community, in my own communities in the Rhondda, and in other communities in south Wales. I've asked my officials to consider the available research on why perpetrators undertake these crimes, and that's something we will be considering and discussing with the fire and rescue authorities and with the police. While there has been a significant increase in grass fires this April, we know that, of course, warm, dry weather and the coincidence of school holidays do contribute to the spike in issues. We know also that fire and rescue services have arson-reduction programmes in place, which include specific programmes aimed at young people on the cusp of offending. This week, the South Wales Fire and Rescue Service will be visiting schools in a number of communities, including within Rhondda Cynon Taf, with hard-hitting messages about starting deliberate fires. They have fire safety programmes, of course, already in place for schools and youth services.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Gwm Cynon yn gwbl gywir i nodi'r ffordd y mae'r tanau hyn wedi digwydd dros flynyddoedd lawer yn ei chymuned, yn fy nghymunedau fy hun yn y Rhondda, ac mewn cymunedau eraill yn y de. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y gwaith ymchwil sydd ar gael ar pam mae pobl yn cyflawni'r troseddau hyn, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried ac yn ei drafod gyda'r awdurdodau tân ac achub a chyda'r heddlu. Er y bu cynnydd sylweddol mewn tanau glaswellt y mis Ebrill hwn, rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod tywydd cynnes a sych a chyd-ddigwyddiad gwyliau'r ysgol yn cyfrannu at y cynnydd sydyn mewn achosion. Rydym hefyd yn gwybod bod gan wasanaethau tân ac achub raglenni ar waith ar gyfer gostwng nifer yr achosion o losgi bwriadol, sy'n cynnwys rhaglenni penodol ar gyfer pobl ifanc sydd ar fin troseddu. Yr wythnos hon, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymweld ag ysgolion mewn nifer o gymunedau, gan gynnwys Rhondda Cynon Taf, gyda negeseuon difrifol am ddechrau tanau yn fwriadol. Mae ganddynt raglenni diogelwch tân, wrth gwrs, sydd eisoes ar waith ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ieuenctid.

14:21

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, you may be aware that Beci Newton, the Plaid Cymru candidate in Caerphilly, is a firefighter. She tells me that crews are returning to their stations absolutely exhausted. Minister, is there a way of looking to employ temporary rangers or observers, or even to assist local volunteers to patrol vulnerable parts of land during these times when grass fires are most likely? I understand the cost so far in south Wales alone is £800,000. That is money that could be better spent by trying to prevent these fires. Perhaps we could work with landowners as well. And do you agree with me that more threats to close fire stations in the areas concerned are not helping?

Weinidog, efallai y gwyddoch fod Beci Newton, ymgeisydd Plaid Cymru yng Nghaerffili, yn ddiffoddwr tân. Mae hi'n dweud wrthyf fod criwiau'n dychwelyd i'w gorsafoedd wedi blino'n lân. Weinidog, a oes ffordd o ystyried cyflogi parcmyn neu arsylwyr dros dro, neu hyd yn oed i gynorthwyo gwirfoddolwyr lleol i batrolio darnau o dir agored i ddifrod yn ystod yr adegau hyn pan fo tanau glaswellt yn fwyaf tebygol? Rwy'n deall bod y gost yn £800,000 hyd yn hyn a hynny ddim ond yn y de. Mae hwnnw'n arian y gellid ei wario'n well trwy geisio atal y tanau hyn. Efallai y gallem weithio gyda thirfeddianwyr hefyd. Ac a ydych chi'n cytuno â mi nad yw mwy o fygythiadau i gau gorsafoedd tân yn yr ardaloedd dan sylw yn helpu?

14:22

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, I think it's right to say that the average number of callouts for South Wales Fire and Rescue Service is somewhere around 50 a day at the present time. There is no doubt that our firefighters are under considerable pressure and, indeed, let me say, are, in some circumstances—and I have had this said to me today by the chief officer of Mid and West Wales Fire and Rescue Service, which of course covers Swansea and Neath Port Talbot—being diverted from house fires as a result of the challenges that they are facing. We are very clear that we will give the fire service whatever support is necessary for them. I am delighted that members of the community have themselves come forward to offer their support to the fire service, and I've discussed that today with the chief fire officer of the south Wales fire and rescue authority, and we are looking into what can be done to support those members of the community on an organised basis in making their time available to support fire and rescue authorities.

Lywydd, rwy'n meddwl ei bod yn iawn i ddweud mai tua 50 y diwrnod yw'r nifer gyfartalog o weithiau y gelwir Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru allan ar hyn o bryd. Nid oes amheuaeth bod ein diffoddwyr tân dan bwysau sylweddol ac, yn wir, gadewch i mi ddweud, dan rai amgylchiadau—a dywedwyd hyn wrthyf heddiw gan brif swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n gwasanaethu Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wrth gwrs—eu bod yn cael eu harallgyfeirio o danau mewn tai o ganlyniad i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu. Rydym ni'n eglur iawn y byddwn yn rhoi pa bynnag gymorth sydd ei angen arno i'r gwasanaeth tân. Rwy'n falch iawn bod rhai aelodau o'r gymuned eu hunain yn dod ymlaen i gynnig eu cefnogaeth i'r gwasanaeth tân, ac rwyf wedi trafod hynny heddiw gyda phrif swyddog tân awdurdod tân ac achub de Cymru, ac rydym ni'n ystyried beth y gellir ei wneud i gefnogi'r aelodau hynny o'r gymuned ar sail drefnus i roi eu hamser ar gael i gefnogi awdurdodau tân ac achub.

14:23 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would too like to put on record my thanks to the members of the fire and rescue service, and of course the police, who have been responding to these dreadful incidents. You'll be aware, of course, as Member for the Rhondda, of the devastating impact it's had in both the Rhondda and the Cynon Valleys in my region. Two brief points: the first is, what do you think the impact of the decision last year to close stations such as Porth, which is of course in the heart of one of these areas worst affected, will have in terms of response times now and in the future? The second issue is about education. There was an award-winning project, called Project Bernie, back in 2011, which was working between Cardiff University and the South Wales Fire and Rescue Service to try to encourage behavioural change. It did have a noticeable impact in the areas where it was running. Is that project still going, and what can we do to try to change behaviour in a more consistent fashion so that we can avoid this in the future?

Hoffwn innau hefyd gofnodi fy niolch i aelodau'r gwasanaeth tân ac achub, ac wrth gwrs yr heddlu, sydd wedi bod yn ymateb i'r digwyddiadau ofnadwy hyn. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fel yr Aelod dros y Rhondda, o'r effaith ddinistriol maen nhw wedi ei chael yng Nghwm Rhondda a Chwm Cynon yn fy rhanbarth i. Dau bwynt cryno: y cyntaf yw, pa effaith ydych chi'n ei gredu y bydd y penderfyniad y llynedd i gau gorsafoedd fel Porth, sydd yng nghanol un o'r ardaloedd a effeithir waethaf, wrth gwrs, yn ei chael o ran amseroedd ymateb nawr ac yn y dyfodol? Mae'r ail fater yn ymwneud ag addysg. Roedd prosiect arobryn, o'r enw Prosiect Bernie, yn ôl yn 2011, a oedd yn gweithio mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i geisio annog newid ymddygiad. Cafodd effaith amlwg yn yr ardaloedd lle cafodd ei redeg. A yw'r prosiect hwnnw'n dal i fynd, a beth allwn ni ei wneud i geisio newid ymddygiad mewn ffordd fwy cyson fel y gallwn osgoi hyn yn y dyfodol?

14:24 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the specific project that the Member refers to, Project Bernie, led to the incidence of grass fires falling by almost 80 per cent in the five target areas between 2010 and 2014. We also know that re-offending rates from participants in the fire services' Phoenix programme, which aims to divert young people from offending behaviour, are typically below 5 per cent. These and other schemes, of course, are funded by the Welsh Government and delivered by the fire and rescue service in conjunction with other partners. In respect of the issue of fire station closures, scheduled station closes closures are having no impact, of course, on the response times to the present series of incidents, and I suggest that we focus on the immediate issue, which is the need to support the fire and rescue services and the police.

Wel, arweiniodd y prosiect penodol y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, Prosiect Bernie, at ostyngiad o bron i 80 y cant yn yr achosion o danau glaswellt yn y bum ardal darged rhwng 2010 a 2014. Rydym hefyd yn gwybod bod cyfraddau aildroseddu ymhlith cyfranogwyr yn rhaglen Phoenix y gwasanaethau tân, sydd â'r nod o arallgyfeirio pobl ifanc o ymddygiad troseddol, yn is na 5 y cant fel rheol. Ariennir y rhain a chynlluniau eraill, wrth gwrs, gan Lywodraeth Cymru ac fe'u darperir gan y gwasanaeth tân ac achub ar y cyd â phartneriaid eraill. O ran y mater o gau gorsafoedd tân, nid yw'r achosion a drefnwyd o gau gorsafoedd yn cael unrhyw effaith, wrth gwrs, ar yr amseroedd ymateb i'r gyfres bresennol o ddigwyddiadau, ac awgrymaf ein bod yn canolbwyntio ar y mater sy'n ein hwynebu, sef yr angen i gefnogi'r gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu.

14:25 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the answers you've given so far and in particular for highlighting in that last response where there are certain examples we can use that can reduce the incidence of these outbreaks and educate young people of the dangers. I, too, join in the sentiments that have been expressed by other Members showing our appreciation for the fire service and all the other professionals who're having to deal with these fires. Even in the Vale of Glamorgan, we've had these fires for the first time for many years.

Weinidog, diolch i chi am yr atebion yr ydych chi wedi eu rhoi hyd yn hyn ac yn arbennig am dynnu sylw yn yr ymateb diwethaf yna at lle y ceir enghreifftiau penodol y gallwn eu defnyddio a all leihau nifer yr achosion hyn ac addysgu pobl ifanc am y peryglon. Rwyf innau, hefyd, yn cyd-fynd â'r safbwyntiau a fynegwyd gan Aelodau eraill sy'n dangos ein gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth tân a'r holl weithwyr proffesiynol eraill sydd yn gorfod ymdrin â'r tanau hyn. Hyd yn oed ym Mro Morgannwg, rydym ni wedi cael y tanau am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.

I was just wondering whether your officials will be examining, along with the police and the fire authorities, the use of social media when these fires break out. Very often, there is very much one-upmanship, and I think there is evidence of that in social media, by showing the effects of these fires. When other criminal acts are undertaken—because these are criminal acts; it's arson and vandalism—if certain acts do happen on social media that encourage repetition or a repeat of such actions, then the police do use their powers to obviously use the force of law against those people who are trying to promote it via social media. So, I've been wondering whether the Minister has any thoughts on that and whether his officials will be undertaking discussions with the social media operators.

Roeddwn i'n meddwl tybed a fydd eich swyddogion yn archwilio, ynghyd â'r heddlu a'r awdurdodau tân, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol pan fydd y tanau hyn yn digwydd. Yn aml iawn, mae llawer iawn o gystadlu, ac rwy'n credu bod tystiolaeth o hynny ar gyfryngau cymdeithasol, trwy ddangos effeithiau'r tanau hyn. Pan fo troseddau eraill yn cael eu cyflawni—oherwydd mae'r rhain yn droseddau; mae'n llosgi bwriadol a fandaliaeth—os bydd rhai gweithredoedd yn digwydd ar gyfryngau cymdeithasol sy'n annog ailadrodd gweithredoedd o'r fath, yna mae'r heddlu'n defnyddio eu pwerau i ddefnyddio grym y gyfraith yn erbyn y bobl hynny sy'n ceisio hyrwyddo hyn trwy gyfryngau cymdeithasol. Felly, rwyf wedi bod yn meddwl tybed a oes gan y Gweinidog unrhyw syniadau ynghylch hynny ac a fydd ei swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda gweithredwyr y cyfryngau cymdeithasol.

14:26 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we've had discussions with the deputy chief constable of South Wales Police in respect of social media. It is obviously important that intelligence is gathered, not only directly from members of the community, but also on social media. The Member is right to draw attention to that.

Wel, rydym wedi cael trafodaethau gyda dirprwy brif gwnstabl Heddlu De Cymru ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n amlwg yn bwysig bod gwybodaeth yn cael ei chasglu, nid yn unig gan aelodau'r gymuned yn uniongyrchol, ond hefyd ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at hynny.

Can I also commend the use of social media by the fire and rescue authorities, particularly South Wales fire and rescue, and the South Wales Police in sending out messages to the wider community on how their services are addressing the challenges that they're facing? I think that's become an important development in the communications armoury that is open to the fire service, so that members of the community know precisely what is being done on their behalf.

A gaf i hefyd gymeradwyo'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan yr awdurdodau tân ac achub, yn enwedig gwasanaeth tân ac achub De Cymru, a Heddlu De Cymru i anfon negeseuon i'r gymuned ehangach ar sut mae eu gwasanaethau'n mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu? Rwy'n credu bod hynny wedi dod yn ddatblygiad pwysig yn yr arfogaeth gyfathrebu sydd ar gael i'r gwasanaeth tân, fel bod aelodau'r gymuned yn gwybod yn union beth sy'n cael ei wneud ar eu rhan.

14:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm very gratified by the statements you've made this afternoon. I know you share the horror of all of us who saw the events over the last few days, and in your constituency and in my constituency in Blaenau Gwent there were people who were frightened in their homes and also horrified by what they were seeing on the mountains above their constituencies. I'm very glad that you've taken the time urgently to speak to both the fire authorities and also to the police. I hope you will pass on the gratitude of all of our communities to the fire authorities for the work that firefighters have been doing over the last few days and I very much support your calls to apprehend and to punish the people who are responsible for creating these fires in the first place.

Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am y datganiadau yr ydych chi wedi eu gwneud y prynhawn yma. Rwy'n gwybod eich bod yn rhannu arswyd pob un ohonom ni a welodd y digwyddiadau yn ystod y diwrnodau diwethaf, ac yn eich etholaeth chi a'm hetholaeth innau ym Mlaenau Gwent, roedd pobl a oedd yn ofnus yn eu cartrefi a hefyd wedi'u dychryn gan yr hyn roedden nhw'n ei weld ar y mynyddoedd uwchben eu hetholaethau. Rwy'n falch iawn eich bod wedi cymryd yr amser i siarad ar frys â'r awdurdodau tân a'r heddlu hefyd. Rwy'n gobeithio y byddwch yn rhannu gwerthfawrogiad ein holl gymunedau o'r awdurdodau tân am y gwaith y mae diffoddwyr tân wedi bod yn ei wneud dros yr ychydig ddiwrnodau diwethaf ac rwy'n cefnogi'n fawr iawn eich galwadau i ddal a chosbi'r bobl sy'n gyfrifol am greu'r tanau hyn yn y lle cyntaf.

In your conversations with the fire authorities, Minister, can you ensure that the firefighters who have been on duty for hours and hours and days and days are relieved and that we do have sufficient resources to provide exactly the sort of cover that you have already described in your statement this afternoon to ensure that our communities are kept safe, and also that the firefighters are given the opportunity to recover from the experience of having to fight these needless fires?

Yn eich sgyrsiau gyda'r awdurdodau tân, Weinidog, a allwch chi sicrhau bod y diffoddwyr tân sydd wedi bod ar ddyletswydd ers oriau ac oriau a diwrnodau a diwrnodau yn cael eu rhyddhau, a bod gennym ni ddigon o adnoddau i ddarparu'r union fath o gymorth yr ydych chi eisoes wedi ei ddisgrifio yn eich datganiad y prynhawn yma i sicrhau y cedwir ein cymunedau'n ddiogel, a hefyd y rhoddir cyfle i'r diffoddwyr tân ddod dros y profiad o orfod ymladd y tanau diangen hyn?

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, my colleague the Member for Blaenau Gwent is absolutely right that we need to ensure that there is proper support for the firefighters and I made it clear to the chief fire officers that this Government will give that support to them. He's also right, I think, to talk about the reaction from the community. Members of the communities affected are rightly angry and want action taken, but many have also come forward to volunteer their support for the fire service at a community level. We also as a Welsh Government have an important role to play. The First Minister and I will therefore be holding a summit next week with the fire and rescue services, with the police, with Natural Resources Wales, and with others to formulate a clear and co-ordinated programme of action for the short, medium and long term.

Wel, mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Flaenau Gwent yn llygad ei le bod angen i ni sicrhau bod cefnogaeth briodol i'r diffoddwyr tân a gwneuthum yn eglur i'r prif swyddogion tân y bydd y Llywodraeth hon yn rhoi'r gefnogaeth honno iddynt. Mae hefyd yn iawn, yn fy marn i, i siarad am yr ymateb gan y gymuned. Mae aelodau'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt yn ddig, a hynny'n ddigon dealladwy, ac eisiau i gamau gael eu cymryd, ond mae llawer ohonyn nhw hefyd wedi gwirfoddoli eu cymorth i'r gwasanaeth tân ar lefel gymunedol. Mae gennym ninnau hefyd fel Llywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae. Felly, bydd y Prif Weinidog a minnau'n cynnal uwchgynhadledd yr wythnos nesaf gyda'r gwasanaethau tân ac achub, gyda'r heddlu, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, a chydag eraill i lunio rhaglen eglur a chydgysylltiedig o gamau ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

14:29 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the biggest and worst grass fires has been burning at Machen mountain in my constituency. As of the early hours of this morning it was still alight. I endorse all the comments made by other Members in this Chamber today and would certainly add my thanks to the firefighters that are making strenuous efforts to try to control matters. In the case of my constituency, the damage to communities, to wildlife and the vegetation must be enormous.

Weinidog, mae un o'r tanau glaswellt mwyaf a gwaethaf wedi bod yn llosgi ar fynydd Machen yn fy etholaeth i. Roedd yn dal ar dân yn ystod oriau mân y bore yma. Ategaf yr holl sylwadau a wnaed gan Aelodau eraill yn y Siambr hon heddiw, a byddwn yn sicr yn ychwanegu fy niolch i'r diffoddwyr tân sydd yn gwneud ymdrechion egnïol i geisio rheoli materion. O ran fy etholaeth i, mae'n rhaid bod y difrod i gymunedau, i fywyd gwyllt ac i'r llystyfiant yn enfawr.

Do you agree with me, Minister, that it's very important that people who feel that they may have information to pass to the police, including if it implicates their own family members, must do so, even on an anonymous basis?

A ydych chi'n cytuno â mi, Weinidog, ei bod yn bwysig iawn bod pobl sy'n teimlo y gallai fod ganddynt wybodaeth i'w rhoi i'r heddlu, gan gynnwys os yw'n ymhlygu aelodau o'u teuluoedd eu hunain, bod yn rhaid iddynt wneud hynny, hyd yn oed yn ddienw?

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I very much agree with my colleague the Member for Caerphilly. I think that we've seen public concern; for example, in his own community, there were 170 specific 999 calls about a single fire. So, I think members of the public are very actively engaged in defending their own communities. I'm also encouraged by the groups that have grown up on Facebook and on other social media, where members of the community are expressing their support for the fire service and their willingness themselves to get involved, and their demand that information, where it is available, is given to the police so that perpetrators can be apprehended.

Ydw. Rwyf yn cytuno'n llwyr â'm cydweithiwr yr Aelod dros Gaerffili. Rwy'n credu ein bod wedi gweld pryder y cyhoedd; er enghraifft, yn ei gymuned ei hun, cafwyd 170 o alwadau 999 penodol am un tân. Felly, rwy'n meddwl bod y cymoedd yn cymryd rhan ymarferol iawn yn y gwaith o amddiffyn eu cymunedau eu hunain. Cefais fy nghalonogi hefyd gan y grwpiau a gychwynnwyd ar Facebook ac ar gyfryngau cymdeithasol eraill, lle mae aelodau'r gymuned yn mynegi eu cefnogaeth i'r gwasanaeth tân a'u parodrwydd eu hunain i gymryd rhan, a'u galwadau i wybodaeth, pan ei bod ar gael, yn cael ei rhoi i'r heddlu fel y gellir dal troseddwyr.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:30

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move on to item 2, which is the Business Statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn ymlaen at eitem 2 nawr, sef y Datganiad Busnes, a galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I have several changes to announce to this week's business. Today, the Minister for Natural Resources will make a statement on cleaner, safer places for our communities, and I will make a statement on community asset transfers in Wales. The time made available for questions to the Counsel General tomorrow has been reduced to 15 minutes, as only one question has been tabled.

Diolch, Lywydd. Mae gennyf sawl newid i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Heddiw, bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gwneud datganiad ar leoedd glanach, mwy diogel ar gyfer ein cymunedau, a byddaf i yn gwneud datganiad ar drosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru. Lleihawyd yr amser sydd ar gael ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol yfory i 15 munud, gan mai dim ond un cwestiwn a gyflwynwyd.

14:31 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder, Minister, if you could speak to your colleague the Minister for Economy, Science and Transport about the possibility of making an oral statement on the collapse of Ideoba Ltd in Bridgend in my constituency. I think we all regret the loss of a company that looked like it would be a welcome addition to this cluster of high-tech companies in this part of Wales, which serves global markets. While I welcome any move forward out of the culture of absolute risk aversion that has characterised successive Labour Governments, when a Government does embrace risk, I think it must be prepared to answer certain questions. Accordingly, I ask that any statement is clear as to how much taxpayers' money was given to Ideoba, the conditions on which it was given or loaned, the objectives that Welsh Government expected achieved, and the security that Welsh Government sought to protect that investment. As the venture has failed, Minister, I think this Assembly should not accept any argument that commercial confidentiality is a bar to giving answers to these questions.

Tybed, Weinidog, a allech chi siarad â'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am y posibilrwydd o wneud datganiad llafar ar gwymp Ideoba Cyf ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fy etholaeth i. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gresynu colli cwmni a oedd yn edrych fel bod yn ychwanegiad i'w groesawu at y clwstwr hwn o gwmnïau uwch-dechnoleg yn y rhan hon o Gymru, sy'n gwasanaethu marchnadoedd byd-eang. Er fy mod i'n croesawu unrhyw symudiad ymlaen oddi wrth y diwylliant o osgoi risg llwyr sydd wedi bod yn nodweddiadol o Lywodraethau Llafur olynol, pan fydd Llywodraeth yn croesawu risg, rwy'n credu bod yn rhaid iddi fod yn barod i ateb cwestiynau penodol. Yn unol â hynny, gofynnaf i unrhyw ddatganiad fod yn eglur ynghylch faint o arian trethdalwyr a roddwyd i Ideoba, yr amodau a oedd yn gysylltiedig â'i roi neu ei fenthyg, yr amcanion yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt gael eu cyflawni, a'r sicrwydd y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r buddsoddiad hwnnw. Gan fod y fenter wedi methu, Weinidog, rwy'n credu na ddylai'r Cynulliad hwn dderbyn unrhyw ddadl bod cyfrinachedd masnachol yn rhwystr i roi atebion i'r cwestiynau hyn.

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm glad to respond to Suzy Davies to say that the Welsh Government has not been formally advised by the company of the situation. But I do understand that Ideoba's research and development centre, based at the Sony UK technology centre in Pencoed, was funded by the directors and was seeking private finance. The company received R&D funding to develop its software technology, and, of course, it is a small enterprise.

Rwy'n falch o ymateb i Suzy Davies gan ddweud nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael ei hysbysu am y sefyllfa'n ffurfiol gan y cwmni. Ond rwyf yn deall yr ariannwyd canolfan ymchwil a datblygu Ideoba, yng nghanolfan dechnoleg Sony UK ym Mhencoed, gan y cyfarwyddwyr a'u bod yn ceisio cyllid preifat. Derbyniodd y cwmni gyllid ymchwil a datblygu i ddatblygu ei dechnoleg meddalwedd, ac, wrth gwrs, mae'n fenter fach.

14:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We've heard, Minister, of several additional Government statements today, but we've yet to have a formal statement on the future of Jobs Growth Wales, which closed over the Easter holidays. Members were informed by letter, but not by either a written or an oral, preferably, statement, here in the Chamber. Is it possible, therefore, that you could timetable such a statement? I understand the proposal is that Jobs Growth Wales will come back in May. I very much hope that something does come back in May, but we need to know as Assembly Members whether it will be funded to the same level, what the criteria will be for this new programme, and whether lessons have been learned from the previous programme, some of which I've been advocating for the last year or so in terms of reaching people who really need skills development in Wales and a better alignment with our apprenticeships and other programmes. Is it, therefore, the Government's intention to bring forward an early statement on Jobs Growth Wales, so that we can examine these proposals in more detail?

Rydym wedi clywed, Weinidog, am sawl datganiad ychwanegol gan y Llywodraeth heddiw, ond nid ydym wedi cael datganiad ffurfiol hyd yn hyn ar ddyfodol Twf Swyddi Cymru, a gaeodd dros wyliau'r Pasg. Hysbyswyd yr aelodau trwy lythyr, ond nid trwy ddatganiad ysgrifenedig neu, yn ddelfrydol, llafar, yma yn y Siambr. A yw'n bosibl, felly, y gallech chi drefnu datganiad o'r fath? Rwy'n deall mai'r cynnig yw y bydd Twf Swyddi Cymru'n dychwelyd ym mis Mai. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd rhywbeth yn dychwelyd ym mis Mai, ond mae angen i ni wybod fel Aelodau'r Cynulliad a fydd yn cael ei ariannu i'r un lefel, beth fydd y meini prawf ar gyfer y rhaglen newydd, ac a oes gwersi wedi'u dysgu o'r rhaglen flaenorol, rhai ohonynt yr wyf wedi bod yn eu hyrwyddo ers tua blwyddyn o ran cyrraedd pobl sydd wir angen datblygu sgiliau yng Nghymru a gwell cyfuno gyda'n prentisiaethau a rhaglenni eraill. Ai bwriad y Llywodraeth felly yw cyflwyno datganiad cynnar ar Dwf Swyddi Cymru, fel y gallwn archwilio'r cynigion hyn yn fwy manwl?

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, Ministers did write to Members in terms of Jobs Growth Wales, and Jobs Growth Wales is open for business. Young people and employers can sign up to the new programme, and at no point has the scheme stopped young people from gaining valuable work experience with employers. In fact, thanks to Jobs Growth Wales, over 300 young people started work across Wales in March of this year—2015— and their support continues through to September 2015. There has been no gap in provision and Jobs Growth Wales has already exceeded its current target. The new programme will deliver a further 2,000 job opportunities by the end of March 2016, and delivery of these additional numbers will mean that we will significantly exceed our commitment of 16,000 jobs over four years.

Wel, wrth gwrs, fe wnaeth Gweinidogion ysgrifennu at yr Aelodau am Dwf Swyddi Cymru, ac mae Twf Swyddi Cymru ar agor i fusnes. Caiff pobl ifanc a chyflogwyr ymuno â'r rhaglen newydd, ac nid yw'r cynllun wedi atal pobl ifanc rhag ennill profiad gwaith gwerthfawr gyda chyflogwyr ar unrhyw adeg. Yn wir, diolch i Dwf Swyddi Cymru, dechreuodd dros 300 o bobl ifanc weithio ledled Cymru ym mis Mawrth eleni—2015—ac mae eu cefnogaeth yn parhau hyd at fis Medi 2015. Ni fu unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth ac mae Twf Swyddi Cymru eisoes wedi rhagori ar ei darged presennol. Bydd y rhaglen newydd yn cynnig 2,000 o gyfleoedd ychwanegol am swyddi erbyn diwedd mis Mawrth 2016, ac mae cyflawni'r niferoedd ychwanegol hyn yn golygu y byddwn yn rhagori'n sylweddol ar ein hymrwymiad o 16,000 o swyddi dros bedair blynedd.

14:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I have had raised with me by two constituents in the last two weeks that the car park at the University Hospital of Wales has been closed and that the site has been partially closed by the company operating the car park there, meaning that people attending appointments, but also ambulances, have been held up in long queues outside the hospital whilst wating to try and access the site. Could I please request a written statement from the Minister, and ask him to investigate the issue, and see what can be done to try and improve matters, particularly given the intention in the south Wales programme to move accident and emergency services from Llantrisant into Cardiff?

Weinidog, fe'm hysbyswyd gan ddau etholwr yn ystod y pythefnos diwethaf fod y maes parcio yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cael ei gau a bod y safle wedi cael ei gau'n rhannol gan y cwmni sy'n gweithredu'r maes parcio yno, sy'n golygu bod pobl sy'n mynychu apwyntiadau, ond hefyd ambiwlansys, wedi cael eu dal mewn ciwiau hir y tu allan i'r ysbyty tra eu bod yn aros i geisio cael mynediad i'r safle. A gaf i os gwelwch yn dda ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog, a gofyn iddo ymchwilio i'r mater, a gweld beth ellir ei wneud i geisio gwella pethau, yn enwedig o ystyried y bwriad yn rhaglen de Cymru i symud gwasanaethau damweiniau ac achosion brys o Lantrisant i mewn i Gaerdydd?

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm not aware of the situation relating to the car park at the University Hospital of Wales. Of course, this is a matter for Cardiff and Vale University Local Health Board, and we will seek clarification on the situation.

Wel, nid wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran y maes parcio yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mater i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw hwn wrth gwrs, a byddwn yn gofyn am eglurhad o'r sefyllfa.

14:35 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would it be possible to have a statement from the Minister for economic development with regard to what steps the Welsh Government is taking to protect high streets, especially small, rural high streets, which pride themselves on their independent shops? You know the town of Crickhowell very well, personally, and I know that you have personally supported the independent stores that are in that town. Those stores are under threat by a proposal by Punch Taverns to allow the Corn Exchange pub to be turned into a convenience store, thus risking the very unique character of that high street. The community is implacably opposed to these plans, and are looking to support, from the Brecon Beacons National Park, from Cadw, and, indeed, from Welsh Government, so that we can protect that particular building, and protect the independent status of Crickhowell high street. Support from the Welsh Government in the form of a written statement by the economic development Minister, would be most welcome.

Weinidog, a fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog datblygu economaidd ar ba gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn y stryd fawr, yn enwedig strydoedd mawr bach cefn gwlad, sy'n ymfalchïo yn eu siopau annibynnol? Rydych chi'n adnabod tref Crucywel yn dda iawn, yn bersonol, a gwn eich bod wedi cefnogi'r siopau annibynnol yn y dref honno'n bersonol. Mae'r siopau hynny dan fygythiad o gynnig gan Punch Taverns i ganiatáu i dŷ tafarn y Corn Exchange gael ei droi'n siop gyfleustra, gan beryglu cymeriad unigryw iawn y stryd fawr honno. Mae'r gymuned yn gwrthwynebu'r cynlluniau hyn yn llwyr, ac yn gofyn am gefnogaeth gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan Cadw, ac, yn wir, gan Lywodraeth Cymru, fel y gallwn amddiffyn yr adeilad penodol hwnnw, a diogelu statws annibynnol stryd fawr Crucywel. Byddai cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar ffurf datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog datblygu economaidd yn cael ei groesawu'n fawr.

14:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, high streets in rural towns—towns such as Crickhowell—are as important as high streets in our more urban areas. Of course, the Minister for Communities and Tackling Poverty has also taken forward opportunities, through the regeneration strategy, 'Vibrant and Vital Places'. And, indeed, there is a loan fund, in terms of town-centre regeneration. But your point, of course, requires an active, community response as well, in relation to proposals of this kind, and I'm sure that is being engendered in that particular town.

Wel, wrth gwrs, mae strydoedd mawr mewn trefi cefn gwlad—trefi fel Crucywel—mor bwysig â strydoedd mawr yn ein hardaloedd mwy trefol. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi hefyd wedi datblygu cyfleoedd, drwy'r strategaeth adfywio, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Ac, yn wir, ceir cronfa fenthyciad, o ran adfywio canol trefi. Ond mae eich pwynt, wrth gwrs, yn gofyn am ymateb gweithgar cymunedol hefyd, o ran cynigion o'r math hwn, ac rwy'n siŵr bod hynny'n digwydd yn y dref benodol honno.

14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

14:37

## 3. Datganiad: Y Diweddaraf am Weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 3. Statement: Update on Implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Health and Social Services, an update on implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. Mark Drakeford.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweithredu Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Mark Drakeford.

14:37 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch, Lywydd. Flwyddyn yn ôl, cwblhaodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei thaith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer pob math o reoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol, a fydd yn cael eu hystyried gan y ddeddfwrfa hon eleni. Diben y datganiad hwn yw rhoi'r diweddaraf i Aelodau ar hynt y gwaith o ddatblygu corff y rheoliadau hynny, dangos pa waith sydd heb ei wneud hyd yn hyn, ac amlinellu'r cymorth ychwanegol rydym wedi ei gynnig.

Thank you, Presiding Officer. A year ago, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 completed its passage through the National Assembly. It included provisions for a substantial range of regulations, codes of practice and statutory guidance, all of which will return to this legislature this year for consideration. The purpose of this statement is to update Members on progress to date in developing the body of those regulations, to set out the work that is still to be undertaken and to outline the additional support that we have put in place.

Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy niolchiadau i'r nifer fawr o randdeiliaid sydd wedi gweithio mor galed dros y 12 mis diwethaf i helpu i bennu'r manylion gweithredu ymarferol. Roedd Mrs Gwenda Thomas, wrth fynd â'r ddeddfwriaeth hon drwy'r Cynulliad, yn cyfeirio ati fel Deddf y bobl, ac rwy'n meddwl y gallwn ni ddweud mai'r bobl sydd wedi creu'r ddeddf hon yw'r bobl a fydd yn darparu, yn cynllunio ac yn derbyn ei gwasanaethau.

I would like to begin by placing on record my thanks to the substantial body of stakeholders who have worked so hard over the past 12 months to develop the practical details of implementation. Mrs Gwenda Thomas, when taking the legislation through this Assembly, regularly referred to it as a people's Act, and I think we can say that this Act has been made by the people who will be delivering, planning and receiving services under it.

Wrth ddweud hyn, hoffwn i dalu teyrnged yn arbennig i'r panel dinasyddion, a sefydlwyd gan Mrs Thomas, a fu'n ein cynghori ar bob rhan o'r Ddeddf. Ac, wrth gwrs, mae Gwenda yn parhau i gyfrannu, drwy gadeirio'r bwrdd partneriaeth cenedlaethol, a grŵp gweithredu a goruchwylio Llywodraeth Cymru. Rwy'n dal i fod yn ddiolchgar iawn iddi hi am y gwaith y mae hi'n dal i'w wneud.

In saying this, I want to pay particular tribute to the citizens panel put in place by Mrs Thomas, which has advised us on every part of the Act. And, of course, Gwenda continues to contribute by chairing the national partnership board and the Welsh Government's task and finish group. I am still very grateful to her for the work that she continues to do.

As Members will be aware, the subordinate legislation that flows from the 2014 Act is being pursued in two tranches. The first tranche was issued for formal consultation between 6 November of last year and 2 February 2015. Included in that first tranche were regulations covering Part 2 of the Act, general functions, including social enterprise and population assessments; Part 3, assessing the needs of individuals; Part 4, meeting needs, including eligibility, and direct payments; Part 7 of the Act, dealing with safeguarding; and Part 11, including provisions for prisoners, and dealing with ordinary residence. Two consultation events were held as part of tranche one, in both north and south Wales. Both undoubtedly helped to generate the over 300 substantive written responses received to these consultations. The overall response was positive, with respondents expressing support for the principles and the detail of the draft regulations, codes of practice and the statutory guidance.

Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r is-ddeddfwriaeth sy'n llifo o Ddeddf 2014 yn cael ei dilyn mewn dwy gyfran. Cyhoeddwyd y gyfran gyntaf ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol rhwng 6 Tachwedd y llynedd a 2 Chwefror, 2015. Roedd y gyfran gyntaf honno'n cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â Rhan 2 y Ddeddf, swyddogaethau cyffredinol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol ac asesiadau poblogaeth; Rhan 3, asesu anghenion unigolion; Rhan 4, diwallu anghenion, gan gynnwys cymhwysedd, a thaliadau uniongyrchol; Rhan 7 y Ddeddf, ymdrin â diogelu; a Rhan 11, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer carcharorion, ac sy'n ymdrin â phreswyliaeth arferol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori yn rhan o gyfran un, yn y gogledd a'r llall yn y de. Yn ddiau, helpodd y ddau i gynhyrchu'r dros 300 o ymatebion ysgrifenedig sylweddol a gafwyd i'r ymgynghoriadau hyn. Roedd yr ymateb cyffredinol yn gadarnhaol, ac atebwyr yn mynegi cefnogaeth i egwyddorion a manylion y rheoliadau drafft, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol.

There was general support for the proposed system change set out in Parts 3 and 4 of the Act to an outcomes-based approach with a simplified assessment and care planning process and greater integration of services. As a result of the consultation, we will amend the draft code of practice to include a national template for assessment, and we will incorporate into the statutory code both the key elements of the children's framework for assessment and the key requirements of the 2001 statutory guidance on care for deaf blind children and adults. Within the consultation there was also a considerable agreement to the detailed approach proposed under Part 2 of the Act to promotion of wellbeing, population assessment and preventative services. Proposals under Part 2 in relation to provision of information, advice and assistance were broadly supported, with 84 per cent of all respondents responding positively to the national standards for information, advice and assistance, and agreeing that these will be fundamental to the Act's success.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r newid system arfaethedig a nodir yn Rhannau 3 a 4 y Ddeddf i ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau gyda phroses symlach o asesu a chynllunio gofal a gwneud mwy i integreiddio gwasanaethau gofal. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, byddwn yn newid y cod ymarfer drafft i gynnwys templed cenedlaethol ar gyfer asesu, a byddwn yn ymgorffori yn y cod statudol elfennau allweddol y fframwaith ar gyfer asesu plant a gofynion allweddol canllawiau statudol 2001 ar ofal i blant ac oedolion dall a byddar. O fewn yr ymgynghoriad roedd cytundeb sylweddol hefyd o ran y dull manwl a gynigir o dan Ran 2 y Ddeddf i hyrwyddo lles, asesu'r boblogaeth a darparu gwasanaethau ataliol. Derbyniodd cynigion dan Ran 2 ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gefnogaeth fras ac ymatebodd 84 y cant o'r holl ymatebwyr yn gadarnhaol i'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gytuno y bydd y rhain yn hanfodol i lwyddiant y Ddeddf.

In relation to the promotion of social enterprises, also under Part 2 of the Act, we had invaluable advice from the Wales Council for Voluntary Action and others, which has enabled us to amend our draft regulations to ensure that they incorporate the most recent definitions and better support our commitment to an inclusive approach, which will encourage the development of new models such as social enterprises, co-operatives and co-operative arrangements, user-led services and increasing use of the third sector. Likewise, as far as Part 7 of the Act is concerned, on safeguarding, there was widespread agreement to the suggested approaches through the regulations and statutory guidance. We will bring forward regulations to prescribe, among other aspects, the safeguarding board areas, the lead partner for each safeguarding board and the preparation and publication of annual plans and annual reports.

O ran hyrwyddo mentrau cymdeithasol, hefyd o dan Ran 2 y Ddeddf, cawsom gyngor amhrisiadwy gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac eraill, sydd wedi ein galluogi i ddiwygio ein rheoliadau drafft i sicrhau eu bod yn cynnwys y diffiniadau diweddaraf a'u bod yn ategu'n well ein hymrwymiad i ddull cynhwysol, a fydd yn annog datblygiad modelau newydd fel mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a threfniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a defnyddio mwy ar y trydydd sector. Yn yr un modd, cyn belled ag y mae Rhan 7 y Ddeddf yn y cwestiwn, ar ddiogelu, roedd cytundeb cyffredinol yr y dulliau a awgrymir drwy'r rheoliadau a'r canllawiau statudol. Byddwn yn cyflwyno rheoliadau i ragnodi, ymhlith agweddau eraill, ardaloedd y byrddau diogelu a phartner arweiniol pob bwrdd diogelu, a pharatoi a chyhoeddi cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol.

Llywydd, I hope it’s clear that the formal consultation responses and the feedback from the consultation events have provided us with much valuable advice and we have used this evidence to make changes as a result, further developing and refining our regulations, codes of practice and the statutory guidance ready for laying this material before the Assembly between May and July of this year.

Lywydd, rwyf yn gobeithio ei bod yn glir bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol a’r adborth o'r digwyddiadau ymgynghori wedi rhoi llawer o gyngor gwerthfawr inni ac rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth hon i wneud newidiadau o ganlyniad, gan ddatblygu a mireinio ymhellach ein rheoliadau, ein codau ymarfer a'n canllawiau statudol yn barod i osod y deunydd hwn gerbron y Cynulliad rhwng mis Mai a mis Gorffennaf eleni.

Now, as Members here will undoubtedly recall, during the passage of the Act there was a strong call that the regulations on eligibility, in particular, should be subject to enhanced scrutiny under the superaffirmative procedure. We have, therefore, made provision for this to happen. The eligibility regulations will be the first under the Act to be laid. They will be laid on 8 May and this will provide the full 60 days scrutiny period under the superaffirmative procedure. The Government’s ambition is to bring those regulations for debate to the floor of the Assembly before the end of this summer term. It is also our intention that the remaining regulations under tranche 1, both those using the affirmative and the negative procedures, will also be laid during this period and debated according to the same timetable.

Nawr, fel y bydd yr Aelodau yma’n ddiau yn cofio, yn ystod hynt y Ddeddf roedd galwad gref y dylai'r rheoliadau ar gymhwysedd, yn benodol, fod yn destun craffu manwl o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Rydym, felly, wedi darparu ar gyfer hynny i ddigwydd. Y rheoliadau cymhwysedd fydd y cyntaf dan y Ddeddf i gael eu gosod. Byddant yn cael eu gosod ar 8 Mai a bydd hyn yn darparu’r cyfnod craffu llawn o 60 diwrnod o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Uchelgais y Llywodraeth yw cael dadl ynglŷn â’r rheoliadau hynny ar lawr y Cynulliad cyn diwedd y tymor yr haf hwn. Rydym hefyd yn bwriadu gosod y rheoliadau sy'n weddill o dan gyfran 1, y rhai sy'n defnyddio'r gweithdrefnau cadarnhaol a negyddol, yn ystod y cyfnod hwn a chael dadl amdanynt yn unol â'r un amserlen.

Thereafter, Llywydd, next month we will launch the second tranche of consultations covering the remaining parts of the Act, including subordinate legislation on Part 5, dealing with charging and financial assessment; Part 6, which deals with looked-after and accommodated children; Part 9, which includes provision on co-operation and partnership; and Part 10 of the Act, which deals with advocacy services. Work is already well advanced to prepare drafts of the regulations, codes of practice and statutory guidance that will serve tranche two. Formal consultation will begin on 8 May, and will run for 12 weeks, until 31 July of this year. Following a period of analysis, the final versions of this tranche of subordinate legislation will be ready for tabling in November this year. The regulations, codes of practice and statutory guidance to be made in relation to these tranche 2 areas will then complete the statutory framework for implementation of the Act.

Wedi hynny, Lywydd, y mis nesaf byddwn yn lansio’r ail gyfran o ymgynghoriadau sy'n cynnwys y rhannau sy'n weddill o'r Ddeddf, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth ar Ran 5, sy'n ymdrin â chodi tâl ac asesu ariannol; Rhan 6, sy'n ymdrin â phlant sy’n derbyn gofal a llety; Rhan 9, sy'n cynnwys darpariaeth ar gydweithredu a phartneriaeth; a Rhan 10 y Ddeddf, sy'n ymdrin â gwasanaethau eiriolaeth. Mae cryn dipyn o waith eisoes wedi’i wneud i baratoi drafftiau o'r rheoliadau, y codau ymarfer a’r canllawiau statudol a fydd yn berthnasol i gyfran dau. Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn ar 8 Mai, a bydd yn parhau am 12 wythnos, tan 31 Gorffennaf eleni. Ar ôl cyfnod o ddadansoddi, bydd fersiynau terfynol y gyfran hon o is-ddeddfwriaeth yn barod i’w cyflwyno ym mis Tachwedd eleni. Yna, bydd y rheoliadau, y codau ymarfer a’r canllawiau statudol a wneir ar gyfer y meysydd cyfran 2 hyn yn cwblhau'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu’r Ddeddf.

Llywydd, alongside the work to be conducted through this National Assembly, there is a series of other actions being taken in order to ensure successful implementation of the Act. The Care Council for Wales, as the lead body for workforce matters, will take responsibility for the production and implementation of a national learning and development strategy to ensure that those who deliver services will be fully prepared for the changes the Act introduces and the regulations it will bring into force. More broadly, the Welsh Government will continue to support local government and its partners in making the transition to the new arrangements. The new regional implementation arrangements are central to the Act, and I'm encouraged by the actions already taken by local authorities and their partners to prepare for its implementation. In support of this work, the funding available through the Delivering Transformation grant has been doubled to £3 million in this financial year.

Lywydd, ochr yn ochr â'r gwaith a wneir drwy'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, mae cyfres o gamau eraill yn cael eu cymryd i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Ddeddf. Cyngor Gofal Cymru, sef y corff arweiniol ar gyfer materion gweithlu, fydd yn cymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu a gweithredu strategaeth ddysgu a datblygu genedlaethol i sicrhau y bydd y rhai hynny sy'n cyflenwi gwasanaethau yn hollol barod am y newidiadau y mae'r Ddeddf yn eu cyflwyno a'r rheoliadau a ddaw i rym o'i herwydd. Yn fwy cyffredinol, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi llywodraeth leol a'i phartneriaid i gyflawni'r newid i'r trefniadau newydd. Mae'r trefniadau gweithredu rhanbarthol newydd yn ganolog i'r Ddeddf, ac rwyf wedi fy nghalonogi gan y camau a gymerwyd eisoes gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i baratoi ar gyfer eu gweithredu. I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r cyllid sydd ar gael drwy'r grant Cyflawni Gweddnewid wedi ei ddyblu i £3 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon.

Lywydd, dim ond blwyddyn sydd i fynd tan y dyddiad gweithredu ym mis Ebrill 2016, ac mae llawer i'w wneud o hyd, ac ond blwyddyn i gyflawni'r ddeddf drwy weithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Bydd y fframwaith a fydd yn cael ei osod o ganlyniad yn adlewyrchu ymdrechion pawb sydd wedi gwneud cyfraniad. Mae hon yn flwyddyn gyffrous, ac yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i wella safonau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r fforwm partneriaeth cenedlaethol, y grŵp arwain a'r panel dinasyddion i gefnogi'r gwaith a sicrhau mai'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau sydd wrth wraidd ein rhaglen ar gyfer newid o hyd. Diolch.

Llywydd, with only a year to go until the implementation date in April 2016, there's a great deal still to be done and only a year to deliver the legislation by working in partnership with stakeholders. The framework that will be put in place as a result will reflect the efforts of everyone who has contributed. This is an exciting year, and a once-in-a-generation opportunity to improve standards of social care in Wales. We will continue to work with the national partnership forum, the leadership group and citizen panel to support our work and ensure that people who use services remain at the heart of our programme for change. Thank you.

14:47

## Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for your statement and, indeed, the ongoing engagement that you have with the spokespeople from each party on these regulations under the new Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. I too want to pay tribute to the excellent work of your predecessor on these matters, Gwenda Thomas, who started and embarked on this process, and indeed continued to engage also with opposition parties to ensure that we could all address some of the challenges that are out there in terms of our social services across Wales and the need to improve and raise standards whilst at the same time ensuring consistency across the board.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad ac, yn wir, am eich ymgysylltiad parhaus â llefarwyr pob plaid ar y rheoliadau hyn o dan y Ddeddf newydd, Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i waith rhagorol eich rhagflaenydd ar y materion hyn, Gwenda Thomas, a ddechreuodd y broses hon, ac yn wir a barhaodd i ymgysylltu hefyd â gwrthbleidiau er mwyn sicrhau y gallem i gyd roi sylw i rai o'r heriau sy'n bodoli o ran ein gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru a'r angen i wella a chodi safonau ac ar yr un pryd sicrhau cysondeb ar draws y bwrdd.

I'm pleased also, Minister, to see that you've reflected on the consultation responses and that, indeed, there are some changes that are being made to the regulations as a result of that. As I've said to you on many occasions, the issue of greatest concern, I think, to most service users and, indeed, to most Assembly Members is that the eligibility criteria must be right so that we're not going to deprive some vulnerable people of the services that they're already receiving—that there won't be a situation that will arise as a result of these regulations, an unintended consequence of people receiving less than they are currently, or indeed a situation, which could emerge, that could be unfair in a local area where people with the same needs would receive different packages of services. We have to ensure that the national template that you have referred to will allow for a consistent approach across the board so that the services that somebody would receive In Conwy would be exactly the same suite of services, albeit in a localised way, as that in Cardiff and from Merthyr to other parts of the country as well. We have to make sure that that consistency is there.

Rwy'n falch hefyd, Weinidog, o weld eich bod wedi myfyrio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac, yn wir, bod rhai newidiadau'n cael eu gwneud i'r rheoliadau o ganlyniad i hynny. Fel yr wyf wedi'i ddweud wrthych lawer gwaith, y mater sy'n peri'r pryder mwyaf, yn fy marn i, i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth ac, yn wir, i'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad, yw bod yn rhaid i'r meini prawf cymhwysedd fod yn iawn fel na fyddwn yn achosi pobl agored i niwed i golli gwasanaethau y maent eisoes yn eu cael—na fydd sefyllfa'n codi o ganlyniad i'r rheoliadau hyn, canlyniad anfwriadol lle bydd pobl yn cael llai nag y maent ar hyn o bryd, neu yn wir sefyllfa, a allai godi, a allai fod yn annheg mewn ardal leol lle byddai pobl sydd â'r un anghenion yn cael gwahanol becynnau o wasanaethau. Mae'n rhaid inni sicrhau y bydd y templed cenedlaethol yr ydych wedi cyfeirio ato yn caniatáu dull gweithredu cyson ym mhob ardal fel y byddai'r gwasanaethau y byddai rhywun yn eu cael yng Nghonwy yn union yr un gyfres o wasanaethau, er y byddent wedi'u lleoleiddio, ag yng Nghaerdydd ac o Ferthyr i rannau eraill o'r wlad hefyd. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod gennym y cysondeb hwnnw.

I'm very pleased to see that you'll be laying the regulations before the Assembly on eligibility and that they will go through the superaffirmative procedure on 8 May, and I look forward to being able to comment on those.

Rwy'n falch iawn o weld y byddwch yn gosod y rheoliadau gerbron y Cynulliad ar gymhwysedd ac y byddant yn mynd drwy'r weithdrefn uwchgadarnhaol ar 8 Mai, ac rwyf yn edrych ymlaen at allu gwneud sylwadau am hynny.

Also, Minister, you didn't refer in your statement to the needs of carers and ensuring that those needs will be met. You did allude to information and advice, which was very welcome, and the need to ensure that that is consistent and that the quality of that is good, but there were lots of concerns as the Social Services and Well-being Act passed through the National Assembly, which were raised with Assembly Members, about the need to ensure that the needs of carers were going to be met, particularly given that the Act was repealing the previous Carers Strategies (Wales) Measure 2010. I wonder, Minister, whether you'll be able to provide us with a little bit more information as to how the regulations that you are putting before the Assembly will ensure that the needs of carers are actually addressed, so that we can ensure that any carers strategies that emerge from local authorities will again ensure that there is wraparound support available for carers, so that they don't end up in situations that we all see on far too regular a basis in our own constituencies, where they burn out and people end up in crisis as a result.

Hefyd, Weinidog, ni wnaethoch gyfeirio yn eich datganiad at anghenion gofalwyr a sicrhau y caiff yr anghenion hynny eu diwallu. Fe wnaethoch gyfeirio at wybodaeth a chyngor, a oedd i'w groesawu'n fawr, a'r angen i sicrhau bod hynny'n gyson ac o ansawdd da, ond roedd llawer o bryderon wrth i'r Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol basio drwy'r Cynulliad, a godwyd gydag Aelodau'r Cynulliad, am yr angen i sicrhau y byddai anghenion gofalwyr yn cael eu diwallu, yn enwedig o gofio bod y Ddeddf yn diddymu'r Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 blaenorol. Tybed, Weinidog, a fyddwch chi'n gallu rhoi ychydig mwy o wybodaeth inni ynghylch sut y bydd y rheoliadau yr ydych yn eu rhoi gerbron y Cynulliad yn sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael sylw mewn gwirionedd, fel y gallwn sicrhau y bydd unrhyw strategaethau gofalwyr a lunnir mewn awdurdodau lleol unwaith eto'n sicrhau bod cymorth cofleidiol ar gael i ofalwyr, fel nad ydynt yn y pen draw yn y sefyllfaoedd yr ydym i gyd yn eu gweld yn llawer rhy reolaidd yn ein hetholaethau ein hunain, lle maent yn gorweithio ac mae pobl yn mynd i argyfwng o ganlyniad i hynny.

Finally, Minister, you touched on the need—or you have, certainly, in previous statements—for joint working between local authorities and the national health service. Of course, this is something that we talk about often—the need for an integrated approach to care. One thing that struck me from your statement today was the reference that you made to social services and the provision of wellbeing services for the prisoner population in Wales. We have, obviously, the potential development of—or the commitment to develop—a new prison in north Wales. Concerns have been expressed regarding the ability of the national health service's resources to meet the needs of that prison. But what assessment have you made of the ability of local authorities and social services departments to meet the needs of the prisoner population that will emerge into Wales as a result of that development in north Wales? I think it is important that we start talking about these things early, so that we can deal with any issues that might be appearing on the horizon. Thank you.

Yn olaf, Weinidog, gwnaethoch gyffwrdd ar yr angen—neu rydych wedi gwneud hynny, yn sicr, mewn datganiadau blaenorol—am gydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gwladol. Wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn siarad amdano'n aml—yr angen am ddulliau gofal integredig. Un peth a wnaeth fy nharo yn eich datganiad heddiw oedd y cyfeiriad a wnaethoch at y gwasanaethau cymdeithasol a darparu gwasanaethau llesiant i boblogaeth carcharorion Cymru. Mae gennym, yn amlwg, y potensial i ddatblygu—neu'r ymrwymiad i ddatblygu—carchar newydd yn y gogledd. Mynegwyd pryderon ynglŷn â gallu adnoddau'r gwasanaeth iechyd gwladol i ddiwallu anghenion y carchar hwnnw. Ond pa asesiad yr ydych chi wedi'i wneud o allu awdurdodau lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i ddiwallu anghenion y boblogaeth carcharorion a ddaw i Gymru yn sgil y datblygiad hwnnw yn y gogledd? Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn dechrau siarad am y pethau hyn yn gynnar, fel y gallwn ymdrin ag unrhyw faterion a allai fod yn ymddangos ar y gorwel. Diolch yn fawr.

14:51

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank Darren Millar? It's my ambition to continue the level of engagement with opposition party spokespeople that Gwenda Thomas maintained throughout the passage of the Bill, as it then was. I look forward to my meeting with opposition party spokespeople tomorrow on the regulations, codes of practice and so on. I thank him as well for his recognition that we have made a number of important changes to the regulations and to the code as a result of the consultation process. I have been very keen, when I've been standing on platforms in front of audiences that have an interest in the Act, to say to them that we want the Act to be the best Act it can be, and that we'll only do that with their help. Their participation in the consultation has been important to us in that. The eligibility criteria will be published—the material around that—on 8 May. There will be a full opportunity for Assembly Members—in committee, I believe, as well as on the floor of the Assembly—to scrutinise those and to see how they do the job we want them to do: to be the link between the simplified, proportionate assessments that the Act brings into being and its focus on wellbeing outcomes for people who receive services. We've got to move on—and the Act is of tremendous assistance to us in moving on—to focus on the difference that services make in the lives of people, rather than on the services themselves.

A gaf fi ddiolch i Darren Millar? Fy uchelgais yw parhau i ymgysylltu â llefarwyr y gwrthbleidiau i'r un graddau ag a wnaeth Gwenda Thomas drwy gydol taith y Bil, fel yr oedd ar y pryd. Rwy'n edrych ymlaen at fy nghyfarfod â llefarwyr y gwrthbleidiau yfory ynglŷn â'r rheoliadau, y codau ymarfer ac ati. Rwyf yn diolch iddo hefyd am ei gydnabyddiaeth ein bod wedi gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r rheoliadau ac i'r cod o ganlyniad i'r broses ymgynghori. Rwyf wedi bod yn awyddus iawn, wrth imi sefyll ar lwyfannau o flaen cynulleidfaoedd sydd â diddordeb yn y Ddeddf, i ddweud wrthynt ein bod am i'r Ddeddf fod y Ddeddf orau y gall fod, a bod eu cymorth nhw yn hanfodol i ni allu cyflawni hynny. Mae eu cyfranogiad yn yr ymgynghoriad wedi bod yn bwysig inni yn hynny o beth. Bydd y meini prawf cymhwysedd yn cael eu cyhoeddi—y deunydd sy'n ymwneud â hynny—ar 8 Mai. Bydd cyfle llawn i Aelodau'r Cynulliad—yn y pwyllgor, rwyf yn credu, yn ogystal ag ar lawr y Cynulliad—i graffu ar y rheini ac i weld sut y maent yn gwneud y gwaith yr ydym yn dymuno iddynt ei wneud: bod yn ddolen gyswllt rhwng yr asesiadau symlach, cymesur y mae'r Ddeddf yn eu cyflwyno a'i bwyslais ar ganlyniadau llesiant i bobl sy'n derbyn gwasanaethau. Mae'n rhaid inni symud ymlaen—ac mae'r Ddeddf o gymorth aruthrol inni wrth symud ymlaen—i ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y mae gwasanaethau'n ei wneud ym mywydau pobl, yn hytrach nag ar y gwasanaethau eu hunain.

Darren is absolutely right about the needs of carers. It's a major part of the Act. All the new ground that was broken for carers will be preserved through the regulations, the codes and so on. Members will be aware of the amendment that was moved during the passage of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill to make sure that the assessment of the needs of carers as part of the general population assessment is firmly on the statute book. Joint working is very much embedded in that population needs assessment. It must be carried out jointly between local health boards and their constituent local authorities, and that's where those two essential public services come together to plan the services that are needed through the Act.

Mae Darren yn llygad ei le ynghylch anghenion gofalwyr. Mae'n rhan bwysig o'r Ddeddf. Bydd yr holl dir newydd a gafodd ei dorri ar gyfer gofalwyr yn cael ei gadw drwy gyfrwng y rheoliadau, y codau ac ati. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r gwelliant a gynigiwyd yn ystod taith y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wneud yn siŵr bod yr asesiad o anghenion gofalwyr fel rhan o'r asesiad cyffredinol o'r boblogaeth yn gadarn ar y llyfr statud. Mae gweithio ar y cyd yn rhan bwysig iawn o'r asesiad hwnnw o anghenion y boblogaeth. Mae'n rhaid ei wneud ar y cyd rhwng byrddau iechyd lleol a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol, a dyna lle y daw'r ddau wasanaeth cyhoeddus hanfodol hynny at ei gilydd i gynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen drwy'r Ddeddf.

The prisoner population dimensions of the Act, which appear in Part 11, are complex. We know that we have to work with the four local authorities that are currently affected, and then, in the future, with Wrexham. In England, these provisions are being implemented from April of this year, and we will learn a lot. We are in close contact with the Department of Health about the scale of need that the services will uncover, and the way that the relationship between the prison that someone is in and the local authority to which they will return on release is strengthened as a result of the Act.

Mae'r agweddau ar y Ddeddf sy'n ymwneud â phoblogaeth carcharorion, sy'n ymddangos yn Rhan 11, yn gymhleth. Rydym yn gwybod bod yn rhaid inni gydweithio â'r pedwar awdurdod lleol y mae hyn yn effeithio arnynt ar hyn o bryd, ac yna, yn y dyfodol, gyda Wrecsam. Yn Lloegr, mae'r darpariaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill eleni, a byddwn yn dysgu llawer. Rydym mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd ynghylch maint yr angen y bydd y gwasanaethau'n ei ddatgelu, a sut y gall y Ddeddf gryfhau'r berthynas rhwng y carchar lle mae rhywun a'r awdurdod lleol y bydd yn dychwelyd iddo ar ôl ei ryddhau.

14:55

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I first of all also pay tribute to the previous Deputy Minister, Gwenda Thomas? Her passion for improving social services in Wales was indeed second to none. I was very pleased to work very closely with her, and I thank her for all of her hard work.

A gaf innau hefyd yn gyntaf oll dalu teyrnged i'r Dirprwy Weinidog blaenorol, Gwenda Thomas? Roedd ei hangerdd wir yn ddiguro o ran gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Roeddwn yn falch iawn o weithio'n agos iawn gyda hi, ac rwyf yn diolch iddi am ei holl waith caled.

I welcome the two events you held, Minister. I think it is important to fully involve the professionals and volunteers. My first question is: what was the extent of the involvement of social service users and carers in particular at those two events, please?

Rwyf yn croesawu'r ddau ddigwyddiad a gynhaliwyd gennych, Weinidog. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y gweithwyr proffesiynol a'r gwirfoddolwyr yn cael eu cynnwys yn llawn. Fy nghwestiwn cyntaf yw: i ba raddau y bu defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr yn arbennig yn cymryd rhan yn y ddau ddigwyddiad hynny, os gwelwch yn dda?

My second question was about finances and will there be sufficient funds to implement the Act as intended, but I think you've already answered that by doubling the amount available. So, that's very positive.

Roedd fy ail gwestiwn yn ymwneud â chyllid ac a fydd digon o arian i roi'r Ddeddf ar waith fel y bwriadwyd, ond rwyf yn credu eich bod eisoes wedi ateb hynny drwy ddyblu'r swm sydd ar gael. Felly, mae hynny'n gadarnhaol iawn.

My third question was: how confident are you that, by April 2016, there will be enough suitably trained care home staff to ensure a high standard of care to our vulnerable older people? The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill mentions visiting social workers but does not explain what they would be doing, since they will need to be registered. What contribution will they be expected to make before implementing this Act, please?

Fy nhrydydd cwestiwn oedd: pa mor hyderus ydych chi y bydd, erbyn mis Ebrill 2016, digon o staff cartrefi gofal hyfforddedig addas i sicrhau gofal o safon uchel i'n pobl hŷn sy'n agored i niwed? Mae'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn sôn am weithwyr cymdeithasol yn ymweld ond nid yw'n egluro beth y byddent yn ei wneud, gan y bydd angen iddynt fod wedi'u cofrestru. Pa gyfraniad y bydd disgwyl iddynt ei wneud cyn rhoi'r Ddeddf hon ar waith, os gwelwch yn dda?

I finally would like to welcome the national template for assessments, which will incorporate the statutory code, both the key elements of the children's framework assessment and the key elements of the statutory requirements, particularly as they relate to care for deaf and blind children and, indeed, adults. Again, I do think that is extremely positive. Thank you, Minister.

Yn olaf, hoffwn groesawu'r templed cenedlaethol ar gyfer asesiadau, a fydd yn cynnwys y cod statudol, dwy elfen allweddol yr asesiad fframwaith plant ac elfennau allweddol y gofynion statudol, yn enwedig fel y maent yn berthnasol i ofalu am blant byddar a dall ac, yn wir, oedolion byddar a dall. Unwaith eto, rwyf yn credu bod hynny'n hynod gadarnhaol. Diolch, Weinidog.

14:56

## Mark Drakeford [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I thank Lindsay for those questions. The involvement of people who are providing services has been, I think, one of the great strengths of recent months. I have been very pleasantly surprised by the sheer numbers of people who have come forward to participate in the consultation meetings, and the way that users of services are being involved is largely through the citizens' panels. We have a national citizens' panel, but you will remember that every regional tier under the Act also has to have a citizens' engagement panel to work alongside those regional groups. The voice of the user, I think, is very strong as a result of those arrangements that Gwenda put in place.

Diolchaf i Lindsay am y cwestiynau yna. Rwyf yn meddwl mai cynnwys pobl sy'n darparu gwasanaethau oedd un o gryfderau mawr y misoedd diwethaf. Cefais bleser annisgwyl o'r nifer fawr o bobl sydd wedi dod ymlaen i gymryd rhan yn y cyfarfodydd ymgynghori, ac o'r ffordd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn bennaf drwy'r paneli dinasyddion. Mae gennym banel dinasyddion cenedlaethol, ond byddwch yn cofio bod pob haen ranbarthol o dan y Ddeddf hefyd yn gorfod sefydlu panel ymgysylltu â dinasyddion i weithio ochr yn ochr â'r grwpiau rhanbarthol hynny. Mae llais y defnyddiwr, rwy'n credu, yn gryf iawn o ganlyniad i'r trefniadau hynny a roddodd Gwenda ar waith.

I am confident that we will have a fully trained workforce ready to implement the Act in April of next year, and the work of the care council in leading that I think is very important indeed. I know that the chief executive of the care council—Rhian Huws Williams, who'll be known to many people—is taking a very direct, personal interest in making sure that the training programme is available and completed right across Wales. Lindsay Whittle is absolutely right to point to the synergies between the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the regulation and inspection Bill that will be going through the Assembly during this year. They are companion pieces of legislation, and the R&I Bill in many ways will underpin many of the changes that the 2014 Act brings into being.

Rwy'n hyderus y bydd gennym weithlu wedi'i hyfforddi'n llawn yn barod i roi'r Ddeddf ar waith ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf, ac rwyf yn meddwl bod gwaith y cyngor gofal o arwain hynny'n bwysig iawn wir. Gwn fod prif weithredwr y cyngor—Rhian Huws Williams, y bydd llawer o bobl yn ei hadnabod—yn cymryd diddordeb uniongyrchol a phersonol iawn wrth sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant ar gael ac wedi'i chwblhau ledled Cymru. Mae Lindsay Whittle yn llygad ei le wrth dynnu sylw at y synergedd rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Bil rheoleiddio ac arolygu a fydd yn mynd drwy'r Cynulliad eleni. Maent yn ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'i gilydd, a bydd y Bil rheoleiddio ac arolygu mewn sawl ffordd yn tanategu llawer o'r newidiadau y mae'r Ddeddf 2014 yn eu cyflwyno.

I'm grateful to Lindsay Whittle for his recognition that, as part of the consultation, we've moved from the original proposal of a regional approach to a national template, and that we are incorporating more directly elements of assessment for children and the needs of people with dual sensory loss within that national template.

Rwy'n ddiolchgar i Lindsay Whittle am ei gydnabyddiaeth ein bod, yn rhan o'r ymgynghoriad, wedi symud oddi wrth y cynnig gwreiddiol o ymagwedd ranbarthol at dempled cenedlaethol, a'n bod yn ymgorffori elfennau'n fwy uniongyrchol ar gyfer asesu plant ac anghenion pobl â nam ar ddau synnwyr o fewn y templed cenedlaethol hwnnw.

14:59

## Kirsty Williams [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Like Darren and Lindsay before me, could I take this opportunity to once again place on record my gratitude to the former Minister for her work in this area?

Fel Darren a Lindsay o'm blaen, a gaf innau achub ar y cyfle hwn i gofnodi unwaith eto fy niolch i'r cyn Weinidog am ei gwaith yn y maes hwn?

The Minister will be aware that the Welsh Liberal Democrats voted against the legislation a year ago, because we were not convinced that it would achieve the Government's stated goals, and also because we were concerned about what was left unsaid in that legislation. So, I guess we're now coming to the nitty-gritty of it, with the actual detail of what a new social services regime will look like in Wales with the publication of, and the passage of, the regulations going through the Chamber. Can I say I welcome very much that the Government has held true to its commitments? Indeed, it was required, I believe, under the passage of the Bill, with regard to the superaffirmative procedure, and I'm glad that there has been no attempt to try and wriggle out of that, because, Minister, I'm sure you will agree with me that eligibility still remains the key for many people when looking at this legislation: who will be entitled to service delivery under this new system?

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi pleidleisio yn erbyn y ddeddfwriaeth flwyddyn yn ôl, oherwydd nad oeddem yn argyhoeddedig y byddai'n cyflawni'r targedau a nododd y Llywodraeth, a hefyd am ein bod yn poeni am yr hyn na chafodd ei ddweud yn y ddeddfwriaeth honno. Felly, mae'n debyg ein bod yn awr yn cyrraedd y manylion bychain, yr union fanylion o sut y bydd trefn gwasanaethau cymdeithasol newydd yn edrych yng Nghymru gyda chyhoeddi'r rheoliadau a'u hynt drwy'r Siambr. A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'n fawr y ffaith bod y Llywodraeth wedi aros yn driw i'w hymrwymiadau? Yn wir, roedd hynny'n ofynnol, rwyf yn credu, wrth basio'r Bil, o ran y weithdrefn uwchgadarnhaol, ac rwy'n falch na fu unrhyw ymgais i geisio sleifio allan o hynny, oherwydd, Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod cymhwysedd yn dal i fod yn allweddol i lawer o bobl wrth iddynt edrych ar y ddeddfwriaeth hon: pwy fydd â'r hawl i ddarparu gwasanaethau o dan y system newydd hon?

I note that you're moving to a national system of assessment, but I'm still slightly unclear about the details around eligibility. Minister, do you envisage that those people who are currently in receipt and are currently eligible for social service care and services will remain eligible following the publication of your regulations on 8 May? I'm sure it's a very happy coincidence that the eligibility is coming out on 8 May. If there are going to be people who, under the new legislation, will potentially not be eligible, what happens to those particular people's care packages? We do know that some local authorities operating under the current system have different eligibility criteria, so, depending on what level service provision is in your particular county—most of them, I admit, have moved to a very high level of need to be eligible, but there are some counties that are delivering services below that level—what happens to anybody if they find themselves no longer eligible? What transition arrangements are available for those individuals?

Sylwaf eich bod yn symud at system genedlaethol o asesu, ond rwy'n dal i fod ychydig yn ansicr ynghylch y manylion o amgylch cymhwysedd. Weinidog, a ydych chi'n rhagweld y bydd y bobl hynny sydd ar hyn o bryd yn derbyn ac yn gymwys i dderbyn gofal a gwasanaethau gan y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd yn parhau i fod yn gymwys ar ôl cyhoeddi eich rheoliadau ar 8 Mai? Rwy'n siŵr mai cyd-ddigwyddiad hapus iawn yw'r ffaith bod y cymhwyster yn dod allan ar 8 Mai. Os yw'n bosibl na fydd rhai pobl, o dan y ddeddfwriaeth newydd, yn gymwys, beth sy'n digwydd i becynnau gofal y bobl benodol hynny? Rydym yn gwybod bod gan rai awdurdodau lleol sy'n gweithredu o dan y system bresennol wahanol feini prawf cymhwysedd, felly, gan ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yn eich sir benodol chi—mae'r rhan fwyaf ohonynt, rwyf yn cyfaddef, wedi symud at lefel uchel iawn o angen i fod yn gymwys, ond mae rhai siroedd sy'n darparu gwasanaethau o dan y lefel honno—beth sy'n digwydd i unrhyw un sy'n canfod nad yw'n gymwys mwyach? Pa drefniadau pontio sydd ar gael i'r unigolion hynny?

Could you tell me a little bit about how you will consult on charging? I note that that is to be commenced next month. Again, charging was an area of grave concern for committee members and, indeed, stakeholders when the legislation was passing through, and I'd be grateful to learn what you envisage and will be consulting on with regard to charging. I note that the money made available for the implementation of the Bill has doubled. That's welcome in one sense, but it does call into question the accuracy of the financial statements that accompanied the legislation when it was being put through the Assembly. We were told that the resources that were outlined in the financial resolution were the correct ones. Could you explain therefore why you felt it's necessary to double the amount of available resources? That was obviously not your intention when this legislation was going through, so something has obviously materially changed in the time when the legislation was going through the Assembly for you now to feel that you need to double the resources, if that's what's necessary. Therefore, if you found that you had to change your mind and change your position with regard to finance in terms of implementation, is it still the Government's stated belief that the costs of delivering social services under this particular regime will be cost neutral? That was the mantra all the way through the passage of the legislation: that there is no new money to provide these services, because no new money is necessary; the service will be cost neutral and it will pay for itself. I'm wondering whether that is still the Government's stated view.

A allech chi ddweud wrthyf ychydig am sut y byddwch yn ymgynghori ar godi tâl? Nodaf y bydd hynny'n dechrau fis nesaf. Unwaith eto, roedd codi tâl yn destun pryder difrifol i aelodau'r pwyllgor ac, yn wir, i randdeiliaid pan oedd y ddeddfwriaeth yn mynd drwodd, a byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth yr ydych yn ei ragweld ac y byddwch yn ymgynghori ynglŷn ag ef o ran codi tâl. Nodaf fod yr arian sydd ar gael i roi'r Bil ar waith wedi dyblu. Mae hynny i'w groesawu mewn un ystyr, ond mae'n bwrw amheuaeth ar gywirdeb y datganiadau ariannol a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth pan oedd ar ei ffordd drwy'r Cynulliad. Dywedwyd wrthym mai'r adnoddau a amlinellwyd yn y penderfyniad ariannol oedd y rhai cywir. A wnewch chi egluro, felly, pam yr oeddech yn teimlo bod angen dyblu'r adnoddau sydd ar gael? Yn amlwg nid dyna oedd eich bwriad pan oedd y ddeddfwriaeth hon yn mynd drwodd, felly mae'n amlwg bod rhywbeth wedi newid yn sylweddol yn ystod yr amser pan oedd y ddeddfwriaeth yn mynd drwy'r Cynulliad i beri ichi deimlo nawr bod angen i chi ddyblu'r adnoddau, os mai dyna beth sydd ei angen. Felly, os gwelsoch fod yn rhaid ichi newid eich meddwl a newid eich safbwynt ynglŷn â chyllid o ran gweithredu, a yw'r Llywodraeth yn dal i ddatgan ei bod yn credu y bydd costau darparu gwasanaethau cymdeithasol o dan y drefn benodol hon yn gost niwtral? Dyna oedd y mantra yr holl ffordd drwy hynt y ddeddfwriaeth: nad oes unrhyw arian newydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn, oherwydd nad oes angen arian newydd; bydd y gwasanaeth yn gost niwtral a bydd yn talu amdano ei hun. Ro'n i'n meddwl tybed ai dyna yw barn ddatganedig y Llywodraeth o hyd.

15:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Of course, I well recall the Liberal Democrat position during the passage of the Bill, but, Llywydd, I remember as a much younger person complaining when I was a probation officer to someone about a new piece of legislation that had been put on the statute book, which we were being asked to implement, and the person I was complaining to said to me, 'Look, put it this way: the Act is a fact', and that is the position we are in with the 2014 Act. The Act is on the statute book, and this next stage is indeed about its implementation. Members will have the full 60 days to be able to explore the information that we'll be putting in the public domain around eligibility. That's why it's being published on 8 May—to make sure that this Assembly gets the full 60 days that the superaffirmative procedure requires.

Wrth gwrs, rwyf yn cofio'n iawn beth oedd safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol yn ystod hynt y Bil, ond, Lywydd, rwyf yn cofio cwyno pan oeddwn yn llawer iau ac yn swyddog prawf wrth rywun ynglŷn â darn newydd o ddeddfwriaeth a oedd wedi ei roi ar y llyfr statud, yr oedd gofyn inni ei roi ar waith, a dywedodd yr unigolyn yr oeddwn yn cwyno wrtho wrthyf, 'Edrych, dyma'r peth: mae'r Ddeddf yn ffaith', a dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi gyda Deddf 2014. Mae'r Ddeddf ar y llyfr statud, ac mae'r cam nesaf hwn yn wir yn fater o'i rhoi ar waith. Bydd gan yr Aelodau'r 60 diwrnod llawn i allu archwilio'r wybodaeth y byddwn yn ei gwneud yn gyhoeddus o amgylch cymhwysedd. Dyna pam mae'n cael ei chyhoeddi ar 8 Mai —i sicrhau bod y Cynulliad hwn yn cael y 60 diwrnod llawn sy'n ofynnol gan y weithdrefn uwchgadarnhaol.

Eligibility is always being reassessed. The Act is no different in that way. People's eligibility for services under the current regime isn't fixed on the day that it is first determined and lives forever. Eligibility will continue, I'm sure, at an individual level, to be renegotiated, as it always would have been, but now renegotiated within the terms of the new Act.

Mae cymhwysedd yn cael ei ailasesu drwy'r amser. Nid yw'r Ddeddf yn wahanol yn hynny o beth. Nid yw cymhwysedd pobl i gael gwasanaethau o dan y drefn bresennol yn cael ei bennu ar y diwrnod cyntaf ac yn para am byth. Bydd cymhwyster yn parhau, rwy'n siŵr, ar lefel unigol, i gael ei aildrafod, fel y byddai wedi digwydd o'r blaen beth bynnag, ond nawr caiff ei aildrafod o fewn telerau'r Ddeddf newydd.

As far as charging is concerned, Kirsty Williams is quite right: part 2, the second tranche, will set out our proposals in relation to charging. The landscape is not identical to the one that we had when the Act itself was being discussed. At that point, we were told by the UK Government that it would have concluded all its own changes under the Dilnot review. It hasn't, as you know. It completed a consultation exercise but then said it wouldn't announce the results of the consultation until after the general election. Part of what we can do in Wales has to dovetail with changes elsewhere. The benefits system, which we thought, back in those days, was a relatively fixed part of the firmament, has certainly been discussed in completely new ways under the Smith report in Scotland and in some of the debates that there have been about devolution to us in Wales.

Cyn belled ag y mae codi tâl dan sylw, mae Kirsty Williams yn llygad ei lle: bydd rhan 2, yr ail gyfran, yn nodi ein cynigion ynglŷn â chodi tâl. Nid yw'r dirwedd yn union yr un fath â'r un a oedd gennym pan oedd y Ddeddf ei hun yn cael ei thrafod. Ar yr adeg honno, dywedodd Llywodraeth y DU wrthym y byddai wedi cwblhau ei holl newidiadau ei hun dan adolygiad Dilnot. Nid yw wedi gwneud hynny, fel y gwyddoch. Cwblhawyd ymgynghoriad ond yna dywedodd na fyddai'n cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad tan ar ôl yr etholiad cyffredinol. Mae'n rhaid i ran o'r hyn y gallwn ei wneud yng Nghymru gyd-fynd â newidiadau mewn mannau eraill. Mae'r system budd-daliadau, yr oeddem yn meddwl ei bod, yn ôl yn y dyddiau hynny, yn rhan gymharol sefydlog o'r ffurfafen, yn sicr wedi cael ei thrafod mewn ffyrdd cwbl newydd o dan adroddiad Smith yn yr Alban ac yn rhai o'r dadleuon a fu am ddatganoli i ni yng Nghymru.

So, some of the context in which charging proposals are being developed has changed and that will be reflected in the proposals that Members will see under tranche 2. The reason why we have more money going into the implementation of the Act is because we have had an accelerated rate of progress amongst local authorities in preparing for it. They have been able to do more already than we had originally anticipated in bringing the regional tiers into existence and in swifter progress towards the development of preventative services. We have doubled to £3 million—so, the sum of money is not enormous in the grander scheme of things—our implementation grant in order to sustain that accelerated rate of progress. When the Act is fully implemented, it is our belief that it will be broadly neutral in cost terms, but that the costs that local authorities incur will be incurred in different ways—de-escalating the system, a greater emphasis on preventative services and doing our very best through our social services not to draw people ever more swiftly into them, but to do everything we can to go on supporting people to do as much as possible for themselves as they tell us they would like to do.

Felly, mae rhywfaint o gyd-destun datblygu'r cynigion codi tâl wedi newid a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y cynigion y bydd yr Aelodau'n eu gweld o dan gyfran 2. Y rheswm pam mae gennym fwy o arian yn mynd tuag at roi'r Ddeddf ar waith yw bod awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd cyflymach wrth baratoi amdani. Maent wedi gallu gwneud mwy eisoes nag yr oeddem wedi'i ragweld yn wreiddiol o ran dod â'r haenau rhanbarthol i fodolaeth a gwneud cynnydd cyflymach tuag at ddatblygu gwasanaethau ataliol. Rydym wedi dyblu ein grant gweithredu i £3 miliwn —felly, nid yw'r swm o arian yn enfawr wrth edrych ar y darlun mawr—er mwyn cynnal y cynnydd cyflymach hwnnw. Pan fydd y Ddeddf ar waith yn llawn, ein cred yw y bydd yn fras yn niwtral o ran cost, ond y bydd y costau y bydd rhaid i awdurdodau lleol eu talu'n cael eu hachosi mewn gwahanol ffyrdd—gwneud y system yn llai cymhleth, rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau ataliol a gwneud ein gorau glas drwy ein gwasanaethau cymdeithasol i beidio â thynnu pobl yn gyflymach a chyflymach i mewn iddynt, ond i wneud popeth o fewn ein gallu i barhau i gefnogi pobl i wneud cymaint â phosibl drostynt eu hunain fel y maent yn dweud wrthym yr hoffent ei wneud.

15:07

## 4. Datganiad: Strategaeth 'Digidol yn Gyntaf'

## 4. Statement: The 'Digital First' Strategy

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is a statement by the Deputy Minister for Skills and Technology on the 'Digital First' strategy. I call on Julie James.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg am y strategaeth 'Digidol yn Gyntaf'. Galwaf ar Julie James.

15:07

### Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Diolch, Lywydd. I welcome the opportunity to provide an update on the work currently being undertaken by the Welsh Government to review and transform its approach to service delivery in an increasingly digital world. There is a growing trend of consumer expectation that services, whether they be delivered by the public or by the private sector, should be available at any time, anywhere and be accessible digitally through an increasing range of devices. This is a consumer-driven evolution of service delivery and it is imperative that the public sector adapts and responds to this rapidly changing landscape in order to meet the future needs of its users. The digital transformation of public services is a central part of the Welsh Government's plans to make public services more meaningful to their users. The public sector in Wales continuously develops and adapts to meet the needs of the people and businesses it serves. Digital technologies are forming an increasing part of that delivery.

Diolch, Lywydd. Rwyf yn croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud ar hyn o bryd i adolygu a gweddnewid ei hymagwedd tuag at ddarparu gwasanaethau mewn byd sy'n gynyddol ddigidol. Mae tuedd gynyddol yn nisgwyliadau defnyddwyr y dylai fod gwasanaethau, pa un a ydynt yn cael eu darparu gan y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, ar gael ar unrhyw adeg, yn unrhyw le ac ar gael yn ddigidol drwy ystod gynyddol o ddyfeisiau. Mae hwn yn ddatblygiad darparu gwasanaethau wedi'i sbarduno gan ddefnyddwyr ac mae'n hanfodol bod y sector cyhoeddus yn addasu ac yn ymateb i'r dirwedd hon sy'n newid yn gyflym er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol. Mae trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ystyrlon i'w defnyddwyr. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn datblygu ac yn addasu'n gyson i ddiwallu anghenion y bobl a'r busnesau y mae'n eu gwasanaethu. Mae technolegau digidol yn ffurfio rhan gynyddol o'r ddarpariaeth honno.

I am firmly of the view that the driving force for digital transformation must be the pursuit of excellence in service delivery that benefits people and society. It is not enough for us to simply provide our services digitally. We need to ensure that the services we provide work well together and deliver a high-quality experience that makes it easier for people to deal with the public sector. Digital delivery can support our efforts by allowing us to gather data on the services we deliver and to use this intelligence not only to improve that service but also to improve other services that we provide and, through sharing our data, to improve the services being provided by our public sector partners.

Rwy'n bendant o'r farn bod yn rhaid i drawsnewid digidol fod yn seiliedig ar geisio sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau sydd o fudd i bobl a chymdeithas. Nid yw dim ond darparu ein gwasanaethau'n ddigidol yn ddigon da. Mae angen inni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cynnig profiad o ansawdd uchel sy'n ei gwneud yn haws i bobl ymwneud â'r sector cyhoeddus. Gall darpariaeth ddigidol gynorthwyo ein hymdrechion drwy ganiatáu inni gasglu data am y gwasanaethau a ddarparwn a defnyddio'r wybodaeth hon nid yn unig i wella'r gwasanaeth hwnnw, ond hefyd i wella gwasanaethau eraill a ddarparwn a, thrwy rannu ein data, gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus.

Digital tools and techniques can help improve the ways we engage with and listen to our service users and key partners. By embracing best practice in digital delivery we can improve the skills, expertise and efficiency of our employees and improve the design and delivery of our services. I believe that the digital transformation of public services brings an opportunity to create a way of working that focuses on service users and a culture of continuous improvement.

Gall offer a thechnegau digidol helpu i wella'r ffyrdd yr ydym yn eu defnyddio i ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth a'n partneriaid allweddol a gwrando arnynt. Drwy groesawu arfer gorau ym maes darparu digidol gallwn wella sgiliau, arbenigedd ac effeithlonrwydd ein cyflogeion a gwella cynllun a darpariaeth ein gwasanaethau. Credaf fod trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol yn rhoi cyfle i greu ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a diwylliant o welliant parhaus.

It is also true that digital service delivery has the potential to deliver services more efficiently. It can lead to significant savings achieved by streamlining business processes and reducing overheads. You may recall that, in 2012, the Cabinet Office 'Digital Efficiency Report' suggested that online transactions are 20 times cheaper to an organisation than transactions by phone, 30 times cheaper than by post and as much as 50 times cheaper than face-to-face delivery.

Mae hefyd yn wir bod gan gyflwyno gwasanaethau digidol y potensial i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. Gall arwain at gyflawni arbedion sylweddol drwy symleiddio prosesau busnes a lleihau gorbenion. Efallai y cofiwch, yn 2012, yr awgrymodd 'Adroddiad Effeithlonrwydd Ddigidol' Swyddfa'r Cabinet fod trafodion ar-lein 20 gwaith yn rhatach i sefydliad na thrafodion dros y ffôn, 30 gwaith yn rhatach na thrwy'r post a chymaint â 50 gwaith yn rhatach na darpariaeth wyneb yn wyneb.

I am not advocating that the Government pursues an agenda for change based on a desire to achieve revenue savings alone. On the contrary, digital transformation must lead to better outcomes for service users in order to truly succeed. It must be recognised, however, that in achieving digital transformation, it is also possible to yield efficiency savings, reduce duplication, share best practice and improve service delivery.

Nid wyf yn argymell bod y Llywodraeth yn dilyn agenda ar gyfer newid yn seiliedig ar awydd i gyflawni arbedion refeniw yn unig. I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i drawsnewid digidol arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn llwyddo mewn gwirionedd. Mae'n rhaid cydnabod, fodd bynnag, wrth gyflawni'r trawsnewid digidol, ei bod hefyd yn bosibl creu arbedion effeithlonrwydd, lleihau dyblygu, rhannu arfer gorau a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Digital transformation is already under way. We are already investing through our Superfast Cymru programme in the infrastructure to support digital service delivery. Our investment is providing connectivity to public sector organisations through our public sector broadband aggregation project and is supporting the delivery of digital public services by over 80 public sector organisations across Wales.

Mae trawsnewid digidol eisoes wedi dechrau. Rydym eisoes yn buddsoddi drwy ein rhaglen Cyflymu Cymru yn y seilwaith i gefnogi darpariaeth gwasanaethau digidol. Mae ein buddsoddiad yn darparu cysylltedd i sefydliadau sector cyhoeddus drwy ein prosiect cydgasglu band eang y sector cyhoeddus ac yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus digidol gan dros 80 o sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru.

Digital transformation cuts across all portfolios and there are numerous examples of successful service transformation emerging from every aspect of Welsh Government service delivery. For example, My Local School is a digital service designed to provide access to schools' data for parents and anyone else with an interest in their local school. The service provides a single point of contact for a wealth of data, ranging from performance data to staffing and finance information, in an easily accessible format. Rural Payments Wales Online is an online service developed in close collaboration with stakeholders including farmers, farming agents and farming unions to make sure it meets customer needs. The 2014 single application form—SAF, as it's known—was the first application to be available online. Almost a third of applications, over 5,000, were submitted online.

Mae trawsnewid digidol yn berthnasol i bob portffolio ac mae nifer o enghreifftiau o weddnewid gwasanaethau'n llwyddiannus yn dod i'r amlwg o bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae Fy Ysgol Leol yn wasanaeth digidol a gynlluniwyd i ddarparu mynediad at ddata ysgolion ar gyfer rhieni ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn ei ysgol leol. Mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer cyfoeth o ddata, yn amrywio o ddata perfformiad i wybodaeth am staffio a chyllid, ar fformat hygyrch. Mae Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein yn wasanaeth ar-lein a ddatblygwyd gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid gan gynnwys ffermwyr, asiantau ffermio ac undebau ffermio i wneud yn siŵr ei fod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Ffurflen cais unigol 2014—yr SAF, fel y'i gelwir—oedd y ffurflen gais gyntaf i fod ar gael ar-lein. Cafodd bron i draean y ceisiadau, dros 5,000, eu cyflwyno ar-lein.

There are numerous examples of digital service delivery developing through the efforts of multiple organisations across the public sector in Wales. If we are to increase the pace of change, maintain momentum in service transformation and achieve greater consistency in the delivery of digital services, public sector organisations across Wales will need to work together to achieve a shared vision of digital transformation. I'm therefore very pleased to announce today the publication of 'Digital First', which sets out the Welsh Government's vision to enable responsive, consistent and excellent public services through transformed digital delivery. The document published today outlines the first steps that the Welsh Government will take to create the environment necessary to enable and empower the public sector to provide excellent online services for the people and businesses of Wales.

Ceir nifer o enghreifftiau o ddatblygu darpariaeth gwasanaethau digidol drwy ymdrechion amryw o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Os ydym am gynyddu cyflymder y newid, cynnal momentwm o ran gweddnewid gwasanaethau a sicrhau mwy o gysondeb wrth ddarparu gwasanaethau digidol, bydd angen i sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru gydweithio i gyflawni gweledigaeth a rennir o drawsnewid digidol. Rwyf felly'n falch iawn o gyhoeddi heddiw cyhoeddiad 'Digidol yn Gyntaf' i nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i alluogi gwasanaethau cyhoeddus ymatebol, cyson a rhagorol drwy gyfrwng darpariaeth ddigidol wedi'i thrawsnewid. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd heddiw'n amlinellu'r camau cyntaf y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i greu'r amgylchedd sydd ei angen i alluogi a grymuso'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ar-lein rhagorol i bobl a busnesau Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:13.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:13.*

## Julie James Bywgraffiad Biography

Whilst we fully recognise the benefits to both citizens and organisations of delivering public services digitally, it is also important that the needs of those who might struggle to use digital services are considered alongside our efforts to transform and evolve our services. All services identified for digital transformation need to include assisted digital solutions to support the users of digital public services, whether citizens or businesses, who would otherwise have difficulty accessing them. The publication today of 'Digital First' marks the beginning of the journey. It signals the Welsh Government's intention to place user needs at the heart of this agenda. It places the focus on developing and delivering quality services that utilise digital technologies where appropriate but not at the expense of those who cannot or prefer not to use such technologies. It recognises that cost efficiencies can be achieved through digital transformation, but states that the pursuit of such savings will be secondary to providing quality public services. I look forward to providing further updates on this work as it progresses.

Er ein bod yn llwyr gydnabod manteision darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol i ddinasyddion a sefydliadau fel ei gilydd, mae hefyd yn bwysig ystyried anghenion y bobl hynny a allai ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau digidol ochr yn ochr â'n hymdrechion i weddnewid a datblygu ein gwasanaethau. Mae angen i bob gwasanaeth a nodwyd ar gyfer trawsnewid digidol gynnwys atebion digidol â chymorth i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus digidol, boed hwy'n ddinasyddion neu'n fusnesau, a fyddai fel arall yn cael trafferth cael mynediad at y gwasanaethau. Mae cyhoeddi 'Digidol yn Gyntaf' heddiw'n nodi cychwyn y daith. Mae'n arwydd o fwriad Llywodraeth Cymru i roi anghenion defnyddwyr wrth wraidd yr agenda hon. Mae'n rhoi'r pwyslais ar ddatblygu a darparu gwasanaethau o safon sy'n defnyddio technolegau digidol lle bo hynny'n briodol, ond nid ar draul y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio technolegau o'r fath, neu sy'n dymuno peidio â gwneud hynny. Mae'n cydnabod y gellir arbed costau drwy drawsnewid digidol, ond yn datgan y bydd chwilio am arbedion o'r fath yn eilaidd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon. Edrychaf ymlaen at ddarparu diweddariadau pellach ar y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo.

15:14

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I welcome the Deputy Minister's statement this afternoon? I am most grateful to her for an update on the 'Digital First' strategy. There were some interesting points that she made this afternoon, particularly that, in a time of austerity, enormous savings can be made simply by using e-mail. Rural Payments Wales is an online service that has proved most effective, and we hope therefore to see an increase in its use, as publicised by the Government.

A gaf fi groesawu datganiad y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma? Rwy'n hynod ddiolchgar iddi am y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth 'Digidol yn Gyntaf'. Gwnaeth rai pwyntiau diddorol y prynhawn yma, yn enwedig, mewn cyfnod o galedi, y gellir gwneud arbedion enfawr yn syml drwy ddefnyddio e-bost. Mae Taliadau Gwledig Cymru'n wasanaeth ar-lein sydd wedi bod yn effeithiol iawn, ac rydym yn gobeithio, felly, gweld mwy o bobl yn ei ddefnyddio, ar ôl y cyhoeddusrwydd gan y Llywodraeth.

The 'Digital First' one, clearly, is an interesting publication today and we've looked forward to that for some time. May I ask the Minister there, as the effectiveness of that scheme is shown, whether she will come to the Chamber once again with a statement on that? The United Kingdom Government has, of course, provided large sums of money over the last few years for the broadband roll-out, which is again taking place right across Wales. The take-up could be better and, no doubt, the Minister is using her best influence to make sure that as many people as possible can connect to the correct speed that they really need.

Mae'r un 'Digidol yn Gyntaf', yn amlwg, yn gyhoeddiad diddorol heddiw ac rydym wedi edrych ymlaen at hynny ers cryn amser. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog yn y fan yna, wrth i effeithiolrwydd y cynllun hwnnw gael ei ddangos, a ddaw hi i'r Siambr unwaith eto i roi datganiad am hynny? Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, wrth gwrs, wedi darparu symiau mawr o arian dros y blynyddoedd diwethaf i gyflwyno band eang, sydd unwaith eto'n digwydd ledled Cymru. Gallai'r niferoedd sy'n manteisio arno fod yn well ac, yn ddiau, mae'r Gweinidog yn defnyddio ei dylanwad yn y modd gorau posibl i sicrhau bod cynifer o bobl ag y bo modd yn gallu cysylltu â'r cyflymder cywir sydd ei wir angen arnynt.

Clearly, the Government is also moving to a national service online, with the age of going online almost by default. I wonder whether the Assembly Government are party to any of the happenings that have happened in the DVLA's online car tax service, as regards to best practice. Clearly, that's been a major achievement. And though Wales has one of the largest growth in next generation access to superfast broadband, it still has the lowest coverage. So, we are grateful to the Minister for bringing to the Chamber today this statement, which will help to publicise the importance and necessity of digital transformation, and particularly keeping pace with current technology.

Yn amlwg, mae'r Llywodraeth hefyd yn symud at wasanaeth cenedlaethol ar-lein, yn yr oes hon o fynd ar-lein bron yn ddiofyn. Tybed a yw Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am unrhyw beth sydd wedi digwydd yng ngwasanaeth treth car ar-lein y DVLA, o ran arfer gorau. Yn amlwg, bu hwnnw'n gyflawniad mawr. Ac er bod Cymru yn un o'r ardaloedd sy'n dangos y twf mwyaf o ran mynediad cenhedlaeth nesaf at fand eang cyflym iawn, mae'n dal i fod â'r mwyaf o fannau lle nad yw ar gael. Felly, rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddod â'r datganiad hwn i'r Siambr heddiw, a fydd yn helpu i roi cyhoeddusrwydd i bwysigrwydd a rheidrwydd trawsnewid digidol, ac yn enwedig dal i fyny â'r dechnoleg ddiweddaraf.

15:15 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that important contribution. In terms of the rural payments scheme, either I or my colleague, the Deputy Minister for Farming and Food, will be bringing an update on the take-up of that. This is very much a cross-Government initiative, and so a very large number of the things contained in the 'Digital First' paper are in the remit of Ministers other than myself. My role is to just co-ordinate and bring them together, so either I or the Minister responsible will bring back updates as appropriate.

Diolch am y cyfraniad pwysig yna. O ran y cynllun taliadau gwledig, byddaf fi neu fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer sy'n ei ddefnyddio. Mae hyn yn sicr yn fenter ar draws y Llywodraeth, ac felly mae nifer fawr iawn o'r pethau a geir yn y papur 'Digidol yn Gyntaf' yng nghylch gwaith Gweinidogion eraill heblaw fi. Fy ngwaith i yw eu cydlynu a dod â hwy at ei gilydd, felly byddaf fi neu'r Gweinidog â chyfrifoldeb yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf fel y bo'n briodol.

In terms of the take-up and coverage of the rollout of broadband, we have got a procurement out about take-up. We've had a debate in this very Chamber about it. We are obviously very keen to push take-up, and we are pleased with the progress on that. And we are also out to procurement on increasing the coverage after, again, an update that was brought to the Chamber very recently. I will, as those things progress, also undertake to update the Chamber accordingly.

O ran y nifer sy'n cymryd band eang ac ym mhle y cafodd ei gyflwyno, rydym wedi sicrhau caffaeliad ar gyfer y nifer sy'n ei gymryd. Rydym wedi cael dadl yn y Siambr hon am hynny. Yn amlwg rydym yn awyddus iawn i gynyddu'r nifer sy'n cael band eang, ac rydym yn fodlon ar y cynnydd yn hynny o beth. Ac rydym hefyd allan i gaffael ar gyfer sicrhau ei fod ar gael mewn mwy o ardaloedd ar ôl, unwaith eto, y wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd i'r Siambr yn ddiweddar iawn. Byddaf, wrth i'r pethau hynny ddatblygu, hefyd yn ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr yn unol â hynny.

In terms of the best practice point with the DVLA and, indeed, others, the Minister for Public Services and I have established a governance arrangement: a cross-departmental public services digital working group—a very snappy title. I'm sure we'll find a snappier one in the time to come. We have had a number of presentations, both from the Government digital service and others, and I believe that the DVLA's best practice person is coming to speak to that group at one of its forthcoming meetings. But we are very anxious to learn from best practice. We are very happy to learn wherever that best practice is. Indeed, one of the purposes of that group and the governance is to make sure that we are learning from best practice across the Welsh Government estate, as well as from the UK and, indeed, further afield.

O ran y pwynt arfer gorau ynglŷn â'r DVLA ac, yn wir, eraill, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a minnau wedi sefydlu trefniant llywodraethu: gweithgor digidol gwasanaethau cyhoeddus traws-adrannol—teitl bachog iawn. Rwy'n siŵr y byddwn yn dod o hyd i un mwy bachog yn yr amser i ddod. Rydym wedi cael nifer o gyflwyniadau, gan wasanaeth digidol y Llywodraeth a gan eraill, a chredaf fod unigolyn arfer gorau'r DVLA yn dod i siarad â'r grŵp hwnnw yn un o'i gyfarfodydd nesaf. Ond rydym yn awyddus iawn i ddysgu o arfer gorau. Rydym yn hapus iawn i ddysgu ble bynnag y mae'r arfer gorau hwnnw. Yn wir, un o ddibenion y grŵp a'r llywodraethu yw sicrhau ein bod yn dysgu o arfer gorau ar draws ystâd Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag o'r DU ac, yn wir, o bellach i ffwrdd.

15:17 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, a gaf i groesawu'n fawr iawn y datganiad yma? Wrth gwrs, mae trawsffurfio digidol yn eithriadol o bwysig. Mae gwella'r cysylltiadau hynny o ran gwasanaethau cyhoeddus yn eithriadol o bwysig. Roeddech yn sôn yn y datganiad yma am gysondeb y gwasanaeth, ond wrth gwrs, mae'r cysondeb hwnnw yn ddibynnol ar allu y derbynnydd i dderbyn yr ansawdd hynny o wasanaeth. Ac mewn nifer o ardaloedd gwledig yng Nghymru, mae'r isadeiledd yn wan o hyd; mae angen ei wella fe. Ochr yn ochr â darparu'r gwasanaeth cynhwysfawr yma, a ydych chi hefyd yn ymrwymo y Llywodraeth i barhau i wella'r isadeiledd, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, i fynd i'r afael â rhai o'r ardaloedd lle mae'n anodd iawn i dderbyn y gwasanaeth yma, ac i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn derbyn yr un ansawdd o wasanaeth?

Minister, may I very much welcome this statement? Of course, digital transformation is exceptionally important. Improving those links from the point of view of public services is extremely important. You talk in this statement about the consistency of the service, but of course that consistency is dependent on the ability of the recipient to receive that quality of service. In a number of rural areas in Wales, the infrastructure is still weak; it needs to be improved. Side by side with the delivery of this comprehensive service, are you also making a commitment that the Government will continue to improve the infrastructure, particularly in those rural areas, to deal with some of the areas where it is very difficult to receive this service, and to ensure that everybody in Wales receives the same kind of service

15:18 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, that's a very important point. The Minister for Communities and Tackling Poverty has recently announced the follow-up plans for the Communities 2.0 project. Digital inclusion is absolutely at the centre and heart of this agenda. That includes promoting the use of the Welsh language to support all aspects of service delivery across digital transformation as well. And, yes, we are very concerned that the roll-out continues apace, and we continue to have, as I said to William Graham, a number of initiatives in making sure that everybody in Wales does have appropriate access to the broadband services that will be necessary to access these services. And I will just restate what I said in the statement, which is that we are absolutely determined that nobody will be left out because they can't access those services—actually, whether they physically can't do it or whether they can't do it for capacity purposes within themselves, or, indeed, because they choose not to do so because of their age or position in life, or whatever.

Ydw, mae hwnna 'n bwynt pwysig iawn. Yn ddiweddar, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cyhoeddi cynlluniau dilynol y prosiect Cymunedau 2.0. Mae cynhwysiant digidol yn bendant wrth ganol a chalon yr agenda hon. Mae hynny'n cynnwys hybu'r defnydd o'r Gymraeg i gefnogi pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau ar draws trawsnewid digidol yn ogystal. Ac, ydym, rydym yn bryderus iawn bod y broses o gyflwyno'n parhau i fynd rhagddi'n gyflym, ac mae gennym o hyd, fel y dywedais wrth William Graham, nifer o fentrau i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n cael mynediad priodol at y gwasanaethau band eang y bydd eu hangen i allu defnyddio'r gwasanaethau hyn. Ac rwyf am ailddatgan yr hyn a ddywedais yn y datganiad, sef ein bod yn hollol benderfynol na chaiff neb ei adael allan oherwydd na all gael gafael ar y gwasanaethau hynny—mewn gwirionedd, pa un a ydynt yn methu ei wneud yn gorfforol ynteu'n methu ei wneud am resymau'n ymwneud â'u gallu eu hunain, neu, yn wir, oherwydd eu bod yn dewis peidio â gwneud hynny oherwydd eu hoedran neu eu sefyllfa mewn bywyd, neu beth bynnag.

15:19 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Building really on the last point, we know from the roll-out of Superfast Cymru that it was estimated that perhaps 4% of Wales might not be reached by Superfast Cymru and that other methods of providing digital inclusion could be reached, including mobile signals. So, I'm wondering if you have any information as to how that might impact.

I ehangu ar y pwynt diwethaf, mewn gwirionedd, rydym yn gwybod o gyflwyno Cyflymu Cymru yr amcangyfrifwyd na fyddai Cyflymu Cymru'n cyrraedd efallai 4% o Gymru ac y gellid defnyddio dulliau eraill o ddarparu cynhwysiant digidol, gan gynnwys signalau symudol. Felly, rwy'n meddwl tybed a oes gennych unrhyw wybodaeth ynghylch effaith bosibl hynny.

My main issue, however, is that of digital exclusion and the plans that there are to continue to reduce and eventually eliminate digital exclusion. Public services are more and more going online and we know that the UK Government's universal credit is planned to be largely an online service. I just wish to seek your assurance that the new Communities 2.0 and other methods of improving digital inclusion will remain at the forefront of the Government's agenda.

Fy mhrif broblem, fodd bynnag, yw allgáu digidol a'r cynlluniau a geir i barhau i leihau allgáu digidol a'i ddileu yn y pen draw. Mae mwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus yn mynd ar-lein a gwyddom mai'r bwriad yw y bydd credyd cynhwysol Llywodraeth y DU yn wasanaeth ar-lein i raddau helaeth. Hoffwn ofyn am eich sicrwydd y bydd y Cymunedau 2.0 newydd a dulliau eraill o wella cynhwysiant digidol yn parhau i fod yn flaenllaw ar agenda'r Llywodraeth.

15:20 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm extremely happy to give Jeff Cuthbert that assurance. My colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty Lesley Griffiths is actually in charge of the roll-out of that and not me. As I say, this is a piece right across the Government departments, but we have a digital public sector working group, as I said, that pulls it altogether to make sure that we learn from best practice. So, I'm very happy to give him that assurance.

Wel, rwy'n hynod o falch o roi'r sicrwydd hwnnw i Jeff Cuthbert. Fy nghydweithiwr y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths, sydd mewn gwirionedd yn gyfrifol am y broses o gyflwyno hynny ac nid fi. Fel y dywedais, mae hyn yn berthnasol i holl adrannau'r Llywodraeth, ond mae gennym weithgor sector cyhoeddus digidol, fel y dywedais, sy'n tynnu'r cyfan at ei gilydd i wneud yn siŵr ein bod yn dysgu o arfer gorau. Felly, rwy'n hapus iawn i roi'r sicrwydd hwnnw iddo.

In terms of the coverage aspect, I'll just elaborate on what I said to Rhodri Glyn Thomas. We have a superfast broadband roll-out, which, I'm sure Members will remember, is currently aimed to touch 96% of premises. We do have a number of plans afoot to cover the other 4% and I reassure the Member that nobody in Wales will be left out of this important development.

O ran sicrhau ei fod ar gael ym mhobman, hoffwn ymhelaethu ar yr hyn a ddywedais wrth Rhodri Glyn Thomas. Mae gennym raglen cyflwyno band eang cyflym iawn, sydd â'r nod, fel yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cofio, ar hyn o bryd i gyrraedd 96% o safleoedd. Mae gennym nifer o gynlluniau ar y gweill i gyrraedd y 4% arall ac rwyf yn sicrhau'r Aelodau na chaiff neb yng Nghymru ei adael allan o'r datblygiad pwysig hwn.

15:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, thank you for the statement, Deputy Minister. I think we all recognise, obviously, that there are many benefits to increasing the provision and improving the provision of digital services in the public sector. But, of course, we will share a concern that people who are digitally excluded, for whatever reason, should be able to continue to access an equal quality of service; not a secondary quality of service from those places.

Wel, diolch am y datganiad, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n credu ein bod i gyd yn cydnabod, yn amlwg, bod llawer o fanteision i gynyddu'r ddarpariaeth a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau digidol yn y sector cyhoeddus. Ond, wrth gwrs, byddwn yn rhannu pryder y dylai pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, am ba reswm bynnag, allu parhau i gael mynediad at wasanaeth o ansawdd cyfartal; nid gwasanaeth o ansawdd eilaidd o'r lleoedd hynny.

Of course, we can all anticipate, I think, that if we get to the point where 98 per cent or 99 per cent of service users are getting their services online, the remaining 1 per cent to 2 per cent could be forgotten and I'm wondering if you can tell us how you're planning to ensure that those service users who can't, for whatever reason, use the online version, will continue to get the best quality of service that they expect.

Wrth gwrs, gallwn i gyd ragweld, rwyf yn meddwl, os ydym yn cyrraedd y pwynt lle mae 98 y cant neu 99 y cant o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu gwasanaethau ar-lein, y gallai'r 1 y cant i 2 y cant sy'n weddill gael eu hanghofio ac rwy'n meddwl tybed a allwch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd y defnyddwyr gwasanaeth hynny nad ydynt yn gallu, am ba bynnag reswm, defnyddio'r fersiwn ar-lein, yn parhau i gael y gwasanaeth o'r ansawdd gorau y maent yn ei ddisgwyl.

Digital exclusion is obviously very important to us. It could be due to lack of access to equipment, a lack of experience using IT, connectivity issues, particularly in rural Wales, and also disability issues. For example, some sites don't work very well, particularly sites that require you to input into individual boxes with drop-down boxes; they work very, very badly with text readers for people with visual impairments. So, I'd be very interested to know what the Welsh Government is doing to ensure that the accessibility of those sites is thoroughly tested with user groups.

Mae allgáu digidol yn amlwg yn bwysig iawn inni. Gallai fod oherwydd diffyg mynediad at gyfarpar, diffyg profiad o ddefnyddio TG, materion cysylltedd, yn enwedig yng Nghymru wledig, a hefyd materion anabledd. Er enghraifft, nid yw rhai safleoedd yn gweithio'n dda iawn, yn enwedig safleoedd sy'n gofyn ichi fewnbynnu i flychau unigol â blychau cwympo; maent yn gweithio'n wael iawn, iawn mewn darllenwyr testun i bobl â nam ar eu golwg. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn cael gwybod beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i sicrhau bod hygyrchedd y safleoedd hynny wedi'i brofi'n drylwyr gyda grwpiau defnyddwyr.

In terms of connectivity, we've heard about the challenges of rural Wales and how superfast broadband is obviously aimed at tackling that. I'd be very grateful for an update at some point about tackling issues with urban notspots, and also whether you have considered the role of mobile service providers in tackling some of those notspots and what we're doing to improve the accessibility of mobile services too.

O ran cysylltedd, rydym wedi clywed am heriau Cymru wledig a sut mae band eang cyflym iawn yn amlwg â'r nod o ymdrin â hynny. Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael y wybodaeth ddiweddaraf rywbryd ynglŷn ag ymdrin â materion mannau gwan trefol, a hefyd pa un a ydych chi wedi ystyried yr hyn y gallai darparwyr gwasanaeth symudol ei wneud i ymdrin â rhai o'r mannau gwan hynny a'r hyn yr ydym yn ei wneud i wella hygyrchedd gwasanaethau symudol hefyd.

Finally, something that's not been mentioned in the statement, or indeed, certainly in this initial document that I've had a look through, is the issue of security, which is one that is obviously very, very close to people's hearts. If we are encouraging new users to share potentially confidential information over the internet, obviously we need to make sure that people have every confidence that their data will be safe. What approach does the Welsh Government have towards ensuring that that digital security is as robust as it can possibly be? Also, how can we make sure that we're protecting, perhaps, inexperienced users from clone e-mails and clone websites that are phishing for information for people so that they can use that sensitive information for illegal purposes? If you could give us an update on that, I'd be very grateful. Thank you.

Yn olaf, rhywbeth nad yw wedi cael sylw yn y datganiad, nac yn wir, yn sicr yn y ddogfen gychwynnol hon yr wyf wedi cael golwg drwyddi, yw mater diogelwch, sy'n amlwg yn fater agos iawn, iawn at galonnau pobl. Os ydym yn annog defnyddwyr newydd i rannu gwybodaeth a allai fod yn gyfrinachol dros y rhyngrwyd, yn amlwg mae angen inni wneud yn siŵr bod gan bobl bob ffydd y bydd eu data'n ddiogel. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i sicrhau bod y diogelwch digidol hwnnw mor gadarn â phosibl? Hefyd, sut y gallwn ni sicrhau ein bod yn gwarchod, efallai, defnyddwyr dibrofiad rhag negeseuon e-bost clôn a gwefannau clôn sy'n gwe-rwydo am wybodaeth am bobl fel y gallant ddefnyddio'r wybodaeth sensitif honno at ddibenion anghyfreithlon? Pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny inni, byddwn yn ddiolchgar iawn. Diolch.

15:24 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. Well, in terms of the exclusion, I'm very happy to reiterate what I've said already. We are absolutely committed to ensuring that no person is excluded from public services because of their digital exclusion, and that includes because of any accessibility issues in terms of impairment—visual or otherwise. All of our services will be tested comprehensively to ensure that that does not happen and that they remain fit for purpose. We will be centring the services, as I said very clearly in my statement, around user need and excellent public services, not around efficiency and effectiveness—although, obviously, we want them to be efficient and effective as well. But, the user need will be at the heart and centre of what we're designing here. I won't reiterate the point about the follow-up for Communities 2.0; I'm sure my colleague, the appropriate Minister will do that in due course, but we are very pleased that we are continuing with those schemes and we are very committed to doing so.

Iawn. Wel, o ran yr allgáu, rwy'n hapus iawn i ailadrodd yr hyn yr wyf wedi'i ddweud yn barod. Rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau nad oes neb wedi'i allgáu o wasanaethau cyhoeddus oherwydd allgáu digidol, ac mae hynny'n cynnwys oherwydd unrhyw faterion hygyrchedd o ran amhariad—ar y golwg neu fel arall. Bydd pob un o'n gwasanaethau'n cael ei brofi'n gynhwysfawr i sicrhau nad yw hynny'n digwydd a'i fod yn parhau i fod yn addas i'w ddiben. Byddwn yn canoli'r gwasanaethau, fel y dywedais yn glir iawn yn fy natganiad, o amgylch anghenion defnyddwyr a gwasanaethau cyhoeddus rhagorol, nid o gwmpas effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd—er, yn amlwg, rydym am iddynt fod yn effeithlon ac yn effeithiol hefyd. Ond, angen defnyddwyr fydd wrth galon a chanol yr hyn yr ydym yn ei gynllunio yma. Nid wyf am ailadrodd y pwynt am y gwaith dilynol ar gyfer Cymunedau 2.0; rwy'n siŵr y bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog priodol yn gwneud hynny maes o law, ond rydym yn falch iawn ein bod yn parhau â'r cynlluniau hynny ac rydym yn ymroddedig iawn i wneud hynny.

In terms of urban notspots and the mobile issue, we are looking at a number of innovative solutions to cover those people who are in the 4 per cent. The assumption is that the 4 per cent is in rural communities, but we're very well aware that it isn't always. It's obviously essential that the whole of the population is covered. I, personally, would like to see the whole of the geography covered, because, actually, it's important for tourism and other issues as well. So, we are very much on top of that, and, as we develop those solutions, we will be bringing more information into the Senedd, probably as part of a procurement to cover the rest of the 4 per cent. But I'm very happy to commit to bringing updates, as and when we have the right information. We're in the process of developing that at the moment.

O ran mannau gwan trefol a mater signalau symudol, rydym yn edrych ar nifer o atebion arloesol i gynnwys y bobl hynny sydd yn y 4 y cant. Y dybiaeth yw bod y 4 y cant mewn cymunedau gwledig, ond rydym yn ymwybodol iawn nad yw hynny bob amser yn wir. Mae'n amlwg yn hanfodol bod yr holl boblogaeth yn cael ei chynnwys. Byddwn i, yn bersonol, yn hoffi gweld y cyfan o'r ddaearyddiaeth yn cael ei chynnwys, oherwydd, mewn gwirionedd, mae'n bwysig i dwristiaeth a materion eraill hefyd. Felly, rydym yn bendant yn gweithio ar hynny, ac, wrth inni ddatblygu'r datrysiadau hynny, byddwn yn dod â mwy o wybodaeth i mewn i'r Senedd, yn ôl pob tebyg yn rhan o gaffaeliad i gynnwys gweddill y 4 y cant. Ond rwy'n hapus iawn i ymrwymo i roi diweddariadau, pan fydd y wybodaeth gywir gennym. Rydym yn y broses o ddatblygu hynny ar hyn o bryd.

In terms of security, it's an extremely good point. We are looking at that very closely. I don't know if Eluned Parrott has had the chance to look at the gov.uk Verify process, for example, which we were told was impossible to do, but they've clearly done it. The team that did that are very inspirational. We've already had a presentation from them in this digital public services working group, and I make no bones whatsoever about piggybacking on the back of other developments that exist. Indeed, the Government digital service is more than happy to share its expertise with devolved administrations, and we will be taking advantage of that.

O ran diogelwch, mae'n bwynt arbennig o dda. Rydym yn edrych ar hynny'n ofalus iawn. Nid wyf yn gwybod a yw Eluned Parrott wedi cael y cyfle i edrych ar broses wirio gov.uk, er enghraifft; dywedwyd wrthym ei bod yn amhosibl ei wneud, ond maent yn amlwg wedi'i wneud. Mae'r tîm a wnaeth hynny'n ysbrydoledig iawn. Rydym eisoes wedi cael cyflwyniad ganddynt yn y gweithgor gwasanaethau cyhoeddus digidol, ac ni wnaf ymddiheuro o gwbl am fanteisio ar lwyddiant datblygiadau eraill sy'n bodoli. Yn wir, mae gwasanaeth digidol y Llywodraeth yn fwy na pharod i rannu ei arbenigedd gyda gweinyddiaethau datganoledig, a byddwn yn manteisio ar hynny.

15:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:26 — Senedd.tv Fideo Video

## 5. Datganiad: Mannau Glanach, Mwy Diogel ar gyfer ein Cymunedau

## 5. Statement: Cleaner, Safer Places for our Communities

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 5 is a statement by the Minister for Natural Resources on cleaner, safer places for our communities—Carl Sargeant.

Eitem 5 yw ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol am leoedd glanach, mwy diogel ar gyfer ein cymunedau—Carl Sargeant.

15:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. A local environment blighted by litter, fly-tipping, graffiti and dog fouling impacts not only on our long-term health and wellbeing, but also on our ability to grow our economy. It can affect both the tourism and inward investment potential of an area, as well as the value of homes.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae amgylchedd lleol sydd wedi'i ddifetha gan sbwriel, tipio anghyfreithlon, graffiti a baw cŵn nid yn unig yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles yn y tymor hir, ond hefyd ar ein gallu i dyfu ein heconomi. Mae'n gallu effeithio ar botensial ardal o ran twristiaeth a mewnfuddsoddi, yn ogystal â gwerth cartrefi.

The department has funded two key initiatives: Tidy Towns and the fly-tipping action Wales partnership, both of which have been effective in tackling these front-door issues. These initiatives enable communities to improve their quality of life and become more resilient; they can lead to a greater sense of wellbeing, pride of place and social cohesion.

Mae'r adran wedi ariannu dwy fenter allweddol: Trefi Taclus a'r bartneriaeth taclo tipio Cymru, sydd ill dwy wedi bod yn effeithiol wrth ymdrin â'r materion drws ffrynt hyn. Mae'r mentrau hyn yn galluogi cymunedau i wella ansawdd eu bywydau a dod yn gryfach; gallant arwain at fwy o ymdeimlad o lesiant, balchder mewn lleoliad a chydlyniad cymdeithasol.

Tidy Towns was launched in 2008 to support and encourage community participation in a wide range of environmental quality improvement projects. These have included: clean-ups, fly-tipping removal and prevention measures, access improvements, developing wasteland into allotments, and biodiversity projects. Tidy Towns has brought local authorities together with community groups and third sector organisations, and, rather than just trying to tackle issues individually, their actions benefit the place as a whole in ways that extend well beyond just improving local environments. For example, supporting the community growing projects encourages healthy eating as well as improving physical and mental health; improving access to green space and improving green links promote active lifestyles; and many projects include training opportunities that build the knowledge and confidence of volunteers to help them to gain employment too.

Cafodd Trefi Taclus ei lansio yn 2008 i gefnogi ac annog cyfranogiad y gymuned mewn ystod eang o brosiectau gwella ansawdd yr amgylchedd. Mae'r rhain wedi cynnwys: glanhau, mesurau clirio ac atal tipio anghyfreithlon, gwelliannau mynediad, datblygu tir diffaith i fod yn rhandiroedd, a phrosiectau bioamrywiaeth. Mae Trefi Taclus wedi dod ag awdurdodau lleol ynghyd â grwpiau cymunedol a mudiadau trydydd sector, ac, yn hytrach na dim ond ceisio ymdrin â materion yn unigol, mae eu gweithredoedd o fudd i'r lle yn ei gyfanrwydd mewn modd sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i ddim ond gwella amgylcheddau lleol. Er enghraifft, mae cefnogi'r prosiectau tyfu bwyd yn y gymuned yn annog bwyta'n iach yn ogystal â gwella iechyd corfforol a meddyliol; mae gwella mynediad i fannau gwyrdd a gwella cysylltiadau gwyrdd yn hybu ffyrdd gweithgar o fyw; ac mae llawer o brosiectau'n cynnwys cyfleoedd hyfforddi sy'n adeiladu ar wybodaeth a hyder gwirfoddolwyr i'w helpu i gael gwaith hefyd.

Local authorities in Wales have received over £16 million of funding since 2008 for improvement projects and key elements of work, over and above their statutory duties. We have focused our efforts on deprived areas and placed a strong emphasis on partnership working with many to deliver multiple benefits for communities. This has provided local authorities with the resource to work with a host of partners, encouraging a more collaborative approach to community projects that reach a larger audience. It has enabled wider engagement and provided multiple benefits to the communities where the projects have been delivered.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi derbyn dros £16 miliwn o gyllid ers 2008 ar gyfer prosiectau gwella ac elfennau gwaith allweddol, yn ychwanegol at eu dyletswyddau statudol. Rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar ardaloedd difreintiedig ac wedi rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth gyda llawer i sicrhau manteision lluosog i gymunedau. Mae hyn wedi darparu'r adnoddau i awdurdodau lleol i gydweithio â llu o bartneriaid, gan annog ymagwedd fwy cydweithredol at brosiectau cymunedol sy'n cyrraedd cynulleidfa fwy. Mae wedi galluogi mwy o ymgysylltu ac wedi darparu buddion amryfal i'r cymunedau lle mae'r prosiectau wedi cael eu cyflawni.

Some projects' funding has included enhancements to areas like Barrack's Woods in Newport, which encouraged volunteers and stakeholders to work together to clear rubbish and cut back overgrowth, making space for a cycle track and transforming a piece of land into an inviting place to visit and walk. In Neath Port Talbot, refurbishing the Briton Ferry canal towpath has also provided an alternative route for walkers and cyclists as part of the Swansea bay integrated commuter route initiative. In 2014-15, the Welsh Government supported 53 projects with a value of over £1.1 million across 20 local authorities.

Mae cyllid rhai prosiectau wedi cynnwys gwelliannau i ardaloedd fel Coed y Barics yng Nghasnewydd, a oedd yn annog gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid i gydweithio i glirio sbwriel a thorri gordyfiant, gan wneud lle i lwybr beicio a gweddnewid darn o dir yn lle deniadol i ymweld ag ef a mynd am dro. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae adnewyddu llwybr tynnu camlas Llansawel hefyd wedi darparu llwybr arall i gerddwyr a beicwyr yn rhan o fenter llwybr cymudo integredig bae Abertawe. Yn 2014-15, cefnogodd Llywodraeth Cymru 53 o brosiectau gwerth dros £1.1 miliwn ar draws 20 awdurdod lleol.

Tidy Towns community-led project funding enables community and third sector organisations to bid for support to carry out environmental improvement projects. These projects enable local volunteering opportunities and working partnerships to safely carry out improvement actions that are at the heart of their communities. Since 2011, Tidy Towns has funded 106 community group projects totalling over £1.2 million.

Mae arian Trefi Taclus i brosiectau a arweinir gan y gymuned yn galluogi mudiadau cymunedol a thrydydd sector i wneud cais am gymorth i gyflawni prosiectau gwella amgylcheddol. Mae'r prosiectau hyn yn galluogi cyfleoedd gwirfoddoli lleol a phartneriaethau gwaith i gymryd camau gwella sydd wrth galon eu cymunedau mewn modd diogel. Ers 2011, mae Trefi Taclus wedi ariannu 106 o brosiectau grwpiau cymunedol â chyfanswm gwerth dros £1.2 miliwn.

Tidy Towns has also been delivered by Keep Wales Tidy, who've received in their own right over £7 million of Tidy Towns funding since its inception to deliver initiatives on the ground. Community engagement officers are based in each of the local authorities to encourage and support the creation of community groups, identifying local issues and co-designing solutions to tackle these issues.

Mae Trefi Taclus hefyd wedi cael ei ddarparu gan Cadwch Gymru'n Daclus, sydd wedi cael dros £7 miliwn o arian Trefi Taclus yn ei rinwedd ei hun ers ei sefydlu i ddarparu mentrau ar lawr gwlad. Mae swyddogion ymgysylltu â'r gymuned wedi'u lleoli ym mhob un o'r awdurdodau lleol i annog a chefnogi pobl i greu grwpiau cymunedol, gan ganfod problemau lleol a chynllunio atebion ar y cyd i wella'r problemau hyn.

The Big Dee Day event is an annual two-day clean up along the Dee estuary. The project attracts volunteers from local schools, the probation service, drug rehabilitation organisations and people recovering from mental illness and older people's groups. During the event last year, 1.5 tonnes of rubbish, including 89 bags of rubbish, were cleared from hedging and bulbs were planted to enhance the area along the Dee estuary. Fly-Tipping Action Wales tackles a serious blight on our communities. Fly-tipping poses a threat to humans and wildlife and damages our environment. In addition to the Tidy Towns work tackling fly-tipping, the Welsh Government has funded Fly-Tipping Action Wales since 2007. This initiative brings together over 50 partners, including statutory bodies, landowners, businesses, communities and voluntary organisations, to provide education, enforcement and community initiatives. The number of fly-tipping incidents in Wales fell last year by 5 per cent and a concerted community awareness programme has increased recognition of the problem, evidenced by a 25 per cent increase in visitors to the Fly-Tipping Action Wales website.

Mae digwyddiad Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy'n ddeuddydd blynyddol o lanhau ar hyd aber afon Dyfrdwy. Mae'r prosiect yn denu gwirfoddolwyr o ysgolion lleol, y gwasanaeth prawf, sefydliadau adsefydlu cyffuriau a phobl sy'n gwella o salwch meddwl a grwpiau pobl hŷn. Yn ystod y digwyddiad y llynedd, cafodd 1.5 tunnell o sbwriel, gan gynnwys 89 bag o sbwriel, eu clirio o'r gwrychoedd a chafodd bylbiau eu plannu i wella'r ardal ar hyd aber afon Dyfrdwy. Mae Taclo Tipio Cymru yn brwydro yn erbyn malltod difrifol ar ein cymunedau. Mae tipio anghyfreithlon yn fygythiad i bobl a bywyd gwyllt ac yn difrodi ein hamgylchedd. Yn ogystal â gwaith Trefi Taclus i ymdrin â thipio anghyfreithlon, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Taclo Tipio Cymru ers 2007. Mae'r fenter hon yn dwyn ynghyd dros 50 o bartneriaid, gan gynnwys cyrff statudol, tirfeddianwyr, busnesau, cymunedau a mudiadau gwirfoddol, i ddarparu addysg, gorfodaeth a mentrau cymunedol. Gostyngodd nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru y llynedd gan 5 y cant ac mae rhaglen gydunol wedi codi ymwybyddiaeth cymunedau o'r broblem—cafwyd tystiolaeth o hynny yn y cynnydd o 25 y cant yn nifer yr ymwelwyr â gwefan Taclo Tipio Cymru.

To build on the excellent work that's already been achieved by these partnership approaches, I recently published a Welsh Government fly-tipping strategy, developed through extensive consultation with partner organisations. Work has already begun, Deputy Presiding Officer, with our partners, to implement the actions that are identified within the strategy. Making our communities cleaner, safer and more resilient is essential to the wellbeing of the people in Wales and to the wellbeing of the environment that supports their quality of life. I'm grateful for the opportunity to make this statement today.

Er mwyn adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd eisoes wedi ei gyflawni drwy'r dulliau partneriaeth hyn, yn ddiweddar cyhoeddais strategaeth tipio anghyfreithlon gan Lywodraeth Cymru, a ddatblygwyd drwy ymgynghori helaeth â sefydliadau partner. Mae gwaith eisoes wedi dechrau, Ddirprwy Lywydd, gyda'n partneriaid, i gymryd y camau a nodir yn y strategaeth. Mae gwneud ein cymunedau'n lanach, yn fwy diogel ac yn gryfach yn hanfodol i lesiant pobl yng Nghymru ac i lesiant yr amgylchedd sy'n cefnogi ansawdd eu bywydau. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i wneud y datganiad hwn heddiw.

15:32

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your statement. Obviously, it says everything that everybody would support, as such. It's one of the big issues that does affect many Members, whether they're in councils, whether they're in this Chamber or Members of Parliament. Fly-tipping and the blight that rubbish has on the countryside and the domestic environment, shall we say, where people live, is a huge concern and issue because it presents itself on a day-to-day basis to people, and, in particular, where people want to explore their environment, as the Ministers touched upon—cycleways, pathways, allotments, et cetera. Those are the things that touch people in their everyday lives.

Weinidog, diolch am eich datganiad. Yn amlwg, mae'n dweud popeth y byddai pawb yn ei gefnogi, fel petai. Mae'n un o'r materion mawr sydd yn effeithio ar lawer o Aelodau, pa un a ydynt mewn cynghorau, yn y Siambr hon neu'n Aelodau Seneddol. Mae tipio anghyfreithlon a malltod sbwriel ar gefn gwlad a'r amgylchedd domestig, dewch inni ddweud, lle mae pobl yn byw, yn bryder ac yn fater enfawr oherwydd ei fod i'w weld bob dydd i bobl, ac, yn enwedig, lle mae ar bobl eisiau archwilio eu hamgylchedd, fel y soniodd y Gweinidogion amdano—llwybrau beicio, llwybrau, rhandiroedd, ac ati. Dyna'r pethau sy'n cyffwrdd â phobl yn eu bywydau bob dydd.

I do notice in the statement that the Minister talks about a 5 per cent reduction in the amount of fly-tipping around Wales. I'd be really interested to know whether there has been a general 5 per cent reduction or whether it is just specific categories. Obviously, with the uplift in scrap value for example, if there's a burnt out car or something has a bit of value, people will tend to come along and pick that up, and so it doesn't get registered in the figures. I know in my own electoral area, for example, there doesn't seem to have been a reduction in general builders' waste or garden waste, et cetera, and, in fact, I would suggest that there has actually been an increase. Certainly, when I've driven around my electoral area, I'm seeing lay-bys and parkways where certainly I've never seen stuff tipped before. Obviously, that has a huge cost as well to local authorities and other public bodies, when their budgets are under pressure, to pick that refuse up as well.

Rwyf yn sylwi yn y datganiad bod y Gweinidog yn sôn am ostyngiad o 5 y cant yn y tipio anghyfreithlon sy'n digwydd ledled Cymru. Byddai gennyf ddiddordeb gwirioneddol mewn gwybod a fu gostyngiad 5 y cant yn gyffredinol ynteu dim ond mewn categorïau penodol. Yn amlwg, gyda'r cynnydd mewn gwerth sgrap er enghraifft, os oes car wedi'i losgi neu os oes gan rywbeth ychydig o werth, bydd pobl yn tueddu i ddod a'i godi, ac felly nid yw'n cael ei gofrestru yn y ffigurau. Rwyf yn gwybod yn fy ardal etholiadol fy hun, er enghraifft, nad yw'n ymddangos y bu gostyngiad mewn gwastraff adeiladwyr cyffredinol na gwastraff gardd, ac ati, ac, yn wir, byddwn yn awgrymu y bu cynnydd mewn gwirionedd. Yn sicr, pan wyf wedi gyrru o gwmpas fy ardal etholiadol, rwy'n gweld cilfannau a pharcffyrdd lle'r wyf yn sicr nad wyf erioed wedi gweld stwff wedi'i dipio o'r blaen. Yn amlwg, mae hynny'n creu cost enfawr hefyd i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, pan fo eu cyllidebau o dan bwysau, i godi'r sbwriel hwnnw hefyd.

Secondly, I'd also like to know how the Minister—I know he refers to the website that has had an increase in traffic going to it—but in particular, how members of the community can report fly-tipping. Very often, there is an intimidatory atmosphere around that. I know full well that when I've taken people to task who've tipped near our farm, I've had my number plate pointed at as if making the point 'I know where you live'. Well, they might know where I live, but I'm big and ugly enough to stand up to that; other people aren't, really, and it is quite intimidating for them. But it is a huge blight on their communities, and people shouldn't feel the fear that some people do and turn a blind eye to this unsociable practice. So I'd be grateful to hear what sort of social media the Minister and his officials are looking to develop along with local authorities, along with Natural Resources Wales, and, in particular, the enforcement agencies, such as the police, to make sure that we can stamp this bad practice out.

Yn ail, hoffwn wybod hefyd sut y mae'r Gweinidog—rwy'n gwybod ei fod yn cyfeirio at y wefan sydd wedi cael cynnydd yn y traffig iddi—ond yn arbennig, sut y gall aelodau o'r gymuned hysbysu am dipio anghyfreithlon. Yn aml iawn, mae yna awyrgylch bygythiol o gwmpas hynny. Rwy'n gwybod yn iawn, pan wyf wedi ceryddu pobl sydd wedi tipio ger ein fferm ni, eu bod wedi pwyntio at fy mhlât rhif fel pe byddent yn gwneud y pwynt 'Rwy'n gwybod lle'r ydych chi'n byw'. Wel, efallai eu bod yn gwybod lle rwy'n byw, ond rwy'n ddigon mawr a hyll i wynebu hynny; nid yw pobl eraill, mewn gwirionedd, ac mae'n eithaf brawychus iddynt. Ond mae'n falltod enfawr ar eu cymunedau, ac ni ddylai pobl deimlo ofn fel y mae rhai pobl ac anwybyddu'r arfer anghymdeithasol hwn. Felly byddwn yn ddiolchgar o glywed pa fath o gyfryngau cymdeithasol y mae'r Gweinidog a'i swyddogion yn ystyried eu datblygu ynghyd ag awdurdodau lleol, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, ac, yn arbennig, yr asiantaethau gorfodi, megis yr heddlu, i wneud yn siŵr y gallwn gael gwared ar yr arfer drwg hwn.

And then, thirdly, I would like to know how the Minister, given that budgets are under pressure—and we can have the usual banter over the Chamber, if we want, Minister, on that, but I think it would be welcome to know how, going forward, the Welsh Government will be taking funding forward for some of the initiatives that he mentioned in his statement, and the life expectancy, because some of those initiatives have been on the books now for some time. I think the Tidy Towns initiative, for example, you talked of since 2008, and, like all initiatives, if they're going well, why tinker with them, but sometimes they do need refreshing and giving a fresh lease of life so that people know exactly where the funding pots are going to come to clean up the allotments and clean up the cycleways that the Minister touched on in his statement.

Ac yna, yn drydydd, hoffwn wybod sut y bydd y Gweinidog, o gofio bod cyllidebau o dan bwysau—a gallwn gael y tynnu coes arferol dros y Siambr, os hoffwn, Weinidog, am hynny, ond rwyf yn credu y byddai'n braf cael gwybod sut, wrth symud ymlaen, y bydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â chyllid i rai o'r mentrau y soniodd amdanynt yn ei ddatganiad, a'r disgwyliad oes, gan fod rhai o'r mentrau hynny wedi bod ar y llyfrau ers cryn amser erbyn hyn. Rwy'n meddwl bod y fenter Trefi Taclus, er enghraifft, y soniasoch amdani yn mynd ers 2008, ac, fel pob menter, os ydynt yn mynd yn dda, pam ymyrryd â hwy, ond weithiau mae angen eu hadnewyddu a rhoi chwa o awyr iach iddynt fel bod pobl yn gwybod yn union o ble y daw'r potiau cyllid i lanhau'r rhandiroedd a glanhau'r llwybrau beicio y soniodd y Gweinidog amdanynt yn ei ddatganiad.

15:35

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his very positive contribution there, in terms of recognising the great work that goes on across Wales. But he does raise some very important, pertinent points.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad cadarnhaol iawn yn y fan yna, o ran cydnabod y gwaith gwych sy'n digwydd ledled Cymru. Ond mae'n codi rhai pwyntiau pwysig a pherthnasol iawn.

On the issue around fly-tipping, I can give him the numbers there on incidents reported. Notwithstanding what the Member said, there were 32,934 fly-tipping incidents reported by local authorities in 2013-14, down from 34,876 in 2012-13, so incidents reported have dropped significantly. However, I do recognise that the Member raises the issue of where fly-tipping occurs and it's not reported. And I think what we are developing here, with the fly-tipping strategy, is about getting partners to understand a pattern forming, because, where people do fly-tip, it's generally the same people, the same sort of material—builders' waste or garden waste. And what we've seen, with the introduction of a programme called FlyMapper, is about where the agencies can, through GPS systems, tag a particular area that's at high risk, and that's shared with agencies, not only of the local authority, but other agencies that may have an interest in this, which will give them a profile of where unlawful activity is taking place.

O ran y mater ynghylch tipio anghyfreithlon, gallaf roi iddo niferoedd y digwyddiadau yr hysbyswyd amdanynt. Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd yr Aelod, cafodd 32,934 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon eu hysbysu gan yr awdurdodau lleol yn 2013-14, i lawr o 34,876 yn 2012-13, felly mae nifer y digwyddiadau yr hysbysir amdanynt wedi gostwng yn sylweddol. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod yr Aelod yn sôn am achosion lle mae tipio anghyfreithlon yn digwydd ac ni hysbysir amdano. Ac rwyf yn meddwl mai'r hyn yr ydym yn ei ddatblygu yma, gyda'r strategaeth tipio anghyfreithlon, yw mater o sicrhau bod partneriaid yn deall y patrwm sy'n ffurfio, oherwydd, lle mae pobl yn tipio'n anghyfreithlon, yn gyffredinol yr un bobl ydynt, yr un math o ddefnydd—gwastraff adeiladwyr neu wastraff gardd. A'r hyn yr ydym wedi ei weld, yn sgil cyflwyno rhaglen o'r enw FlyMapper, yw bod yr asiantaethau'n gallu defnyddio systemau GPS i dagio ardal benodol sy'n wynebu risg uchel, a rhannu hynny ag asiantaethau, nid yn unig o'r awdurdod lleol, ond asiantaethau eraill a allai fod â diddordeb yn hyn, a fydd yn rhoi proffil iddynt o ble mae gweithgaredd anghyfreithlon yn digwydd.

What would be fair to say is that FlyMapper is yet to be rolled out across all constituencies across Wales; it's a pilot project. And what we have seen, noticeably, where FlyMapper is in action, they are diverting fly-tipping to the neighbouring authorities. So, where, in Cardiff, there is a very effective FlyMapper patrol, effectively, with the local authority working with Fly-tipping Action Wales, going out and taking action on this activity, there are significant data to suggest that it's just being pushed to a neighbouring authority. This is something that we are addressing, and we would encourage all authorities to take up that collective approach to tackle this blight on our community.

Byddai'n deg dweud nad yw FlyMapper wedi cael ei gyflwyno ar draws holl etholaethau Cymru eto; prosiect arbrofol yw hwn. A'r hyn yr ydym wedi ei weld, yn amlwg, lle mae FlyMapper ar waith, yw eu bod yn dargyfeirio tipio anghyfreithlon i'r awdurdodau cyfagos. Felly, yng Nghaerdydd, lle mae patrôl FlyMapper effeithiol iawn ar waith, mewn gwirionedd, gyda'r awdurdod lleol yn cydweithio â Taclo Tipio Cymru, yn mynd allan ac yn cymryd camau ar y gweithgaredd hwn, mae data sylweddol i awgrymu mai'r oll y mae'n ei wneud yw ei wthio i awdurdod cyfagos. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn rhoi sylw iddo, a byddem yn annog pob awdurdod i weithredu ar y cyd yn y modd hwnnw i ymdrin â'r malltod hwn ar ein cymuned.

Of course, the Member is absolutely right, this has a consequence in terms of finance for local authorities, therefore, to pick up the rubbish or the tipped material. Therefore, I'd suggest that, for Government and for local authorities, it is quite short-sighted to look at the budgets just on a yearly basis. We have to look at this long term to ensure that we can give confidence to these authorities that actually it's cost-effective to prevent fly-tipping as opposed to just removing with fly-tipping teams. Where you just have to go and pick up the litter at a later date, it's actually much more costly, and that's something that we are working on with local authorities, and that's part of the strategy.

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn llygad ei le, mae hyn yn effeithio'n ariannol ar awdurdodau lleol, felly, gan fod angen codi'r sbwriel neu'r defnydd a gafodd ei dipio. Felly, byddwn yn awgrymu, i'r Llywodraeth ac i awdurdodau lleol, ei bod yn eithaf annoeth edrych ar y cyllidebau yn flynyddol yn unig. Mae'n rhaid inni edrych ar hyn yn yr hirdymor er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhoi hyder i'r awdurdodau hyn ei bod mewn gwirionedd yn gost-effeithiol i atal tipio anghyfreithlon yn hytrach na dim ond cael gwared ag ef â thimau tipio anghyfreithlon. Os oes rhaid ichi fynd i gasglu'r sbwriel yn ddiweddarach beth bynnag, mae mewn gwirionedd yn llawer mwy costus, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn gweithio arno gydag awdurdodau lleol, ac mae'n rhan o'r strategaeth.

But, more importantly, we have to take action on anybody who's caught and punish them accordingly in regards to that. I also recognise the Member's concern where the intimidation factor comes into this, and I met people in Cardiff recently who also felt that same way. So, we have to find a route where Fly-tipping Action Wales has witnesses, and they will take photographs, et cetera, to look at and build a case up where an individual can be challenged and charged. All we'd ask people to do is report the incident, and, if they don't feel confident enough through the local authority process, they can do that through Crimestoppers in an anonymous way.

Ond, yn bwysicach, mae'n rhaid inni weithredu yn erbyn unrhyw un sy'n cael ei ddal a'i gosbi'n briodol am hynny. Rwyf hefyd yn cydnabod pryder yr Aelod o ran y ffactor o fygwth yn y maes hwn, ac fe wnes i gyfarfod â phobl yng Nghaerdydd yn ddiweddar a oedd yn teimlo'r un fath hefyd. Felly, mae'n rhaid inni ddod o hyd i ddull lle mae gan Taclo Tipio Cymru dystion, a fydd yn tynnu lluniau, ac ati, i geisio adeiladu achos lle gellir herio unigolyn a'i gyhuddo. Yr unig beth y byddem yn gofyn i bobl ei wneud yw hysbysu am y digwyddiad, ac, os nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus drwy broses yr awdurdod lleol, gallant wneud hynny'n ddienw drwy Crimestoppers.

The final point the Member raised was around the Tidy Towns initiative. The Member will be aware that this was a manifesto commitment by the Labour Party in April of 2008. It's a programme that is very welcome in our communities, and I'm grateful for the support. It is something that we will seek to continue to do. It is a popular programme, not only, as I said, involving transformational activity within the community, but actually it builds much more on a community development. So, people engage volunteers, with volunteer groups being engaged, which gives them not only the transformational experience, but actually a personal experience of growth for them personally. So, it's something that we are very keen to take forward as we move forward in this term of Government.

Roedd y pwynt olaf a gododd yr Aelod yn ymwneud â'r fenter Trefi Taclus. Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod hwn yn un o ymrwymiadau maniffesto'r Blaid Lafur ym mis Ebrill 2008. Mae'n rhaglen sydd i'w chroesawu'n fawr yn ein cymunedau, ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ceisio parhau i'w wneud. Mae'n rhaglen boblogaidd, sydd nid yn unig, fel y dywedais, yn cynnwys gweithgareddau gweddnewid o fewn y gymuned, ond mae mewn gwirionedd yn adeiladu llawer mwy fel datblygiad cymunedol. Felly, mae pobl yn defnyddio gwirfoddolwyr, ac mae grwpiau gwirfoddol yn cael eu cynnwys, felly nid yn unig y maent yn cael y profiad o weddnewid, ond maent hefyd yn cael profiad personol o dwf iddynt hwy'n bersonol. Felly, mae'n rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i fwrw ymlaen ag ef wrth inni symud ymlaen yn y tymor Llywodraeth hwn.

15:40

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am y diweddariad yn y datganiad? Yn sicr, mae tipio anghyfreithlon a sbwriel ac yn y blaen yn gallu bod yn bwnc sy'n pery gofid yn sicr i gymunedau ar draws Cymru, ac yn eich rhestr o brosiectau rwy'n siŵr y byddem ni gyd yn gallu ychwanegu enghreifftiau lleol o gymunedau yn mynd i'r afael â phroblemau. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog ei hunan yn ymwybodol bod yna ymdrech wedi bod yn yr Wyddgrug yn ddiweddar: 650 o bobl yn dod at ei gilydd, wedi casglu dros 200 o fagiau o sbwriel, wedi symud matresi, wedi symud deunyddiau oedd yn cael eu defnyddio mewn perthynas â chyffuriau—sy'n cysylltu yn ôl â diogelwch cymunedol, wrth gwrs, ac iechyd a llesiant y bobl yn lleol—ond hefyd wedi symud dwy garafán oedd wedi cael eu gadael ar un safle, sydd eto, rwy'n meddwl, yn tanlinellu ystod yr her sy'n wynebu'r cymunedau hynny. Ond, wrth gwrs, un peth sy'n fy niddori i'n benodol wedyn, ar ôl adfer rhai o'r safleoedd penodol yma, yw'r angen i roi'r safleoedd hynny ar waith at ddiben neu at berwyl adeiladol sy'n cynnwys y gymuned er mwyn sicrhau wedyn eu bod nhw yn y dyfodol yn gofalu ac yn datblygu'r safleoedd hynny.

May I thank the Minister for his update and his statement? Certainly, illegal fly-tipping and rubbish and so on can be an issue that causes anxiety to communities across Wales, and in your list of projects I am sure that we could all add local examples of communities tackling problems in their own areas. I am sure the Minister himself will be aware that there have been efforts in Mold recently: 650 people coming together, having collected over 200 bags of rubbish, having moved mattresses, having moved materials used in relation to drug abuse—which, of course, relates back to community safety and the health and wellbeing of people at a local level—but also having moved two caravans that had been left on one site, which again, I think, underlines the scale of the challenge facing those communities. But, of course, one thing that interests me particularly then, having restored some of these particular sites, is the need to make use of those sites for constructive ends that include the community in order to ensure that they in future care for and develop those sites.

Rydych yn cyfeirio yn eich datganiad at sut mae'r gweithredoedd o fewn rhaglenni fel Trefi Taclus yn arwain at edrych ar lefydd yn ehangach ac un o'r pethau rydych yn cyfeirio ato yw prosiectau tyfu llysiau yn lleol ac yn y blaen. Mae hynny, yn sicr, yn rhywbeth rwy'n teimlo'n angerddol drosto ef. Rwy'n gwybod bod y Llywodraeth yn bwriadu gwneud mwy i'r cyfeiriad yna oherwydd, wrth gwrs, rydym ni'n edrych ar yr angen i gryfhau cynaliadwyedd bwyd yma yng Nghymru. Rydym ni'n gwybod pa mor bwysig yw hynny fel cyfrwng i ail-gysylltu pobl ifanc yn enwedig â tharddiad bwyd. Hefyd, wrth gwrs, y ffordd orau i gael plant i fwyta llysiau yw sicrhau mai nhw sydd wedi eu tyfu nhw yn y lle cyntaf ac wedyn mi ffeindiwch chi nad oes fawr o wrthwynebiad i drio pob math o wahanol lysiau. Felly, a gaf i ofyn i chi efallai i fanteisio ar y cyfle yma i ehangu ar fwriadau'r Llywodraeth o safbwynt sicrhau bod y safleoedd yma, yn enwedig safleoedd cyhoeddus, yn cael eu rhoi ar waith ac at bwrpas adeiladol ehangach?

You refer in your statement to how actions within programmes such as Tidy Towns lead to looking at the bigger picture and one of the things you refer to is projects to grow vegetables locally and so on. That, certainly, is something I feel very passionately about. I know that the Government intends to do more in that direction because, of course, we are looking at the need to strengthen food sustainability here in Wales. We know how important that is as a means to reconnect young people particularly with the source of their food. Also, of course, the best way of getting children to eat vegetables is by ensuing that they have actually grown those vegetables and then you will find that there is very little objection to trying all sorts of different vegetables. So, can I ask you to take this opportunity to expand on the Government's intentions in terms of ensuring that these sites, particularly public sites, are put to use and are used constructively in a broader sense?

You'll also—well, we also know, all of us—that cuts in public funding mean, of course, that there is a reduction in civic amenities sites across Wales and the danger is that that will lead to an increase in fly-tipping. We know, not far away from here, the Waungron Road recycling centre, of course, has been the subject of local referenda to try and change the policy of the council in Cardiff to retain what is a very valued service. Closer to home, of course, for those of us in north-east Wales, currently we know of residents in Hope who are campaigning to retain a recycling centre there that is controversially being closed by Flintshire County Council. Despite, of course, protests by the local community—Caergwrle community action group and others—despite a petition with hundreds of names on it collected by the local Plaid Cymru candidate for Alyn and Deeside, Jacqueline Hurst, and despite, of course, as recognised by many, the danger of an increase in fly-tipping in some of the area's well-known beauty spots, the plans are there and are still being pushed through. So, in light of your statement, Minister, which does recognise that, in the first sentence indeed:

Byddwch hefyd—wel, rydym ni hefyd yn gwybod, pob un ohonom—bod toriadau i gyllid cyhoeddus yn golygu, wrth gwrs, llai o safleoedd amwynderau dinesig ledled Cymru a'r perygl yw y bydd hynny'n arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Rydym yn gwybod, nid yn bell i ffwrdd o'r fan hyn, bod canolfan ailgylchu Waungron Road, wrth gwrs, wedi bod yn destun refferenda lleol i geisio newid polisi cyngor Caerdydd i gadw'r gwasanaeth gwerthfawr iawn hwn. Yn nes at adref, wrth gwrs, i'r rhai ohonom yn y gogledd-ddwyrain, rydym ar hyn o bryd yn gwybod am drigolion yn yr Hob sy'n ymgyrchu i gadw canolfan ailgylchu yno sy'n destun penderfyniad dadleuol i'w chau gan Gyngor Sir y Fflint. Er gwaethaf, wrth gwrs, protestiadau gan y gymuned leol—grŵp gweithredu cymunedol Caergwrle ac eraill—er gwaethaf deiseb gyda channoedd o enwau arni a gasglwyd gan yr ymgeisydd Plaid Cymru lleol ar gyfer Alun a Glannau Dyfrdwy, Jacqueline Hurst, ac er gwaethaf, wrth gwrs, fel y cydnabyddir gan lawer, y perygl o gynnydd mewn tipio anghyfreithlon mewn rhai o fannau hardd adnabyddus yr ardal, mae'r cynlluniau yno ac yn dal i gael eu gwthio drwodd. Felly, yng ngoleuni eich datganiad, Weinidog, sy'n cydnabod, yn y frawddeg gyntaf yn wir:

'A local environment blighted by...fly-tipping... impacts not only on our long-term health and wellbeing, but also on our ability to grow our economy'

'Mae amgylchedd lleol wedi'i ddifetha gan ... tipio anghyfreithlon ... yn effeithio nid yn unig ar ein hiechyd a'n llesiant hirdymor, ond hefyd ar ein gallu i dyfu ein heconomi'

I wonder whether you would be willing to write to Flintshire County Council and to all local authorities in Wales urging them maybe to consider again such decisions, particularly in light of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which asks us to strike a better balance between short-term savings and long-term costs, because we know, as you say in your statement, the longer term costs could, indeed, end up costing more than retaining those very facilities.

Tybed a fyddech yn fodlon ysgrifennu at Gyngor Sir y Fflint ac at bob awdurdod lleol yng Nghymru i'w hannog efallai i ystyried penderfyniadau o'r fath unwaith eto, yn enwedig yng ngoleuni'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n gofyn inni daro gwell cydbwysedd rhwng arbedion tymor byr a chostau hirdymor, oherwydd gwyddom, fel y dywedwch yn eich datganiad, y gallai'r costau hirdymor, yn wir, yn y pen draw gostio mwy na chadw'r union gyfleusterau hynny.

15:44

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his contribution today. Can I start with the issue around the use of land and particularly the growing of vegetables, et cetera, and young people? We have made significant investments in transformation of land that is in disrepair or in poor use. We have seen that in many constituencies across Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad heddiw. A gaf fi ddechrau gyda'r mater sy'n ymwneud â'r defnydd o dir ac yn enwedig tyfu llysiau, ac ati, a phobl ifanc? Rydym wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol i weddnewid tir sydd mewn cyflwr gwael neu'n cael ei ddefnyddio'n wael. Rydym wedi gweld hynny mewn llawer o etholaethau ledled Cymru.

But one of the key factors that we've seen that works very well is working with our schools, and the core funding of Eco-Schools through Keep Wales Tidy provides an opportunity for schools to fully understand living within environmental limits and acting on climate change, proactively protecting healthy ecosystems and creating sustainable places for people. I visited a school in Denbighshire with Ann Jones regarding the very issue that the Member raises. They have their own hens, they grow their own vegetables, and they have a fantastic Eco-School environment, where they are growing in knowledge not only through the education system but also through their extra-curricular activity out in the schoolyard because of the work that they do. It's a tribute to them. The Eco-Schools programme is particularly active in Wales, with more than 90% of our schools being registered and more than 770 having achieved the prestigious international green flag award. I think, actually, we have the largest activity of Eco-Schools in the whole of Europe here in Wales. Until America comes online, I think we'll be in that place for quite some time.

Ond un o'r ffactorau allweddol yr ydym wedi'u gweld sy'n gweithio'n dda iawn yw gweithio gyda'n hysgolion, ac mae cyllid craidd Eco-Sgolion drwy Cadwch Gymru'n Daclus yn rhoi cyfle i ysgolion ddeall yn llawn beth yw byw o fewn terfynau amgylcheddol a gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, diogelu ecosystemau iach yn rhagweithiol a chreu lleoedd cynaliadwy i bobl. Ymwelais ag ysgol yn Sir Ddinbych gydag Ann Jones ynghylch yr union fater y mae'r Aelod yn ei godi. Mae ganddynt eu hieir eu hunain, maent yn tyfu eu llysiau eu hunain, ac mae ganddynt amgylchedd Eco-Ysgol ffantastig, lle maent yn cynyddu eu gwybodaeth, nid yn unig drwy'r system addysg, ond hefyd drwy eu gweithgareddau allgyrsiol allan yn iard yr ysgol oherwydd y gwaith y maent yn ei wneud. Mae'n glod iddynt. Mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn arbennig o weithgar yng Nghymru; mae dros 90% o'n hysgolion wedi'u cofrestru a dros 770 wedi ennill dyfarniad clodfawr y faner werdd ryngwladol. Rwyf yn meddwl, yn wir, mai yma yng Nghymru y mae'r gweithgarwch Eco-Sgolion mwyaf yn Ewrop gyfan. Hyd y bydd America yn ymuno, rwyf yn meddwl y byddwn yn y safle hwnnw am gryn amser.

With regard to the issue of local authority skip sites and recycling centres, this is a matter for the local authority. I listened very carefully to the Member's contribution. Unfortunately, I haven't heard of the name that the Member references for Alyn and Deeside. I'm not aware of her contribution in terms of that particular site, but what I do know is that, with regard to that, the local authority is in a consultation process with regard to the future of their amenity sites because of the reduction in funding that we've received from the Westminster Government. I think they are having a very difficult, challenging time in terms of balancing budgets, and that goes for the 22 authorities across Wales. But it is about priorities. Let me be very clear on the matter. Whatever the authority and the methods they choose to collect, they must still be under the targets and limits that are set out very clearly by Welsh Government in terms of their collection of waste. Certainly, the Welsh Local Government Association is very understanding and clear about the targets we have set. Ultimately, decisions for local authorities rest with the local authority, and I'm sure the Minister for Public Services has an interest in this too.

O ran safleoedd sgipiau a chanolfannau ailgylchu awdurdodau lleol, mater i'r awdurdod lleol yw hwn. Gwrandewais yn astud iawn ar gyfraniad yr Aelod. Yn anffodus, nid wyf wedi clywed yr enw y mae'r Aelod yn sôn amdano yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Nid wyf yn gwybod am ei chyfraniad o ran y safle penodol hwnnw, ond yr hyn yr wyf yn ei wybod yw, o ran hynny, bod yr awdurdod lleol mewn proses o ymgynghori ynglŷn â dyfodol ei safleoedd amwynder oherwydd y gostyngiad cyllid yr ydym wedi'i gael gan Lywodraeth San Steffan. Rwy'n credu eu bod yn cael amser heriol, anodd iawn o ran cydbwyso cyllidebau, ac mae hynny'n wir am y 22 awdurdod ledled Cymru. Ond mater o flaenoriaethau yw hwn. Dewch imi fod yn glir iawn ar y mater. Pa un bynnag yw'r awdurdod a'r dulliau y mae'n eu dewis i gasglu, mae'n rhaid iddo barhau i fod o dan y targedau a'r terfynau a nodir yn glir iawn gan Lywodraeth Cymru o ran casglu gwastraff. Yn sicr, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn deall y targedau yr ydym wedi'u gosod yn iawn ac yn glir amdanynt. Yn y pen draw, mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain, ac rwy'n siŵr bod gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus diddordeb yn hyn hefyd.

15:47 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Inspired by your description, Minister, I just thought I would tell you about the litter pick I was involved in on Friday, organised by Keep Wales Tidy. We collected 1.5 tonnes of rubbish in the Roundwood/Chapelwood area of Llanedeyrn. There are two things that are interesting here. One is that some of the volunteers were from one of our well-known fast food outlets, sort of helping to give something back, although they obviously cause quite a lot of the litter that we suffer from, but I don't recall picking up a single plastic bag. I did, however, pick up a lot of bottles and cans. I just wonder whether you would consider reintroducing the deposit on recyclable materials, to enable people to realise the value of returning goods to the right place. Also, there is no such thing as throwing away—it has to be disposed of somehow.

Ar ôl i'ch disgrifiad fy ysbrydoli, Weinidog, roeddwn yn meddwl y byddwn yn dweud wrthych am y gwaith casglu sbwriel y bûm yn cymryd rhan ynddo ddydd Gwener, a drefnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus. Casglwyd 1.5 tunnell o sbwriel yn ardal Roundwood/Chapelwood yn Llanedern. Mae dau beth yn ddiddorol yma. Un yw bod rhai o'r gwirfoddolwyr wedi dod o un o'n siopau bwyd brys adnabyddus, yn rhyw fath o helpu i roi rhywbeth yn ôl, er mai hwy sy'n amlwg yn achosi cryn dipyn o'r sbwriel yr ydym yn dioddef oddi wrtho, ond nid wyf yn cofio codi yr un bag plastig. Fe wnes, fodd bynnag, godi llawer o boteli a chaniau. Rwyf yn meddwl tybed a fyddech yn ystyried ailgyflwyno'r blaendal ar ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, er mwyn galluogi pobl i sylweddoli gwerth dychwelyd nwyddau i'r lle iawn. Hefyd, nid oes y fath beth â thaflu i ffwrdd—mae'n rhaid ei waredu rywsut.

15:48

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her contribution, and I thank her personally for the work that she is doing in that area in terms of Tidy Towns and the issue of collectively, as a community, collecting litter, which shouldn't be there in the first place. It is an important issue and it's taking community ownership and pride in the community. I visited Llanedeyrn with the future MP, Jo Stevens, and the Member only a few weeks ago and noticed a significant difference in terms of where the opportunities lie, if we can get the right people representing the area.

Diolchaf i'r Aelod am ei chyfraniad, ac rwyf yn diolch iddi'n bersonol am y gwaith y mae'n ei wneud yn yr ardal honno o ran Trefi Taclus a mater casglu sbwriel ar y cyd, fel cymuned, na ddylai fod yno yn y lle cyntaf. Mae'n fater pwysig ac mae'n fater o gymryd perchnogaeth gymunedol a balchder yn y gymuned. Ymwelais â Llanedern gyda'r darpar AS, Jo Stevens, a'r Aelod dim ond ychydig wythnosau'n ôl a sylwais ar wahaniaeth sylweddol o ran lle mae'r cyfleoedd, os gallwn sicrhau bod y bobl iawn yn cynrychioli'r ardal.

The issue around the deposit scheme is one that has been raised with me on several occasions. My department has looked at this and we are doing a little bit more work. Forgive me, it's not quite like the days of old we had the Corona vehicle coming round. Everybody knew what the pop bottle looked like and everybody knew where to return it in that process. Today, we have an array of different styles of bottles and sizes and scale. I am aware that there are some organisations that use a deposit scheme. I think IKEA has something similar in Scotland where, locally, they offer a recycling facility where they will give a voucher on the basis that you recycle glass or plastic. It's something that we are considering in Wales, just to see whether it's feasible. The issue is about the quality of the recyclate at the first point—that is critical in terms of financing. But it is something that I will update the Member on in the near future, in terms of where we see this potential going to. It's something I would embrace if it was physically feasible to do so. I recognise and thank the Member for her contribution.

Mae'r mater yn ymwneud â'r cynllun blaendal yn un sydd wedi cael ei godi gyda mi ar sawl achlysur. Mae fy adran wedi edrych ar hyn ac rydym yn gwneud ychydig bach mwy o waith. Maddeuwch imi, nid yw'n union fel yr hen ddyddiau pan fyddai'r cerbyd Corona yn dod o gwmpas. Roedd pawb yn gwybod sut yr oedd y botel pop yn edrych a phawb yn gwybod i ble i'w dychwelyd yn y broses honno. Heddiw, mae gennym amrywiaeth o boteli o wahanol arddulliau a maint a graddfa. Rwyf yn gwybod bod rhai sefydliadau'n defnyddio cynllun blaendal. Rwy'n credu bod gan IKEA rywbeth tebyg yn yr Alban lle, yn lleol, mae'n cynnig cyfleuster ailgylchu sy'n rhoi taleb os ydych yn ailgylchu gwydr neu blastig. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried yng Nghymru, dim ond i weld a yw'n ymarferol. Mae'r mater yn ymwneud ag ansawdd y deunydd ailgylchu yn y man cyntaf—mae hynny'n hanfodol o ran ariannu. Ond mae'n rhywbeth y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau amdano yn y dyfodol agos, o ran i ble'r ydym yn gweld y potensial hwn yn mynd. Mae'n rhywbeth y byddwn i'n ei gofleidio pe byddai'n ffisegol ymarferol i wneud hynny. Rwyf yn cydnabod yr Aelod ac yn diolch iddi am ei chyfraniad.

15:50

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the Minister's statement today and, indeed, the emerging consensus around the Chamber in terms of its content. Protecting our environment and, indeed, tackling climate change are very much at the heart of Welsh Liberal Democrat policy with regard to the environment. Our five green laws that are proposed would, for example, introduce a green transport Act to launch ultra-low emission targets on vehicles around Wales, and, indeed, a green buildings Act would improve further energy efficiency schemes in homes and also create a drier and significantly healthier environment in which to live.

Rwyf yn croesawu'n fawr ddatganiad y Gweinidog heddiw ac, yn wir, y consensws sy'n dod i'r amlwg o amgylch y Siambr o ran ei gynnwys. Mae amddiffyn ein hamgylchedd ac, yn wir, ymdrin â newid yn yr hinsawdd yn bendant wrth galon polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o ran yr amgylchedd. Byddai ein pum deddf werdd sydd wedi'u cynnig, er enghraifft, yn cyflwyno Deddf trafnidiaeth werdd i lansio targedau allyriadau isel iawn ar gerbydau o amgylch Cymru, ac, yn wir, byddai Deddf adeiladau gwyrdd yn gwella cynlluniau effeithlonrwydd ynni ymhellach mewn cartrefi a hefyd yn creu amgylchedd sychach a llawer iachach i fyw ynddo.

I very much endorse the Minister's comments with regard to the educational benefits that flow from both Tidy Towns and Keep Wales Tidy and the enormous benefit that has come from the Eco-School initiatives across the length and breadth of Wales, including the schools where I am currently a governor. It's really important that we act to protect our countryside, and indeed the rural landscapes also, and that the Welsh Government prioritises improving the quality of life for people in urban and rural Wales.

Rwyf yn sicr yn ategu sylwadau'r Gweinidog ynglŷn â'r manteision addysgol sy'n llifo o Trefi Taclus a Cadwch Gymru'n Daclus ill dau, a'r budd enfawr sydd wedi dod o'r mentrau Eco-Sgolion ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys yr ysgolion lle'r wyf yn llywodraethwr ar hyn o bryd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithredu i ddiogelu ein cefn gwlad, ac yn wir y tirweddau gwledig hefyd, a bod Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu gwella ansawdd bywyd i bobl yng Nghymru drefol a gwledig.

I'm very pleased indeed to hear what I sense is a more positive response from the Minister with regard to the issues raised by Jenny Rathbone over the deposit return scheme and the potential that that has. Jenny, Llyr, myself and other members of the Environment and Sustainability Committee saw last week, in the Black Forest, in a society and an economy no less well developed than our own, that deposit return does have a valuable role to play. I think it's really important. I would urge the Minister to look carefully at, maybe, some of the learning points that we bring back as a committee from that visit, and also some of the work that's currently being undertaken in Scotland to evaluate the potential of such a scheme being brought forward.

Rwy'n falch iawn o glywed ymateb sy'n fwy cadarnhaol, yn fy nhyb i, gan y Gweinidog o ran y materion a gododd Jenny Rathbone ynglŷn â'r cynllun dychwelyd blaendal a photensial y cynllun hwnnw. Gwelodd Jenny, Llyr, fi ac aelodau eraill o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yr wythnos diwethaf, yn y Goedwig Ddu, mewn cymdeithas ac economi nad yw ddim yn llai datblygedig na'n un ni, bod dychwelyd blaendal yn gallu chwarae rhan werthfawr. Rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn. Byddwn yn annog y Gweinidog i edrych yn ofalus ar, efallai, rhai o'r pwyntiau dysgu yr ydym wedi dod â hwy yn ôl gyda ni fel pwyllgor o'r ymweliad hwnnw, a hefyd rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn yr Alban i werthuso potensial cyflwyno cynllun o'r fath.

Two important issues that are flagged up in the statement are fly-tipping and, of course, the link that that has with the scourge of the grass fires that were the subject of William Graham's urgent question earlier this afternoon. Deliberately started grass fires are causing, as we know, devastation across significant parts of this country, and fly-tipping plays a key role in exacerbating that situation. Minister, can you please update us on what is being done to tackle this issue, and particularly provide assurance that, in the absence of the public services Minister, you will be liaising closely with him to have a joined-up approach with regard to this important matter?

Dau fater pwysig sy'n cael eu codi yn y datganiad yw tipio anghyfreithlon ac, wrth gwrs, y cysylltiad rhwng hynny a phla'r tanau glaswellt a oedd yn destun cwestiwn brys William Graham yn gynharach y prynhawn yma. Mae tanau glaswellt wedi'u cynnau'n fwriadol yn achosi, fel y gwyddom, dinistr ar draws rhannau sylweddol o'r wlad hon, ac mae tipio anghyfreithlon yn chwarae rhan allweddol o ran gwaethygu'r sefyllfa honno. Weinidog, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni os gwelwch yn dda am yr hyn sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r mater hwn, ac yn enwedig rhoi sicrwydd y byddwch, yn absenoldeb y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, yn cydgysylltu'n agos ag ef i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig at y mater pwysig hwn?

Finally, I would also like to make brief reference to your recent undertaking to call in all applications that come forward with regard to fracking which, in many quarters of this Chamber, has been welcomed. We would also, in the broader context of a clean and safe environment, look for you to be extending this to issues around opencast, but I'm conscious that we'll have a fuller opportunity tomorrow to explore these matters. However, if you can address those in some regard, I would be extremely grateful.

Yn olaf, hoffwn hefyd gyfeirio'n gryno at eich addewid diweddar i alw i mewn yr holl geisiadau a gyflwynir o ran ffracio, ac mae hynny wedi ei groesawu mewn sawl rhan o'r Siambr hon. Byddem hefyd, yng nghyd-destun ehangach amgylchedd glân a diogel, yn gobeithio y byddech yn ymestyn hyn i gynnwys materion yn ymwneud â glo brig, ond rwy'n ymwybodol y cawn gyfle llawnach yfory i archwilio'r materion hyn. Fodd bynnag, os gallwch roi rhywfaint o sylw iddynt, byddwn yn hynod ddiolchgar.

15:53

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his contribution. Of course, I am sure that each of the parties would be able to wax lyrical about their environmental credentials and what they have in their manifestos over the next few weeks regarding the environment, but clearly, what we are seeing here is action and delivery on the ground. I'm grateful for the Member's support, in that the Tidy Towns programme is making a real change. Engaging and working with 33,000 volunteers is something that we should be incredibly proud of. I'm incredibly proud of them. They have made a significant difference to their communities and the clean-up, maintaining their local environment and our local environment.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Wrth gwrs, rwyf yn siŵr y byddai pob un o'r pleidiau yn gallu canu clodydd eu rhinweddau amgylcheddol a'r hyn sydd ganddynt yn eu maniffestos yn ystod yr wythnosau nesaf ynghylch yr amgylchedd, ond yn amlwg, yr hyn yr ydym yn ei weld yma yw gweithredu a darparu ar lawr gwlad. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelod, gan fod y rhaglen Trefi Taclus yn achosi newid gwirioneddol. Mae ymgysylltu a gweithio gyda 33,000 o wirfoddolwyr yn rhywbeth y dylem fod yn hynod falch ohono. Rwyf fi'n hynod falch ohonynt. Maent wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w cymunedau ac mae'r gwaith glanhau wedi cynnal eu hamgylchedd lleol a'n hamgylchedd lleol ni.

But the Member is absolutely right to raise the issue of fire-starting in areas. There is certainly a link between the anti-social behaviour of littering and fly-tipping and that of fire-starting—a socially unacceptable activity. I’ve met with the public services Minister on the issue of the fires recently, over the last few days, in the south Wales Valleys, and I’m very pleased that the public services Minister, South Wales Police and the inspector, Matt Jukes, are being very clear that if people are caught, they will be prosecuted for this unlawful activity, and I fully support them. I would urge members of the community who have names of the individuals to take that forward with dialling 101 or the local authority. I understand that four individuals have been arrested in south Wales regarding the issues over the last few days.

Ond mae'r Aelod yn llygad ei le i sôn am gynnau tanau mewn ardaloedd. Yn sicr mae cysylltiad rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ac ymddygiad cynnau tanau—gweithgaredd sy’n annerbyniol yn gymdeithasol. Rwyf wedi cwrdd â'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus ynglŷn â’r tanau’n ddiweddar, yn ystod y dyddiau diwethaf, yng Nghymoedd y de, ac rwy'n falch iawn bod y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, Heddlu De Cymru a'r arolygydd, Matt Jukes, yn bod yn glir iawn wrth ddweud os caiff pobl eu dal, y byddant yn cael eu herlyn am y gweithgaredd anghyfreithlon hwn, ac rwyf yn eu cefnogi'n llwyr. Byddwn yn annog aelodau o'r gymuned sy’n gwybod enwau'r unigolion i fwrw ymlaen i ddeialu 101 neu'r awdurdod lleol. Deallaf fod pedwar unigolyn wedi eu harestio yn y de ynglŷn â’r materion hyn yn ystod y dyddiau diwethaf.

I'm grateful for the Member raising the issue of fracking. I think the Welsh Labour Government policy is very clear on that. We understand fully our position on that, unlike opposition Members who chuckle at the fact that we are opposed to the principle of fracking. We will make it very clear that actions around a local authority will not be able to determine a fracking application unless I am notified in that process. I think I understand the opposition parties are supportive of fracking. [Interruption.] I am more than happy for the Member to interject, if he wishes, on that process. [Interruption.] Of course. I'm very grateful for the clarity around that, Deputy Presiding Officer. I can hear something in the background of the Member opposite being very supportive of the fracking policy. I'm grateful also for the Member raising the issue, as Jenny Rathbone mentioned, of the deposit scheme, and it’s something that, as I said earlier, we are looking very carefully at.

Rwy'n ddiolchgar i’r Aelod am godi mater ffracio. Rwy'n meddwl bod polisi Llywodraeth Llafur Cymru’n glir iawn ar hynny. Rydym yn deall yn llawn beth yw ein safbwynt ar hynny, yn wahanol i Aelodau'r gwrthbleidiau sy'n chwerthin am y ffaith ein bod yn gwrthwynebu egwyddor ffracio. Byddwn yn ei gwneud yn glir iawn na fydd camau gweithredu o amgylch awdurdod lleol yn cael penderfynu ar gais ffracio oni bai fy mod i'n cael fy hysbysu yn y broses honno. Rwy'n credu fy mod yn deall bod y gwrthbleidiau o blaid ffracio. [Torri ar draws.] Rwy’n fwy na hapus i'r Aelod gael dweud gair, os yw'n dymuno, ynglŷn â’r broses honno. [Torri ar draws.] Wrth gwrs. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr eglurder ynghylch hynny, Ddirprwy Lywydd. Gallaf glywed rhywbeth yn y cefndir bod yr Aelod gyferbyn yn gefnogol iawn o'r polisi ffracio. Rwy'n ddiolchgar hefyd bod yr Aelod wedi codi mater, fel y dywedodd Jenny Rathbone, y cynllun blaendal, ac mae'n rhywbeth yr ydym, fel y dywedais yn gynharach, yn edrych yn ofalus iawn arno.

15:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

These are major issues that really do impact on the community quality of life in Wales and that I know very many people feel very strongly about. It's very important for community regeneration and I also think it’s important for our economy. We've had a lot of instances in Wales, I think, where potential inward investors, for example, and those showing them around Wales have said that it’s been more difficult to secure that inward investment when the areas that are being looked at are subject to fly-tipping and general littering and mess. So, you know, it really is important, I think, in social and economic terms, as well as environmental terms, and I'd like to join with the Minister in paying tribute to the work of Keep Wales Tidy and that army of volunteers that does such tremendous work.

Mae'r rhain yn faterion pwysig sydd wir yn cael effaith ar ansawdd bywyd cymunedol yng Nghymru ac rwyf yn gwybod bod llawer iawn o bobl yn teimlo'n gryf iawn ynglŷn â hwy. Maent yn bwysig iawn i adfywio cymunedol ac rwyf hefyd yn meddwl eu bod yn bwysig i'n heconomi. Rydym wedi cael llawer o achosion yng Nghymru, rwy'n credu, lle mae mewnfuddsoddwyr posibl, er enghraifft, a'r bobl sy'n eu tywys o gwmpas Cymru wedi dweud ei bod wedi bod yn fwy anodd sicrhau’r mewnfuddsoddiad hwnnw pan fo’r ardaloedd y maent yn edrych arnynt yn dioddef tipio anghyfreithlon a sbwriel cyffredinol a llanast. Felly, wyddoch chi, mae wir yn bwysig, rwyf yn credu, mewn termau cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â thermau amgylcheddol, a hoffwn ymuno â'r Gweinidog i dalu teyrnged i waith Cadwch Gymru'n Daclus a’r fintai honno o wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith mor ardderchog.

There are just a few matters I'd like answers to, Dirprwy Lywydd, briefly. In terms of dog mess, Minister, this is something that frequently features in my postbag and constituency casework, and I'm sure that’s the case for other Members as well. It does seem that there’s a variety of different practice followed by local authorities across Wales and some are demonstrably more effective than others. I wonder what the Minister is doing, perhaps, with colleagues to ensure that best practice is spread throughout our local authorities.

Mae yna un neu ddau o faterion yr hoffwn gael atebion iddynt, Ddirprwy Lywydd, yn fyr. O ran baw cŵn, Weinidog, mae hyn yn rhywbeth sy’n ymddangos yn aml yn fy mag post ac yng ngwaith achos fy etholaeth, ac rwy'n siŵr bod hynny'n wir i Aelodau eraill hefyd. Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn dilyn amrywiaeth o arferion gwahanol ac mae rhai’n amlwg yn fwy effeithiol nag eraill. Tybed beth mae'r Gweinidog yn ei wneud, efallai, gyda chydweithwyr i sicrhau bod arfer gorau’n cael ei ledaenu ar draws ein hawdurdodau lleol.

I wonder also what's being done in terms of ‘reduce’. We have the waste mantra, ‘reduce, reuse, recycle’. There is still an awful lot of unnecessary packaging, which causes problems in terms of littering. I know that some responsibility here rests at a UK level, but I'm sure that Welsh Government is part of the joint work that’s necessary to improve that situation. I think fast food outlets play a major part in the littering that takes place. I've heard colleagues refer to their involvement in clean-up operations, but I think, again, that is patchy. Quite a number of the bigger fast food outlets, I think, do quite regularly indulge in their own clean-up exercises around their premises, but I think there’s much more that could be done to hold those who are responsible—on the polluter should pay principle—to account, to ensure that they prevent littering as well as deal with the consequences.

Tybed hefyd beth sy'n cael ei wneud yn nhermau 'lleihau'. Mae gennym y mantra gwastraff, 'lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu'. Mae llawer iawn o ddeunydd pacio diangen o hyd, sy'n achosi problemau o ran sbwriel. Gwn mai ar lefel y DU y mae rhywfaint o’r cyfrifoldeb hwn, ond rwy'n siŵr bod Llywodraeth Cymru’n rhan o'r gwaith ar y cyd sydd ei angen i wella'r sefyllfa honno. Rwy'n credu bod mannau gwerthu bwyd brys yn gyfrifol am lawer o’r sbwriel sy'n cael ei daflu. Rwyf wedi clywed cydweithwyr yn cyfeirio at eu cyfranogiad mewn gweithrediadau glanhau, ond rwyf yn meddwl, unwaith eto, mai anghyson yw hynny. Mae cryn nifer o'r siopau bwyd brys mwyaf, rwyf yn credu, yn cynnal eu hymarferiadau glanhau eu hunain yn eithaf rheolaidd o amgylch eu hadeiladau, ond rwy'n credu bod llawer mwy y gellid ei wneud i ddwyn y rhai sy'n gyfrifol—ar yr egwyddor mai'r llygrwr ddylai dalu—i gyfrif, i sicrhau eu bod yn atal taflu sbwriel, yn ogystal ag ymdrin â'r canlyniadau.

Finally, Dirprwy Lywydd, could I pay tribute to those—again echoing other comments that Members have made—who help improve their local environments through growing projects? I think it's really encouraging now that community and public space is being looked at through projects such as Incredible Edible, which are starting up in Wales. If we can get local people to take more responsibility for their own local environment, improve it and make sure it's put to good use, it undoubtedly will discourage anti-social littering and the creation of mess, because people will take more pride in their local environments. I think those projects are very promising indeed.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, a gaf fi dalu teyrnged i'r rheini—i adleisio unwaith eto sylwadau eraill y mae Aelodau wedi'u gwneud—sy'n helpu i wella eu hamgylcheddau lleol drwy brosiectau tyfu? Rwy'n credu ei bod wir yn galonogol nawr bod mannau cymunedol a chyhoeddus yn cael eu hystyried drwy brosiectau fel Incredible Edible, sy'n cychwyn yng Nghymru. Os gallwn ni berswadio pobl leol i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hamgylchedd lleol eu hunain, ei wella a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddefnyddio’n dda, bydd hynny yn ddiau yn annog pobl i beidio ag ymddwyn yn wrthgymdeithasol drwy daflu sbwriel a chreu llanastr, gan y bydd pobl yn cymryd mwy o falchder yn eu hamgylcheddau lleol. Rwy'n credu bod y prosiectau hynny’n addawol iawn wir.

15:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his contribution and, of course, pay tribute to the Member who, well before I was a Minister, had this, certainly, at the top of his agenda. Can I pick up the issue of dog fouling, first? The primary responsibility lies with the local authority, but, ultimately, it is the responsibility of the dog owner. The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 is the order in which the control of this process can be taken up, where a fixed-penalty notice to the owner of the dog can be issued. I know it is a very effective tool, too. It is making sure that there is consistency across Wales—we need to do that. We are starting to collect data on enforcement from local authorities in that guise. There is a raft of environmental tools that can take action on all sorts of activity that is detrimental to the community, but I think the Member is absolutely right: what we are trying to encourage is where we have the prevent method first—so, if this doesn’t actually happen, it can’t happen. So, the issue of packaging—as correctly identified, based on a UK level—is something that we do hold an interest in, and something that my department talks to the UK Government about: about how we can start to create a better environment with less packaging and less waste at the start of the process.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad ac, wrth gwrs, talaf deyrnged i'r Aelod a oedd, ymhell cyn i mi fod yn Weinidog, wedi rhoi hyn, yn sicr, ar frig ei agenda. A gaf fi godi mater baw cŵn, yn gyntaf? Mae’r prif gyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r awdurdod lleol, ond, yn y pen draw, cyfrifoldeb perchennog y ci ydyw. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yw’r drefn y gellir ei defnyddio i reoli’r broses hon, lle gellir cyflwyno hysbysiad cosb benodedig i berchennog y ci. Rwy’n gwybod ei fod yn arf effeithiol iawn, hefyd. Mae'n gwneud yn siŵr bod cysondeb ledled Cymru—mae angen inni wneud hynny. Rydym yn dechrau casglu data gorfodi gan awdurdodau lleol drwy hynny. Mae llu o offer amgylcheddol a all weithredu ar bob math o weithgareddau sy'n niweidiol i'r gymuned, ond rwyf yn credu bod yr Aelod yn llygad ei le: yr hyn yr ydym yn ceisio ei annog yw lle mae gennym y dull atal yn gyntaf—felly, os nad yw hyn yn digwydd mewn gwirionedd, ni all ddigwydd. Felly, mae mater deunydd pacio—fel y nodwyd yn gywir, sy’n berthnasol ar lefel y DU—yn rhywbeth y mae gennym ddiddordeb ynddo, ac yn rhywbeth y mae fy adran yn siarad â Llywodraeth y DU ynglŷn ag ef: sut y gallwn ddechrau creu amgylchedd gwell gyda llai o ddeunydd pacio a llai o wastraff ar ddechrau'r broses.

The Member is also right to raise the issue of fast-food outlets, where there is litter contributed from their activity. Again, the Environmental Protection Act 1990 provides a range of powers to local authorities to deal with those who undertake an environmental crime—again, fixed-penalty notices for people who are caught littering—in addition to the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act. But it is about having a suite of tools to deal with the issue if we get to the ultimate penalty of enforcement. But, actually, my view is that we should have a much more joined-up, cohesive community, where they are proud of their community, and where they can see the value they add and bring to the community. That's where the 33,000 volunteers have a great active role in all our communities across Wales—something that I continue to celebrate with them, for them and for the communities across Wales that, indeed, the Member represents too.

Mae'r Aelod hefyd yn iawn i godi mater siopau bwyd brys, pan fo eu gweithgareddau'n cyfrannu at sbwriel. Unwaith eto, mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn darparu ystod o bwerau i awdurdodau lleol i ymdrin â'r rheini sy'n cyflawni trosedd amgylcheddol—unwaith eto, hysbysiadau cosb benodedig i bobl sy'n cael eu dal yn taflu sbwriel—yn ogystal â'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona. Ond mae'n fater o sicrhau bod gennym gyfres o offer i ymdrin â'r mater os ydym yn cyrraedd y gosb o orfodi yn y pen draw. Ond, mewn gwirionedd, fy marn i yw y dylai fod gennym gymuned lawer mwy cydgysylltiedig, gydlynol, lle maent yn ymfalchïo yn eu cymuned, a lle y gallant weld y gwerth y maent yn ei ychwanegu ac yn ei gynnig i'r gymuned. Dyna lle mae gan y 33,000 o wirfoddolwyr ran fawr a gweithredol i'w chwarae yn ein holl gymunedau ledled Cymru—rhywbeth yr wyf yn parhau i'w ddathlu gyda hwy, ar eu cyfer a thros y cymunedau ledled Cymru y mae'r Aelod, yn wir, yn eu cynrychioli hefyd.

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:02

## 6. Datganiad: Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru

## 6. Statement: Community Asset Transfers in Wales

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 6 is a statement by the Minister for Finance and Government Business on community asset transfer in Wales. Jane Hutt.

Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar drosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru yw eitem 6. Jane Hutt.

16:02

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Thank you, Deputy Presiding Officer. On 31 March, I announced the publication of 'Community Asset Transfers in Wales', a best practice guide to this evolving area of interest to both local authorities and local communities. I have responsibility for the work of the national asset working group, and the role of the group is to find new and innovative ways to deliver public services in Wales more efficiently with reduced resources. The group seeks to enable and influence public sector organisations to adopt a collaborative approach to asset management by putting in place supporting tools and by sharing best practice guidance and case studies. Using our existing assets more effectively will be important in helping us face these challenges. The guidance is the latest product to be developed by the group with advice from third sector and social enterprise partners.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Ar 31 Mawrth, cyhoeddais 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru', canllawiau arferion gorau ynglŷn â'r maes hwn sy'n esblygu ac sydd o ddiddordeb i awdurdodau lleol a chymunedau lleol. Fi sy'n gyfrifol am waith y gweithgor asedau cenedlaethol, a rôl y grŵp yw dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n fwy effeithlon â llai o adnoddau. Mae'r grŵp yn ceisio galluogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus i fabwysiadu dull cydweithredol o reoli asedau, a dylanwadu arnynt i wneud hynny, drwy gynnig offer cefnogi a thrwy rannu canllawiau arferion gorau ac astudiaethau achos. Bydd yn bwysig defnyddio ein hasedau cyfredol yn fwy effeithiol i'n helpu i wynebu'r heriau hyn. Y canllawiau yw ffrwyth gwaith diweddaraf y grŵp gyda chyngor gan bartneriaid yn y trydydd sector a mentrau cymdeithasol.

Community asset transfers provide an opportunity to help communities develop thriving and diverse localities and sustain the long-term use of property assets and services. These transfers also open up opportunities for generating local economic benefits, reinvesting income locally and creating new jobs and skills. The publication of this guidance forms part of a wider Welsh Government policy to place mutualism, co-operation and shared ownership with communities at the heart of the transformation of public services, as reflected in the White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People'.

Mae trosglwyddo asedau cymunedol yn gyfle i helpu cymunedau i ddatblygu ardaloedd ffyniannus ac amrywiol a sicrhau defnydd hirdymor ar asedau eiddo a gwasanaethau. Mae'r trosglwyddiadau hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i greu manteision economaidd lleol, ailfuddsoddi incwm yn lleol a chreu swyddi a sgiliau newydd. Mae cyhoeddi'r canllawiau hyn yn rhan o bolisi ehangach Llywodraeth Cymru i osod cydfuddiannaeth, cydweithredu a chyd-berchnogaeth â chymunedau wrth wraidd trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, fel yr adlewyrchir yn y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol '.

In order to address the gaps in specialist expertise that were identified by the Welsh Co-operative and Mutuals Commission and deliver on the policy intentions set out in the White Paper, the Minister for Economy, Science and Transport and the Minister for Public Services have jointly commissioned work to support the practical development of mutual models in public services delivery. The first phase of this work, commissioned through the Wales Co-operative Centre, is exploring the potential role of mutuals, co-operatives and shared ownership in delivering modern public services, and will report in May. The report will inform a further phase of work focused on the practical support required to enable more co-operative and mutual solutions to be developed.

Er mwyn ymdrin â'r bylchau o ran arbenigedd a nodwyd gan Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru a chyflawni'r bwriadau polisi a nodir yn y Papur Gwyn, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi comisiynu gwaith ar y cyd i gefnogi datblygiad ymarferol modelau cydfuddiannol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae cam cyntaf y gwaith hwn, a gomisiynwyd drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn archwilio swyddogaeth bosibl cwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol a chyd-berchnogaeth er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, a bydd yn adrodd ym mis Mai. Bydd yr adroddiad yn llywio gwaith pellach a fydd yn canolbwyntio ar y cymorth ymarferol sydd ei angen i allu datblygu atebion mwy cydweithredol a chydfuddiannol.

As set out in the White Paper, we also propose strengthening the rights of community groups in seeking an asset transfer from a local authority. There are many examples of successful community asset transfers in Wales, but there are also examples where insufficient preparatory work, together with capacity and capability issues, have resulted in key considerations being overlooked, thus weakening the benefit of transfer. The guidance includes case studies, which, importantly, include lessons learned.

Fel y nodir yn y Papur Gwyn, rydym hefyd yn bwriadu cryfhau hawliau grwpiau cymunedol wrth iddynt geisio trosglwyddo asedau oddi wrth yr awdurdod lleol. Ceir llawer o enghreifftiau o drosglwyddo asedau cymunedol yn llwyddiannus yng Nghymru, ond ceir enghreifftiau hefyd lle y mae gwaith paratoi annigonol, ynghyd â materion o ran capasiti a gallu, wedi arwain at anwybyddu ystyriaethau allweddol, a glastwreiddio buddion trosglwyddo'r asedau. Mae'r canllawiau'n cynnwys astudiaethau achos, sydd, yn bwysig iawn, yn cynnwys gwersi a ddysgwyd.

Development of the guidance is therefore timely, as we can expect an increased number of community asset transfers to take place in the future as new models of public service delivery emerge. They will have a greater emphasis on community bodies becoming involved in managing local services and taking responsibility for local assets. The guidance attempts to help address the capability and capacity issues for community bodies interested in community asset transfers. It is also timely in terms of the recent launch of the Big Lottery's community asset transfer 2 programme—CAT2—which has made available up to £9 million to support the transfer of assets to community ownership. The guidance also aims to help ensure the sustainable delivery of services and use of community assets across Wales, which is in line with the goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. It complements recently-issued guidance such as the toolkit, launched by the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, and will help to support the development of a consultation on assets of community value, as announced by the Minister for Communities and Tackling Poverty. The consultation will aim to develop a specific model for Wales to safeguard, enhance and protect assets for the benefit of our communities.

Mae datblygiad y canllawiau felly'n amserol, oherwydd gallwn ddisgwyl mwy o drosglwyddo asedau cymunedol yn y dyfodol wrth i fodelau newydd ddatblygu ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd mwy o bwyslais ar gynnwys cyrff cymunedol wrth reoli gwasanaethau lleol a chymryd cyfrifoldeb am asedau lleol. Mae'r canllawiau'n ceisio helpu i fynd i'r afael â'r materion capasiti a gallu i'r cyrff cymunedol sydd â diddordeb mewn trosglwyddo asedau cymunedol. Mae hefyd yn amserol o ran lansio rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol 2 y Loteri Fawr—CAT2—yn ddiweddar, sydd wedi darparu hyd at £9 miliwn i gefnogi trosglwyddo asedau i berchnogaeth gymunedol. Mae'r canllawiau hefyd yn ceisio helpu i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu ac asedau cymunedol eu defnyddio'n gynaliadwy ledled Cymru, sy'n cyd-fynd ag amcanion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'n cyd-fynd â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar megis y pecyn cymorth, a lansiwyd gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, a bydd yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ymgynghoriad ar asedau o werth cymunedol, fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Nod yr ymgynghoriad fydd datblygu model penodol ar gyfer Cymru i ddiogelu, gwella a gwarchod asedau er lles ein cymunedau.

Community groups and voluntary organisations need support and need to be better equipped to undertake community asset transfers. The guidance developed by the national assets working group will help to prepare third sector organisations, community groups and town and community councils to consider the opportunity of a community asset transfer. It identifies the careful assessment to be given to all the key issues to be addressed on transfer, identifies risks, benefits and provides some clarity around the process of transfer for those communities wishing to take on these assets. Successfully managing a building or service carries risks, which can be particularly challenging to community-led organisations with limited experience and funding. However, there are also tremendous opportunities relating to the potential for successful community asset transfers in Wales, and these are highlighted in the diverse range of case studies included within the published document.

Mae angen cefnogaeth ar grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol ac mae angen eu paratoi’n well i drosglwyddo asedau cymunedol. Bydd y canllawiau a ddatblygwyd gan y gweithgor asedau cenedlaethol yn helpu i baratoi sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol a chynghorau tref a chymuned i ystyried y cyfle i drosglwyddo asedau cymunedol. Mae'n nodi'r asesu gofalus sydd ei angen ar yr holl faterion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt o ran trosglwyddo, mae’n nodi’r risgiau a’r buddion ac yn darparu rhywfaint o eglurder ynghylch y broses o drosglwyddo asedau i'r cymunedau hynny sy'n dymuno ysgwyddo’r asedau hyn. Mae risgiau ynghlwm wrth reoli adeilad neu wasanaeth yn llwyddiannus, a gall hynny fod yn arbennig o heriol i sefydliadau cymunedol y mae eu profiad a’u cyllid yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae yma hefyd gyfleoedd aruthrol o ran posibiliadau trosglwyddo asedau cymunedol yn llwyddiannus yng Nghymru, a chyfeirir at y rhain yn yr ystod amrywiol o astudiaethau achos sydd yn y ddogfen a gyhoeddwyd.

Therefore, risks should not be seen as a barrier to transfer as long as all parties are open about them and are willing to work together, to find ways of managing and mitigating the risks. This guidance is intended to help support a step change in enabling communities to take on these roles. It is also important to emphasise that community asset transfers may not be appropriate for all communities, as much will depend on local circumstances. In addition, the Minister for communities and poverty recently announced funding for a pilot project in Gwent to fund the post of a regional support officer for a 12-month period to support community organisations aiming to take over and manage local assets.

Felly, ni ddylai risgiau fod yn rhwystr i drosglwyddo cyhyd ag y bo pob parti yn agored yn eu cylch ac yn barod i weithio gyda'i gilydd, i ddod o hyd i ffyrdd o reoli a lliniaru’r risgiau. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu i gefnogi newid sylweddol o ran galluogi cymunedau i ymgymryd â’r rolau hyn. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio na fydd trosglwyddo asedau cymunedol yn briodol i bob cymuned, oherwydd bydd llawer yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog cymunedau a thlodi gyllid yn ddiweddar ar gyfer prosiect peilot yng Ngwent i ariannu swydd swyddog cymorth rhanbarthol am 12 mis i gynorthwyo sefydliadau cymunedol sydd am ysgwyddo a rheoli asedau lleol.

I was delighted to launch the guidance at Cafe 50 in Pontyclun. Cafe 50 is a community facility previously managed by Rhondda Cynon Taf County Borough Council that has now been developed into a community asset by Pontyclun Community Council. Rhondda Cynon Taf council was very supportive to the community asset transfer proposal, with confidence in the proposal underpinned by the presentation of a very clear business plan. The outcome is a facility that has not only been saved from closure, but continues to be a vibrant facility, supporting the local community. I hope that the published guidance will encourage and support a growing number of successful transfers, enabling communities to keep them in use and develop them into thriving community-led assets with sustainable long-term use.

Roeddwn yn falch iawn o lansio'r canllawiau yn Cafe 50 ym Mhont-y-clun. Cyfleuster cymunedol yw Cafe 50 ac arferai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei reoli. Mae bellach wedi ei ddatblygu’n ased cymunedol gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun. Roedd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gefnogol iawn i'r cynnig i drosglwyddo asedau cymunedol, ac roedd y ffaith i gynllun busnes clir iawn gael ei gyflwyno’n ategu eu hyder yn y cynnig. Canlyniad hynny yw cyfleuster sydd nid yn unig wedi ei achub rhag cau, ond sy’n parhau i fod yn gyfleuster bywiog, sy’n cefnogi'r gymuned leol. Rwyf yn gobeithio y bydd y canllawiau a gyhoeddwyd yn annog ac yn cefnogi nifer cynyddol o drosglwyddiadau llwyddiannus, gan alluogi cymunedau i barhau i ddefnyddio’r asedau a'u datblygu’n asedau sy’n ffynnu ac sy’n cael eu harwain gan y gymuned a’u defnyddio’n gynaliadwy yn y tymor hir.

16:08

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given the Minister’s earlier support for Crickhowell, and listening to Kirsty Williams and her questions, I'm pleased to hear about your launch at the Cafe 50 in Pontyclun as well. A lot in your statement, there, Minister. Clearly, there is support across the Chamber for the general principle of community asset transfer, and this is obviously about how we develop the transfer policy in practice.

O ystyried cefnogaeth gynharach y Gweinidog i Grucywel, ac o wrando ar Kirsty Williams a'i chwestiynau, rwyf yn falch o glywed am eich lansiad yn Cafe 50 ym Mhont-y-clun hefyd. Roedd llawer yn eich datganiad, Weinidog. Wrth gwrs, mae cefnogaeth ar draws y Siambr i egwyddor gyffredinol trosglwyddo asedau cymunedol, ac mae hyn yn amlwg yn ymwneud â’r ffordd yr ydym yn datblygu’r polisi trosglwyddo yn ymarferol.

First of all, can I ask you, given that community asset transfers provide an opportunity to help communities to develop thriving and diverse localities—to use your terminology—and to generate local economic benefits, why aren't people in Wales being given the same choice over asset transfer and the community right to bid that is already available in England under the Localism Act 2011? You could have implemented it in the same way, but you haven't. Yes, there is an argument that we can do our own thing here, and you're within your rights to do that, but I'd be grateful to hear why people here aren't being given the same degree of choice at the outset.

Yn gyntaf oll, a gaf fi ofyn ichi, o ystyried bod trosglwyddo asedau cymunedol yn gyfle i helpu cymunedau i ddatblygu ardaloedd ffyniannus ac amrywiol—a defnyddio eich terminoleg chi—ac i greu manteision economaidd lleol, pam nad yw pobl yng Nghymru’n cael yr un dewis o ran trosglwyddo asedau a'r hawl gymunedol i gyflwyno cynnig sydd eisoes ar gael yn Lloegr o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011? Gallech chithau fod wedi gweithredu hyn yn yr un ffordd, ond nid ydych wedi gwneud hynny. Oes, mae dadl y gallwn wneud fel y mynnwn yma, ac mae gennych berffaith hawl i wneud hynny, ond byddwn yn ddiolchgar o glywed pam nad yw pobl yma yn cael dewis i’r un graddau o’r cychwyn cyntaf .

Secondly, you seem to be addressing this issue with an eye on the current financial climate, and, of course, that does have a bearing on all of this, and there’s a very strong argument at a financially difficult time to develop community asset transfer and offload some of those costs. However, do you recognise that there is good reason for doing all of this anyway—to deliver more for less, to increase value for money and, indeed, to increase general efficiency?

Yn ail, ymddengys eich bod yn ymdrin â'r mater hwn gyda golwg ar yr hinsawdd ariannol bresennol, ac, wrth gwrs, mae hynny’n effeithio ar hyn i gyd, ac mae dadl gref iawn mewn cyfnod ariannol anodd dros ddatblygu trosglwyddo asedau cymunedol a dadlwytho rhai o'r costau hynny. Fodd bynnag, a ydych yn cydnabod bod rheswm da dros wneud hyn i gyd beth bynnag—darparu mwy am lai, cynyddu gwerth am arian ac, yn wir, gwella effeithlonrwydd yn gyffredinol?

Thirdly, the third sector—aptly—has an enormous role to play in the co-design and the co-delivery of the guidance, but have you utilised this? You have mentioned in your statement today the third sector, and empowering them, and you’ve suggested they’ve not always been so good in the past at putting successful bids forward. There was scant detail on how you intend to enable them better in the future. I’m thinking of organisations such as the Campaign for Real Ale, Disability Wales, the Wales Neurological Alliance—the list goes on. What input has the third sector, and organisations such as this, had into your policy? I’m sure you would accept the Welsh Government can’t do this alone.

Yn drydydd, mae gan y trydydd sector—yn addas iawn—ran enfawr i'w chwarae o ran cyd-gynllunio a chyd-gyflwyno'r canllawiau, ond a ydych wedi defnyddio hynny? Rydych wedi sôn yn eich datganiad heddiw am y trydydd sector, ac am ei rymuso, ac rydych wedi awgrymu nad yw bob amser wedi bod cystal yn y gorffennol o ran cyflwyno ceisiadau llwyddiannus. Ychydig o fanylion a gafwyd ynghylch sut yr ydych yn bwriadu eu galluogi’n well yn y dyfodol. Rwyf yn meddwl am sefydliadau megis yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn, Anabledd Cymru, Cynghrair Niwrolegol Cymru—mae’r rhestr yn parhau. Pa fewnbwn y mae’r trydydd sector, a sefydliadau fel hyn, wedi’i gael i’ch polisi? Rwyf yn siŵr y byddech yn derbyn na all Llywodraeth Cymru wneud hyn ar ei phen ei hun.

Finally, Deputy Presiding Officer, I was pleased to see that the Minister mentioned the Big Lottery’s community asset transfer 2 programme, and the £9 million there to support the transfer of assets to community ownership. I had a meeting recently with the Big Lottery, and they certainly have been doing a great deal in this area, and as I mentioned earlier, I was pleased to see your support. Finally, community groups, you said that community groups and voluntary organisations need support and need to be better equipped to undertake community asset transfers. That is key to this, Minister. It’s all well and good to hear these good words in this area today, but we need to make sure that those organisations that you’ve identified as not being best equipped by the Welsh Government, and other organisations in the past, to carry out these asset transfers are better placed in the future.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, roeddwn yn falch o weld bod y Gweinidog wedi crybwyll rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol 2 y Loteri Fawr, a’r £9 miliwn sydd yno i gefnogi trosglwyddo asedau i berchnogaeth gymunedol. Cefais gyfarfod yn ddiweddar â'r Loteri Fawr, ac maent yn sicr wedi bod yn gwneud llawer iawn yn hyn o beth, ac fel y soniais yn gynharach, rwyf yn falch o weld eich cefnogaeth. Yn olaf, o ran grwpiau cymunedol, dywedasoch fod angen cefnogaeth ar grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol a bod angen eu paratoi’n well i ymgymryd â throsglwyddo asedau cymunedol. Mae hynny'n allweddol i hyn oll, Weinidog. Un peth yw clywed y geiriau da hyn heddiw, ond mae angen inni wneud yn siŵr bod y sefydliadau hynny yr ydych wedi nodi nad oeddent wedi’u paratoi yn y ffordd orau gan Lywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill yn y gorffennol, i drosglwyddo’r asedau hynny, mewn sefyllfa well yn y dyfodol.

16:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Nick Ramsay for his questions, and his support for the community asset transfers guidance. Of course, the Minister for Communities and Tackling Poverty issued a written statement on 25 March outlining her intention, as I said in my statement, to consult on ways in which we can safeguard community assets, and that will include consideration of whether the assets of community value measures that are contained in the Localism Act should be enacted in Wales. I think we've got a chance to develop a better approach here in Wales, suited to the Welsh context—an approach that's better than the English model—but of course the Minister's open to widening the debate on these issues and is already holding consultations. Of course, this is going to be about gathering organisational and individual views across Wales to ensure that this new approach is flexible, viable and sustainable in the future. That is going to be an important development contribution again in the Welsh context, in terms of meeting Welsh needs and circumstances.

Diolch i Nick Ramsay am ei gwestiynau, a'i gefnogaeth i'r canllawiau ar drosglwyddo asedau cymunedol. Wrth gwrs, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddatganiad ysgrifenedig ar 25 Mawrth yn amlinellu ei bwriad, fel y dywedais yn fy natganiad, i ymgynghori ar ffyrdd o ddiogelu asedau cymunedol, a fydd yn cynnwys ystyried a ddylai'r asedau mesurau gwerth cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Lleoliaeth gael eu deddfu yng Nghymru. Rwyf yn credu bod gennym gyfle i ddatblygu ymagwedd well yma yng Nghymru, sy'n addas ar gyfer cyd-destun Cymru—ymagwedd sy'n well na model Lloegr—ond wrth gwrs mae'r Gweinidog yn agored i ehangu'r drafodaeth ar y materion hyn ac mae eisoes yn cynnal ymgynghoriadau. Wrth gwrs, bydd hyn yn fater o gasglu barn sefydliadau ac unigolion ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau bod yr ymagwedd newydd hon yn hyblyg, yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd hynny'n gyfraniad datblygu pwysig eto yng nghyd-destun Cymru, o ran bodloni anghenion ac amgylchiadau Cymru.

In terms of the need for community transfer and the will and engagement on community transfer, I've been very clear about the current financial challenges that this Government faces. The Welsh budget, of course, has been slashed, and in 2015-16 will be 8% lower in real terms than it was in 2010-11—thanks to the UK Government, your Government's cuts in London. So, those financial challenges are set to continue, and then we do have to do everything we can to protect public services, and find new and innovative ways to deliver our services more efficiently and effectively against the background of reduced resources. Actually, this was a key theme that emerged from my budget tour across Wales, where I met people from the public and third sectors, and their response was that we need more collaboration and integration, working differently to make the most effective use of our available resources.

O ran yr angen am drosglwyddo cymunedol a'r ewyllys a'r ymgysylltu ynghylch trosglwyddo cymunedol, rwyf wedi bod yn glir iawn am yr heriau ariannol y mae'r Llywodraeth hon yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae cyllideb Cymru, wrth gwrs, wedi ei thorri, ac yn 2015-16 bydd 8% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11—diolch i Lywodraeth y DU, toriadau eich Llywodraeth chi yn Llundain. Felly, bydd yr heriau ariannol hynny'n parhau, ac yna mae'n rhaid inni wneud ein gorau glas i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, a dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ein gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol â llai o adnoddau. A dweud y gwir, roedd hon yn thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'm taith gyllideb ledled Cymru, lle cwrddais â phobl o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a'u hymateb hwy oedd bod arnom angen mwy o gydweithio ac integreiddio, a gweithio'n wahanol er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol.

We have engaged fully with the third sector. Not only does the third sector sit on the national assets working group, which is chaired by the chief executive of a local authority alongside health and other public sector representatives, but there is a third sector organisation from the Gwent Association of Voluntary Organisations. In terms of the guidance, both organisations such as the Wales Co-operative Centre and the WCVA have been fully engaged in consulting and assessing the guidance, and indeed the Development Trusts Association Wales, which is fully engaged in giving guidance advice to local communities—the Development Trusts Association, of course, is an independent, practitioner-based membership organisation, which is helping to promote and support the growing network of development trusts in Wales—leading community enterprise and regeneration networks. All these organisations were in fact at the launch of Cafe 50 and were very supportive of the way we're taking this forward.

Rydym wedi ymgysylltu'n llawn â'r trydydd sector. Mae'r trydydd sector nid yn unig yn eistedd ar y gweithgor asedau cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth prif weithredwr awdurdod lleol ochr yn ochr â chynrychiolwyr eraill o'r sector iechyd a'r sector cyhoeddus, ond mae yno hefyd sefydliad trydydd sector o Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent. O ran y canllawiau, mae sefydliadau megis Canolfan Cydweithredol Cymru a'r WCVA wedi ymgysylltu'n llawn ag ymgynghori ynglŷn â hyn ac asesu'r canllawiau, ac felly hefyd Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, sydd wedi ymgysylltu'n llawn â rhoi cyngor i gymunedau lleol—mae Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu, wrth gwrs, yn sefydliad aelodaeth annibynnol sy'n seiliedig ar ymarferwyr, sy'n helpu i hyrwyddo a chefnogi'r rhwydwaith cynyddol o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru—rhwydweithiau mentrau cymunedol ac adfywio blaenllaw. Roedd yr holl sefydliadau hyn mewn gwirionedd yn y lansiad yn Cafe 50 ac roeddent yn gefnogol iawn o'r ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn.

16:15 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad, Weinidog. Rwy'n gefnogol iawn o weld grwpiau cymunedol yn cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau neu gyfleusterau cyhoeddus. Mae digon o fentrau cymdeithasol llwyddiannus yng Nghymru. Mae gen i enghraifft o ddwy o leiaf, a mwy hefyd, yn fy etholaeth i sydd yn gweithio gyda phobl gydag anableddau dysgu yn arbennig, sef Antur Waunfawr a Menter Fachwen. Mae'r rheini â chytundebau gyda'r cyngor a chyda'r asiantaethau eraill, sy'n golygu eu bod yn gallu bod yn hyfyw.

Rwyf hefyd yn croesawu'r arian o'r loteri ac yn croesawu'r canllaw ymarferol i arwain grwpiau sydd â diddordeb mewn derbyn y cyfrifoldeb am rai o'r cyfleusterau a gwasanaethau yma. Ond mae'n rhaid dweud bod pethau'n araf iawn yn symud. Nid yw'r datganiad hwn heddiw yn datgelu fawr o ddim byd newydd, hyd y gwelaf i. Rwy'n edrych ymlaen at weld yr adroddiad y mis Mai, ond mi fyddwn i'n hoffi cael gwybod gan y Gweinidog pryd fydd y Llywodraeth yn gweithredu ar yr argymhellion yn y Papur Gwyn.

Mae yna gyfeiriad at nifer o enghreifftiau o drosglwyddo asedau cymunedol llwyddiannus yn eich datganiad. A fyddech yn gallu rhoi rhyw syniad inni faint, neu dua faint, o gynlluniau o'r fath sydd wedi digwydd yng Nghymru o dan y cynllun blaenorol er mwyn inni gael rhyw syniad o 'scale' y llwyddiant hyd yma? Un pwynt pellach i orffen: rydych yn niwedd eich datganiad yn cyfeirio at y penodiad yma o swyddog mewn rhyw fath o gynllun peilot am 12 mis ym Mynwy. A gaf i ddweud, yn fy mhrofiad i, bod hwn bron â bod yn ddibwynt, ac mae'n hollol groes i argymhellion di-rif gan fentrau cymdeithasol bod angen i raglenni fel hyn a phrosiectau fel hyn gael cyfnod hirach o lawer. Nid oes yr un fenter gymdeithasol go iawn yn mynd i gael ei sefydlu mewn 12 mis a derbyn asedau. Felly, er mwyn mesur llwyddiant neu aflwyddiant swydd o'r fath, mi fyddai angen cynllun tair blynedd o leiaf, byddwn i'n awgrymu, cyn y byddai rhywun yn gallu asesu ei llwyddiant hi a'i gwerth hi er mwyn hyrwyddo'r hyn rydych chi a finnau am ei weld, sef mwy o gymunedau'n cymryd cyfrifoldeb am rai o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yn lleol.

Thank you for the statement, Minister. I am very supportive of seeing community groups take responsibility for public services or facilities. There are plenty of successful social enterprises in Wales. I've got at least two examples, and more, in my constituency that work with people with learning disabilities in particular, namely Antur Waunfawr and Menter Fachwen. They have contracts with the council and with the other agencies, which means that they can be viable.

I also welcome the funding from the lottery and welcome the practical guide for groups interested in accepting responsibility for some of these facilities and services. But it must be said that things are very slow in moving forward. This statement today doesn't reveal a great deal that's new, as far as I can see. I look forward to seeing the report in May, but I would like to know from the Minister when the Government will act on the recommendations in the White Paper.

There is a reference to a number of examples of successful community asset transfer in your statement. Could you give us some indication of how many schemes, approximately, of this kind have taken place in Wales under the previous scheme, so that we have some idea of the scale of the success to date? One further point to finish: at the end of your statement you refer to the appointment of an officer in some kind of pilot scheme for 12 months in Monmouth. May I say, in my experience, that that is almost pointless, and is completely contrary to the countless recommendations from social enterprises that programmes and projects like this need a much longer period to bed in. No real social enterprise will be established in 12 months and receive assets. So, in order to measure the success or failure of such a post, it would take at least a three-year scheme, I would suggest, before someone could assess its success and its value in order to promote what you and I want to see, which is more communities taking responsibility for some local facilities and services.

16:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Thank you for your welcome of the guidance today and also drawing reference to many, I would say, of the case studies in north Wales, particularly in north-west Wales. Some of those projects and schemes and initiatives I have visited, as have other Ministers.

I think it is important to look at the purpose of this guide, which is intended to help manage the process and minimise the risks associated with transfers. It does provide clarity on land and building community asset transfers. It does identify common risks. It does suggest ways that these can be minimised. It does provide signposts to published resources and organisations that can assist both local authorities and community-based organisations to bring forward schemes. It does highlight these practical examples, these case studies, where we see properly managed transfers that have been successfully delivering local benefits, and it does identify key factors for success.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Diolch ichi am eich croeso i'r canllawiau heddiw a hefyd am gyfeirio at lawer, a dweud y gwir, o'r astudiaethau achos yn y gogledd, yn enwedig yng ngogledd orllewin Cymru. Rwyf wedi ymweld â rhai o'r prosiectau a'r cynlluniau a'r mentrau hynny, fel y mae Gweinidogion eraill.

Credaf ei bod yn bwysig edrych ar ddibenion y canllawiau hyn, y bwriedir iddynt helpu i reoli'r broses a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddiadau. Mae'n darparu eglurder ar drosglwyddo asedau cymunedol tir ac adeiladau. Mae'n nodi risgiau cyffredin. Mae'n awgrymu ffyrdd y gall y rhain gael eu lleihau. Mae'n darparu arwyddbyst at adnoddau sydd wedi'u cyhoeddi a sefydliadau a all gynorthwyo awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol i gyflwyno cynlluniau. Mae'n amlygu'r enghreifftiau ymarferol hyn, yr astudiaethau achos hyn, lle y gwelwn drosglwyddiadau wedi'u rheoli'n iawn sydd wedi bod yn darparu buddion lleol yn llwyddiannus, ac mae'n nodi ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant.

Also, of course, the White Paper—you mentioned the White Paper 'Reforming Local Government: Power to Local People'—does contain also specific proposals to facilitate greater community participation and asset transfer to communities. So, it is vital that we do provide clarity around the process of transfer and that we use this best practice guide to complement other more detailed guidance, and that includes the toolkit that was recently launched by the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism focusing specifically on sport and cultural facilities as well as on the provision of assets of community value. Of course, I think it is very important that the Minister has also enabled us to take this forward in terms of—initially, I am sure—the 12-month pilot project to make sure we get the right investment in the right way in providing the support and advice to deliver on the transfer experience. Of course, as we build up the knowledge, expertise and the organisations like the Development Trusts Association Wales, working across Wales, working with Government, I think we can deliver what we all and both agree, certainly today in terms of your response to the statement, will be an important way forward.

Hefyd, wrth gwrs, mae'r Papur Gwyn—soniasoch am y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'—hefyd yn cynnwys cynigion penodol i hwyluso mwy o gyfranogi cymunedol a throsglwyddo asedau i gymunedau. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn darparu eglurder ynghylch y broses drosglwyddo a'n bod yn defnyddio'r canllawiau arferion gorau hyn law yn llaw â chanllawiau eraill mwy manwl, ac mae hynny'n cynnwys y pecyn cymorth a lansiwyd yn ddiweddar gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn canolbwyntio'n benodol ar gyfleusterau chwaraeon a diwylliannol yn ogystal ag ar ddarpariaeth asedau o werth cymunedol. Wrth gwrs, credaf ei bod yn bwysig iawn fod y Gweinidog hefyd wedi ein galluogi i fwrw ymlaen â hyn o ran—i ddechrau, rwyf yn siŵr—y prosiect peilot 12 mis i wneud yn siŵr ein bod yn cael y buddsoddiad iawn yn y ffordd iawn o ran darparu'r gefnogaeth a'r cyngor i roi'r profiad trosglwyddo ar waith. Wrth gwrs, wrth inni feithrin y wybodaeth, yr arbenigedd a'r sefydliadau megis Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, sy'n gweithio ar hyd a lled Cymru, yn gweithio gyda'r Llywodraeth, credaf y gallwn gyflawni'r hyn yr ydym ni i gyd a ni ein dau'n cytuno, yn sicr heddiw o ran eich ymateb i'r datganiad, sy'n ffordd bwysig ymlaen.

16:21 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I first of all welcome the concept of community asset transfers in Wales, Minister? I think it's an important principle and most probably one that has appeared in at least one party manifesto, I think, since 2003 in the Assembly elections, and is certainly long overdue. My concern is, of course, that, given that the Localism Act was passed in 2011 in England, we've taken, effectively, four years to catch up with England in terms of putting together a framework whereby this can be taken forward in Wales. It does seem to me to be a very slow process indeed to get to where we are at present.

A gaf fi yn gyntaf groesawu'r cysyniad o drosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru, Weinidog? Credaf ei bod yn egwyddor bwysig ac yn un sydd yn ôl pob tebyg wedi ymddangos ym maniffesto o leiaf un o'r pleidiau, rwyf yn meddwl, ers 2003 yn etholiadau'r Cynulliad, ac mae'n sicr yn hen bryd i hyn ddigwydd. Fy mhryder i, wrth gwrs, o ystyried bod y Ddeddf Lleoliaeth wedi ei chymeradwyo yn 2011 yn Lloegr, yw ein bod wedi cymryd, i bob pwrpas, bedair blynedd i ddal i fyny â Lloegr o ran llunio fframwaith lle y gellir bwrw ymlaen â hyn yng Nghymru . Mae'n ymddangos i mi fod hon yn broses araf iawn a dweud y gwir i gyrraedd lle'r ydym ar hyn o bryd.

Following on from Nick Ramsay's question, I think it's important that you outline to us what the differences are between what you're proposing here today and what is actually happening in England, where there is a community right to bid enshrined in law and where there are already very good examples of this sort of community asset transfer going on. Have you actually carried out a study of what's going on in England that we can learn from here in Wales? How is what you're proposing here any better? I accept that you want to do something differently, but is it better than what's happening in England? Is 'different' actually a better way of going forward when, actually, by implementing the relevant provisions of the Localism Act, you could have actually got to this point many years ago? It does seem to me, Minister, that we are possibly pursuing an alternative course for the sake of it, rather than actually doing what is best for the communities in Wales.

Yn sgil cwestiwn Nick Ramsay, credaf ei bod yn bwysig eich bod yn amlinellu inni beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hyn yr ydych yn ei gynnig yma heddiw a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn Lloegr, lle y mae hawl gymunedol i wneud cais wedi'i hymgorffori yn y gyfraith a lle y mae enghreifftiau da iawn o'r math hwn o drosglwyddo asedau cymunedol yn digwydd yn barod. A ydych mewn gwirionedd wedi cynnal astudiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr y gallwn ddysgu oddi wrthi yma yng Nghymru? Sut y mae'r hyn yr ydych yn ei gynnig yma yn well? Rwyf yn derbyn eich bod am wneud rhywbeth yn wahanol, ond a yw'n well na'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr? A yw 'gwahanol' mewn gwirionedd yn ffordd well o fwrw ymlaen pan allech chi, mewn gwirionedd, drwy weithredu darpariaethau perthnasol y Ddeddf Lleoliaeth, fod wedi cyrraedd y pwynt hwn sawl blwyddyn yn ôl? Mae'n ymddangos i mi, Weinidog, ein bod o bosibl yn dilyn cwrs gwahanol er mwyn dilyn cwrs gwahanol, yn hytrach nag yn gwneud yr hyn sydd orau i'r cymunedau yng Nghymru.

There are some good examples, actually, of community asset transfer, but there are also good examples where communities have wanted to take on assets in their own area where the local authority has effectively frustrated that move. There's a very good example—well, two good examples—in my region: Pennard Library, which is still under threat of closure, where the local community put together funding of several hundred thousand pounds to take over that library and rebuild it, but the local authority has so far frustrated that, despite initially agreeing to do that, and another case that was brought to my attention recently is Melyncryddan community centre in Neath. A local community group there wanted to take that on and have again been frustrated in their ambitions by the town council, who own that community centre.

Mae rhai enghreifftiau da, a dweud y gwir, o drosglwyddo asedau cymunedol, ond mae enghreifftiau da hefyd lle y mae cymunedau wedi bod yn awyddus i ymgymryd ag asedau yn eu hardal eu hunain lle y mae'r awdurdod lleol i bob pwrpas wedi rhwystro'r cam hwnnw. Mae enghraifft dda iawn—wel, dwy enghraifft dda—yn fy rhanbarth i: Llyfrgell Pennard, sydd yn dal i fod o dan fygythiad, lle y rhoddodd y gymuned leol arian at ei gilydd o rai cannoedd o filoedd o bunnoedd i ysgwyddo cyfrifoldeb am y llyfrgell a'i hailadeiladu, ond mae'r awdurdod lleol hyd yma wedi rhwystro hynny, er gwaethaf y ffaith iddo gytuno ar y dechrau i wneud hynny, a'r achos arall a ddaeth i'm sylw yn ddiweddar yw canolfan gymunedol Melyncryddan yng Nghastell-nedd. Roedd grŵp cymunedol lleol yno yn awyddus i ystyried ymgymryd â hynny ac unwaith eto mae eu huchelgais wedi ei rwystro gan gyngor y dref, sy'n berchen ar y ganolfan gymunedol.

Minister, what framework and what rights are going to be available to local communities who want to take on their assets under your framework? How are these examples of frustrated communities going to be put right by what you're proposing today, and how are those communities going to benefit from the framework that you're putting in place so that the way forward for them, making sure that very valuable services are retained in their community, is going to be an option for them and they will not be frustrated by local authorities that, frankly, have other agendas and are tied up in their own bureaucracy?

Weinidog, pa fframwaith a pha hawliau a fydd ar gael i gymunedau lleol sydd am ysgwyddo eu hasedau o dan eich fframwaith? Sut y bydd yr hyn yr ydych yn ei gynnig heddiw yn unioni'r enghreifftiau hyn o gymunedau rhwystredig, a sut y mae'r cymunedau hynny'n mynd i elwa ar y fframwaith yr ydych yn ei roi ar waith fel y bydd y ffordd ymlaen iddynt hwy, gan wneud yn siŵr bod gwasanaethau gwerthfawr iawn yn cael eu cadw yn eu cymunedau, yn opsiwn iddynt ac na fyddant yn cael eu rhwystro gan awdurdodau lleol a chanddynt, a dweud y gwir, agendâu eraill ac sydd wedi ymgolli yn eu biwrocratiaeth eu hunain?

16:24

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Peter Black for his response to my statement. I think, across this Chamber, there's support for the way forward in terms of the development of this overarching guidance in terms of community asset transfers, which, as I said, has been led by the national assets working group, which is led by a local authority chief executive and has fully engaged with local government as well as other public sector bodies, health boards and also the third sector, as well as police and fire and all the public service interests.

Diolch i Peter Black am ei ymateb i'm datganiad. Credaf, ar draws y Siambr hon, fod cefnogaeth i'r ffordd ymlaen o ran datblygu'r canllawiau cyffredinol hyn o ran trosglwyddo asedau cymunedol, sydd, fel y dywedais, wedi digwydd dan arweiniad y gweithgor asedau cenedlaethol, dan arweiniad prif weithredwr awdurdod lleol, ac sydd wedi ymgysylltu'n llawn â llywodraeth leol yn ogystal â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, byrddau iechyd a hefyd y trydydd sector, yn ogystal â'r heddlu a'r gwasanaeth tân a holl fuddiannau'r gwasanaethau cyhoeddus.

I think what we need to do in terms of taking this forward is provide the guidance and support not just to community groups but to local authorities. If you've read the guidance, you will see how clearly this is laid out. And as Lesley Griffiths, the Minister for Communities and Tackling poverty, is now taking forward consultation in terms of ways in which we can safeguard community assets, there will be further opportunities to respond to that as she engages to see whether the assets of community value measures contained in the Localism Act 2011 are appropriate to Wales. As I said, it's a chance to develop an approach which better meets our needs.

Credaf mai'r hyn y mae angen inni ei wneud o ran bwrw ymlaen â hyn yw rhoi'r canllawiau a'r gefnogaeth nid yn unig i grwpiau cymunedol ond i awdurdodau lleol. Os ydych wedi darllen y canllawiau, byddwch yn gweld pa mor glir y mae hyn yn cael ei fynegi. A gan fod Lesley Griffiths, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn awr yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad o ran y ffyrdd y gallwn ddiogelu asedau cymunedol, bydd cyfleoedd pellach i ymateb i hynny wrth iddi ymgysylltu i weld a yw'r asedau mesurau gwerth cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 yn briodol i Gymru. Fel y dywedais, mae'n gyfle i ddatblygu ymagwedd sy'n diwallu ein hanghenion yn well.

It is interesting to look at recent meetings of the UK Parliament's Communities and Local Government Committee, which undertook an inquiry into community rights in England. That report was published in February of this year, and it does outline mixed results on current delivery and makes recommendations to the UK Government. What it's saying is that the assets of community value measures that were enacted in England don't fully satisfy any of the key stakeholders, including not only community organisations asset owners, but also local authorities. Many community organisations have been disappointed that the measures don't provide that level of support or protection they expected. So, we do have an opportunity, and I know that you will engage in that fully, and, indeed, of course, those examples of where there have been difficulties in terms of opportunities for asset transfer in Wales will be taken into account.

Mae'n ddiddorol edrych ar gyfarfodydd diweddar Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Senedd y DU, a gynhaliodd ymchwiliad i hawliau cymunedol yn Lloegr. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw ym mis Chwefror eleni, ac mae'n amlinellu canlyniadau cymysg ynghylch cyflawni ar hyn o bryd ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU. Yr hyn y mae'n ei ddweud yw nad yw'r asedau mesurau gwerth cymunedol a ddeddfwyd yn Lloegr yn bodloni yn llawn yr un o'r rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys nid yn unig berchnogion asedau sefydliadau cymunedol, ond hefyd yr awdurdodau lleol. Mae llawer o sefydliadau cymunedol wedi bod yn siomedig nad yw'r mesurau yn darparu'r lefel o gefnogaeth neu amddiffyniad yr oeddent yn ei disgwyl. Felly, mae cyfle yma inni, a gwn y byddwch yn ymgysylltu'n llawn â hynny, ac, yn wir, wrth gwrs, bydd yr enghreifftiau hynny lle y bu anawsterau o ran y cyfleoedd i drosglwyddo asedau yng Nghymru yn cael eu hystyried.

Of course, also in England local authorities have added regulations on the delivery of schemes locally, and they've provided, I understand, inconsistent approaches and additional administrative burden. So, we monitor the developments in England, but we can obviously take this forward in terms of new opportunities. But I would say again the national assets working group is taking forward this programme of work. It wants to enable and influence collaborative asset management, and, of course, is developing the set of tools to support and enhance effective management of the public sector estate in Wales, and, of course, identifying ways in which they can take this forward, particularly looking from the aspect of the support from the community group, as well as local authority needs or exploration of asset transfer.

Wrth gwrs, yn Lloegr hefyd mae awdurdodau lleol wedi ychwanegu rheoliadau at ddarparu cynlluniau'n lleol, ac maent wedi darparu, rwyf ar ddeall, ymagweddau anghyson a baich gweinyddol ychwanegol. Felly, rydym yn monitro datblygiadau yn Lloegr, ond yn amlwg gallwn fwrw ymlaen â hyn o ran cyfleoedd newydd. Ond dywedaf eto fod y gweithgor asedau cenedlaethol yn bwrw ymlaen â'r rhaglen waith hon. Mae am alluogi rheoli asedau ar y cyd a dylanwadu ar hynny, ac, wrth gwrs, mae'n datblygu cyfres o offer i gefnogi a gwella rheolaeth effeithiol ar ystâd y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac, wrth gwrs, yn nodi ffyrdd y gallant fwrw ymlaen â hyn, yn enwedig o safbwynt cefnogaeth y grŵp cymunedol, yn ogystal ag anghenion awdurdodau lleol neu archwilio trosglwyddo asedau.

16:27

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I again welcome the statement by the Minister? We seem to have gone full circle, though, don't we? A lot of the community assets were previously owned by community organisations and then passed on to councils to run them—things like libraries and sports pitches. Now we seem to be moving the other way. As we are name-checking parts of our constituency, I'm involved with Morriston Rugby Football Club in trying to take over part of Tir Canol rugby pitches under release, and with Ynystawe Athletic Football Club, who are trying to take over parts of Ynystawe park as a football pitch, in order to not only preserve it as a football pitch and look after it themselves, but also because they can get grants in order to improve the changing rooms there, which the council can't.

A gaf fi unwaith eto groesawu datganiad y Gweinidog? Rydym fel petaem wedi gwneud cylch cyflawn, fodd bynnag, onid ydym? Roedd llawer o'r asedau cymunedol yn eiddo o'r blaen i sefydliadau cymunedol ac yna fe'u trosglwyddwyd i gynghorau i'w rhedeg—pethau fel llyfrgelloedd a meysydd chwaraeon. Nawr rydym fel petaem yn symud y ffordd arall. Gan ein bod yn enwi rhannau o'n hetholaethau, rwyf fi'n ymwneud â Chlwb Rygbi Treforys wrth geisio cymryd drosodd ran o gaeau rygbi Tir Canol dan ryddhad, a chyda Chlwb Pêl-droed Ynystawe, sy'n ceisio cymryd drosodd rannau o barc Ynystawe fel cae pêl-droed, er mwyn ei gadw nid yn unig fel cae pêl-droed a gofalu amdano eu hunain, ond hefyd oherwydd y gallant gael grantiau er mwyn gwella'r ystafelloedd newid yno, sy'n rhywbeth na all y cyngor ei wneud.

The question I've got is: what safeguards will there be in place to stop what are currently public assets moving into the private sector for individual gain via community organisations? I always think of Glamorgan holiday home, which I know the Minister is well aware of, which was owned by Glamorgan County Council, then by the three Glamorgans, and then seemed to disappear from the ownership of those in a manner that was entirely legal, but I'm not quite sure quite how it happened. And I think there's got to be some concern that there's some very expensive bits of land out there that the communities want to take on for the benefit of those communities, and I think there needs to be some safeguards to stop individuals seeing not a football pitch, but a place to build 10 houses.

Fy nghwestiwn i yw hyn: pa fesurau diogelu fydd yn eu lle i atal yr hyn sydd ar hyn o bryd yn asedau cyhoeddus rhag symud i'r sector preifat er budd unigolion trwy sefydliadau cymunedol? Rwyf bob amser yn meddwl am gartref gwyliau Morgannwg, a gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol iawn o hynny, a oedd yn eiddo i Gyngor Sir Morgannwg, yna i'r tri Morgannwg, ac a ddiflannodd i bob golwg o berchnogaeth y rheini mewn modd a oedd yn gwbl gyfreithlon, ond nid wyf yn hollol siŵr sut y digwyddodd. A chredaf fod yn rhaid bod rhywfaint o bryder fod rhai darnau drud iawn o dir i'w cael y mae cymunedau am eu hysgwyddo er budd y cymunedau hynny, ac rwyf yn meddwl bod yn rhaid wrth rai mesurau diogelu i atal unigolion rhag gweld nid cae pêl-droed, ond lle i adeiladu 10 o dai.

16:29

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm grateful to Mike Hedges for raising that very pertinent point, which I'm sure will also need to be addressed in terms of the consultation that the Minister for Communities and Tackling Poverty is undertaking in terms of assets of community value. I think it's very clear what the purpose of this guidance is, which has been produced by the national assets working group, and, of course, taken forward by the Welsh Government. It is about delivering community benefits, it is about developing social enterprise, it is about how we can improve, safeguard and create local services and amenities, and it is about supporting the sustainability of community organisations, and that's why many Members here, as you are, Mike Hedges, will be involved in those kinds of community organisations in your constituency. And it is about improving social cohesion.

Wel, rwyf yn ddiolchgar i Mike Hedges am godi'r pwynt perthnasol iawn hwnnw, ac rwyf yn siŵr y bydd angen mynd i'r afael â hynny hefyd o ran yr ymgynghoriad y mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei gynnal ar asedau o werth cymunedol. Credaf ei bod yn glir iawn beth yw pwrpas y canllawiau hyn, sydd wedi eu cynhyrchu gan y gweithgor asedau cenedlaethol, ac, wrth gwrs, eu datblygu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fater o sicrhau manteision cymunedol, mae'n fater o ddatblygu mentrau cymdeithasol, mae'n fater o sut y gallwn wella, diogelu a chreu gwasanaethau ac amwynderau lleol, ac mae'n fater o gefnogi cynaliadwyedd sefydliadau cymunedol, a dyna pam y bydd llawer o Aelodau yma, fel chithau, Mike Hedges, yn ymwneud â'r mathau hynny o sefydliadau cymunedol yn eich etholaeth. Ac mae'n fater o wella cydlyniant cymdeithasol.

16:30

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wanted to speak, because I think that, while we would all welcome this as a concept we can support, it is sometimes the conditions by which this happens, as Nick Ramsay mentioned earlier. For example, again, in my area, we've got a situation where the community are potentially being expected to run a swimming pool in the upper Afan Valley and the timelines there are proving tight in terms of when the pool will close and when the community are expected to take up the slack on that provision. So, I would like to hear from the Government how you are, therefore, being proactive in preparing those communities to allow them to have the skills to be able to do this. What I'm being told, not only in the Afan Valley, but in other parts of my region, is that they are running services right, left and centre. The same people, as we are sometimes the same people out on the streets knocking doors, are running community centres as are now expected to run a swimming pool. How are we going to support those individuals on a practical and emotional level, actually, because it takes a lot out of their lives in order to do this efficiently and effectively?

Weinidog, roeddwn yn awyddus i siarad, oherwydd credaf weithiau, er y byddai pob un ohonom yn croesawu hyn fel cysyniad y gallwn ei gefnogi, fod hyn yn ymwneud â'r amodau lle y mae hyn yn digwydd, fel y soniodd Nick Ramsay yn gynharach. Er enghraifft, unwaith eto, yn fy ardal i, mae gennym sefyllfa lle y gallai fod disgwyl o bosibl i'r gymuned redeg pwll nofio yn Nyffryn Afan uchaf ac mae'r llinellau amser yno'n dynn o ran pryd y bydd y pwll yn cau a phryd y disgwylir i'r gymuned ysgwyddo'r ddarpariaeth honno. Felly, hoffwn glywed gan y Llywodraeth sut yr ydych, felly, yn mynd ati'n rhagweithiol i baratoi'r cymunedau hynny i ganiatáu iddynt feithrin y sgiliau i allu gwneud hyn. Yr hyn yr wyf fi'n ei glywed, nid yn unig yn Nyffryn Afan, ond hefyd mewn rhannau eraill o'm rhanbarth, yw eu bod yn rhedeg gwasanaethau ym mhob man. Yr un bobl felly, fel y gwelwn weithiau'r un bobl allan ar y strydoedd yn curo drysau, sy'n rhedeg canolfannau cymunedol ac y disgwylir iddynt yn awr redeg pwll nofio. Sut ydym ni'n mynd i gefnogi'r unigolion hynny ar lefel ymarferol ac emosiynol, a dweud y gwir, oherwydd mae'n cymryd llawer allan o'u bywydau, er mwyn gwneud hyn yn effeithlon ac yn effeithiol?

I take from the experience in Wrexham, and I called them to ask about their experience in running the sports centre there and they said, 'Yes; we did it immediately afterwards, because that's what we had to do'. But, actually, how sustainable is that, ongoing? They were concerned that they needed to always be balancing the books, always be seeking funding. How can we then support those groups over many, many years, as opposed to just the upfront support and guidance that, from what I can see, is coming from the Welsh Government at the moment?

Cymeraf o'r profiad yn Wrecsam, a ffoniais hwy i holi am eu profiad o redeg y ganolfan chwaraeon yno a dywedasant, 'Do, gwnaethom hynny yn syth wedyn, oherwydd dyna'r hyn yr oedd yn rhaid inni ei wneud'. Ond, mewn gwirionedd, pa mor gynaliadwy yw hynny, yn y tymor hir? Roeddent yn pryderu bod angen iddynt bob amser fantoli'r llyfrau, bob amser fod yn chwilio am gyllid. Sut y gallwn wedyn gefnogi'r grwpiau hynny dros flynyddoedd lawer iawn, yn hytrach na dim ond y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd ymlaen llaw sydd, o'r hyn y gallaf ei weld, yn dod gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd?

Many of these groups are not constituted as anything; many people are coming together initially as protest groups. How, therefore, do we find the different skills, be it in business, be it in education, be it in leisure, for us to have a holistic look at how these schemes can be successful in the future?

Nid yw llawer o'r grwpiau hyn wedi eu cyfansoddi o gwbl; mae llawer o bobl yn dod at ei gilydd i ddechrau fel grwpiau protest. Sut, felly, y mae dod o hyd i'r gwahanol sgiliau, boed yn sgiliau busnes, boed yn sgiliau addysg, boed yn sgiliau hamdden, inni gael golwg gyfannol ar sut y gall y cynlluniau hyn fod yn llwyddiannus yn y dyfodol?

The other question that came to mind after Mike Hedges spoke is that many councils not only received community assets from various groupings, but also now, in the last few years, councils themselves have set up trusts and have set up not-for-profit organisations and they are also going and putting this on the community. Celtic Leisure are calling on the community to run a swimming pool and we've been asking, 'Why are the community better at doing this than you are, who were set up to take the slack off the council in the first place?' Halo in Bridgend, as well, is another example. So, I think that really hasn't been answered by the Welsh Government up until now.

Y cwestiwn arall a ddaeth i'r meddwl ar ôl i Mike Hedges siarad yw bod llawer o gynghorau nid yn unig wedi derbyn asedau cymunedol o wahanol grwpiau, ond hefyd yn awr, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynghorau eu hunain wedi sefydlu ymddiriedolaethau ac wedi sefydlu sefydliadau dielw ac maent hefyd yn mynd ac yn rhoi hyn ar y gymuned. Mae Celtic Leisure yn galw ar y gymuned i redeg pwll nofio ac rydym wedi bod yn gofyn, 'Pam y mae'r gymuned yn well am wneud hyn na chi, a sefydlwyd i ddal y slac yn dynn dros y cyngor yn y lle cyntaf?' Mae Halo ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn enghraifft arall. Felly, credaf nad yw hynny wedi cael ei ateb gan Lywodraeth Cymru hyd yma.

The motivation for standing up was the group in the Melyn this week being rejected by the town council. It had no response from the town council. They wanted to set up and run this community centre for themselves and they have been totally rejected. How are you supposed to empower communities if the town council won't even engage with them on their particular application? There is a raft of other issues that we have to deal with before we can even sit down to set up these community groups for the future.

Y rheswm dros sefyll i fyny oedd i'r grŵp yn y Melyn yr wythnos hon gael ei wrthod gan gyngor y dref. Ni chafodd ddim ymateb gan gyngor y dref. Roeddent am sefydlu a rhedeg y ganolfan gymunedol drostynt hwy eu hunain ac maent wedi cael eu gwrthod yn llwyr. Sut y mae grymuso cymunedau os na fydd cyngor y dref hyd yn oed yn ymgysylltu â hwy ynghylch eu cais penodol? Mae llu o faterion eraill y mae'n rhaid inni ymdrin â hwy cyn y gallwn hyd yn oed eistedd i lawr i sefydlu'r grwpiau cymunedol hyn at y dyfodol.

16:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins, I think you will be aware—and obviously, in terms of responding to this statement—that what we're producing here in terms of guidance on community asset transfers are ways in which we can enable communities to take forward initiatives where they want not only to protect and develop services, but also community and town councils as well, to create opportunities to take on some control management or ownership of facilities and their maintenance as well, creating strong foundations for future growth and development in their local communities. I think it's important that we see that community asset transfer is a methodology that must be centred on mutual benefit with a joined-up vision to achieve a shared goal. It is about opportunities that we are providing with clear guidance and, of course, this has come as a result of the interests and concerns and lack of awareness of how we can take this forward in a responsible way. I think there has been inadequate information in terms of how we can take this forward, and uncertainty within public sector organisations and in communities. So, developing good practice guidance with organisations like the Development Trusts Association, working not only with communities but local authorities, for example, working with Cardiff city council, which has developed a document called 'Stepping Up', a toolkit for developing and managing services and assets. That, of course, has been initiated by the council asking the development trusts association to take this forward and to work with them.

Bethan Jenkins, credaf y byddwch yn ymwybodol—ac yn amlwg, o ran ymateb i'r datganiad hwn—mai'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yma o ran canllawiau ar drosglwyddo asedau cymunedol yw ffyrdd y gallwn alluogi cymunedau i ddatblygu mentrau lle y maent nid yn unig am ddiogelu a datblygu gwasanaethau, ond hefyd gynghorau cymuned a thref, yn ogystal, i greu cyfleoedd i ysgwyddo rhywfaint o reolaeth neu berchnogaeth dros gyfleusterau a'u cynnal a'u cadw hefyd, gan greu sylfeini cadarn ar gyfer twf a datblygiad yn y dyfodol yn eu cymunedau lleol. Credaf ei bod yn bwysig gweld trosglwyddo asedau cymunedol fel methodoleg y mae'n rhaid ei chanoli ar fudd y naill a'r llall â gweledigaeth gydgysylltiedig i gyflawni nod cyffredin. Mae'n ymwneud â chyfleoedd yr ydym yn eu darparu gydag arweiniad clir ac, wrth gwrs, mae hyn wedi dod yn sgil y buddiannau a'r pryderon a diffyg ymwybyddiaeth o sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn mewn ffordd gyfrifol. Credaf na chafwyd digon o wybodaeth o ran sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn, a bod ansicrwydd mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus ac mewn cymunedau. Felly, datblygu canllawiau arferion da gyda sefydliadau fel Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu, gan weithio nid yn unig gyda chymunedau, ond awdurdodau lleol, er enghraifft, gweithio gyda Chyngor Dinas Caerdydd, sydd wedi datblygu dogfen o'r enw 'Camu i'r Adwy', pecyn cymorth ar gyfer datblygu a rheoli gwasanaethau ac asedau. Rhoddwyd hynny ar waith, wrth gwrs, drwy i'r cyngor ofyn i gymdeithas yr ymddiriedolaethau datblygu fwrw ymlaen â hyn a gweithio gyda hwy.

Members have mentioned the Big Lottery Fund, and that is, particularly the second stage of the Big Lottery Fund CAT 2. It is a very important source of finance and practical resource for community groups—you know, those groups that are looking for funding in terms of CAT 2—making available up to £9 million to support the transfer of assets to community ownership. Of course, again, there is going to be support and advice in terms of those who would like to put forward proposals for the Big Lottery Fund. Quite clearly, they are there to help the communities most in need. They're also funding programmes designed and developed to reflect local needs and priorities.

Mae Aelodau wedi sôn am y Gronfa Loteri Fawr, ac yn enwedig ail gam y Gronfa Loteri Fawr CAT 2. Mae'n ffynhonnell bwysig iawn o gyllid ac adnoddau ymarferol i grwpiau cymunedol—wyddoch chi, y grwpiau hynny sy'n chwilio am gyllid o ran CAT 2—i sicrhau bod hyd at £9 miliwn ar gael i gefnogi trosglwyddo asedau i berchnogaeth gymunedol. Wrth gwrs, unwaith eto, bydd cymorth a chyngor o ran y rhai a hoffai gyflwyno cynigion ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. Wrth gwrs, maent yno i helpu'r cymunedau mwyaf anghenus. Maent hefyd yn ariannu rhaglenni sydd wedi'u cynllunio a'u datblygu i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, William Powell.

Yn olaf, William Powell.

16:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your indulgence, Deputy Presiding Officer. Thank you, Minister, also, for today's statement. There are a number of community-led action groups in my own region that I'd like, briefly, to refer to in relation to the provisions of today's statement. The first was raised earlier with you in terms of the Totally Locally Crickhowell campaign to safeguard, for the community, the historic Corn Exchange on Crickhowell High Street, with which I know you're familiar. In many ways, that would be a perfect example of how a co-operative model could be adopted that would safeguard and anchor that building for the future. You referred earlier to your recent budget tour, and I would urge you, when diary commitments allow—maybe after 7 May—to look at the possibility of actually engaging with that community and, indeed, with community groups such as the Penparcau Community Forum, which is looking to safeguard its own asset, following the loss of the Communities First status funding, which was such a blow. It's got a current funding bid in, which I am seeking to support.

Diolch ichi am eich amynedd, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi, Weinidog, hefyd, am y datganiad heddiw. Mae nifer o grwpiau gweithredu a arweinir gan y gymuned yn fy rhanbarth i y byddwn yn hoffi, yn fyr, cyfeirio atynt o ran darpariaethau'r datganiad heddiw. Codwyd y cyntaf yn gynharach gyda chi o ran ymgyrch Totally Locally Crucywel i ddiogelu, ar gyfer y gymuned, y Gyfnewidfa Ŷd hanesyddol ar Stryd Fawr Crucywel, yr ydych rwyf yn gwybod yn gyfarwydd â hi. Mewn sawl ffordd, byddai hwnnw'n enghraifft berffaith o sut y gellid mabwysiadu model cydweithredol a fyddai'n diogelu ac yn angori'r adeilad hwnnw ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriasoch yn gynharach at eich taith gyllideb ddiweddar, a byddwn yn eich annog, pan fydd ymrwymiadau'r dyddiadur yn caniatáu hynny—efallai ar ôl 7 Mai—i edrych ar y posibilrwydd o ymgysylltu mewn gwirionedd â'r gymuned honno ac, yn wir, â grwpiau cymunedol megis Fforwm Cymunedol Penparcau, sydd yn ceisio diogelu ei asedau yntau, ar ôl colli cyllid statws Cymunedau yn Gyntaf, a oedd yn gymaint o ergyd. Mae wedi cyflwyno cais am arian, ac rwyf yn ei gefnogi.

I share the regret expressed by Peter Black at the relatively tardy way in which the possibility of a community right to buy is being looked at here. That could, for example, have safeguarded the much loved Radnor Arms in Llowes, in Glasbury ward in Powys, which has now been lost for ever to the community. Minister, if I could ask you, please: are you currently working also with the public services Minister, Leighton Andrews, to seek to bring some additional pace into the issues of local authorities realising some of their assets? When assets such as public conveniences and other closed facilities are left to fester, they can have a very negative effect on the local environment as well as, obviously, not providing the benefits that they could provide in the local setting. I think it would be very helpful if you could give us some reassurance that you're working across Cabinet with other colleagues to help to make this happen.

Rwyf yn rhannu'r gofid a fynegwyd gan Peter Black am y ffordd gymharol araf y mae'r posibilrwydd o hawl gymunedol i brynu yn cael ei ystyried yma. Gallai hynny, er enghraifft, fod wedi diogelu'r Radnor Arms poblogaidd yn Llowes, yn ward y Clas-ar-Wy ym Mhowys, sydd bellach wedi ei golli am byth i'r gymuned. Weinidog, a gaf fi ofyn ichi, os gwelwch yn dda: a ydych hefyd yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, Leighton Andrews, i geisio cyflymu camau i awdurdodau lleol wireddu rhai o'u hasedau? Pan fydd asedau megis cyfleusterau cyhoeddus a chyfleusterau eraill sydd wedi cau yn cael eu gadael i bydru, gallant gael effaith negyddol iawn ar yr amgylchedd lleol yn ogystal, yn amlwg, â pheidio â darparu'r manteision y gallent eu darparu yn lleol. Credaf y byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech roi rhywfaint o sicrwydd inni eich bod yn gweithio ar draws y Cabinet gyda chydweithwyr eraill i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

16:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, William Powell, and I obviously have drawn attention to not only the White Paper, working with the Minister for Public Services and also the Minister for Economy, Science and Transport in relation to the mutualism and co-operative agenda, but the Minister for Communities and Tackling Poverty in terms of the asset of community value consultation. So, this is a cross-Government approach—of course, as well as the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism in terms of his toolkit.

Diolch yn fawr iawn, William Powell, ac rwyf yn amlwg wedi tynnu sylw nid yn unig at y Papur Gwyn, gan weithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a hefyd Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran yr agenda cydfuddiannol a chydweithredol, ond hefyd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi o ran ased ymgynghori ar werth cymunedol. Felly, ymagwedd ar draws y Llywodraeth yw hon—wrth gwrs, yn ogystal â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth o ran ei becyn cymorth.

I think it's vital that we see community asset transfer as an opportunity for community empowerment. You know, you have listed a number of issues in your constituency, in your area, of community need and also threat to community assets. I hope that you will see that this guidance will not only support you in your work as an advocate for your constituency, but also show those communities what is available and what guidance will be given to them, not only in terms of specific issues, but also the legal underpinning opportunities and the specialist advice that can be given to them. I certainly will be, as will my colleagues, visiting some of these projects in due course.

Credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn gweld trosglwyddo asedau cymunedol yn gyfle i rymuso cymunedau. Wyddoch chi, rydych wedi rhestru nifer o faterion yn eich etholaeth, yn eich ardal chi, lle mae angen cymunedol a bygythiad i asedau cymunedol hefyd. Gobeithiaf y byddwch yn gweld y bydd y canllawiau hyn nid yn unig yn eich cefnogi yn eich gwaith fel eiriolwr dros eich etholaeth, ond hefyd yn dangos i'r cymunedau hynny beth sydd ar gael a pha arweiniad a fydd yn cael ei roi iddynt, nid yn unig o ran materion penodol, ond hefyd y cyfleoedd sy'n sail gyfreithiol a'r cyngor arbenigol y gellir ei roi iddynt. Byddaf i yn sicr, fel y bydd fy nghydweithwyr, yn ymweld â rhai o'r prosiectau hyn yn y man.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

16:39

## 7., 8. & 9. Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru), Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) a Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru)

## 7., 8. & 9. The Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order, the Homelessness (Intentionality) (Specified Categories) (Wales) Regulations and the Homelessness (Review Procedures) (Wales) Regulations

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now have a series of Orders and regulations on homelessness. In accordance with Standing Order 12.24, I propose that the following three motions under items 7, 8 and 9 are grouped for debate. Does any Member object? There are no objections. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motions.

Yn awr mae gennym gyfres o Orchmynion a rheoliadau ar ddigartrefedd. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cynigiaf fod y tri chynnig canlynol o dan eitemau 7, 8 a 9 yn cael eu grwpio ar gyfer y ddadl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynigion.

Cynnig NDM5736 Jane Hutt

Motion NDM5736 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

Approves that the draft The Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 10 March 2015.

Cynnig NDM5737 Jane Hutt

Motion NDM5737 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

Approves that the draft The Homelessness (Intentionality) (Specified Categories) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 10 March 2015.

Cynnig NDM5738 Jane Hutt

Motion NDM5738 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

Approves that the draft The Homelessness (Review Procedure) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 10 March 2015.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

16:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Today, I'm presenting to the Assembly for its approval the Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order 2015, the Homelessness (Intentionality) (Specified Categories) (Wales) Regulations 2015, and the Homelessness (Review Procedures) (Wales) Regulations 2015. I move the motions to approve these three statutory instruments, which relate to Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014, which gained Royal Assent on 17 September 2014. Part 2 of the Act relates to the reform of homelessness law. It places a much stronger duty on local authorities to prevent homelessness in the first place. It will also allow local authorities to use suitable accommodation in the private sector, if necessary to discharge their duty, which allows them more flexibility in what they can do to help people find a solution to their housing problem.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Heddiw, rwyf yn cyflwyno er mwyn i'r Cynulliad eu cymeradwyo Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015, a Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015. Cynigiaf y cynigion i gymeradwyo'r tri offeryn statudol hyn, sy'n ymwneud â Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ymwneud â diwygio'r gyfraith ddigartrefedd. Mae'n rhoi dyletswydd gryfach o lawer ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd yn y lle cyntaf. Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio llety addas yn y sector preifat, os oes angen gwneud hynny i gyflawni eu dyletswyddau, sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd iddynt yn yr hyn y gallant ei wneud i helpu pobl i ddod o hyd i ateb i'w problem tai.

As part of the legislation, a number of affirmative and negative statutory instruments are required to ensure the Act can be fully implemented. Three affirmative SIs were laid before the Assembly in March and form the three motions today. As allowed by section 59 of the Act, the Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order 2015 specifies the circumstances in which accommodation is or is not to be regarded as suitable, and also includes the matters to be taken into account or disregarded in determining whether accommodation is suitable.

Fel rhan o'r ddeddfwriaeth, mae angen nifer o offerynnau statudol cadarnhaol a negyddol i sicrhau y gellir gweithredu'r Ddeddf yn llawn. Cafodd tri Offeryn Statudol cadarnhaol eu gosod gerbron y Cynulliad ym mis Mawrth a dyna yw'r tri chynnig heddiw. Fel y caniateir o dan adran 59 o'r Ddeddf, mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn pennu o dan ba amgylchiadau y gellir neu na ellir ystyried llety yn addas, ac mae hefyd yn cynnwys y materion sydd i'w hystyried neu eu diystyru wrth benderfynu a yw llety'n addas.

The Homelessness (Intentionality) (Specified Categories) (Wales) Regulations 2015 are made under section 78 of the Act, which stipulates that Welsh Ministers must, by regulations, specify a category or categories of applicant to which a local authority may choose to have regard when making a decision on whether or not someone is intentionally homeless. The regulations also set the process that a local authority will need to follow in order to have regard to intentionality.

Mae Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015 yn cael eu gwneud o dan adran 78 o'r Ddeddf, sy'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu categori neu gategorïau o ymgeiswyr y caiff awdurdod lleol ddewis eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw rhywun yn fwriadol ddigartref. Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi'r broses y bydd angen i awdurdodau lleol ei dilyn er mwyn rhoi sylw i fwriadoldeb.

Finally, the Homelessness (Review Procedures) (Wales) Regulations 2015 stem from section 86 of Part 2 of the Act, which allows Welsh Ministers to make provision by regulations as to the procedure to be followed in connection with the right to request a review of a local authority's decision. The review and suitability Orders are broadly similar to those currently in force, with enhancements to reflect our new primary legislation. The intentionality regulations are new and, together with our new prevention and relief duties, will enable a gradual reduction in the use of intentionality. Over time, this means more help for more people who are homeless or at risk of homelessness.

Yn olaf, mae Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn deillio o adran 86 o Ran 2 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â'r hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad awdurdod lleol. Mae'r Gorchmynion adolygu ac addasrwydd yn weddol debyg i'r rhai sydd mewn grym ar hyn o bryd, gyda gwelliannau i adlewyrchu ein deddfwriaeth sylfaenol newydd. Mae'r rheoliadau bwriadoldeb yn newydd a byddant, ynghyd â'n dyletswyddau atal a rhyddhad newydd, yn golygu y gellir lleihau'r defnydd o fwriadoldeb yn raddol. Dros amser, mae hyn yn golygu mwy o help i fwy o bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

In January of this year I consulted on all three sets of statutory instruments. Feedback was positive; however, some amendments have been made as a result of comments. These include additional protection for victims of domestic abuse as part of a suitability Order, allowing further representations when an applicant is seeking to review a decision, to be made orally as well as in writing, and strengthening the requirement to communicate decisions to relevant parties regarding whether a local authority is having regard to intentionality.

Ym mis Ionawr eleni ymgynghorais ar bob un o'r tair cyfres o offerynnau statudol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol; fodd bynnag, mae rhai newidiadau wedi eu gwneud yn sgil y sylwadau a ddaeth i law. Mae'r rhain yn cynnwys amddiffyniad ychwanegol i ddioddefwyr cam-drin domestig fel rhan o Orchymyn addasrwydd, gan ganiatáu cyflwyno sylwadau pellach pan fydd ymgeisydd yn ceisio adolygiad o benderfyniad, i'w gwneud ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig, a chryfhau'r gofyniad i roi gwybod i bartïon perthnasol am benderfyniadau ynghylch p'un a yw awdurdod lleol yn ystyried bwriadoldeb.

Today’s motions are to agree these SIs. If approved, this will allow all three to come into force on 27 April 2015. At the heart of our new homelessness legislation is prevention, which will do much to avoid the considerable negative effects that homelessness or being at risk of homelessness can have on adults and children alike. I ask Members to support these motions.

Y cynigion heddiw yw cytuno ar yr offerynnau statudol hyn. Os cânt eu cymeradwyo, bydd hyn yn caniatáu i'r tri ddod i rym ar 27 Ebrill 2015. Mae atal wrth wraidd ein deddfwriaeth ddigartrefedd newydd, a bydd hynny'n gwneud llawer i osgoi'r effeithiau negyddol sylweddol y gall digartrefedd neu fod mewn perygl o fod yn ddigartref eu cael ar oedolion a phlant fel ei gilydd. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynigion hyn.

16:43

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we will be supporting these regulations this afternoon, but I have two points, which I hope that you will address in your response. I’m sure you won’t be too surprised when I express my disappointment that the standards laid out in the Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order 2015 set out a standard for housing that rests on the minimum legal standard. As I’ve argued many times before, I believe that we should be aspiring to homes of decent standard for all. I hope that these regulations will be interpreted generously by local authorities, so that a reasonable standard doesn’t mean the absolute bare minimum allowed under the law.

Weinidog, byddwn yn cefnogi'r rheoliadau hyn y prynhawn yma, ond mae gennyf ddau bwynt yr wyf yn gobeithio y byddwch yn rhoi sylw iddynt yn eich ymateb. Rwyf yn siŵr na fyddwch yn synnu'n ormodol pan fynegaf fy siom fod y safonau a nodir yn y Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn nodi safon ar gyfer tai sy'n dibynnu ar y safon gyfreithiol ofynnol. Fel yr wyf wedi dadlau sawl gwaith o'r blaen, credaf y dylem fod yn anelu at gartrefi o safon briodol i bawb. Gobeithiaf y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu dehongli yn garedig gan awdurdodau lleol, fel nad yw safon resymol yn golygu'r lleiafswm a ganiateir o dan y gyfraith.

Secondly, Minister, you’ll be aware that there are communities in my area that are worried about the use of unsupervised bed-and-breakfast accommodation for those who may, in fact, be a danger to the public. Now, these regulations make no provision at all of risk assessments for those entering bed-and-breakfast accommodation, and I wondered if you’ve given any consideration to that. Perhaps you’d give us a commitment that you would look carefully at what powers, perhaps, you may have to ensure that there’s a proper matching of facilities for the homeless with the specific needs of applicants, including supervision where that is appropriate.

Yn ail, Weinidog, fel y gwyddoch, mae cymunedau yn fy ardal i sy'n poeni am ddefnyddio llety gwely a brecwast heb oruchwyliaeth i'r rhai a allai, a dweud y gwir, fod yn beryg l i'r cyhoedd. Yn awr, nid yw'r rheoliadau hyn yn darparu dim asesiadau risg o gwbl ar gyfer y rhai sy'n mynd i lety gwely a brecwast, a tybed a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i hynny? Efallai y rhoddwch ymrwymiad inni y byddwch yn edrych yn ofalus ar ba bwerau, efallai, y gallai fod gennych i sicrhau bod cyfleusterau i'r digartref yn cael eu paru'n briodol ag anghenion penodol ymgeiswyr, gan gynnwys goruchwyliaeth lle y bo hynny'n briodol.

16:45 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I echo the comments of Jocelyn Davies? I was also exercised by the suitability of accommodation and think it's absolutely important that people are housed in the most suitable accommodation and that that is properly vetted. I think it's important as well that when we actually carry out that assessment, we actually look at trying to raise the standards of accommodation. When this Bill went through and became an Act, we had a lot of discussions about how we could raise the standard of private rented accommodation and use it to do that. It seems to me that what we're doing is resting on existing standards, rather than trying to raise standards. I think, Minister, although if not directly relevant to these Orders, I think we do need to start looking at how we do that. I know there'll be further regulations coming through and we should be able to discuss that, and hopefully we'll be able to scrutinise those in committee as well as part of that.

A gaf fi adleisio sylwadau Jocelyn Davies? Roeddwn innau'n pryderu am addasrwydd y llety a chredaf ei bod yn hollbwysig fod pobl yn cael eu rhoi yn y llety mwyaf addas a bod hynny'n cael ei asesu'n iawn. Credaf ei bod yn bwysig yn ogystal, pan fyddwn yn cynnal yr asesiad hwnnw, ein bod yn ceisio codi safonau'r llety. Pan aeth y Bil hwn drwodd a dod yn Ddeddf, cawsom lawer o drafodaethau ynghylch sut y gallem godi safon y llety rhent preifat a'i defnyddio i wneud hynny. Mae'n ymddangos i mi fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dibynnu ar safonau sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na cheisio codi safonau. Credaf, Weinidog, er efallai nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r Gorchmynion hyn, credaf fod angen inni ddechrau edrych ar sut yr ydym yn gwneud hynny. Gwn y bydd rheoliadau pellach ar ddod a dylem allu trafod hynny, ac rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu craffu ar y rheini yn y pwyllgorau hefyd fel rhan o hynny.

I think the other issue is around intentionality. I think it's absolutely right that local authorities continue to be able to assess that, but, of course, we are looking to try to do away with intentionality in the long term and, again, that was expressly outlined as part of the discussions on the Act. I'd be interested in your views as to what sort of timescale you're looking at, given that there are a number of steps in the Act that are set out in that regard.

Mae'r mater arall yn ymwneud â bwriadoldeb. Credaf ei bod yn hollol iawn fod awdurdodau lleol yn dal i allu asesu hynny, ond, wrth gwrs, rydym yn ceisio gwneud i ffwrdd â bwriadoldeb yn y tymor hir ac, unwaith eto, amlinellwyd hynny'n benodol fel rhan o'r trafodaethau ar y Ddeddf. Byddai gennyf ddiddordeb yn eich barn ynglŷn â pha fath o amserlen yr ydych yn edrych arni, o gofio bod nifer o gamau yn y Ddeddf sydd wedi'u nodi yn hynny o beth.

16:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

16:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank the two Members who have participated in the debate today. I do appreciate their support for these SIs today.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r ddau Aelod sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Rwyf yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth i'r offerynnau statudol hyn heddiw.

Both Jocelyn Davies and Peter Black raised the issue of suitability. In response to Jocelyn's point, I'd certainly be very happy to look very carefully at it. I absolutely understand why you've raised that point. I wish we were in a position where we had enough housing not to use bed and breakfasts, but I think Jocelyn Davies raises a very important point and I do hope that this new legislation will drive down the use of bed and breakfasts even further.

Cyfeiriodd Jocelyn Davies a Peter Black at addasrwydd. Mewn ymateb i bwynt Jocelyn, byddwn yn sicr yn hapus iawn i edrych yn ofalus iawn arno. Rwyf yn deall yn llwyr pam eich bod wedi codi'r pwynt hwnnw. Byddai'n dda pe byddem mewn sefyllfa lle'r oedd gennym ddigon o dai fel nad oedd yn rhaid defnyddio llety gwely a brecwast, ond credaf fod Jocelyn Davies yn codi pwynt pwysig iawn ac rwyf yn gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn golygu bod hyd yn oed yn llai o ddefnydd ar wely a brecwast.

We have made some adjustments, as I mentioned in my opening remarks, following consultation around standards. I think it should be remembered that standards are absolutely a minimum level—they are not the default position. I do know that local authorities are as keen as I am to ensure accommodation in the private rented sector is absolutely of a decent standard. I think there's a great deal of good work going on with private landlords to achieve this.

Rydym wedi gwneud rhai addasiadau, fel y soniais yn fy sylwadau agoriadol, ar ôl ymgynghori ynghylch safonau. Credaf y dylid cofio mai lefel ofynnol yw'r safonau—nid dyna'r sefyllfa ddiofyn. Gwn fod yr awdurdodau lleol mor awyddus â ninnau i sicrhau bod llety yn y sector rhentu preifat o safon gwbl briodol. Credaf fod llawer iawn o waith da yn digwydd gyda landlordiaid preifat i sicrhau hyn.

Peter Black raised the issue of intentionality and I absolutely share your desire to end intentionality in Wales. You know, to highlight section 75(3), that will place additional requirements on local authorities to give families a second opportunity to receive support, should they be found intentionally homeless, and that we will implement from 2019. Again, I know that there are some local authorities that are intending to use the power to end the use of intentionality anyway.

Cododd Peter Black fater bwriadoldeb ac rwyf finnau hefyd yn awyddus i roi terfyn ar fwriadoldeb yng Nghymru. Wyddoch chi, a thynnu sylw at adran 75(3), a fydd yn gosod gofynion ychwanegol ar awdurdodau lleol i roi ail gyfle i deuluoedd i gael cymorth, pe ceid eu bod yn fwriadol ddigartref, ac y byddwn yn ei gweithredu o 2019. Unwaith eto, gwn fod rhai awdurdodau lleol yn bwriadu defnyddio'r grym i roi terfyn ar ddefnyddio bwriadoldeb beth bynnag.

I thank Members for their support.

Diolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 7. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 8. Does any Member object? Then that motion is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 9. Does any Member object? Then that motion is also agreed.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig hwnnw wedi ei dderbyn hefyd.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# 10. Dadl ar Wasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru

# 10. Debate on the Emergency Medical Retrieval and Transfer Service of Wales

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, gwelliannau 3 a 4 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 5, 6 a 7 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, amendments 3 and 4 in the name of Elin Jones, and amendments 5, 6 and 7 in the name of Aled Roberts.*

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eitem 10 yw'r ddadl ar wasanaeth adalw a throslgwyddo meddygol brys Cymru. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i wneud y cynnig—Vaughan Gething.

Item 10 is the debate on the emergency medical retrieval and transfer service of Wales. I call on the Deputy Minister for Health to move the motion–Vaughan Gething.

Cynnig NDM5739 Jane Hutt

Motion NDM5739 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi:

Notes:

a) bod gwasanaeth clinigol newydd yn cael ei gyflwyno i Gymru, sef Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys, a

a) the introduction of a new clinical Emergency Medical Retrieval and Transfer Service for Wales, and

b) bod y gwasanaeth yn sicrhau y caiff cleifion mewn ardaloedd anghysbell a gwledig fynediad cyflym i ymgynghorydd mewn meddygaeth gofal dwys neu ofal brys.

b) that the service will provide patients in remote and rural areas with rapid access to a consultant in emergency or intensive care medicine.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:49

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. It gives me great pleasure to open this debate and formally move the motion before us on the emergency medical retrieval and transfer service Cymru, or EMRTS Cymru for short.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser mawr gennyf agor y ddadl hon a chynnig y cynnig sydd ger ein bron yn ffurfiol ar wasanaeth adalw a throsglwyddo meddygol brys Cymru, neu EMRTS Cymru yn fyr.

I'll start by dealing with the amendments that have been proposed. The Government will not support the amendments proposed by Paul Davies. We are all familiar with the £1.4 billion cut in the real-terms budget that the Conservatives have imposed on Welsh public services and the unavoidable impact that has had. The Welsh Government will not support amendment 6. This amendment, without evidence of the need, planning or impact, is not a sensible manner in which to develop a new unscheduled care facility in one specific electoral constituency within Wales. We will support amendments 3, 4, 5 and 7, proposed by Elin Jones and Aled Roberts, respectively. In supporting amendment 7, though, we will not be going back over—or reopening—previous decisions to close old facilities and remodel services. This Government is committed to more investment in the primary and community sectors, to provide up-to-date and fit-for-purpose community facilities that will deliver more care closer to home.

Dechreuaf drwy ymdrin â'r gwelliannau a gynigiwyd. Ni fydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliannau a gynigiwyd gan Paul Davies. Rydym i gyd yn gwybod am y toriad o £1.4 biliwn yn y gyllideb mewn termau real y mae'r Ceidwadwyr wedi ei osod ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r effaith anochel y mae hynny wedi'i chael. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwelliant 6. Nid yw'r gwelliant hwn, heb dystiolaeth ynghylch angen, cynllunio nac effaith, yn ffordd synhwyrol o ddatblygu cyfleuster newydd ar gyfer gofal heb ei drefnu mewn un etholaeth benodol yng Nghymru. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 3, 4, 5 a 7, a gynigiwyd gan Elin Jones ac Aled Roberts, yn y drefn honno. Wrth gefnogi gwelliant 7, fodd bynnag, ni fyddwn yn mynd yn ôl dros—nac yn ailagor—y penderfyniadau blaenorol i gau hen gyfleusterau ac ailfodelu gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i fwy o fuddsoddi yn y sectorau sylfaenol a chymunedol, er mwyn darparu cyfleusterau cymunedol cyfoes ac addas at y diben a fydd yn darparu mwy o ofal yn agosach at y cartref.

I would now like to turn to the subject matter of the debate and set out some of the history behind this exciting new service. Seriously ill and injured patients require early critical care interventions and rapid, safe transfer to a centre that is capable of providing definitive surgical and intensive care. The survival and functional outcome of these patients is dependent on timely intervention to stabilise airway, respiratory and circulatory emergencies. The provision of emergency care and safe transfer of these patients is extremely challenging, especially in the more remote and rural areas of Wales. Two clinicians from south Wales, Dr Dindi Gill and Dr Rhys Thomas, came together a few years ago with a shared vision for providing emergency care for critically ill and injured patients. With practical input from NHS staff in a range of sectors, and the involvement of the Wales air ambulance, a new and innovative service model has emerged. It is based on international clinical evidence of emergency care best practice. The aim of the service is to provide patients with life-threatening conditions rapid access to the skills of a consultant and to emergency medicine, anaesthetics and intensive care medicine. It will bring doctors and critical care practitioners, including paramedics, to an injured patient, giving them life-saving treatment at the scene of their injury or accident. It will also provide critical care support to rapidly transfer patients, including neonatal patient teams, to time-critical emergencies, together with enhanced stabilisation and transfer of mothers and babies. The clinically led teams will respond to requests for assistance in minutes and help the Welsh Ambulance Services NHS Trust to realise its clinical reform programme and enhance the provision of emergency ambulance services.

Carwn yn awr droi at bwnc trafod y ddadl a rhoi ychydig o hanes y gwasanaeth newydd cyffrous hwn. Mae ar gleifion difrifol wael a chlwyfedig angen ymyriadau gofal critigol yn gynnar ac yn gyflym, a’u trosglwyddo’n ddiogel i ganolfan a all ddarparu gofal llawfeddygol a dwys penodol. Er mwyn i’r cleifion hyn oroesi ac er mwyn sicrhau canlyniad sy’n gweithio iddynt mae’n rhaid wrth ymyrraeth amserol i sefydlogi argyfyngau’n ymwneud â’r llwybr anadlu, anadlu a chylchrediad y gwaed. Mae darparu gofal brys a throsglwyddo’r cleifion hyn yn ddiogel yn faterion heriol dros ben, yn enwedig yn ardaloedd mwy anghysbell a gwledig Cymru. Daeth dau glinigwr o dde Cymru, Dr Dindi Gill a Dr Rhys Thomas, at ei gilydd ychydig flynyddoedd yn ôl â gweledigaeth gyffredin ar gyfer darparu gofal brys i gleifion difrifol wael a chlwyfedig. Gyda mewnbwn ymarferol gan staff y GIG mewn amryw o sectorau, a chyfranogiad ambiwlans awyr Cymru, mae model gwasanaeth newydd ac arloesol wedi datblygu. Mae wedi ei seilio ar dystiolaeth glinigol ryngwladol ynghylch arferion gorau mewn gofal brys. Nod y gwasanaeth yw darparu mynediad cyflym i gleifion â chyflyrau sy'n bygwth eu bywydau i sgiliau ymgynghorydd ac i feddygaeth frys, anesthetig a meddygaeth gofal dwys. Bydd yn dod â meddygon ac ymarferwyr gofal critigol, gan gynnwys parafeddygon, at gleifion clwyfedig, ac yn rhoi triniaeth achub bywyd iddynt yn y man lle cawsant eu hanaf neu ddamwain. Bydd hefyd yn rhoi cymorth gofal critigol er mwyn trosglwyddo cleifion, gan gynnwys timau cleifion newyddenedigol, yn gyflym i argyfyngau critigol o ran amser, ac yn sefydlogi ac yn trosglwyddo mamau a babanod yn well. Bydd y timau dan arweiniad clinigol yn ymateb i geisiadau am gymorth ymhen munudau ac yn helpu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i wireddu ei rhaglen diwygio clinigol ac i wella darpariaeth gwasanaethau ambiwlans brys.

This new service model is evidence based. Lessons on recovery, rehabilitation and survival rates from military and civilian practice and research suggest that we could expect to see a 40 per cent improvement in survival rates for major trauma, and a 30 per cent reduction in mortality. An extensive programme of evaluation will underpin the new service and collect the data needed to measure improvements in mortality and functional outcomes for patients, who will have their outcomes tracked over a number of months after intervention.

Mae'r model gwasanaeth newydd hwn yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae gwersi ynghylch cyfraddau adfer, adsefydlu a goroesi o ymarfer ac ymchwil milwrol a sifil yn awgrymu y gallem ddisgwyl gweld gwelliant o 40 y cant yn y cyfraddau goroesi ar gyfer trawma mawr, a 30 y cant yn llai o farwolaethau. Bydd rhaglen werthuso helaeth wrth wraidd y gwasanaeth newydd ac yn casglu'r data sydd eu hangen i fesur gwelliannau o ran nifer y marwolaethau a chanlyniadau ymarferol i gleifion, a bydd eu canlyniadau’n cael eu holrhain dros nifer o fisoedd ar ôl ymyrryd.

I recently attended a training session on a very cold day with the new EMRT Cymru team, and it was apparent that this exciting opportunity is encouraging the very best doctors to come to Wales to train and learn new skills at the leading edge of clinical practice. The staff recruited will work normal rotas in an area that is hard to recruit to, as well as being included in the new EMRT Cymru service. This service will also bring some of the most advanced equipment and technology to Wales, such as advanced blood-clotting factors. This will be the first of its kind in a civilian setting. The provision of blood products learns directly from the innovation and practice of the British Army medical emergency response team in recent years. The service includes a unique partnership with the Wales air ambulance and will complement the existing helicopter emergency medical service operations across Wales. There will also be two dedicated, state-of-the-art, rapid-response vehicles, with a further three vehicles expected to be deployed from July 2015. In addition, EMRT demonstrates a clear commitment by the NHS to work collaboratively across strategic issues and will forge stronger partnerships with other emergency services, such as the police, fire service and coastguard.

Yn ddiweddar bûm mewn sesiwn hyfforddi ar ddiwrnod oer iawn gyda thîm newydd EMRT Cymru, ac roedd yn amlwg bod y cyfle cyffrous hwn yn annog y meddygon gorau oll i ddod i Gymru i hyfforddi a dysgu sgiliau newydd ar flaen y gad o ran ymarfer clinigol. Bydd y staff a recriwtiwyd yn gweithio rotâu arferol mewn maes sy'n anodd recriwtio iddo, ac yn cael eu cynnwys yng ngwasanaeth newydd EMRT Cymru. Bydd y gwasanaeth hwn hefyd yn dod â rhywfaint o'r dechnoleg a’r offer mwyaf datblygedig i Gymru, megis ffactorau ceulo gwaed uwch. Dyma fydd y cyntaf o'i fath mewn lleoliad sifil. Mae darparu cynhyrchion gwaed yn dysgu’n uniongyrchol o arloesedd ac ymarfer tîm ymateb meddygol brys Byddin Prydain yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys partneriaeth unigryw ag ambiwlans awyr Cymru a bydd yn ategu gweithrediadau gwasanaeth meddygol brys hofrenyddion ledled Cymru. Bydd dau gerbyd ymateb cyflym pwrpasol o’r radd flaenaf, a thri cherbyd arall y disgwylir iddynt gael eu defnyddio o fis Gorffennaf 2015. Yn ogystal, mae EMRT yn dangos ymrwymiad clir gan y GIG i gydweithio ar draws materion strategol a bydd yn meithrin partneriaethau cryfach â gwasanaethau brys eraill, megis yr heddlu, y gwasanaeth tân a gwylwyr y glannau.

We remain committed to supporting this new service. Even in these very difficult financial times, we have been able to find capital funding of almost £1.9 million and recurrent revenue funding of almost £2.9 million from 2016 to support the launch of this new service. This includes support to enhance helicopter landing sites at Singleton, Tredegar park, Merthyr Tydfil, Llantrisant, Withybush, Nevill Hall, Dering Lines Brecon, Ysgol Penglais Aberystwyth and Glangwili Carmarthen to have a truly national reach across Wales. The planned launch for this new service on 27 April will be a good day for the NHS in Wales. It will give Wales a leading, world-class, national specialist transport service that will lead the way for developing new clinical pathways, so that patients can get the urgent, quality care they require in a timely and safe manner. The service will also help to ensure that major reconfiguration plans can proceed safely and reduce inequalities in the opportunity to access the very best health care in Wales. I look forward to hearing what Members have to say about this new service.

Rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i gefnogi'r gwasanaeth newydd hwn. Hyd yn oed yn y cyfnod ariannol anodd iawn hwn, rydym wedi gallu dod o hyd i arian cyfalaf o bron i £1.9 miliwn a chyllid refeniw rheolaidd o bron i £2.9 miliwn o 2016 i gefnogi lansio'r gwasanaeth newydd hwn. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i wella safleoedd glanio hofrenyddion yn Singleton, Parc Tredegar, Merthyr Tudful, Llantrisant, Llwynhelyg, Nevill Hall, Dering Lines Aberhonddu, Ysgol Penglais Aberystwyth a Glangwili Caerfyrddin er mwyn gallu cyrraedd mannau ar hyd a lled Cymru. Bydd lansiad y gwasanaeth newydd hwn ar 27 Ebrill yn ddiwrnod da i'r GIG yng Nghymru. Bydd yn rhoi i Gymru wasanaeth cludiant arbenigol cenedlaethol gyda’r gorau yn y byd a fydd yn arwain y ffordd ar gyfer datblygu llwybrau clinigol newydd, fel y gall cleifion gael y gofal brys o safon sydd ei angen arnynt mewn modd amserol a diogel. Bydd y gwasanaeth hefyd yn helpu i sicrhau y gall cynlluniau ad-drefnu mawr fynd rhagddynt yn ddiogel ac yn lleihau anghydraddoldebau o ran cyfleoedd i gael y gofal iechyd gorau yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan Aelodau i'w ddweud am y gwasanaeth newydd hwn.

16:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i’r cynnig, a galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the seven amendments to the motion and I call on Darren Millar to move amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Yn is-bwynt b), dileu 'cyflym' a rhoi 'gwell' yn ei le.*

*In sub-point b), delete 'rapid' and replace with 'improved'.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith bod mynediad at wasanaethau brys yng Nghymru wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i israddio ysbytai, perfformiad gwasanaeth ambiwlans gwael a'r toriadau mwyaf erioed i gyllideb y GIG.*

*Regrets that access to emergency services in Wales has deteriorated in recent years due to hospital downgrades, poor ambulance service performance and record-breaking cuts to the NHS budget.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:55

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I do move amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies on the order paper. Can I say at the outset of this debate that we do welcome the development of the 'flying doctors service', as it has been christened by some in the media? I think it's very important that we have rapid access to emergency treatment in life-threatening situations, and this is yet another development that I think can help to deliver just that and will, indeed, save very many lives. I hope that the Deputy Minister will welcome also some of the moves that the UK Government has taken to support air ambulance services in recent years, including the waiving of VAT on air ambulance fuel in the budget a couple of years ago and, indeed, the recent awarding of LIBOR funding–£1.5 million in LIBOR funding—to which one of the Liberal Democrat amendments refers. I think it's very important that no-one should have the impression from some of the rest of the content of my speech that we don't support this very important development, because we do.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, ac rwyf yn cynnig gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies ar y papur trefn. A gaf fi ddweud ar ddechrau'r ddadl hon ein bod yn croesawu datblygu'r 'gwasanaeth meddygon awyr', fel y mae wedi ei fedyddio gan rai yn y cyfryngau? Credaf ei bod yn bwysig iawn fod triniaeth frys ar gael yn gyflym inni mewn sefyllfaoedd sy'n bygwth bywyd, ac mae hwn yn ddatblygiad arall a all, yn fy marn i, helpu i gyflawni hynny, ac a fydd, yn wir, yn arbed llawer iawn o fywydau eto. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog hefyd yn croesawu rhai o'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i gefnogi gwasanaethau ambiwlans awyr yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys hepgor TAW ar danwydd ambiwlans awyr yn y gyllideb ychydig o flynyddoedd yn ôl ac, yn wir, ddyfarnu cyllid LIBOR yn ddiweddar —£1.5 miliwn o gyllid LIBOR—y mae un o welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfeirio ato. Credaf ei bod yn bwysig iawn na ddylai neb fod o dan yr argraff o wrando ar rywfaint o weddill cynnwys fy araith nad ydym yn cefnogi'r datblygiad pwysig iawn hwn, oherwydd rydym yn ei gefnogi.

But let us not forget the dire state of our emergency services here in Wales. Let us not forget the record poor ambulance performance that we have seen in terms of the road ambulance service in the past three months—the worst three months on record, we have seen, in terms of the delivery against the 65 per cent target. And you may sit there shaking your head, Deputy Minister, but let me see you go out on the doorsteps defending the fact that there is just a one in two chance of an ambulance turning up within the target time. You know, just fewer than one in two ambulances in some parts of Wales will turn up and arrive on time in a life-threatening situation. That is an appalling record. Let's face it, you've been missing this target now for three years. There's been just one month in the past three years in which the ambulance service has met that vital eight-minute performance target, and I don't blame the ambulance service, frankly, because we know that we have large problems in the whole of our unscheduled care system. We have problems where people cannot get access to GPs; we have problems where people turn up irresponsibly as well in our emergency departments, when they shouldn't be turning up; we have problems in our emergency departments where they pack up and people spill out of the hospital front door, causing ambulances to stack up. Why? Because you've allowed the NHS to cut the number of hospital beds in the past decade by one fifth, and you can't do that without developing the necessary community services in conjunction with the changes that you make within your secondary care system. But we haven't seen this Government take responsibility for doing that properly, and that is why, when you close minor injuries units, taking away the choices that people have, when you close beds in our secondary care system, when you remove community hospital beds from the system, that is undoubtedly why you have the problems that we have at the moment in our unscheduled care system.

Ond gadewch inni beidio ag anghofio cyflwr enbyd ein gwasanaethau brys yma yng Nghymru. Gadewch inni beidio ag anghofio perfformiad gwael y gwasanaeth ambiwlans a welsom o ran y gwasanaeth ambiwlans ar y ffordd yn y tri mis diwethaf—y tri mis gwaethaf ar gofnod a welsom o ran y ddarpariaeth yn erbyn y targed o 65 y cant. A gallwch eistedd yno yn ysgwyd eich pen, Ddirprwy Weinidog, ond gadewch imi eich gweld yn mynd allan ar garreg y drws yn amddiffyn y ffaith nad oes ond un siawns mewn dau y bydd ambiwlans yn cyrraedd o fewn yr amser targed. Wyddoch chi, bydd ychydig yn llai nag un o bob dau ambiwlans mewn rhai rhannau o Gymru yn cyrraedd yn brydlon mewn sefyllfa sy'n bygwth bywyd. Mae hynny'n record warthus. A dweud y gwir, rydych bellach wedi bod yn methu'r targed hwn am dair blynedd. Dim ond un mis sydd wedi bod yn y tair blynedd diwethaf lle y mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi cyrraedd y targed perfformiad hanfodol hwnnw o wyth munud, ac nid wyf yn gweld bai ar y gwasanaeth ambiwlans, a dweud y gwir, oherwydd gwyddom fod gennym broblemau mawr ar hyd a lled ein system gofal heb ei drefnu. Mae gennym broblemau lle na all pobl weld meddygon teulu; mae gennym broblemau hefyd lle y mae pobl yn troi i fyny yn anghyfrifol yn ein hadrannau achosion brys, pan na ddylent fod yn gwneud hynny; mae gennym broblemau yn ein hadrannau achosion brys lle y maent yn gorlenwi a phobl yn gorlifo allan o ddrws ffrynt yr ysbyty, gan achosi i ambiwlansys bentyrru. Pam? Oherwydd eich bod chi wedi caniatáu i'r GIG dorri un rhan o bump o nifer y gwelyau mewn ysbytai dros y degawd diwethaf, ac ni allwch wneud hynny heb ddatblygu'r gwasanaethau cymunedol angenrheidiol law yn llaw â'r newidiadau a wnewch yn eich system gofal eilaidd. Ond nid ydym wedi gweld y Llywodraeth hon yn cymryd cyfrifoldeb dros wneud hynny'n iawn, a dyna pam, pan fyddwch yn cau unedau mân anafiadau, gan gymryd ymaith y dewisiadau sydd gan bobl, pan fyddwch yn cau gwelyau yn ein system gofal eilaidd, pan fyddwch yn cael gwared ar welyau mewn ysbytai cymunedol o'r system, dyna heb os nac oni bai pam y cewch y problemau sydd gennym ar hyn o bryd yn ein system gofal heb ei drefnu.

Let's face it, you've been aided and abetted by both of the parties opposite as well, because many of the things that I have just described have arisen as a direct result of the cutting of the national health service budget in Wales in the past few years. You can't take a third of £1 billion out of a health service for 3 million people and not expect it to have an impact on the front line. You know, it's no wonder our national health service staff are increasingly demoralised. It's no wonder that we have a situation where patient satisfaction levels are worse in Wales than in Scotland and, indeed, in England. Unfortunately, these trends are going to continue unless you pull your finger out as a Government and make sure that there is adequate resource going into our national health service. Plaid Cymru and the Liberal Democrats have both allowed budget cuts to be made to our precious national health service in recent years, and you know what? I'm proud to be a member of the only party in this Chamber that has consistently demanded and called for more investment in our national health service. I can see Members around the Chamber shaking their heads, but you've all hypocritically turned up at protests about closures of local hospital services in your own constituencies and yet you're the very people responsible for those actually taking place.

A dweud y gwir, rydych wedi cael cymorth a chefnogaeth y ddwy blaid gyferbyn hefyd, gan fod llawer o'r pethau yr wyf newydd eu disgrifio wedi deillio'n uniongyrchol o dorri cyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ni allwch gymryd un rhan o dair o £1 biliwn allan o wasanaeth iechyd i 3 miliwn o bobl a pheidio â disgwyl i hynny gael effaith ar y rheng flaen. Wyddoch chi, nid yw'n syndod fod staff ein gwasanaeth iechyd gwladol yn digalonni fwyfwy. Nid yw'n syndod fod gennym sefyllfa lle y mae lefelau boddhad y cleifion yn waeth yng Nghymru nag yn yr Alban ac, yn wir, yn Lloegr. Yn anffodus, bydd y tueddiadau hyn yn parhau oni thynnwch eich bys allan fel Llywodraeth a gwneud yn siŵr bod adnoddau digonol yn mynd i mewn i'n gwasanaeth iechyd gwladol. Mae Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi caniatáu i doriadau gael eu gwneud i gyllideb ein gwasanaeth iechyd gwladol gwerthfawr dros y blynyddoedd diwethaf, a wyddoch chi beth? Rwyf yn falch o fod yn aelod o'r unig blaid yn y Siambr hon sydd wedi mynnu ac wedi galw'n gyson am fwy o fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. Gallaf weld Aelodau o gwmpas y Siambr yn ysgwyd eu pennau, ond rydych i gyd wedi troi i fyny'n rhagrithiol mewn protestiadau ynglŷn â chau gwasanaethau ysbytai lleol yn eich etholaethau eich hunain ac eto chi yw'r union bobl sy'n gyfrifol am y ffaith fod hynny'n digwydd.

So, yes, let's welcome this new service, but let's not forget the problems that are in our national health service that need to be addressed, and many of those have arisen as a result of the three of you—the three of you—as parties voting for record-breaking budget cuts to the national health service budget. I urge people to support our amendments.

Felly, ar bob cyfrif, gadewch inni groesawu'r gwasanaeth newydd hwn, ond gadewch inni beidio ag anghofio'r problemau sydd yn ein gwasanaeth iechyd gwladol y mae angen mynd i'r afael â hwy, ac mae llawer o'r rheini wedi codi oherwydd i chi eich tri—chi eich tri—fel pleidiau bleidleisio dros y toriadau mwyaf erioed i gyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol. Galwaf ar bobl i gefnogi ein gwelliannau.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 3 a 4 a gyflwynwyd yn ei henw.

I call on Elin Jones to move amendments 3 and 4, tabled in her name.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at fethiant parhaus y gwasanaeth ambiwlans i gyrraedd ei dargedau ar gyfer amseroedd ymateb a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar wasanaethau brys yng Nghymru.*

*Regrets the continued failure of the ambulance service to hit its response times and the impact this has had on emergency services in Wales.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gronfa gofal canolraddol i atal galwadau diangen ar y system gofal brys.*

*Calls on the Welsh Government to expand the intermediate care fund to prevent unnecessary demands on the emergency care system.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3 a 4.*

*Amendments 3 and 4 moved.*

17:01 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fe wnaf i geisio taro tôn gwahanol i'r cyfraniad ynghynt. Yn amlwg, nid oedd gan Darren Millar ddim i'w ddweud am y pwnc o dan sylw'r prynhawn yma. Fe ddewisodd ef ddweud lot fawr am nifer o faterion eraill rŷm ni'n eu trafod yn gyson yn y Cynulliad yma.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'll try to adopt a different tone to the previous contribution. Clearly, Darren Millar had nothing to say on the issue that we're discussing this afternoon and he chose to say a great day about a number of other issues that we discuss regularly in this Assembly.

Felly, rwy'n cyflwyno'n ffurfiol y gwelliannau yn enw Plaid Cymru. Nid oes gennym ddim fel plaid i'w wrthwynebu yn y cynnig sydd o'n blaenau ni heddiw, dim ond materion i'w hychwanegu at y cynnig. Mae'n ddatblygiad cyffrous newydd i greu'r gwasanaeth adalw a throsglwyddo brys yma, nid oes amheuaeth am hynny—gwasanaeth sy'n ehangu'r gwasanaeth tu hwnt i'r egwyddor a'r practis o gludo claf i'r ysbyty mewn hofrennydd er mwyn creu gwasanaeth sy'n medru arbed bywyd a sefydlogi bywyd cyn gludo ac wrth gludo claf i ganolfan arbenigol. Dyna beth fydd y presenoldeb meddygol, yn ogystal â'r presenoldeb parafeddygol, yn ei gyflawni wrth gludo ac wrth gyrraedd cleifion yn eu hawr o argyfwng.

So, I formally move the amendments in the name of Plaid Cymru. We, as a party, have nothing that we object to in the motion before us today; we only have some additions to it. It is an exciting new development to create this emergency medical retrieval and transfer service, there is no doubt about that—it's a service that expands the service beyond the principle and the practice of transporting a patient to the hospital in a helicopter in order to create a service that can save lives and stabilise patients before and during transfer to a specialist centre. That is what the medical presence, as well as the paramedic presence, will achieve through transport and by reaching patients in their time of greatest need.

Fel y mae'r cynnig yn ei nodi, bydd y gwasanaeth yma yn arbennig o fuddiol i bobl sy'n byw yn neu yn ymweld ag ardaloedd gwledig neu ardaloedd pellennig. Mae cydweithio ag elusen yr ambiwlans awyr yn hollbwysig i lwyddiant ac i ymarferoldeb y gwasanaeth yma. Mae elusen yr ambiwlans awyr gyda'r elusen fwyaf poblogaidd mewn ardaloedd gwledig yn fy etholaeth i, yn enwedig gan ei bod yn elusen sy'n codi lot fawr o arian, ond yn gwneud hynny oherwydd bod y gwasanaeth mor bwysig, ac wedi cyffwrdd â nifer o unigolion a'u teuluoedd dros y blynyddoedd diwethaf. Yn reddfol, yn fy marn i, byddwn i eisiau gweld gwasanaeth ambiwlans awyr yn wasanaeth sydd yn wasanaeth cyhoeddus llawn—nid un sydd ag angen am godi arian gwirfoddol. Er hyn, rwy'n derbyn bod yna gryfderau a manteision o gadw annibyniaeth y gwasanaeth fel y mae ar hyn o bryd drwy statws elusennol, ac mai dyna hefyd yw dymuniad a blaenoriaeth y presennol.

As the motion notes, this service will be particularly useful to people who live in or who visit rural or remote areas. Collaboration with the air ambulance charity is crucial to the success and practicality of this service. The air ambulance charity is among the most popular charities in rural parts of my constituency, particularly because it is a charity that raises a great deal of money, but does so because the service is so important, and has touched so many individuals and their families over the past few years. Instinctively, in my view, we would want to see an air ambulance service that would be a full public service—not one that needs to raise money on a charitable basis. However, I do accept that there are some advantages and benefits to retaining the independence of the service as it currently exists through that charitable status, and that that is also the desire and the current priority.

Mae'r ystadegau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno'r prynhawn yma yn rhai trawiadol iawn o gyflwyno'r gwasanaeth newydd yma: mae 40 y cant o gwtogi yn yr amser i aros am ymyrraeth feddygol yn drawiadol iawn mewn sefyllfa o ddamwain ar ffarm, neu ddamwain car, trawiadau ar y galon, a chyflyrau brys eraill fel y bydd y gwasanaeth yma yn ymateb iddyn nhw. Felly, mae'r gwahaniaeth amser yna yn bwysig, ond eto, fel y dywedodd y Gweinidog ei hunain, ac fel sy'n amlwg i ni i gyd, yr hyn sy'n bwysicach oll o gyflwyno gwasanaeth o'r math yma yw'r gwelliant yn y gallu arbed bywyd ac i arbed ansawdd bywyd yn dilyn damwain. Felly, mae'r ffigur eto a'r amcangyfrif bydd yna leihad yn y raddfa o arbed bywyd o 40 y cant—hynny yw, cynnydd yn y 'survivability rate'. Mae hynny hefyd yn drawiadol iawn. Fe fyddwn ni'n edrych ar y gwasanaeth yma dros y flwyddyn a mwy nesaf i'w wireddu ar yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei amcan wrth ei gyflwyno heddiw.

The statistics that the Minister presented to usthis afternoon are very striking indeed in relation to the introduction of this new service here: a 40 per cent reduction in the waiting time for medical intervention is very impressive in the case of an accident on a farm, or car accidents, heart attacks, and other emergency conditions that the service will respond to. So, that time difference is important but, again, as the Minister has said, and as is clear to us all, what is most important in introducing a service of this kind is the improvement in the ability to save lives and to maintain quality of life following an accident. Therefore, the figure and the estimate that there will be a reduction of 40 per cent in the rate of lives saved—or, rather, an increase in the survivability rate. This figure is very striking indeed. We will be looking to this service over the next few years to actually achieve what the Minister has outlined in presenting it today.

Mae Darren Millar, wrth gwrs, yn iawn i ddweud fod yna gyd-destun ehangach i wasanaethau sy'n ymwneud ag ymateb i achosion iechyd brys. Fel y mae un o welliannau Plaid Cymru heddiw yn ei amlinellu hefyd, yn y cyd-destun ehangach hwnnw o berfformiad y gwasanaethau ambiwlans statudol, mae'r perfformiad yna yn siomedig ac yn para felly. Felly, mae'n bwysig, yn y cyd-destun hynny, fod yna barhad o weithio i wella ar y gwasanaeth ambiwlans arferol ond i dderbyn heddiw fod yna ychwanegiad pwysig iawn nawr i'r gyfundrefn sydd yn ei lle yng Nghymru a fydd yn galluogi ac yn caniatáu i fwy o fywydau gael eu harbed a gwell ansawdd bywyd yn dilyn damweiniau oherwydd y gwasanaeth newydd sydd ar fin cychwyn.

Darren Millar, of course, is right to say that there is a broader context to these services related to responding to medical emergencies. As one of Plaid Cymru's amendments outlines this afternoon, in the broader context of the performance of the statutory ambulance services, the performance has been disappointing and continues to be disappointing. Therefore, it is important, in that context, that there should be continued efforts to improve the ambulance service, but we should also accept today that there is now a very important addition to the system in place in Wales, which will enable and allow more lives to be saved and ensure improved quality of life following accidents, all as a result of the new service that is about to be introduced.

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 5, 6 a 7, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on William Powell to move amendments 5, 6 and 7, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2015 y bydd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn cael cyllid gwerth £1.5 miliwn o ddirwyon LIBOR i helpu i ariannu cyfarpar newydd a hyfforddiant.*

*Welcomes the announcement in the 2015 UK Government Budget that the Wales Air Ambulance Trust is to receive £1.5 million in funding from LIBOR fines to help fund new equipment and training.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am sefydlu Canolfan Gofal Brys yn Sir Drefaldwyn i ddod â gofal yn nes at ein cymunedau a lleihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn Wrecsam a'r Amwythig, oherwydd y nifer cynyddol o gleifion sy'n teithio'n bell i gael mynediad at ofal o ganlyniad i ddiffyg cynllunio cydgysylltiedig rhwng byrddau iechyd.*

*Calls for the establishment of an Urgent Care Centre in Montgomeryshire to bring care closer to our communities and relieve pressure on A&E departments in Wrexham and Shrewsbury, due to the increasing number of patients travelling long distances to access care as a result of a lack of joined up planning between health boards.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am fwy o fuddsoddi mewn ysbytai bwthyn a gofal yn y gymuned, i helpu i sicrhau gofal o ansawdd uchel yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau brys.*

*Calls for greater investment in cottage hospitals and community care, to help ensure high-quality care in the community to reduce pressure on emergency services.*

*Cynigiwyd gwelliannau 5, 6 a 7.*

*Amendments 5, 6 and 7 moved.*

17:06

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 5, 6 and 7 in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 5, 6 a 7 yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

The Welsh Liberal Democrats welcome the principle of the emergency medical retrieval and transfer service. Anything that improves clinical outcomes for people across Wales has to be welcomed, and I hope that this service will indeed achieve those key objectives. The Welsh Liberal Democrats will be monitoring this service closely, and I trust that the Minister will commit today to keeping Members fully appraised of the performance of that service during this vital trial period. We will be supporting amendments 3, 4 and 5, but unfortunately we are not in a position to support amendments 1 and 2: amendment 1 because the service is designed to be a rapid retrieval, so it would not be appropriate to write it off before it's even got under way, and we're not in a position to support amendment 2 simply because we remain unconvinced of the solidity of the funding of the commitment made by the Conservatives in England to the NHS. Where is the money coming from and how will it affect services here in Wales? This is critical. It has been—

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n croesawu egwyddor y gwasanaeth adalw a throsglwyddo meddygol brys. Mae'n rhaid croesawu popeth sy'n gwella canlyniadau clinigol i bobl ledled Cymru, ac rwyf yn gobeithio'n wir y bydd y gwasanaeth hwn yn cyflawni'r amcanion allweddol hynny. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n monitro'r gwasanaeth hwn yn ofalus, a hyderaf y bydd y Gweinidog yn ymrwymo heddiw i hysbysu'r Aelodau yn llawn ynghylch perfformiad y gwasanaeth hwnnw yn ystod y cyfnod prawf hanfodol hwn. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 3, 4 a 5, ond yn anffodus nid ydym mewn sefyllfa i gefnogi gwelliannau 1 a 2: gwelliant 1 oherwydd y bwriedir i'r gwasanaeth fod yn wasanaeth adalw cyflym, felly ni fyddai'n briodol ei ddiystyru cyn iddo ddechrau hyd yn oed, ac nid ydym mewn sefyllfa i gefnogi gwelliant 2 oherwydd nad ydym wedi ein hargyhoeddi eto o gadernid y cyllid o'r ymrwymiad a wnaed gan y Ceidwadwyr yn Lloegr i'r GIG. O ble y mae'r arian yn dod a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau yma yng Nghymru? Mae hyn yn allweddol. Mae wedi bod—

17:07

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

17:07

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm happy to take the intervention.

Rwyf yn hapus i gymryd yr ymyriad.

17:07

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The second amendment actually refers to historic budgets, it's nothing to do with the future, although, of course, we've given a very clear commitment on funding for the national health service.

Mae'r ail welliant yn cyfeirio a dweud y gwir at gyllidebau hanesyddol, nid oes a wnelo o gwbl â'r dyfodol, er, wrth gwrs, ein bod wedi rhoi ymrwymiad clir iawn ar gyllid i'r gwasanaeth iechyd gwladol.

17:07

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that intervention and for the clarification. It does really depend on your definition of clarity. I would suggest that there is significant additional clarity that we need in that regard.

Diolch am yr ymyriad ac am yr eglurhad. Mae'n dibynnu a dweud y gwir ar eich diffiniad o eglurder. Byddwn yn awgrymu bod angen cryn dipyn yn rhagor o eglurder arnom yn hynny o beth.

It has been, doubtless, a difficult time for the national health service here in Wales. The all-Wales A&E target to be seen in four hours was, as we know, at just 81 per cent for December, 14 per cent below the established target. We've seen this winter a record low in ambulance response times. Darren Millar is quite right to point that out, but I would caution him on the tone and content of his contributions, because there is an impact on the morale of the hard-working health service workers across this country. We need to guard against any suggestion of schadenfreude that could further damage the morale, which is absolutely essential to service delivery.

Yn ddiau, mae wedi bod yn gyfnod anodd i'r gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru. Roedd y targed ar gyfer Damweiniau ac Achosion Brys Cymru gyfan o gael gweld rhywun ymhen pedair awr, fel y gwyddom, ar ddim ond 81 y cant ym mis Rhagfyr, 14 y cant yn is na'r targed a sefydlwyd. Rydym wedi gweld y gaeaf hwn amseroedd ymateb ambiwlansys ar eu hisaf erioed. Mae Darren Millar yn llygad ei le wrth dynnu sylw at hynny, ond byddwn yn annog iddo arfer pwyll ynghylch naws a chynnwys ei gyfraniadau, oherwydd mae'n effeithio ar forâl gweithwyr y gwasanaeth iechyd sy'n gweithio'n galed ar hyd a lled y wlad. Mae angen inni warchod yn erbyn unrhyw awgrym o schadenfreude a allai niweidio morâl ymhellach, sy'n gwbl hanfodol i gyflenwi gwasanaethau.

I'm disappointed that the Deputy Minister is unable to support our particular initiative with regard to the Montgomeryshire critical care centre. The circumstances in north Powys are particularly exposed to cross-border issues and movements of services. It's well-established that there is a well-developed plan to centralise services away from Shrewsbury hospital—which is so much the centre, historically, of service provision for the people of north Powys—with that constant drift towards Telford. This is a matter of great concern. I would be very pleased to hear from the Minster confirmation that the Welsh Government is adding its voice at all levels to make sure that pressure is applied to make sure that impacts on this side of the border are fully understood and taken account of.

Rwyf yn siomedig nad yw'r Dirprwy Weinidog yn gallu cefnogi ein menter benodol o ran canolfan gofal critigol Sir Drefaldwyn. Mae materion trawsffiniol a symud gwasanaethau'n effeithio'n arbennig ar yr amgylchiadau yng ngogledd Powys. Mae wedi ei hen sefydlu bod cynllun wedi'i ddatblygu i ganoli gwasanaethau i ffwrdd o ysbyty Amwythig—sydd yn gymaint o ganolfan, yn hanesyddol, ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl gogledd Powys—gyda'r symud cyson hwnnw tuag at Telford. Mae hyn yn fater o bryder mawr. Byddwn yn falch iawn o glywed gan y Gweinidog gadarnhad fod Llywodraeth Cymru'n ychwanegu ei llais ar bob lefel i sicrhau bod pwysau'n cael eu rhoi i sicrhau bod yr effeithiau ar yr ochr hon i'r ffin yn cael eu deall yn llawn ac yn cael eu hystyried.

As colleagues across the Chamber will know, my Welsh Liberal Democrat colleague in Montgomeryshire, Jane Dodds, who's established a clear profile in spearheading the campaign for an urgent care centre, has developed considerable expertise in this field. Just last week, I was speaking in Newtown to a delightful lady, Mrs George. Mrs George was absolutely clear. As an old-age pensioner, Mrs George said to me that we need to have provision in place and sustainable provision, and I very much agree with Mrs George.

Fel y bydd cydweithwyr ar draws y Siambr yn gwybod, mae fy nghydweithwraig ym mhlaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn Sir Drefaldwyn, Jane Dodds, sydd wedi sefydlu proffil clir wrth arwain yr ymgyrch ar gyfer canolfan gofal brys, wedi datblygu cryn dipyn o arbenigedd yn y maes hwn. Dim ond yr wythnos diwethaf, roeddwn yn siarad yn y Drenewydd â gwraig hyfryd, Mrs George. Roedd Mrs George yn gwbl glir. Fel pensiynwraig, dywedodd Mrs George wrthyf fod angen inni sicrhau bod darpariaeth ar gael a honno'n ddarpariaeth gynaliadwy, ac rwyf yn cytuno i raddau helaeth iawn â Mrs George.

Finally, but importantly—.

Yn olaf, ond yn bwysig—.

*Russell George a gododd—*

*Russell George rose—*

17:10

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mr George.

Mr George.

17:10

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for taking an intervention. I would like to say that it is great that the Liberal Democrat candidate in Montgomeryshire is now backing Glyn Davies's, the Welsh Conservative candidate, call for many, many years.

Diolch yn fawr ichi am dderbyn ymyriad. Hoffwn ddweud ei bod yn wych o beth fod ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn Sir Drefaldwyn yn awr yn cefnogi galwad Glyn Davies, ymgeisydd y Ceidwadwyr Cymreig, ers blynyddoedd lawer iawn.

17:10 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll refrain from suggesting as to who was actually first on the pitch in that regard, but, anyway, time is pressing.

Ymataliaf rhag awgrymu pwy oedd y cyntaf ar y cae yn y cyswllt hwnnw, ond, beth bynnag, mae amser yn brin.

Finally, but importantly, we also need to boost the role of our community hospitals. This is absolutely essential. For too many years, services have been centralised here in Wales in an urban-centric and one-size-fits-all way. I am optimistic that the publication of the groundbreaking report on healthcare in mid Wales by Professor Marcus Longley will end that mania towards centralisation and will hail in a very real sense the rejuvenation of our community and cottage hospitals that we so desperately need.

Yn olaf, ond yn bwysig, mae angen hefyd rhoi hwb i rôl ein hysbytai cymunedol. Mae hyn yn gwbl hanfodol. Ers gormod o flynyddoedd, mae gwasanaethau wedi eu canoli yma yng Nghymru mewn modd trefol-ganolog ac ar batrwm un maint sy'n addas i bawb. Rwyf yn obeithiol y bydd cyhoeddi'r adroddiad arloesol hwn ar ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru gan yr Athro Marcus Longley yn rhoi terfyn ar yr obsesiwn â chanoli ac y bydd yn arwydd clir iawn o'r adnewyddu ar ein hysbytai cymunedol a bwthyn y mae cymaint o'i angen arnom.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All afternoon, we've had tiresome references to people who are standing in the general election, which has nothing to do with the business that is conducted in this Chamber. I also think it is naïve to the point of stupidity to think that what you say about a particular candidate in this Chamber will remotely affect voting behaviour. You just demean yourselves by making these interventions and then we get the parody of the sort of exchange that we heard in that debate. Joyce Watson.

Drwy gydol y prynhawn, rydym wedi clywed cyfeiriadau diflas at bobl sy'n sefyll yn yr etholiad cyffredinol, ac nid oes a wnelo hynny ddim â'r busnes sy'n cael ei gynnal yn y Siambr hon. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn naïf hyd at hurtrwydd meddwl bod yr hyn a ddywedwch am ymgeisydd penodol yn y Siambr hon yn effeithio ar ymddygiad pleidleisio mewn unrhyw ffordd. Nid ydych ond yn eich bychanu eich hunain trwy wneud yr ymyriadau hyn ac yna cawn y parodi o'r math o gyfnewid a glywsom yn y ddadl honno. Joyce Watson.

17:11 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. The motion, in my opinion, doesn't go far enough. The fact is that this is the first service of its kind in Britain and one of the most advanced flying doctor services in the world. It is bold and it shows once again that Wales can lead the way when it comes to smart, innovative government. EMRTS has the potential to transform emergency and critical healthcare in my region. We are told, and we've heard it this afternoon, that it will reach 95 per cent of the population by air and 46 per cent by road within 30 minutes. It will improve survival rates from major trauma by at least 40 per cent and significantly reduce transfer times to specialist hospital care. So, it is a huge opportunity and an equally sizeable challenge.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Nid yw'r cynnig, yn fy marn i, yn mynd yn ddigon pell. Y ffaith yw mai dyma'r gwasanaeth cyntaf o'i fath ym Mhrydain ac un o'r gwasanaethau meddygon awyr mwyaf datblygedig yn y byd. Mae'n feiddgar ac yn dangos unwaith eto y gall Cymru arwain y ffordd o safbwynt llywodraeth glyfar, flaengar. Gallai'r EMRTS drawsnewid gofal iechyd brys a chritigol yn fy rhanbarth i. Dywedir wrthym, ac rydym wedi clywed hynny y prynhawn yma, y bydd yn cyrraedd 95 y cant o'r boblogaeth drwy'r awyr a 46 y cant ar y ffyrdd o fewn 30 munud. Bydd yn gwella cyfraddau goroesi trawma mawr o leiaf 40 y cant ac yn lleihau'n sylweddol amserau trosglwyddo i ofal arbenigol yn yr ysbyty. Felly, mae'n gyfle aruthrol ac yn her yr un mor sylweddol.

Logistically, there are lots of strands to co-ordinate: the air ambulance and off-road vehicles, specialist medical staff and state of the art equipment, telecommunications, and linking all of that up with the blood service and hospitals. I am encouraged that everything is on track in terms of recruitment and training. Is the Minister confident that everything else is in place and ready to go? Obviously, this will all require close monitoring, especially as the service beds in. I ask the Minister—and he has already been asked today—if he can provide details on how the reporting and monitoring system will operate. EMRTS relies on our network of on-the-ground medical facilities, of course, and it has already provided a boost to hospitals in Mid and West Wales—Bronglais, Withybush and Glangwili, as well as Brecon's Infantry Battle School, have all benefited from investment in their helicopter landing areas. I understand—and the Minister mentioned some of the sites this afternoon—that a further 27 sites across Wales are being considered as helicopter/ground vehicle meeting points. When can we expect an update on those please, Minister?

O safbwynt logisteg, mae llawer o linynnau i'w cydlynu: yr ambiwlans awyr a cherbydau oddi ar y ffordd, staff meddygol arbenigol a chyfarpar o'r radd flaenaf, telathrebu, a chysylltu hynny i gyd â'r gwasanaeth gwaed ac ysbytai. Mae'n galonogol fod popeth ar y trywydd iawn o ran recriwtio a hyfforddi. A yw'r Gweinidog yn ffyddiog fod popeth arall yn ei le ac yn barod i fynd? Yn amlwg, bydd yn rhaid monitro hyn oll yn agos, yn enwedig wrth i'r gwasanaeth ymsefydlu. Gofynnaf i'r Gweinidog—a gofynnwyd iddo eisoes heddiw—a all ddarparu manylion ynghylch sut y bydd y system adrodd a monitro yn gweithredu. Mae EMRTS yn dibynnu ar ein rhwydwaith o gyfleusterau meddygol ar y ddaear, wrth gwrs, ac mae eisoes wedi rhoi hwb i ysbytai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru—mae Bronglais, Llwynhelyg a Glangwili, yn ogystal ag Ysgol Frwydro Troedfilwyr Aberhonddu, i gyd wedi elwa o fuddsoddi yn eu meysydd glanio hofrenyddion. Rwyf yn deall—a soniodd y Gweinidog am rai o'r safleoedd hyn y prynhawn yma—fod 27 safle arall ar hyd a lled Cymru yn cael eu hystyried fel mannau cyfarfod i hofrenyddion/cerbydau daear. Pryd allwn ni ddisgwyl y wybodaeth ddiweddaraf am y rheini os gwelwch yn dda, Weinidog?

Taking a step back, what the emergency medical retrieval and transfer service does demonstrate, I believe, is the importance of co-operation within the NHS. The future health challenges that we face, which we are all aware of, will be solved by ever closer collaboration. They will never be solved by privatisation and fragmentation. That is why the next UK Labour Government will repeal the Health and Social Care Act 2012, exempt our NHS from the transatlantic trade agreement, and scrap enforced competition within the health service. I believe that only Labour will halt the slide towards marketization and put public service values back at the heart of the NHS.

A chymryd cam yn ôl, yr hyn y mae'r gwasanaeth adalw a throsglwyddo meddygol brys yn ei ddangos, yn fy marn i, yw pwysigrwydd cydweithio o fewn y GIG. Bydd yr heriau iechyd sy'n ein hwynebu yn y dyfodol, ac yr ydym i gyd yn ymwybodol ohonynt, yn cael eu datrys drwy gydweithio hyd yn oed yn agosach. Ni chânt byth eu datrys drwy breifateiddio a darnio. Dyna pam y bydd Llywodraeth Lafur nesaf y DU yn diddymu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, yn eithrio ein GIG o'r cytundeb masnachu trawsatlantig, ac yn cael gwared ar gystadleuaeth orfodol yn y gwasanaeth iechyd. Credaf mai dim ond Llafur all atal y llithriad tuag at farchnadeiddio ac yn rhoi gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus yn ôl wrth galon y GIG.

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ymateb i'r ddadl.

I call on the Deputy Minister for Health to reply to the debate.

17:14

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I'm very happy to respond to the debate today, and thank Members who participated, and especially those contributions that stuck to the subject matter. I'll deal with some of the comments made. I'm grateful to all speakers for welcoming the new service, and recognising that this is designed and there's a good evidence base to suggest it will save extra lives that would currently not be saved. And it's a very positive message to come from the Chamber today.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn hapus iawn i ymateb i'r ddadl heddiw, a diolch i'r Aelodau a gymerodd ran, ac yn enwedig y cyfraniadau hynny a lynodd at y pwnc. Ymdriniaf â rhai o'r sylwadau a wnaed. Rwyf yn ddiolchgar i'r holl siaradwyr am groesawu'r gwasanaeth newydd, a chydnabod bod hyn wedi'i gynllunio a bod sail dystiolaeth dda i awgrymu y bydd yn achub rhagor o fywydau na fyddai'n cael eu hachub fel y mae pethau ar hyn o bryd. Ac mae'n cyfleu neges gadarnhaol iawn o'r Siambr heddiw.

Unfortunately, in the first contribution from Mr Millar there was about a minute on the subject, before a quite predictable attack on all things health service-related in Wales. I just really don't think he's learned the lesson that people outside this Chamber don't really listen to what he has to say, and don't trust the Tories or believe them on the NHS.

Yn anffodus, yn y cyfraniad cyntaf gan Mr Millar roedd tua munud ar y pwnc, cyn cael ymosodiad digon rhagweladwy ar bopeth sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Nid wyf yn meddwl ei fod wedi dysgu'r wers nad yw pobl y tu allan i'r Siambr hon yn gwrando ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud, ac nad ydynt yn ymddiried yn y Toriaid nac yn eu credu ynglŷn â'r GIG.

On Elin Jones's comments, I was very grateful for a constructive and considered contribution on the new service. I'm happy to confirm that the Wales air ambulance do want to maintain their independent charity status; that's why this is a partnership rather than a takeover of their provision. You made a key point in focusing on improved outcomes on survival, recovery and rehabilitation—a point also made by Joyce Watson. So I'm happy to confirm that the research and monitoring will take place in partnership with Swansea University, and I hope we'll have some interim figures over the course of the next 12 months about the initial impact of the service before having a more robust set of figures at the end of this initial stage. So, there will be objective, independent analysis and evaluation that we'll be happy to make available to the wider public, and, of course, to Members.

O ran sylwadau Elin Jones, roeddwn yn ddiolchgar iawn am gyfraniad adeiladol ac ystyriol ynglŷn â'r gwasanaeth newydd. Rwyf yn hapus i gadarnhau bod ambiwlans awyr Cymru yn dymuno cynnal ei statws fel elusen annibynnol; dyna pam y mae hyn yn fater o bartneriaeth yn hytrach nag o gymryd drosodd eu darpariaeth. Gwnaethoch bwynt allweddol wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau gwell o ran goroesi, adfer ac adsefydlu—pwynt a wnaed hefyd gan Joyce Watson. Felly, rwyf yn falch o gadarnhau y bydd y gwaith ymchwil a monitro yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, ac rwyf yn gobeithio y bydd gennym rywfaint o ffigurau dros dro yn ystod y 12 mis nesaf am effaith gychwynnol y gwasanaeth cyn cael cyfres fwy cadarn o ffigurau ar ddiwedd y cam cyntaf. Felly, bydd gwaith dadansoddi a gwerthuso gwrthrychol ac annibynnol y byddwn yn hapus i sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd yn ehangach, ac, wrth gwrs, i'r Aelodau.

I'm grateful to William Powell for his welcome of the new service. I can confirm there's no lack of commitment from this Government to meeting the healthcare needs of the citizens of Montgomery. You did make a point about the impact of decisions made in England on the needs of Welsh patients. The decisions you refer to were not taken in conjunction or in consultation with Welsh patients who access those services that are moving, and it is a matter of some concern to us. I welcome the positive comments you made about the mid Wales healthcare study, although I'd not quite endorse all of the comments that you made about the previous design of services across rural Wales.

Rwyf yn ddiolchgar i William Powell am ei groeso i'r gwasanaeth newydd. Gallaf gadarnhau nad oes diffyg ymrwymiad gan y Llywodraeth hon i fodloni anghenion gofal iechyd dinasyddion Trefaldwyn. Gwnaethoch bwynt am effaith penderfyniadau a wneir yn Lloegr ar anghenion cleifion yng Nghymru. Ni chafodd y penderfyniadau y cyfeiriwch atynt eu gwneud ar y cyd â chleifion yng Nghymru sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny sy'n symud, nac mewn ymgynghoriad â hwy, ac mae'n fater o gryn bryder i ni. Croesawaf y sylwadau cadarnhaol a wnaethoch am astudiaeth gofal iechyd canolbarth Cymru, er na fyddwn yn cymeradwyo pob un o'r sylwadau a wnaethoch am gynllun blaenorol gwasanaethau ar hyd a lled cefn gwlad Cymru.

I'm really pleased about today's debate, and I'm happy to confirm that I am confident, in response to Joyce Watson, we are ready for the go-live date on 27 April, when this service will go across Wales. This marks a new chapter in the provision of innovative, world-class health services for the people of Wales. It is at the very heart of our plans to make sure that people can access the very best emergency and critical care as quickly and as safely as possible.

Rwyf yn falch iawn â'r ddadl heddiw, ac yn hapus i gadarnhau fy mod yn ffyddiog, mewn ymateb i Joyce Watson, ein bod yn barod i fynd yn fyw ar 27 Ebrill, pan fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei roi ar waith ledled Cymru. Mae hyn yn nodi pennod newydd o safbwynt darpariaeth gwasanaethau iechyd arloesol, o safon fyd-eang i bobl Cymru. Mae'n ganolog i'n cynlluniau i wneud yn siŵr y gall pobl gael y gofal brys a chritigol gorau mor gyflym ac mor ddiogel ag y bo modd.

The service will build on the Wales air ambulance emergency medical service. It will be the first national service of its kind, and will lead the way both in the UK and internationally. It has been designed and developed from lessons and best practice of civilian and military experience. It will bring some of the most advanced equipment and technology available, not just the blood products I mentioned, but the advanced critical care ventilation systems, together with secure and resilient communication systems, that Joyce Watson mentioned.

Bydd y gwasanaeth yn adeiladu ar wasanaeth meddygol brys ambiwlans awyr Cymru. Hwn fydd y gwasanaeth cenedlaethol cyntaf o'i fath, a bydd yn arwain y ffordd yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae wedi ei gynllunio a'i ddatblygu ar sail gwersi ac arferion gorau o brofiad sifil a milwrol. Bydd yn cyflwyno rhywfaint o'r dechnoleg o'r offer mwyaf datblygedig sydd ar gael, nid dim ond y cynhyrchion gwaed y soniais amdanynt, ond y systemau awyru gofal critigol uwch, ynghyd â systemau cyfathrebu diogel a chydnerth, a grybwyllwyd gan Joyce Watson.

It has been driven by the need and the desire to improve clinical outcomes for patients, and to meet and exceed UK and international standards for trauma provision and care. It will provide sustainable improvement and survival for major trauma, cardiac disease, stroke and severe sepsis, leading to an enhanced recovery for patients and, hopefully, an earlier return to work and the rest of their lives. We understand that the correct triage, treatment and transfer of critically ill patients will also help to reduce the overall costs to the NHS, through the direct discharge of patients at the scene, a reduction in emergency department waiting times and some improvement in ambulance service response times, as well as reducing the length of stay in hospital.

Wrth wraidd hyn y mae'r angen a'r awydd i wella canlyniadau clinigol i gleifion, ac i fodloni a rhagori ar safonau rhyngwladol ar gyfer darpariaeth trawma a gofal yn y DU. Bydd yn darparu gwelliannau cynaliadwy ac yn sicrhau y gall dioddefwyr trawma mawr, clefyd y galon, strôc a madredd difrifol oroesi, ac yn arwain at adferiad gwell i gleifion a chyfle, rwyf yn gobeithio, iddynt ddychwelyd yn gynt i'r gwaith ac i weddill eu bywydau. Rydym yn deall y bydd darparu'r gwasanaeth brysbennu, trin a throsglwyddo cywir i gleifion sy'n gritigol wael hefyd yn helpu i leihau costau cyffredinol i'r GIG, trwy ryddhau cleifion yn uniongyrchol yn y fan a'r lle, cwtogi amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a gwella rhywfaint ar amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans, yn ogystal â lleihau hyd arhosiad pobl yn yr ysbyty.

EMRTS Cymru will underpin the planned trauma networks, and be part of the future model for emergency medical neonatal, paediatric and maternity services.

Bydd EMRTS Cymru yn sail i'r rhwydweithiau trawma a gynlluniwyd, ac yn rhan o'r model ar gyfer gwasanaethau meddygol brys newyddenedigol, pediatrig a mamolaeth yn y dyfodol.

I would like to pay tribute to all the NHS and Wales air ambulance staff who have shown enormous determination to drive forward the development and delivery of this unique service. It comes from committed, experienced NHS staff who are determined to deliver not just a service for today, but innovation and improvement for the future. And I pay tribute again to the staff who came up with this idea that we've been able to take forward. There are already a number of case studies that have reported on the difference that the nascent EMRTS Cymru service has made in delivering successful outcomes for severely injured patients. Just two examples are a Brynaman rugby player who suffered a heart attack and the survivor of a serious car crash in Llanarth, who are both now making a good recovery, and we think that the EMRTS service has enhanced their prospects for recovery and survival.

Hoffwn dalu teyrnged i holl staff y GIG ac ambiwlans awyr Cymru sydd wedi dangos penderfyniad aruthrol i fwrw ymlaen â datblygu a darparu'r gwasanaeth unigryw hwn. Mae hyn yn deillio o staff ymroddedig, profiadol y GIG sy'n benderfynol o gyflwyno nid dim ond gwasanaeth ar gyfer heddiw, ond arloesi a gwella ar gyfer y dyfodol. Ac rwyf yn talu teyrnged unwaith eto i'r staff a feddyliodd am y syniad hwn yr ydym wedi gallu bwrw ymlaen ag ef. Mae nifer o astudiaethau achos eisoes wedi adrodd ynglŷn â'r gwahaniaeth y mae gwasanaeth eginol EMRTS Cymru wedi'i wneud o ran sicrhau canlyniadau llwyddiannus i gleifion sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol. A rhoi dim ond dwy enghraifft, mae chwaraewr rygbi o Frynaman a ddioddefodd drawiad ar y galon ac unigolyn a oroesodd ddamwain car ddifrifol yn Llanarth, sydd ill dau bellach yn gwella'n dda, a chredwn fod y gwasanaeth EMRTS wedi rhoi gwell siawns iddynt wella a goroesi.

This comes on the back of the Welsh Government having to make difficult choices to be able to support and deliver this new service, because we all recognise the pressures across the Welsh Government budget from austerity.

Daw hyn ar gefn dewisiadau anodd y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud i allu cefnogi a chyflwyno'r gwasanaeth newydd hwn, oherwydd rydym i gyd yn cydnabod y pwysau ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru oherwydd cynni.

The recent case studies provide further evidence to support the investment that we have made. The service evaluation will focus on improvements in mortality as well as function outcome. The data will be collected in a number of ways and will help to provide the hard evidence needed to measure the success that we expect and to inform any future plans for the service. This is an excellent news story for the Welsh Government, the NHS and the people of Wales. It is about improving outcomes for patients and will be built on sound intelligence and analysis. I'm sure that Members across the Chamber will support this initiative. I'm committed to supporting the service and very happy to report back to Assembly Members on progress and achievements as well as any future plans.

Mae'r astudiaethau achos diweddar yn darparu rhagor o dystiolaeth i gefnogi'r buddsoddiad yr ydym wedi'i wneud. Bydd gwerthusiad y gwasanaeth yn canolbwyntio ar welliannau o ran niferoedd y marwolaethau yn ogystal â chanlyniadau gweithredol. Bydd y data'n cael ei gasglu mewn sawl ffordd a bydd yn helpu i ddarparu'r dystiolaeth gadarn sydd ei hangen i fesur y llwyddiant a ddisgwyliwn ac i lywio unrhyw gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae hon yn stori newyddion ardderchog i Lywodraeth Cymru, y GIG a phobl Cymru. Mae'n ymwneud â gwella canlyniadau i gleifion a bydd yn seiliedig ar wybodaeth a dadansoddi cadarn. Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau ar draws y Siambr yn cefnogi'r fenter hon. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi'r gwasanaeth ac yn hapus iawn i adrodd yn ôl i Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â'r cynnydd a'r llwyddiannau yn ogystal ag unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

17:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? [Objection.] I defer all votes on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:21

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows.

Mae'n amser pleidleisio erbyn hyn.

17:21

## 11. Cyfnod Pleidleisio

## 11. Voting Time

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the vote, do any Members wish for the bell to be rung? No. We will vote, then, on the debate on the emergency medical retrieval and transfer service of Wales. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 36. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Cyn imi gynnal y bleidlais, a oes unrhyw Aelodau am i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Pleidleisiwn, felly, ar y ddadl ar wasanaeth adalw a throsglwyddo meddygol brys Cymru. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 36 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM3739.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM3739.](#)

17:21

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17. There voted against 29. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 29, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM3739.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM3739.](#)

17:22

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 45. There were no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 45 o blaid. Nid oedd dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 3 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM3739.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM3739.](#)

17:22

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46. There were no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid. Nid oedd dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 4 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM3739.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM3739.](#)

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 5 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There were no votes against. There were 8 abstentions. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Nid oedd dim pleidleisiau yn erbyn. Roedd 8 yn ymatal. Felly, mae gwelliant 5 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 8.*

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 8.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM3739.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM3739.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 6 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 25. There were 8 abstentions. Therefore, amendment 6 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 25 yn erbyn. Roedd 8 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 6 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 25, Ymatal 8.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 25, Abstain 8.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM3739.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM3739.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 7 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46. There were no votes against. Therefore, amendment 7 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 7 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid. Nid oedd dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 7 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM3739.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM3739.

Cynnig NDM3739 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM3739 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi:

Notes:

a) bod gwasanaeth clinigol newydd yn cael ei gyflwyno i Gymru, sef Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys,

a) the introduction of a new clinical Emergency Medical Retrieval and Transfer Service for Wales,

b) bod y gwasanaeth yn sicrhau y caiff cleifion mewn ardaloedd anghysbell a gwledig fynediad cyflym i ymgynghorydd mewn meddygaeth gofal dwys neu ofal brys,

b) that the service will provide patients in remote and rural areas with rapid access to a consultant in emergency or intensive care medicine,

c) yn gresynu at fethiant parhaus y gwasanaeth ambiwlans i gyrraedd ei dargedau ar gyfer amseroedd ymateb a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar wasanaethau brys yng Nghymru,

c) regrets the continued failure of the ambulance service to hit its response times and the impact this has had on emergency services in Wales,

d) yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gronfa gofal canolraddol i atal galwadau diangen ar y system gofal brys,

d) calls on the Welsh Government to expand the intermediate care fund to prevent unnecessary demands on the emergency care system,

e) yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2015 y bydd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn cael cyllid gwerth £1.5 miliwn o ddirwyon LIBOR i helpu i ariannu cyfarpar newydd a hyfforddiant, ac

e) welcomes the announcement in the 2015 UK Government Budget that the Wales Air Ambulance Trust is to receive £1.5 million in funding from LIBOR fines to help fund new equipment and training, and

f) yn galw am fwy o fuddsoddi mewn ysbytai bwthyn a gofal yn y gymuned, i helpu i sicrhau gofal o ansawdd uchel yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau brys.

f) calls for greater investment in cottage hospitals and community care, to help ensure high-quality care in the community to reduce pressure on emergency services.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46. There were no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agor y bleidlais. Cau’r bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid. Nid oedd dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae’r cynnig wedi'i ddiwygio wedi’i dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM3739 fel y’i diwygiwyd: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM3739 as amended agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM3739 fel y’i diwygiwyd.

Result of the vote motion NDM3739 as amended.

17:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today’s proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:24.*

*The meeting ended at 17:24.*